Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Haen Gyffredinol y Cynllun Fffermio Cynaliadwy: Canllawiau 2026

**Hysbysiad Pwysig: Mae’n hanfodol eich bod yn darllen ac yn deal y llyfryn hwn os ydych yn bwriadu ymgeisio am Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026.**

**Rhagfyr 2025**



Mae'r llyfryn hwn yn esbonio rheolau'r Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae rheolau'r cynllun yn seiliedig ar Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025.

Gan fod y rheolau'n newid o dro i dro, ni all Llywodraeth Cymru warantu bod y llyfryn hwn yn rhoi datganiad cwbl gywir o'r gyfraith ac ni all y llyfryn hwn gymryd lle cyngor penodol ar broblemau cyfreithiol unigol.

**ISBN – 978-1-80633-874-0**

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru.

© Hawlfraint y Goron 2025

## Cynnwys

**Adran A: Cyflwyniad** ........ 5
**Adran B: Strwythur y Cynllun** ........ 6
**Adran C: Caniatâd a Gofynion Cyfreithiol** ........ 7
**Adran D: Pwy a Beth sy'n Gymwys** ........ 8
**Adran E: Tir Comin** ........ 18
**Adran F: Map yr SFS** ........ 21
**Adran G: Sylfaen Reoleiddio'r SFS** ........ 22
**Adran H: Y Cod i Bawb** ........ 24
**Adran I: Gofyniad bod 10% o Fferm yn Gynefin** ........ 40
**Adran J: Gweithredoedd Cyffredinol yr SFS** ........ 48
**J1: UA1: Iechyd Pridd** ........ 50
**J2: UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM)** ........ 54
**J3: UA3: Meincnodi** ........ 57
**J4: UA4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus** ........ 60
**J5: UA 5: Cynnal cynefinoedd** ........ 64
**J6: UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella** ........ 68
**J7: UA 7: Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig** ........ 71
**J8: UA8: Rheoli Perthi/Gwrychoedd** ........ 75
**J9: UA9: Cynnal coetir** ........ 79
**J10: UA10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi / Gwrychoedd** ........ 85
**J11: UA 11: Yr Amgylchedd Hanesyddol** ........ 92
**J12: UA12: Iechyd a Lles Anifeiliaid** ........ 98
**Adran K: Llacio'r gofynion** ........ 107
**Adran L: Gwneud Cais a Dilysu** ........ 108
**Adran M: Newidiadau i Strwythur Busnes a Newidiadau i'r Tir** ........ 115
**Adran N: Archwiliadau** ........ 118
**Adran O: Taliadau** ........ 125
**Adran P: Amgylchiadau'n Newid** ........ 129
**Adran Q: Gostyngiadau i daliadau, cosbau, eithriadau a'r ddarpariaeth ar gyfer cywiro camgymeriadau** ........ 130
**Adran R: Newidiadau i Reolau'r Cynllun** ........ 143

**Adran S: Y Drefn Apelio a Chwyno** ........ 144
**Adran T: Hysbysiad Preifatrwydd** ........ 146
**Adran U: Monitro a Gwerthuso** ........ 149
**Atodiad 1: UA3: Meincnodi – Cyswllt Ffermio a Dangosyddion Perfformiad Allweddol** ........ 153
**Atodiad 2: Gweithred Gyffredinol 5: Cynnal Cynefinoedd – Gofynion y dosbarthiadau cynefin** ........ 156
**Atodiad 3: UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella – gofynion opsiynau creu cynefin** ........ 194
**Atodiad 4: Codau Cnydau** ........ 207
**Atodiad 5: Datgan a Thynnu Nodweddion Anghymwys** ........ 216
**Atodiad 7: Cysylltiadau** ........ 221
**Atodiad 8: Cymorth ac Arweiniad Ychwanegol** ........ 224
**Atodiad 9: Rhestr Termau** ........ 226

# Adran A: Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio Haen Gyffredinol yr SFS. Mae'n esbonio:

- Gofynion y cynllun,
- Y Gweithredoedd Cyffredinol,
- Y Ffurflen Cais Sengl (SAF) a Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS,
- Y dystiolaeth sydd ei hangen a'r cofnodion sydd angen eu cadw ar y fferm.

Caiff canllaw technegol i'ch helpu i fodloni gofynion y cynllun a fersiwn newydd o 'Pan ddaw'r Archwilydd – canllaw defnyddiol i ffermwyr' eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd Haen Gyffredinol yr SFS yn gweithio ar sail blwyddyn galendr o 1 Ionawr 2026 i 31 Rhagfyr. Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen ac yn deall y llyfryn hwn os ydych am hawlio.

Bydd blwyddyn 2026 y cynllun yn dechrau ar 1 Ionawr 2026. Bydd map SFS, fydd yn dangos y cynefinoedd bras, y coetir a'r canopi coed, y safleoedd dynodedig a'r nodweddion hanesyddol ar eich fferm, ar gael ar eich cyfrif Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein o 31 Rhagfyr 2025.

Fodd bynnag, i wneud cais am yr Haen Gyffredinol, bydd angen ichi hawlio ar y SAF erbyn 15 Mai 2026. Bydd SAF 2026 ar gael ichi ei llenwi, ynghyd â chanllaw 'Sut i Lenwi', ar eich cyfrif RPW Ar-lein o 2 Mawrth 2026.

Rydym yn deall y gallech fod yn ansicr ynglŷn ag ymuno â'r cynllun nes i chi gwblhau'r SAF. Er mwyn gwneud pethau mor syml â phosibl, o 1 Ionawr tan y dyddiad cau SAF ar 15 Mai, fe fyddwch yn cael eich ystyried yn cwrdd â gofynion Haen Gyffredinol. Mae hyn yn rhoi pwynt cychwyn clir i bawb ac yn sicrhau tegwch yn ystod pontio.

**Pam ei gwneud hi fel hyn?**

Lansio'r cynllun yw cam cyntaf y newid o Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) i'r SFS dros y 3 blynedd nesaf. Rydyn ni'n deall y gallai hyn olygu newid mawr i rai ffermwyr, a bydd angen i ffermwyr eraill benderfynu a ydyn nhw am ymuno ac ymgeisio.

Dylai dechrau blwyddyn y cynllun felly fod yn amser i ddwys ystyried eich opsiynau heb bwysau, ond gan sicrhau bod y cynllun yn parhau i wireddu ei amcanion. Trwy ymddiried yn ein gilydd fel hyn, gallwn osgoi baich diangen a chefnogi ffordd deg ac ymarferol o weithio a symud yn ein blaenau gyda'n gilydd.

Os oes gennych gwestiynau neu os hoffech help unrhyw bryd, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW neu'r FLS. Rydyn ni yma i helpu ffermwyr bob cam o'r ffordd.

## Adran B: Strwythur y Cynllun

Mae'r SFS yn gynllun ar gyfer y fferm gyfan. Mae'n cynnwys Haen Gyffredinol, gyda set o Weithredoedd Cyffredinol (UAs) y byddwn yn talu Taliad Cyffredinol ichi am eu cynnal.

Bydd taliadau ychwanegol ar gael yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol ar gyfer y ffermwyr hynny sy'n dewis gwneud mwy na'r Haen Gyffredinol.

Mae'r cynllun tair haen hwn wedi'i adeiladu ar set o ofynion, sef:

- Sylfaen Reoleiddio'r SFS, set o ofynion cyfreithiol sy'n sail i'r SFS. Mae'r gofynion hyn yn seiliedig ar ddeddfwriaeth ddomestig y mae'n rhaid i bob ffermwr yng Nghymru gadw ati (gweler Adran G).

- Y Cod i Bawb, set o ofynion heb reoliadau y mae'n rhaid i chi eu dilyn. Mae wedi'i rannu'n bedair rhan: diogelu'r pridd, bioamrywiaeth a chynefinoedd, coed a nodweddion y tirwedd (gweler Adran H)

- Mae'r Cod i Bawb yn cynnwys hefyd y gofyn bod 10% o arwynebedd cymwys eich daliad yn cael ei reoli fel cynefin (gweler Adran I).

## Adran C: Caniatâd a Gofynion Cyfreithiol

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio gofynion Haen Gyffredinol yr SFS ac yn ganllaw i'ch helpu i fodloni gofynion y cynllun a chynnal y Gweithredoedd Cyffredinol.

Mae cyfraniad ffermwyr at gynhyrchu bwyd, gofalu am yr amgylchedd a chefnogi ein cymunedau gwledig yn hanfodol ac rydym yn ddiolchgar i chi am eich ymrwymiad.

Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau llwyddiant y cynllun a sicrhau manteision a chanlyniadau parhaol i amaethyddiaeth Cymru a'r amgylchedd.

Mae pob fferm yn wahanol, ac mae'n hanfodol eich bod yn sicrhau'ch bod wedi cael pob caniatâd, trwydded a chydsyniad sydd eu hangen ar fusnes eich fferm.

Rhaid i chi gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r amgylchedd, hylendid a lles anifeiliaid a'r holl safonau iechyd a diogelwch perthnasol.

Rydyn ni yma i'ch helpu Os hoffech fwy o help neu esboniad, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW, y FLS neu ewch i'r gwefannau i gael rhagor o wybodaeth:

**Safonau'r Amgylchedd**

- Rheoli tir | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

**Hylendid Fferm**

- Hylendid bwyd | Asiantaeth Safonau Bwyd
- Atal Clefydau i Geidwaid Da Byw – GOV.UK

**Lles Anifeiliaid**

- Lles anifeiliaid | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

**Iechyd a Diogelwch**

- Canllawiau Diogelwch Amaethyddiaeth yr HSE

# Adran D: Pwy a Beth sy’n Gymwys

## D1 Pwy sy’n Gymwys

Mae Haen Gyffredinol yr SFS yn gweithredu ar flwyddyn sy’n rhedeg o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr.

Os ydych yn hawlio taliad ar dir, rhaid i’r tir fod yn gymwys am flwyddyn gyfan y cynllun.

Chi sy'n gyfrifol am gadw at y Sylfaen Reoleiddio, y Cod i Bawb a Gweithredoedd Cyffredinol cymwys yr SFS ar eich daliad am flwyddyn gyfan y cynllun ac am adael i’r tir gael ei archwilio os oes angen.

O beidio â chyflawni'r naill ymrwymiad, gallai'ch hawliad gael ei gosbi neu gallech gael eich gwahardd o'r cynllun.

Ystyr Daliad yw'r holl unedau o dir sy’n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau amaethyddol neu ategol, a'u rheoli gan ymgeisydd i Haen Gyffredinol yr SFS, yng Nghymru.

I fod yn gymwys i wneud cais a hawlio Haen Gyffredinol yr SFS, bydd angen i chi fodloni’r meini prawf canlynol:

- bod gennych o leiaf 3 hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru (gan gynnwys eich cyfran o dir comin), sydd wedi'i gofrestru gydag RPW.
  **neu'n**
- gallu dangos eich bod yn gwneud dros 550 o oriau o lafur safonol ar weithgareddau amaethyddol neu ategol ym mlwyddyn y cynllun a bod gennych o leiaf 0.10 hectar o dir amaethyddol cymwys. Rhaid i’r tir fod o fewn parseli unigol o dir sydd o leiaf 0.1ha o faint.
- bod gennych reolaeth ar y tir am o leiaf 10 mis o flwyddyn y cynllun, y mae'n rhaid iddo gynnwys 15 Mai 2026.
- eich bod yn cynnal gweithgareddau amaethyddol neu ategol yn yr un flwyddyn gynllun.

Diffinnir gweithgareddau amaethyddol neu ategol yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru).

Mae gweithgareddau amaethyddol yn cynnwys;

- Cadw a bridio da byw. Defnyddio tir ar gyfer garddwriaeth, ffermio cnydau âr a ffermio llaeth.
- Defnyddio tir fel tir pori ac fel coetir ffermydd neu ar gyfer amaeth-goedwigaeth. Yn cynnwys amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir, tyfu planhigion i'w gwerthu neu werthu rhan o'r planhigyn fel cynhyrchu hadau.
- Cynnal tir mewn cyflwr sy’n ei wneud yn addas ar gyfer y gweithgarwch a restrir uchod.

Mae gweithgareddau ategol yn cynnwys;

- Cymryd camau, ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, i greu a rheoli cynefinoedd, neu at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig â chadwraeth natur, i liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd, neu i gynnal a gwella gwydnwch ecosystemau.
- Gwerthu, marchnata, paratoi, pecynnu, prosesu neu ddosbarthu dosbarthu cynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth.

Byddwn yn gwirio a ydych chi'n bodloni'r meini prawf i fod yn gymwys. Os na allwn gadarnhau hynny trwy'r SAF, efallai y bydd yn rhaid i chi gyflwyno rhagor o ddogfennau i gadarnhau eich bod yn gymwys.

Bydd angen dogfennau ategol i gadarnhau'r 550 o oriau o lafur safonol (gweler adran L11)

Rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir ddangos yn glir eich bod yn bodloni'r meini prawf a rhaid ei chyflwyno erbyn 15 Ionawr 2026.

## D2 Pa dir sy’n gymwys

Mae Haen Gyffredinol yr SFS yn gynllun 'Fferm Gyfan'. Rhaid i chi ddatgan yr holl dir amaethyddol sydd ar gael yng Nghymru ar y SAF, lle mae gennych reolaeth arno am 10 mis o’r flwyddyn galendr, gan gynnwys holl nodweddion y dirwedd, nodweddion a wnaed gan ddyn ac unrhyw nodweddion eraill nad ydynt yn gymwys i gael taliad.

<u>Rheolaeth</u>

Bydd gennych reolaeth os ydych;

- yn berchen-feddiannydd ar y tir
- yn denant sydd â ‘meddiannaeth egsgliwsif’ o dan naill ai Denantiaeth Busnes Fferm o dan Ddeddf Tenantiaethau 1995 neu denantiaeth lawn o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986
- os ydych yn denant â thenantiaeth lafar â’r un lefel o reolaeth â’r uchod
- os ydych wedi caniatáu trwydded o dan drefniant trwyddedu penodol ar gyfer pori, tyfu cnwd neu ladd gwair/silwair dros gyfnod penodedig a chyfyngedig o amser o fewn y flwyddyn, ond eich bod wedi cadw rheolaeth ar y tir

Nid oes angen i chi gael rheolaeth o'r tir am gyfnod di-dor o 10 mis. Er enghraifft, os oes gennych gytundeb tenantiaeth ar dir sy'n rhedeg rhwng 1 Medi a 30 Mehefin bob blwyddyn, mae'r tir yn gymwys gan fod gennych reolaeth arno o 1 Ionawr i 30 Mehefin ac eto o 1 Medi i 31 Rhagfyr.

Rhaid i chi allu profi bod gennych hawl gyfreithiol i feddiannu'r tir rydych yn hawlio arno. Er enghraifft, yn achos tir nad ydych yn berchen arno, bod gennych denantiaeth gan y landlord sy'n eich galluogi i ffermio'r tir fel y gwelwch orau ac sy’n rhoi’r cyfrifoldeb ichi am fodloni holl ofynion y cynllun.

Os ydych yn defnyddio'r tir o dan delerau trwydded bori, neu gytundeb tebyg, sy'n benodol ar gyfer pori, tyfu cnwd neu ladd gwair/silwair dros gyfnod penodedig a chyfyngedig o amser o fewn y flwyddyn, ni ystyrir bod gennych reolaeth, ac ni fydd y tir yn gymwys.

Yr hyn sy'n digwydd ar y tir fydd yn pennu beth yw'r trefniant. Os chi sy'n gwneud yr holl waith ffermio a gwaith cadw'r tir ac yn ei bori a lladd gwair/silwair dros gyfnod amhenodol neu ddi-dor, yna mae'n debygol, beth bynnag yw'r disgrifiad o'r trefniant gan y partïon cysylltiedig, mewn termau cyfreithiol, mai tenant ydych chi.

Dylai perchennog y tir ofalu ei fod yn diffinio'r cyfnod penodol a'r gweithgareddau a ganiateir o dan y trefniant yn glir fel na fydd dryswch ynghylch i bwy y mae'r tir ar gael. Fel yr un sy'n hawlio taliad, mae hefyd yn bwysig eich bod yn gallu cynnig tystiolaeth o'ch gweithgarwch amaethyddol ar y tir dan sylw (e.e. cofnodion symud anifeiliaid, anfonebau am dorri perthi (gwrychoedd), ffensio neu gontractwyr silwair).

Mae'r tabl isod yn dangos enghreifftiau o drefniadau deiliadaeth tir a phwy ddylai fod yn gymwys am Haen Gyffredinol yr SFS;

| **Senario sy'n disgrifio natur y meddiant tir** | **Pwy sy'n cael hawlio** |
|---|---|
| Rydych yn pori'ch defaid neu'n lladd gwair/silwair ar yr adeg(au) a nodir yn y drwydded (llafar neu ysgrifenedig). Nid ydych yn cael cynnal gweithgarwch amaethyddol arall ar y tir heb ganiatâd y trwyddedwr. **Dydych chi ddim yn cael hawlio.** | Perchennog |
| Chi sy'n ffermio'r tir a chi sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r tir, ond nid oes gennych denantiaeth ysgrifenedig. Mae'ch cytundeb â pherchennog y tir yn golygu nad oes angen i chi ofyn caniatâd i gynnal a ffermio'r tir fel y gwelwch yn dda neu fel y gwelwch sydd angen. Nid yw'r trwyddedwr yn cynnal nac yn contractio unrhyw weithgarwch amaethyddol ar y tir. **Chi ddylai hawlio, fel tenant.** | Tenant |
| Chi sy'n cynnal y tir (neu'n talu contractwr i wneud hynny) a chi sy'n gyfrifol am ei gyflwr, ond rydych yn gosod tir sy'n eiddo i chi i ffermwr arall o dan drwydded. Mae'r drwydded yn nodi'r cyfnod penodol pan gaiff y trwyddedai ddefnyddio'r tir a'r cyfyngiadau/terfynau ar yr hyn y caiff ei wneud ar y tir. **Chi sy'n hawlio, fel y perchennog.** | Perchennog |
| Chi sy'n cynnal y tir (neu'n talu contractwr i wneud hynny) a chi sy'n gyfrifol am ei gyflwr. Mae gennych denantiaeth ffurfiol ar y tir rydych chi yn ei is-osod i ffermwr arall o dan drwydded. Mae'r drwydded yn nodi'r cyfnod penodol pan gaiff y trwyddedai ddefnyddio'r tir a'r cyfyngiadau/terfynau ar yr hyn y caiff ei wneud ar y tir. **Chi ddylai hawlio, fel tenant.** | Tenant |

Llacio'r gofyn i fod â rheolaeth ar y tir am 10 mis ar gyfer 2026

**Pwysig:** Caniateir llacio'r rheol 10 mis os ydych wedi cael meddiant ar y tir o dan delerau **tenantiaeth newydd dair blynedd neu fwy o hyd** a ddechreuodd ar ôl 28 Chwefror 2026 ond cyn 15 Mai 2026. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn ystyried eich bod wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer 2026 a dylech gadarnhau'ch bod wedi cadw at y rheol 10 mis ar SAF 2026.

Cyd-ddefnyddio Tir / Cyd-bori

Os bydd dau hawlydd neu fwy yn cyd-bori tir **nad yw'n dir comin** (a heb gytundeb ffermio cyfran), yna caiff y ddau hawlio ar y rhan boradwy benodol o'r cae sydd ar gael iddynt (h.y. y mae ganddynt yr hawl i'w ddefnyddio).

Rhaid gofalu nad yw cyfanswm arwynebedd y tir sydd ar gael i bob hawlydd yn fwy na chyfanswm arwynebedd y parsel. Ni chaiff rhannau anghymwys y parsel eu dangos ar y SAF.

Mae'n bwysig felly bod hawlwyr sy'n cyd-bori darnau o dir nad yw'n dir comin yn gofalu nad ydynt yn cyflwyno data anghywir sy'n gwrthdaro ac a allai arwain at orddatgan cyfanswm arwynebedd y parsel.

Bydd tir sy'n cael ei gyd-ddefnyddio neu ei gyd-bori yn cael ei drin yn yr un ffordd â thir comin. Caiff y tir ei rannu rhwng pob hawlydd yn unol â'r arwynebedd fydd wedi'i ddatgan. Ond bydd y tir ond yn gymwys am y Taliad Fferm Gyfan a'r Taliad Gwerth Cymdeithasol.

Ni fydd y tir yn gymwys am Daliad Cynnal Cynefin neu Daliad Cynnal Coetir ac ni chaiff y tir ei ddefnyddio fel y 10% sydd ei angen fel cynefin. Hefyd, ni chewch ddefnyddio'r tir i fodloni gofynion UA10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd.

Ffermwyr Cyfran

Os oes gan ddau barti neu fwy gytundeb ffermio cyfran, dim ond un fydd yn cael hawlio Haen Gyffredinol yr SFS, Y ffermwr hwnnw fydd yn gyfrifol am fodloni gofynion y cynllun ac am gynnal y Gweithredoedd Cyffredinol cymwys am flwyddyn y cynllun. Rhaid cynnwys yr holl dir sydd o dan y cytundeb ar SAF y sawl sy'n hawlio.

Yr hawlydd sy'n gyfrifol am rannu'r taliad (neu am unrhyw ad-daliadau allai fod yn gymwys). Os oes gan aelodau eraill o'r cytundeb ffermio cyfran dir nad yw'n rhan o'r cytundeb, maen nhw'n cael hawlio Haen Gyffredinol yr SFS ar wahân ar eu SAF eu hunain.

Dylai pob aelod o'r cytundeb ystyried yn ofalus sut mae'r busnes yn cael ei drefnu i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â rheolau'r cynllun. Efallai y dylech ofyn am gyngor proffesiynol.

Dau yn Defnyddio'r Un Tir - Tir sy'n cael ei hawlio gan ddau ffermwyr neu fwy o dan gynlluniau gwahanol

Er mwyn bodloni gofynion Haen Gyffredinol y SFS, rhaid fod gennych reolaeth ar y tir am o leiaf 10 mis, gan gynnwys ar 15 Mai. Os yw un ffermwr wedi datgan y tir ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS, ni fydd ffermwr arall yn gallu ymrwymo'r tir i gontract cynllun arall, er enghraifft BPS. Byddai hyn yn golygu bod dau yn defnyddio'r un tir.

Os bydd dau yn hawlio bod ganddynt reolaeth ar yr un darn o dir yn yr un flwyddyn cynllun, ni fydd y naill na'r llall yn cael ei dalu nes y penderfynir pwy sydd â rheolaeth. Gall yr hawlydd nad oes ganddo'r hawl i hawlio wynebu cosbau am orddatgan. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adran C3

## D3 Tir Anghymwys

Os oes gennych dir anghymwys:

- Ni fydd yn cael ei gynnwys yn eich Arwynebedd Fferm Gyfan a ddefnyddir i gyfrifo'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol.
- Ni fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrif faint o'r dir sydd wedi'i wella y bydd angen cynnal profion pridd arno bob blwyddyn o dan UA1: Iechyd Pridd
- Ni fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrif a ydych yn bodloni'r gofyn i gadw 10% o'ch fferm yn gynefin.
- Ni fydd modd ei ystyried na'i ddefnyddio i fodloni gofynion UA10 (Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd).

Nid yw'r tir canlynol yn gymwys:

- Tir y tu allan i Gymru.
- Parseli tir lle nad oes gennych reolaeth lawn neu lle mae gennych reolaeth am lai na 10 mis o'r flwyddyn galendr (oni bai'ch bod wedi cael llacio'r gofyn hwn).
- Parseli tir sy'n llai na 0.1 hectar
- Nodweddion anghymwys
- Tir nad yw'n amaethyddol

Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi isod.

Tir y tu allan i Gymru

Nid yw tir y tu allan i Gymru yn gymwys.

Os ydych yn ffermwr trawsffiniol, nid oes angen i chi ddatgan unrhyw dir y tu allan i Gymru

Dim Rheolaeth neu Reolaeth am lai na 10 mis

Nid yw tir yn gymwys os nad oes gennych reolaeth o'r tir am o leiaf 10 mis yn y flwyddyn galendr (oni bai'ch bod wedi cael llacio'r gofyn hwn).

Parseli tir sy'n llai na 0.1 hectar

Maint lleiaf parseli tir a fapiwyd gan RPW yw 0.1 hectar. Ni ddylid datgan parseli tir llai na 0.1 hectar ar y SAF.

Nodweddion Anghymwys

Nid yw'r nodweddion canlynol yn gymwys ond dylid eu datgan ar eich SAF yr un fath.

| **Disgrifiad** | **Cod SAF y Cnwd** |
|---|---|
| Pyllau (Dros 1 Hectar o ran maint) | ZZ30 |
| Afonydd a nentydd | ZZ31 |
| Adeiladau/iardiau | ZZ89 |
| Wynebau caled | ZZ92 |
| Ffyrdd | ZZ94 |
| Traciau (heb eu pori) | ZZ97 |
| Arwynebeddau dros dro na ellir eu defnyddio | TT99 |
| Gweithgareddau/tir nad ydynt yn amaethyddol | NO1 |

Gweithgareddau/Tir Nad ydynt yn Amaethyddol

Ni fydd pob gweithgaredd anamaethyddol yn gwneud eich tir yn anghymwys.

Os ydych yn cynnal gweithgareddau anamaethyddol, dylech ystyried sawl diwrnod y mae'r tir wedi'i gadw neu yn cael ei baratoi ar gyfer y gweithgaredd, nid dim ond y dyddiau pan fydd y gweithgaredd yn cael ei gynnal arno. Os eir dros y terfyn, caiff y tir dan sylw neu'r cae cyfan ei ystyried yn anghymwys.

Mae gweithgareddau, ac a yw'r tir yn gymwys ai peidio, yn cael eu rhannu'n 3 chategori. Nid yw'r rhestr o weithgareddau isod yn llawn ac os hoffech gynnal

gweithgareddau nad ydynt yn amaethyddol ar eich tir, dylech gysylltu â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW am arweiniad.

**Categori 1** – Gweithgareddau a ganiateir heb gyfyngiadau, gyda'r tir yn dal yn gymwys, yn cynnwys:

- pysgota
- cystadlaethau plygu perthi, cystadlaethau aredig lleol neu arddangosiadau eraill trin tir; dim ond os ydynt yn gyson â gofynion cymwys y cynllun. Byddai digwyddiadau lle byddai yno stondinau gwerthu yn perthyn i Gategori 2.
- teithiau natur neu ymweliadau fferm gan ysgolion, prifysgolion neu deithiau neu ymweliadau addysgol eraill
- marchogaeth/merlota ar hyd llwybrau ceffylau*
- beicio ar hyd llwybrau neu lwybrau ceffylau wedi'u marcio*
- cerdded*
- gwylio adar
- saethu (cig gwyllt)
- hela ceirw
- hela gydag abwyd
- paragleidio
- barcuta.

*Byddai llwybrau neu lwybrau ceffylau metlin neu sydd ag wyneb arnynt yn cael eu hystyried yn dir anghymwys p'run bynnag.

**Categori 2** –Gweithgareddau a ganiateir hyd at derfyn o 28 diwrnod, gyda'r tir yn dal yn gymwys. Mae'r terfyn yn ymwneud â nifer y dyddiau pan gynhelir y gweithgaredd anamaethyddol. Mae rhannau o ddyddiau'n cyfrif fel diwrnodau cyfan. Mae gweithgareddau'n cynnwys. ,

- saethu (colomennod clai)
- arwerthiannau cist ceir
- gwyliau a digwyddiadau
- ffeiriau a sioeau gwledig
- arwerthiannau ac ocsiynau fferm
- gweithgareddau gyda cheffylau (heblaw'r rheini a ddisgrifir yng Nghategori 1)
- balwnio
- parcio ceir (p'un a yw'n gysylltiedig ag un o'r gweithgareddau a restrir neu beidio)
- gwersylloedd Sgowtiaid a Geidiaid a'u tebyg

- safleoedd carafanau a gwersylla (Nid oes raid iddo effeithio ar barseli tir cyfan).
- lleoliadau teledu a ffilm
- chwaraeon moduro

**Categori 3** – Mae gweithgareddau nad ydynt yn gyson â defnyddio tir at ddiben amaethyddol gan wneud y tir felly'n anghymwys yn cynnwys lleoliadau sydd â'r prif bwrpas o gynnal gweithgareddau hamdden neu weithgareddau anamaethyddol eraill, fel cyfleusterau chwaraeon parhaol, cyrsiau carlamu, paneli solar a meysydd awyr.

Ym mhob achos, bydd cyfyngiadau'n para am y flwyddyn galendr.

Cynghorion at bwrpas y cynllun yn unig yw'r rhain. Gallai fod cyfyngiadau cyfreithiol eraill, e.e. cynllunio. Cofiwch y bydd gofyn i chi gadw at ofynion y cynllun, gan gynnwys Sylfaen Reoleiddio'r SFS, ar eich holl dir amaethyddol gydol y flwyddyn galendr ym mhob achos.

<u>Tir â Phaneli Solar</u>

Mae tir â phaneli solar yn cael ei ystyried yn dir nad yw'n amaethyddol. Mae hyn yn cynnwys y tir rhwng, o dan neu o gwmpas y paneli, hyd yn oed os gellir ei bori neu os yw ar gael i'w bori.

Os ceir y paneli solar yn un rhan yn unig o'r parsel o dir (e.e. mewn cornel neu mewn un pen) a'ch bod am gynnwys gweddill y tir, bydd yn rhaid i chi ffensio'r tir o gwmpas y paneli solar i greu 2 barsel o dir ar wahân.

## D4 Tir y rhoddir gorau i gynhyrchu arno oherwydd gwaith cwmnïau trydan, dŵr a nwy

Os ydych yn cael eich gorfodi gan gorff sydd â phwerau statudol i roi'r gorau i gynhyrchu ar dir, er enghraifft gan un o'r cyfleustodau i osod pibell, fe all fod yn anodd i chi fodloni gofynion y cynllun.

Os na allwch gynhyrchu ar dir am gyfnod ac felly na allwch fodloni'r amodau, efallai y byddwch yn gymwys o dan y ddarpariaeth Amgylchiadau Eithriadol. Cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW i esbonio fel bod modd ystyried eich sefyllfa.

Os ydych wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu ar dir yn barhaol ac felly'n methu â bodloni gofynion y cynllun, gan gynnwys gorfod cadw'r tir yn unol â gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS am flwyddyn ofynnol y cynllun, dylech wneud cais am dâl digolledu gan y cwmni cyfleustodau neu'r asiantaeth statudol sy'n gyfrifol.

## D5 Darpariaethau arbennig ar gyfer tir sy'n cael ei ddefnyddio i hyfforddi milwyr

Mewn rhai achosion, bydd tir amaethyddol cymwys yn cael ei ddefnyddio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn at bwrpas hyfforddiant milwrol. Ystyrir bod hyn yn fater er budd y wlad a bydd yn cael ei ganiatáu heb effeithio ar eich gallu i hawlio Haen Gyffredinol yr SFS. Bydd gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS yn dal i fod yn gymwys.

## D6 Defnyddio tir a chymorth o dan Gynlluniau eraill

Nodir isod manylion y berthynas rhwng Haen Gyffredinol yr SFS a thir a gefnogir o dan gynlluniau eraill:

Ffermio organig

Mae tir sydd wedi'i gynnwys mewn dyfarniad grant y Cynllun Troi'n Organig neu ei hawlio ar gyfer Taliad Organig yn gymwys ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS hefyd

Cynlluniau Coetir

Mae tir a gefnogwyd neu a gefnogir ar gyfer plannu coetir yn gymwys ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS.

Ond, ni fydd unrhyw ddarnau o dir sy'n dal i gael eu cefnogi ar gyfer premiwm a/neu grant cynnal coetir yn gymwys am Daliad Cynnal Coetir Haen Gyffredinol yr SFS.

Safleoedd Dynodedig

Mae tir ar safleoedd dynodedig, sydd â chytundebau rheoli CNC (e.e. cytundebau adran 15/16) yn gymwys o dan Haen Gyffredinol yr SFS a bydd disgwyl ichi gadw at ofynion y cynlluniau hyn tan y dônt i ben.

Os yw Cytundeb Rheoli Tir sydd gennych eisoes ag CNC yn gofyn ichi wneud yr un Weithred Gyffredinol ar yr un darn o dir, yna caiff y taliad Cynnal Cynefin a/neu y taliad Cynnal Coetir ei addasu yn unol â hynny rhag ichi gael eich talu ddwywaith ar yr un darn o dir.

## D7 Talu ddwywaith

Ac eithrio'r enghreifftiau a ddarperir uchod, rhaid i chi beidio â hawlio ar dir lle rydych yn derbyn taliadau ar ei gyfer at yr un diben gan unrhyw ffynhonnell neu sefydliad arall. O'u derbyn, byddwch yn cael eich talu ddwywaith ar yr un tir. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig, Ffermio Bro ac unrhyw gynllun tirwedd arall.

Os gwelir eich bod yn derbyn taliadau ar wahân am yr un gweithredoedd neu weithgareddau, gall hyn arwain at gosbau ariannol ac adennill Taliadau Cyffredinol.

## D8 Anghydfodau ynghylch Pwy sy'n Berchen ac yn Meddiannu'r Tir

Ni all Llywodraeth Cymru ddyfarnu ynghylch pwy sy'n berchen y tir a phwy sy'n ei feddiannu, yn enwedig os yw'r ddau barti'n cyflwyno tystiolaeth i gefnogi eu hawliad. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni chaiff taliad ei wneud ar barseli sy'n destun anghydfod i'r naill barti na'r llall, tan i'r mater gael ei ddatrys.

# Adran E: Tir Comin

## E1 Hawliau Tir Comin

Gallwch ddefnyddio hawliau pori tir comin i lunio rhan o'ch Taliad Cyffredinol, ar yr amod:

- bod gennych hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r tir comin hwnnw i bori stoc.
- bod gennych y gallu i droi allan y stoc berthnasol i'r comin rydych wedi cofrestru hawliau pori ar ei gyfer.
- eich bod yn cadw dyddiadur stocio o stoc sydd wedi ei throi allan ar y comin..
- eich bod yn dilyn gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS ar y comin.
- eich bod yn rhoi sylw dyledus i'r rheolaeth berthnasol sydd ar waith ar y tir comin.

  Os oes gennych hawliau pori tir comin, ac yn bodloni'r gofynion uchod, bydd Llywodraeth Cymru:
  - yn neilltuo rhan o'r tir comin i chi.
  - yn cynnwys y rhan o'r tir comin sydd wedi'i neilltuo i chi o fewn y Taliad cyffredinol a ddisgrifir isod.

Defnyddio hawliau pori tir comin

Gallwch ddatgan a gwneud cais am gyfran o'r tir comin os oes gennych hawliau (yn berchen arnyn nhw, yn eu prydlesu neu wedi'u trwyddedu) i bori ar y tir comin hwnnw ar gyfer blwyddyn y cynllun, a chi yw ceidwad cofrestredig o leiaf un math o dda byw sydd yr un fath â'r stoc rydych yn cael ei phori ar y comin.

Er enghraifft, os oes gennych hawliau pori tir comin ar gyfer 200 o ddefaid a 10 o wartheg, rhaid i chi gadw a rhaid i chi allu troi allan o leiaf un o'r mathau hyn o dda byw, naill ai defaid, gwartheg neu'r ddau i'r comin.

Nid yw'n ofynnol i chi gadw'r un nifer o anifeiliaid ag y mae gennych hawliau pori ar eu cyfer, ac nid oes gofyniad i chi droi allan yr anifeiliaid i'r comin os ydych yn dewis peidio â gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i chi gadw dyddiadur stocio, gan roi manylion troi unrhyw dda byw allan i'r comin neu dynnu da byw o'r comin pan fyddwch chi'n gwneud hynny, gan gynnwys cadarnhau manylion fel dyddiadau a nifer y da byw.

Gofynnir i chi ddatgan eich niferoedd da byw ar y Ffurflen Cais Sengl (SAF), Os nad ydych yn cadw o leiaf un math o dda byw ar gyfer yr hawliau pori tir comin sydd gennych, ni ddyrennir unrhyw gyfran o dir comin i chi ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS.

Sylfaen Reoleiddio'r SFS

Mae Sylfaen Reoleiddio'r SFS yn gymwys i unrhyw dir comin sydd wedi'i neilltuo o dan Haen Gyffredinol yr SFS.

Nid yw hyn yn newid hawliau cyfreithiol comin, na'r broses o arfer yr hawliau hynny. Fodd bynnag, os caiff Sylfaen Reoleiddio'r SFS ei thorri yn unrhyw le ar y comin, efallai y bydd y ffermwr neu'r ffermwyr sy'n gyfrifol am y tor rheolau yn cael cosb allai arwain at gosb ariannol. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adran Q.

Cytundebau rheoli presennol ar y comin

Rhaid i chi roi sylw dyledus i'r mesurau rheoli perthnasol sydd ar waith ar y comin, er enghraifft ar gyfer manteision iechyd anifeiliaid neu reolaeth cynefinoedd. Mae hyn mewn perthynas ag unrhyw gynllun rheoli pori neu gynllun rheoli safle hanesyddol ar y comin.

Rhaid i chi beidio â chyflawni'n fwriadol unrhyw weithgareddau sy'n peryglu cytundebau rheoli sydd ar waith ar y comin. Os ydych yn cynnal unrhyw weithgareddau o'r fath, a gellir profi'r gweithredoedd, efallai y bydd sancsiynau yn gymwys.

Neilltuo arwynebedd tir comin

Bydd cyfanswm arwynebedd cymwys comin yn cael ei bennu ar yr un sail â'r meini prawf cymhwystra tir a nodir yn Adran D.

Bydd faint o dir comin y bydd Llywodraeth Cymru yn ei neilltuo bob blwyddyn yn ystyried arwynebedd cymwys y comin a'r holl hawliau pori da byw a gofrestrwyd gan ffermwyr unigol, fel sy'n cael eu datgan ar y SAF bob blwyddyn. Yn ystod y Cyfnod Pontio, gellir datgan hawliau pori ar gyfer y comin gan:

- Hawlwyr sy'n ymuno â Haen Gyffredinol yr SFS, a
- Hawlwyr sy'n aros yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol (BPS).

Bydd yr holl hawliau pori tir comin sy'n cael eu datgan ar y SAF gan bob ffermwr yn cael eu hystyried wrth ddyrannu arwynebedd tybiannol o'r comin i bob ffermwr unigol, yn seiliedig ar yr hawliau pori unigol a ddatganwyd.

Gall dyraniadau arwynebedd tybiannol leihau neu gynyddu'n flynyddol oherwydd newidiadau mewn datganiadau hawliau pori tir comin a gyflwynir ar y SAF bob blwyddyn. Felly, ni ellir gwarantu dyraniadau Llywodraeth Cymru o arwynebeddau tir comin a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol.

Rhannu tir comin ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS.

Bydd unrhyw arwynebedd tir comin a rennir yn gymwys am elfennau canlynol y Taliad Cyffredinol.

- Taliad y Fferm Gyfan, o fewn y Taliad Sylfaenol Cyffredinol
- Y Taliad Gwerth Cymdeithasol

Dyma amodau’r tir comin fydd wedi’i rannu i chi:

- ni fydd yn gymwys am y Taliad Cynnal Cynefin na’r Taliad Cynnal Coetir o dan y Taliad Sylfaenol Cyffredinol.
- ni fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrif faint o’r dir sydd wedi’i wella y bydd angen cynnal profion pridd arno bob blwyddyn o dan UA1: Iechyd Pridd
- ni fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrif a ydych yn bodloni’r gofyn i gadw 10% o'ch fferm yn gynefin.
- ni fydd modd ei ystyried na’i ddefnyddio i fodloni gofynion UA10 (Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd).

## E2 Tir Comin ag Un Porwr

Gellir cofrestru tir comin ag un porwr gyda RPW a chael rhif adnabod cae unigryw iddo. Os ydych wedi gwneud cais am rif adnabod cae ar gyfer tir comin sy'n cael ei bori gan un porwr ac wedi cael un, dylai fod wedi'i lenwi ar eich rhan yn yr adran Data Caeau ar eich SAF 2026

Dylid trin y tir comin hwn fel parsel o dir at ddibenion Haen Gyffredinol yr SFS, a rhaid i chi beidio â datgan tir comin ag un porwr yn adran Tir Comin y SAF.

## E3 Hawliau wedi'u lesio neu wedi'u Trwyddedu ar Dir Comin

O dan Orchymyn Tiroedd Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2014, gellir rhoi hawliau i bori anifeiliaid ar dir comin ar les neu drwydded ('hollti hawliau dros dro’ fel y'i gelwir) am hyd at 5 mlynedd, ac i hynny fod yn gyfreithlon, rhaid cadw at reolau llym.

Mae'r rheolau hynny'n cynnwys hysbysu'r bobl neu'r sefydliadau canlynol am unrhyw gytundebau lesio neu drwyddedu newydd (gan gynnwys cael hawliau ar fenthyg) o fewn 28 niwrnod:

- yr Awdurdod Cofrestru Tir Comin sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r tir.
- ysgrifennydd unrhyw Gymdeithas Cominwyr, Cyngor Cominwyr (o'i sefydlu) neu unrhyw gorff lleol arall sy'n gyfrifol am reoli'r tir comin lle ceir defnyddio'r hawliau wedi’u prydlesu.
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), os yw'r tir comin lle ceir defnyddio'r hawliau pori yn cynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Ar ôl i unrhyw les neu drwydded ddod i ben, gellir adnewyddu'r 'hollti hawliau dros dro' am gyfnodau pellach o hyd at 5 mlynedd.

# Adran F: Map yr SFS

Mae Map y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn adnodd defnyddiol i'ch helpu i ddeall a yw'ch fferm yn gymwys ac i gynllunio beth sydd angen ei wneud o dan y cynllun. Mae'n rhoi darlun gweledol clir o'ch daliad a'r nodweddion pwysig sy'n berthnasol i ofynion yr SFS.

## F1 Ble mae ei weld

Bydd Map yr SFS ar gael ichi ei weld ar RPW Ar-lein o 31 Rhagfyr 2025. Bydd angen ichi fewngofnodi i'ch cyfrif RPW Ar-lein a chlicio ar y Tab Tir. Bydd rhagor o fanylion am fap yr SFS ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## F2 Beth sydd ar fap yr SFS

- Maint caeau cyfan: Faint o dir cofrestredig sydd gennych.
- Arwynebedd eich Cynefinoedd a Choetir: Manylion cynefinoedd a choetir sydd ar eich fferm.
- Dangosyddion y Gweithredoedd Cyffredinol: Gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gweithredoedd y byddwch yn eu cynnal ar eich daliad, megis:
    - Safleoedd dynodedig (e.e., SoDdGA ac ACA)
    - Nodweddion Hanesyddol (e.e., henebion cofrestredig)
- Nodweddion pwysig eraill: Ffiniau caeau, nodweddion parhaol a haenau amgylcheddol.

## F3 Sut i ddefnyddio'r Map

- Astudiwch y map cyn cyflwyno'ch cais SFS ar SAF 2026.
- Defnyddiwch y data cynefin a choetir i amcangyfrif a ydych yn bodloni'r gofyn bod 10% o'ch fferm yn o gynefin
- Cynlluniwch beth sydd angen ei wneud yn y dyfodol o ran cynefinoedd dros dro.
- Ystyriwch sut i wella bioamrywiaeth:
- Sicrhewch eich bod yn bodloni gofynion y cynllun ar safleoedd dynodedig a nodweddion hanesyddol.
- Rhowch wybod am unrhyw anghysonderau o ran ffiniau caeau neu nodweddion o waith dyn i RPW yn brydlon ar Rheoli fy Nhir
- Rhaid cywiro cynefinoedd a choetir ar SAF 2026
- Cyn plannu indrawn, edrychwch a yw'r cae ar lethr ac a oes perygl o lifogydd.

# Adran G: Sylfaen Reoleiddio'r SFS

## G1 Manylion Sylfaen Reoleiddio’r SFS

Set o ofynion cyfreithiol yw Sylfaen Reoleiddio’r SFS, sy'n sail i Haen Gyffredinol yr SFS. Mae'r gofynion hyn yn seiliedig ar ddeddfwriaeth ddomestig y mae'n rhaid i bob ffermwr yng Nghymru gadw ati.

Mae'r rhan fwyaf o'r gofynion wedi'u cynnwys yn y safonau Trawsgydymffurfio rydych eisoes yn gyfarwydd â nhw.

Mae dwy elfen i Sylfaen Reoleiddio'r SFS:

- Y Gofynion Rheoli Statudol (SMR), a'r
- Safonau ar gyfer cadw tir mewn ‘Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da’ (GAECs)

Mae pob elfen wedi'i rhannu'n safonau unigol fel a ganlyn;

**SMRs**

SMR 1: diogelu dŵr

SMR 2: adar gwyllt

SMR 3: gwarchod ffawna a fflora (bioamrywiaeth)

SMR 4: bwyd a chyfraith bwyd

SMR 5: cyfyngiadau ar ddefnyddio betaweithyddion a sylweddau sy’n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig ar anifeiliaid fferm

SMR 6: adnabod a chofrestru moch

SMR 7: adnabod a chofrestru gwartheg

SMR 8: adnabod defaid a geifr

SMR 9: atal, rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy (TSE)

SMR 10: cyfyngiadau ar ddefnyddio cynnyrch amddiffyn planhigion

SMR 11: safonau lles lloi

SMR 12: safonau lles moch

SMR 13: safonau lles anifeiliaid fferm

SMR 14: Mynediad Statudol i'r Cyhoedd (yn cynnwys Hawliau Tramwy Gyhoeddus a thir mynediad agored)

SMR 15: Rhywogaethau Estron Goresgynnol.

**GAECs**

GAEC 2: dŵr – defnyddio dŵr i ddyfrhau'r tir

GAEC 3: dŵr - dŵr daear

GAEC 6: pridd a deunydd organig – eu diogelu

GAEC 7: nodweddion y dirwedd (henebion cofrestredig, ffosydd a choed)

Mae'r gofynion manwl yn cael eu disgrifio yn nhaflenni ffeithiau Sylfaen Reoleiddio'r SFS. Mae'r taflenni hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-llinell-sylfaen-reoleiddiol-2026

Mae'r taflenni ffeithiau yn cynnwys gwybodaeth hefyd am arfer da, beth i'w ddisgwyl mewn archwiliadau a chysylltiadau defnyddiol.

## G2 Cyfrifoldeb am Sylfaen Reoleiddio'r SFS

Mae Sylfaen Reoleiddio'r SFS yn gymwys fesul blwyddyn ar yr holl dir ar eich daliad a'r holl dir sydd wedi'i ddatgan ar eich SAF, gan gynnwys nodweddion neu rannau anghymwys.

Er enghraifft, os oes gennych sied ar eich tir sydd mewn cyflwr gwael a'i bod felly yn creu problemau lles i'ch anifeiliaid, gallech gael eich cosbi er nad yw arwynebedd y sied ei hun yn cyfrannu at eich taliad Haen Gyffredinol yr SFS.

Rydych chi'n gyfrifol ac yn atebol am y gofynion hyn am y flwyddyn gyfan y cynllun, hyd yn oed os nad oes gennych reolaeth lwyr ar y tir am 12 mis llawn y flwyddyn.

Os nad ydych yn bodloni'r gofynion, gallech gael eich cosbi yn unol â Safonau Dilysadwy Sylfaen Reoleiddio'r SFS a'r Matrics Lleihau Taliadau sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-llinell-sylfaen-reoleiddiol-2026

## G3 Rhagor o wybodaeth

'Pan ddaw'r archwilydd – canllaw defnyddiol i ffermwyr' - dyma ganllaw a fydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ac a fydd yn esbonio beth i'w ddisgwyl mewn archwiliad ac sy'n disgrifio arferion da i'ch helpu i ddeall a chydymffurfio â'r gofynion.

Byddwn yn cyhoeddi negeseuon pwysig a newidiadau a diweddariadau yn y cylchgrawn Gwlad.

# Adran H: Y Cod i Bawb

## H1 Manylion y Cod i Bawb

Mae'r Cod i Bawb yn set o ofynion heb reoliadau y mae'n rhaid i bob hawliwr y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cymryd rhan yn yr SFA - Haen Gyffredinol eu dilyn.

Bydd disgwyl i chi fodloni gofynion y Cod i Bawb am 12 mis llawn blwyddyn y cynllun.

Mae'r Cod i Bawb yn cynnwys pedair rhan:

1. Diogelu pridd
2. Bioamrywiaeth a chynefinoedd, gan gynnwys 10% o dir cynefin ar eich fferm
3. Coed
4. Nodweddion tirwedd

Mae'r gofynion ar gyfer y 10% o dir cynefin ar eich fferm wedi'u nodi yn Adran I.

Os nad ydych chi'n bodloni'r gofynion, gellir cymhwyso sancsiynau neu gosbau yn unol â'r Matrics Safonau Dilysadwy a Sancsiynau cyhoeddedig (gweler Adran Q)

## H2 Dyddiadur gweithgarwch

Mae'r Cod i Bawb yn caniatáu rhai gweithgareddau y mae angen i chi gadw cofnod ohonynt mewn dyddiadur gweithgarwch. Mae manylion penodol wedi'u nodi ar gyfer y gofynion hyn isod.

Gallwch gadw eich dyddiadur gweithgarwch ar ffurf electronig neu bapur a dylech ei gadw ar y fferm am o leiaf 5 mlynedd a sicrhau ei fod ar gael yn ystod yr arolygiad os gofynnir amdano.

Mae canllawiau pellach ar ddyddiaduron gweithgarwch a thempledi enghreifftiol ar gael yn 'Pan ddaw'r Arolygydd' - Canllaw defnyddiol i ffermwyr: Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026 a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

## H3 Rhan 1: diogelu pridd

Nod y gofynion hyn yw diogelu pridd a dŵr wyneb rhag erydiad a dŵr ffo, gan gynnwys ar ôl cynaeafu neu bori.

Yn y cod hwn:

1) mae 'gwaith mecanyddol ar gae' yn cynnwys yr holl waith cynaeafu, trin a gwasgaru, gan gynnwys gwasgaru tail a slyri, a holl weithgarwch cerbydau. O dan rai amgylchiadau, efallai y byddwn yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ysgrifenedig yn caniatáu gwaith mecanyddol penodol ar gae.

2) mae diffiniadau synnwyr cyffredin arferol o 'ddwrlawn' yn gymwys h.y. Yn llawn dŵr i'r pwynt lle nad yw'n gallu amsugno mwy o ddŵr, gan ei gwneud hi'n wlyb iawn neu'n ddirlawn.

3) mae dŵr wyneb yn cynnwys dyfroedd arfordirol, aberoedd, camlesi, llynnoedd, pyllau a chyrsiau dŵr megis afonydd, nentydd a ffosydd sydd â dŵr sy'n llifo'n rhydd ynddyn nhw; ac mae hefyd yn cynnwys ffosydd sy'n sych dros dro a ffosydd cudd.

**Mae'n rhaid i chi:**

- Diogelu pridd rhag erydiad i lawr llethr neu oddi ar y cae gan gynnwys i gyrsiau dŵr a ffyrdd.
- Peidio â rhoi porthiant atodol o fewn 10 metr i ddŵr wyneb.
- Peidio â defnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion o fewn 2 metr i ddŵr wyneb.
- Peidio â thrin nac aredig tir o fewn 1 metr i ddŵr wyneb.
- Osgoi gorbori lle bynnag y bo modd. Ni ddylai stablad (sathru) tir na rhigoli ddigwydd i lefel sy'n peri i'r pridd erydu i lawr llethr neu oddi ar y cae, gan gynnwys i gyrsiau dŵr a ffyrdd.
- Rhaid peidio â thyfu indrawn ar dir sydd â goleddf o 12 gradd neu fwy.
- Peidio â thyfu indrawn ar dir sy'n agored i lifogydd oni bai bod cnwd yn cael ei hau oddi tano yn unol â'r un gofynion canlynol;
    - rhaid hau'r cnwd erbyn 10 Gorffennaf.
    - rhaid sefydlu cnwd gorchudd rhwng rhesi o indrawn sefydledig trwy hau â dril neu wasgaru hadau ar led, ac yna tyrchu â phigau.
    - nid yw gwasgaru hadau ar led ar draws y caeau yn gymwys.
    - dylid cynnal lleiniau clustogi o borfa un metr o led ar hyd gwrychoedd/perthi, cloddiau neu gyrsiau dŵr.
    - rhaid i'r cnwd gorchudd aros ar y ddaear tan 15 Chwefror 2026.
    - gellir pori'r cnwd, ond peidiwch â gorbori er mwyn cynnal gorchudd cnwd y gaeaf a rhag stablad (sathru) y tir.
    - rhaid cadw cofnod yn eich dyddiadur gweithgarwch.

- Rhaid i chi sicrhau bod yr holl dir wedi'i orchuddio'n ddigonol â chnydau, sofl, gweddillion cnwd neu lystyfiant arall bob amser, er mwyn osgoi dŵr ffo, ac eithrio lle bydd sefydlu gorchudd yn gwrthdaro â'r gofynion isod mewn perthynas â gwaith mecanyddol ar gae y mae'r pridd yn ddwrlawn, neu drin tir i adael arwyneb garw.
- Ar dir sydd wedi'i gynaeafu â chombein, cynaeafwr porthiant neu beiriant lladd gwair, rhaid cydymffurfio ag un o'r gofynion canlynol bob amser rhwng y diwrnod ar ôl cynaeafu ac 1 Mawrth:

- bod sofl y cnwd a gynaeafwyd yn cael ei gadw ar y tir; neu
- fod y tir yn cael ei baratoi fel gwely had o fewn 14 diwrnod ar gyfer cnwd a bod y cnwd yn cael ei hau o fewn cyfnod o 10 diwrnod gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y cam olaf i baratoi'r gwely had.

- Wrth aredig glaswelltir presennol, rhaid paratoi'r tir fel gwely had o fewn 14 diwrnod ar ôl aredig a rhaid hau'r cnwd/glaswellt o fewn cyfnod o 10 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y cam olaf i baratoi'r gwely had. Os byddwch, wrth drin y tir neu hau o fewn y cyfnod hwnnw o 10 diwrnod, yn torri unrhyw un o ofynion y Cod i Bawb, dylid hau'r cnwd neu'r cnwd gorchudd dros dro cyn gynted ag sy'n ymarferol pan na fydd mwyach yn ddwrlawn.
- Rhaid i chi beidio â gwneud unrhyw waith mecanyddol ar gae mewn ardal lle mae pridd dwrlawn (na chaniatáu i hynny ddigwydd) oni bai bod un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:

  a) lles anifeiliaid neu ddiogelwch pobl.

  b) gwella gallu'r pridd i ddraenio.

  c) ymgorffori gypswm ar ôl iddo gael ei foddi gan ddŵr hallt.

  d) cadw at rwymedigaethau contract mewn perthynas â chynaeafu cnwd ar bridd sy'n orlawn o ddŵr, gan gynnwys lle byddai ansawdd y cnwd yn dirywio pe na bai'n cael ei gynaeafu. Gweler y cyfyngiad isod.

  e) mae'r pridd yn ddwrlawn o fewn 20 metr i'r fynedfa ac mae angen cael mynediad i dir nad yw'n ddwrlawn. Gweler y cyfyngiad isod.

  f) mae'r ardal ddwrlawn yn rhan o drac i dir nad yw'n ddwrlawn.

  **Cyfyngiad:** nid yw'r eithriadau a restrir yn d) ac e) uchod yn berthnasol i safleoedd dynodedig (SoDdGA) fel a ganlyn:
  o fewn dalgylch safle dynodedig llyn, neu
  o fewn llain glustogi 100m i ffin unrhyw safle dynodedig llyn neu safle dynodedig sy'n ddibynnol ar ddŵr.

- Dim ond os yw'n cydymffurfio â'r amodau canlynol y caniateir i chi drin tir er mwyn ei adael ag arwyneb garw rhwng y diwrnod ar ôl cynaeafu ac 1 Mawrth:

  - nid ystyrir bod risg uchel i'r cae erydu, a
  - mae arwyneb garw yn cael ei adael arno er mwyn annog glaw i ymdreiddio iddo, a:
  - nid yw pridd yn llithro i lawr llethr neu oddi ar y safle (parsel tir), a:
  - rydych wedi cynnal asesiad risg, ac wedi cwblhau a chyflwyno hysbysiad trwy eich RPW, ar neu cyn y diwrnod rydych yn trin y tir er

mwyn gadael arwyneb garw.

- Dylech o leiaf naill ai droi’r pridd ag aradr gynion neu osod ffensys gwaddodion er mwyn cyfyngu ar erydiad y pridd os;

    - nad yw’n bosibl hau cnwd gorchudd ar dir sydd wedi cael ei gynaeafu’n hwyr,
    - nid yw’r sofl yn darparu gorchudd, neu
    - os oes cnwd porthiant neu wreiddgnwd wedi cael ei bori’n llwyr.

## H4 Rhan 2: Bioamrywiaeth a chynefinoedd

Nod y gofynion hyn yw atal cynefinoedd lled-naturiol sydd eisoes yn bodoli rhag cael eu colli neu eu difrodi, a chefnogi camau i’w gwella.

Mae’r gofynion hyn yn berthnasol i’r holl dir cynefin ar eich daliad, waeth a ydych chi wedi cadarnhau hyn fel cynefin lled-naturiol presennol o dan Weithred Gyffredinol 5: Cynnal Cynefinoedd ai peidio.

**Diffinnir cynefin fel a ganlyn:**

Unrhyw lystyfiant y mae llai na 25% ohono’n rhywogaethau amaethyddol wedi’u hau, yn unol â Rheoliadau Asesu’r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (EIA) 2017, neu dir sydd wedi’i gadarnhau fel cynefinoedd a grëwyd o’r newydd fel rhan o Weithred Gyffredinol 5: Cynnal cynefinoedd.

Nid yw’r gofynion hyn yn berthnasol i dir sydd wedi’i gynnwys fel Cynefinoedd Dros Dro o dan Weithred Gyffredinol 6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi’i wella.

**Peidiwch â gwneud y canlynol:**

- Niweidio tir cynefin

  Diffinnir niwed fel peri i’r math o lystyfiant sy’n nodweddiadol yn y cynefin hwnnw gael ei golli. Mae enghreifftiau o weithredoedd a allai achosi niwed yn cynnwys gorbori a thanbori, stablad (sathru) y tir gan dda byw neu ei rigoli gan beiriannau fferm neu gerbydau eraill.

  Mae’n rhaid i chi ddiogelu fflora’r ddaear, coed a’u gwreiddiau rhag niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol yn sgil trin y tir, cywasgu, defnyddio peiriannau neu agrocemegion, gan gynnwys gwrteithiau.

- Gwella tir cynefin yn amaethyddol

  Mae prosesau gwella amaethyddol yn ymwneud ag arferion a rheoli mewn ffordd sy’n arwain at gynnydd mewn rhywogaethau amaethyddol, megis rhygwellt a meillion gwyn.

Rhaid peidio â gwella tir cynefin yn amaethyddol, waeth a ydych wedi cael cydsyniad sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ai peidio.

- Clirio ffosydd rhwng 1 Mawrth a 31 Awst ar dir cynefin. Rhaid cofnodi manylion clirio ffosydd yn y dyddiadur gweithgarwch. Gellir gwneud gwaith cynnal a chadw arferol ar ffosydd sy'n bodoli eisoes neu sianeli draenio y tu allan i'r dyddiadau hyn fel a ganlyn:
  - gellir clirio llystyfiant a silt, gan eu gadael ar hyd un ochr y ffos
  - ni chaniateir gwaith i ddyfnhau neu ledu ffosydd neu osod pibellau draenio a llenwi ffosydd

  Bydd angen Cydsyniad Draenio Tir gan CNC ar gyfer Clirio Ffosydd oddi mewn i Ardaloedd Draenio Mewnol.

  Ni chaniateir clirio ffosydd oddi mewn i ffin Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Bydd angen y broses arferol o wneud cais i CNC am gydsyniad SoDdGA drwy hysbysiad o fwriad.
- Rholio tir cynefin neu ei lyfnu ag oged gadwyn rhwng 15 Mawrth ac 15 Gorffennaf – rhaid i chi gofnodi manylion yr holl waith rholio a llyfnu ag oged gadwyn ar dir cynefin yn eich dyddiadur gweithgarwch
- Aredig, trin neu ail-hau tir cynefin
- Cynnal unrhyw weithgareddau symud pridd ar dir cynefin, gan gynnwys torri mawn a llenwi pantiau naturiol
- Tynnu cerrig, sgri, tywod, graean, gro, clai neu fawn o dir neu afonydd cynefin
- Adeiladu traciau, ffyrdd, buarthau, llawr caled neu unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin, ac eithrio lle y caniateir hynny gan gytundeb penodol Llywodraeth Cymru neu CNC.
- Trosi, trin neu ail-hadu tir ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig heb gydsyniad ar gyfer y gweithgaredd ar hyn o bryd.
- Gosod systemau draenio newydd neu addasu systemau draenio sydd eisoes yn bodoli ar dir cynefin neu o fewn 100m i gynefin gwlyptir lle byddai'r ffos neu'r ddraen yn ailgyfeirio dŵr sy'n llifo tuag at y gwlyptir. Diffinnir gwlyptiroedd fel cynefinoedd sy'n gysylltiedig â mawndir sydd â dŵr ar yr wyneb neu'n agos at yr wyneb y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Ni chaniateir troi ag aradr wadd.
- Storio deunyddiau, cerbydau, ôl-gerbydau neu beiriannau ar dir cynefin.
- Storio tail, silwair neu wastraff fferm arall ac unrhyw sylweddau peryglus neu nad ydynt yn beryglus ar dir cynefin.

- Llosgi llystyfiant, glaswelltir neu unrhyw ddeunydd a dorrwyd ar dir cynefin, ac eithrio fel rhan o Gynllun Rheoli Llosgi sy'n cydymffurfio â Chod a Rheoliad Llosgi Grug a Glaswellt (2008).
- Rhoi gwrteithiau organig (yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol) e.e. gwrteithiau da byw, slyri, gweddillion treuliad anaerobig, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff, gwastraff arall o'r fferm ac oddi ar y fferm, gwrteithiau wedi'u cynhyrchu, slag basig, gwymon calchog, ac unrhyw sylweddau peryglus neu nad ydynt yn beryglus (gan gynnwys dip defaid) ar dir cynefin.
- Gwasgaru tail fferm ac eithrio pan fydd y gweithgaredd hwn yn cael ei ganiatáu gan weithred gynefin Gyffredinol neu Opsiynol Cynllun Ffermio Cynaliadwy benodol (er enghraifft Gweithred Gyffredinol 5: Glaswelltir sych lled-naturiol wedi'i amgáu a reolir fel gweirglodd). Rhaid i chi gofnodi'r defnydd o dail fferm yn yr amgylchiadau uchod yn eich dyddiadur gweithgarwch.
- Rhoi calch ar dir cynefin, ac eithrio lle y caniateir hynny gan weithred gynefin Gyffredinol neu Opsiynol Cynllun Ffermio Cynaliadwy benodol (er enghraifft Gweithred Gyffredinol 5: Glaswelltir niwtral sych lled-naturiol wedi'i amgáu). Rhaid i chi gofnodi'r defnydd o galch yn eich dyddiadur gweithgarwch.
- Defnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion ar dir cynefin, ac eithrio i wneud y canlynol:
    - sbot-chwynnu a rheoli'r chwyn niweidiol canlynol: marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, tafol lydanddail a llysiau'r gingroen, er enghraifft, lle mae bygythiad i iechyd a lles da byw a cheffylau, neu
    - rheoli rhywogaethau estron goresgynnol megis clymog Japan, jac y neidiwr, rhododendron, efwr enfawr
    - rheoli llystyfiant goresgynnol ar nodweddion hanesyddol ac adeiladau a strwythurau fferm traddodiadol
    - trin plâu a chlefydau planhigion neu goed fel yr argymhellwyd gan awdurdodau perthnasol a/neu os bydd yn ofynnol mewn Hysbysiad Statudol, e.e. Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol

      Gweler Tabl 1: Dulliau rheoli llystyfiant annymunol ar gyfer gwahanol fathau o lystyfiant. Gweler hefyd Gweithred Gyffredinol 2: Rheoli Plâu yn Integredig.
- Plannu coed heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru

**Porthiant Atodol ar draws y daliad**

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol i dda byw ar safleoedd archaeolegol, llethrau serth, cyrsiau dŵr neu Hawliau Tramwy Cyhoeddus, neu wrth eu hymyl.

**Porthiant Atodol ar dir cynefin**

- Rhaid rhoi porthiant atodol mewn ffordd sy'n osgoi niweidio llystyfiant, pridd a chyrsiau dŵr. Mae niwed yn cynnwys gorbori, gorfaethu, gorsathru llystyfiant, stablad (sathru) pridd gan anifeiliaid sy'n pori, rhigoli gan gerbydau a ddefnyddir i gludo bwyd anifeiliaid, erydu pridd a llygru dŵr.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol ar dir cynefin **wedi'i amgáu**, ac eithrio lle ceir llawr caled eisoes at ddiben lles penodol da byw (gweler isod).
    - dylid symud deunydd lapio plastig a chynwysyddion unwaith y bydd y bwyd wedi'i ddosbarthu
    - dylid gosod lleoliadau bwydo o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw gwrs dŵr
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol ar dir cynefin **heb ei amgáu** (tir uwchlaw'r terfyn amgáu uchaf) ac eithrio lle bo angen gwneud hynny'n benodol er lles da byw*, fel a ganlyn:
    - Wrth roi dwysfwyd, dylai'r holl dda byw allu cael gafael ar y bwyd a'i fwyta ar yr un pryd.
    - Rhaid i safleoedd porthiant atodol osgoi mawndir a llystyfiant sy'n sensitif i ddifrod a gorfaethu, gan gynnwys gorgorsydd, rhostir, glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau, gwernydd a choetiroedd llydanddail brodorol.
    - Dim ond y bwydydd o'r rhestr ganlynol y gellir eu defnyddio a dylai'r dogn a ddefnyddir fod yn briodol i gategori'r anifeiliaid sy'n cael eu bwydo:
        - gwair (i'w wasgaru)
        - gwywair (porfa wedi'i ladd ag o leiaf 60% ohono'n ddeunydd sych) (i'w wasgaru)
        - bwyd anifeiliaid cyfansawdd
        - betys siwgr sych (ar ffurf cêc yn unig); ond nid lle gall ceffylau fynd at y bwyd anifeiliaid cyfansawdd
        - plociau bwydo a bwyd gwlyb mewn cynwysyddion addas
        - dylech symud lleoliadau bwydo bob dydd. Gellir symud plociau bwydo yn llai aml ond rhaid osgoi difrod fel y disgrifir uchod

- ni ddylid defnyddio cafnau bwyd na rheseli bêls unrhyw bryd
- dylid symud deunydd lapio plastig a chynwysyddion unwaith y bydd y bwyd wedi'i ddosbarthu
- dylid gosod lleoliadau bwydo o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw gwrs dŵr

- Ni ddylid defnyddio cafnau bwyd na rheseli bêls unrhyw bryd
- dylid symud deunydd lapio plastig a chynwysyddion unwaith y bydd y bwyd wedi'i ddosbarthu
- dylid gosod lleoliadau bwydo o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw gwrs dŵr


*Caniateir porthiant atodol, fel yr amlinellir uchod, ar dir cynefin lle mae'r arfer hon yn ofynnol er lles penodol da byw. Bydd angen darparu porthiant atodol yn ystod tywydd garw neu i ateb gofynion anifeiliaid sy'n feichiog iawn.

Caniateir rhoi porthiant atodol pan fydd tywydd garw yn cyfyngu ar allu da byw i fynd at dir pori, ar yr amod eich bod yn ei ddarparu heb niweidio'r amgylchedd nac yn peryglu lles y da byw.

Diffinnir tywydd garw fel cyfnod pan fydd y llystyfiant sydd ar gael wedi'i orchuddio gan eira neu os bydd yn rhewi'n galed, yn sych neu'n glawio'n drwm am gyfnod estynedig.

Caniateir eithriadau i'r amodau uchod pan fydd eu hangen er mwyn sicrhau manteision amgylcheddol penodol sy'n ofynnol oddi mewn i Haen Opsiynol Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Caiff yr eithriadau hyn eu cynnwys mewn gofynion rheoli cynefin penodol.

Nid ystyrir bod adar hela yn dda byw at ddibenion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Caniateir i adar hela gael porthiant atodol yn unol â Chanllawiau 'Sustainable Gamebird Releasing' yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt lle caiff adar eu rhyddhau'n gyfreithlon.

**Tabl 1: Rheoli llystyfiant annymunol**

Mae llystyfiant annymunol yn cynnwys chwyn niweidiol o dan Ddeddf Chwyn 1959, rhywogaethau brodorol goresgynnol, fel rhedyn, rhywogaethau estron goresgynnol (INNS), fel Rhododendron ponticum, a llystyfiant annymunol arall, fel brwyn y pabwyr a danadl.

Trowch at y tabl isod am y dull rheoli derbyniol, canran y tir, yr amseroedd cywir a'r dosbarth cynefin bras lle bydd modd defnyddio dulliau rheoli derbyniol.

| Math o lystyfiant | Dull rheoli derbyniol | Canran y tir | Pryd i reoli | Yn dderbyniol mewn dosbarth cynefin |
|---|---|---|---|---|
| Chwyn niweidiol (Deddf Chwyn (1959)) | Tocio (nid lladd â pheiriant)<br><br>Sbot-chwynnu<br><br>Clwt-chwynnu | Amh | Mai - Awst | 1 i 12 |
| Rhywogaethau brodorol goresgynnol | Torri, tocio neu ladd â pheiriant<br><br>Cleisio<br><br>Pori gwartheg / merlod | Amh | Mai - Awst | 1 i 12 |
| Rhywogaethau estron goresgynnol | Torri, tocio neu ladd â pheiriant<br><br>Cleisio<br><br>Pori gwartheg / merlod<br><br>Sbot-chwynnu<br><br>Clwt-chwynnu | Amh | Trwy gydol y flwyddyn | 1 i 12 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Brwyn pabwyr | Tocio neu dorri, ond nid â pheiriant | 30% | ni chaniateir 15 Mawrth – 15 Gorffennaf | 1, 3, 4, 5a, 6 |
| Arall e.e. danadl | Tocio neu dorri, ond nid â pheiriant | 30% | Mai i Awst | 1, 3, 4, 5a, 6 |

### H4 Rhan 3: Coed

Mae'r adran hon yn gymwys i goed unigol, neu grwpiau o goed dan 0.1ha. Ar gyfer ardaloedd o orchudd canopi coed a choetir dros 0.1 ha, gweler Gweithred Gyffredinol 9: Cynnal Coetir.

Nod y gofynion hyn yw cadw a chynnal pob coeden ar eich daliad, gan gynnwys coed aeddfed, hynod a hynafol presennol yn ogystal ag unrhyw goeden a gaiff ei blannu er mwyn dangos cynnydd o ran cyflawni eich cynllun cyfle i blannu coed a chreu perthi/gwrychoedd .

**Dylech wneud y canlynol:**

- Atal difrod i goed gan dda byw neu beiriannau
- Cadw coed marw sy'n dal i sefyll lle y bo'n ddiogel gwneud hynny (a lle nad ydynt yn peri perygl amlwg)
- Sicrhau bod gwaith tocio neu dorri yn cael ei wneud yn briodol â thoriad glân ac nad yw'n difrodi nac yn gwneud niwed i'r goeden
- Cadw pren marw sydd wedi cwympo (ac eithrio pob rhywogaeth o sbriws) yn y fan a'r lle neu ei symud i leoliad cysgodol gerllaw
- Rhoi gwybod am glefydau coed posibl gan ddefnyddio gwefan Tree Alert.

**Peidiwch â gwneud y canlynol**:

- Aredig neu rolio o dan gorun / canopi coed yn y cae
- Defnyddio gwrteithiau organig (yn unol â diffiniad Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol) e.e. gwrteithiau da byw, slyri, gweddillion treuliad anaerobig, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff, gwastraff arall o'r fferm ac oddi ar y

fferm, gwrteithiau wedi'u cynhyrchu, slag basig, gwymon calchog, ac unrhyw sylweddau peryglus neu nad ydynt yn beryglus (gan gynnwys dip defaid) ar dir cynefin.

- Rhoi calch o dan y corun / canopi
- Chwistrellu Cynhyrchion Diogelu Planhigion o dan y corun / canopi neu ganiatáu iddynt lifo yno
- Plannu coed ychwanegol o fewn 5m i ymyl y canopi coed
- Rhoi porthiant atodol o dan ganopi unrhyw goed hynod / neu o fewn 5m i unrhyw goed hynod
- Storio peiriannau neu ddeunyddiau o dan goed hynod mewn caeau
- Torri neu docio coed yn ystod y tymor nythu adar (1 Mawrth i 31 Awst) oni bai bod yr eithriadau canlynol yn berthnasol ac y gallwch hefyd fodloni eich rhwymedigaethau o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ar gyfer gwarchod adar gwyllt.
    - mae'r goeden yn hongian dros ffordd fawr, ffordd, trac neu lwybr troed a ddefnyddir gan y cyhoedd, ac mae'r gwaith yn angenrheidiol am fod y llystyfiant sy'n hongian drosodd:
        - yn rhwystro cerbydau neu gerddwyr rhag mynd heibio
        - yn rhwystro golwg gorwyr, neu'r golau o lamp gyhoeddus, neu
        - yn peri perygl i bobl ar geffylau
    - mae angen torri neu docio'r goeden am ei bod wedi marw, am fod ganddi glefyd, am ei bod wedi'i difrodi neu am fod ei gwreiddiau'n anniogel, ac felly mae'n debygol o achosi perygl drwy gwympo ar ffordd fawr, ffordd neu lwybr troed
    - mae angen i'r cwmni sy'n gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw linellau trydan neu ffôn sy'n hongian drosodd dorri coed yn eu hôl am resymau diogelwch
    - ar dir âr, lle mae'r arfer amaethyddol arferol yn ei gwneud yn ofynnol i gnwd âr gaeaf gael ei blannu cyn 31 Awst, bydd angen ichi dorri'r coed perthnasol yn ôl o 1 Awst ar yr amod nad ydych yn aflonyddu ar adar sy'n nythu
    - mae hysbysiad gorfodi a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Lleol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, Adran 154 er mwyn sicrhau na chaiff llwybr cerbydau neu gerddwyr ei rwystro na'i beryglu, ac ystyrir bod angen tocio/torri neu blygu'r goden a/neu ganghennau coed yn y lleoliadau a ddisgrifir
    - mae'r gwaith torri neu docio yn cael ei wneud er mwyn cynnal ffos
    - mae'r goeden mewn perllan

  - gellir adfer gwrychoedd, e.e. plygu/bondocio ym mis Mawrth ar yr amod nad yw'r gwaith yn aflonyddu ar adar sy'n nythu.

    Dylech gadw tystiolaeth, e.e. ffotograffau a/neu unrhyw lythyrau oddi wrth yr awdurdodau cymwys perthnasol sy'n dangos yn glir pam roedd angen torri neu docio coed rhwng 1 Mawrth a 31 Awst.. Dylid darparu'r rhain ar y cam archwilio os gofynnir amdanynt.

- Cwympo unrhyw goeden oni bai bod eithriad yn berthnasol. Mae eithriad yn cyfeirio at y canlynol:
  - trwydded cwympo coed ddilys
  - caniatâd cynllunio llawn
  - hysbysiad a gyflwynwyd i gydymffurfio â Deddf Senedd y Deyrnas Unedig neu Ddeddf Senedd Cymru, megis hysbysiad a roddwyd gan awdurdod priffyrdd
  - Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol

    Yr eithriad i'r uchod yw os yw'r goeden yn beryglus a bod perygl gwirioneddol ac uniongyrchol, yn hytrach na pherygl canfyddedig.

  Os cewch eich herio, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth bod y goeden yn beryglus, er enghraifft drwy adroddiad tyfwr coed achrededig neu dystiolaeth ffotograffig.

## H5 Rhan 4: Nodweddion y dirwedd

Nod y gofynion hyn yw cynnal a chadw nodweddion hanesyddol a nodweddion tirwedd, sy'n nodweddion pwysig yn ein tirwedd ddiwylliannol a ffisegol.

Yn ogystal â'r gofynion yn y Cod i Bawb, mae'n ofynnol i chi reoli unrhyw nodweddion hanesyddol hysbys ar eich fferm yn unol â Gweithred Gyffredinol 11: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae gofynion rheoli manwl gwahanol fathau o nodweddion hanesyddol wedi'u hamlinellu yn adran J11.

**Diffinnir nodweddion tirwedd fel a ganlyn:**

perthi/gwrychoedd, waliau cerrig, cloddiau, cloddiau cerrig, ffensys llechi, camfeydd cerrig, cwteri defaid a chwlfertau, ymylon caeau a phyllau. Caiff rhai o'r rhain eu defnyddio fel ffiniau caeau traddodiadol, ond mae'n bosibl nad dyna'r achos bob amser.

- Mae 'perthi/gwrychoedd' yn cynnwys unrhyw berth hyd at uchafswm o 10 metr o led.

- Mae ‘wal gerrig’ yn cyfeirio at wal gerrig draddodiadol ac mae’n cynnwys cloddiau pridd ag iddynt ddau wyneb o gerrig, megis ‘Wal Penclawdd’ neu ‘Berth Sir Benfro’.
- Mae ‘clawdd cerrig’ yn cyfeirio at glawdd pridd lle mae un ochr wedi’i adeiladu o gerrig.
- Mae ‘camfeydd cerrig’ wedi’u creu o slabiau mawr sydd ar gantilifrau ar ddwy ochr wal gerrig.
- Bwlch a gaiff ei adeiladu’n fwriadol ar waelod wal sych yw ‘cwter ddefaid’, a bydd lintel gwenithfaen ar ei ben yn aml.
- Strwythur yw ‘cwlfertau’ sy’n sianelu dŵr heibio rhwystr neu i ddyfrffordd danddaearol. Nid yw hyn yn cyfeirio at gwlfertau sydd wedi’u creu o blastig neu ddeunyddiau modern eraill.
- Mae ‘pwll’ yn cyfeirio at grynofa ddŵr hyd at 1ha. Mae’n gallu digwydd yn naturiol neu wedi cael ei greu’n hanesyddol drwy gynllun datblygu gwledig blaenorol (e.e. Glastir Uwch) neu gynllun arall.

**Mae’n rhaid i chi wneud y canlynol:**

- Sicrhau bod yr holl ffiniau allanol yn atal stoc mewn ffordd sy’n briodol ar gyfer y da byw sy’n cael eu cadw ar y tir. Mae hyn yn berthnasol i ffiniau caeedig presennol eich fferm yn unig, y mae gennych gyfrifoldeb rheoli unig a llawn amdanynt.
- Cadw holl nodweddion tirwedd fel waliau cerrig, clawdd cerrig, perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd, a ffensys llechi. Ni chaniateir i chi eu symud na’u difrodi oni bai bod gennych gydsyniad cynllunio neu ddatblygu ysgrifenedig gan yr awdurdod perthnasol.
- Cynnal nodweddion ffiniau traddodiadol fel ffensys rheiliau haearn, estyll pren, ffensys llechi, cloddiau, neu waliau cerrig. Mae’n rhaid i chi wneud y canlynol:
    - eu harchwilio am ddirywiad yn rheolaidd
    - gwneud gwaith sylfaenol i dynnu prysgwydd a llystyfiant goresgynnol (gan gynnwys rhywogaethau estron) sydd wedi datblygu ers i chi hawlio’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Haen Gyffredinol am y tro cyntaf.
    - gwneud gwaith sylfaenol i atgyweirio erydiad sydd wedi digwydd ers i chi hawlio’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Haen Gyffredinol am y tro cyntaf.
- Cadw pob camfa gerrig, cwter ddefaid, cwlfert a’r holl nodweddion traddodiadol eraill.

- Sicrhau nad oes sbwriel, peiriannau segur na chyfarpar segur ar eich tir. Lle y bo'n bosibl, dylai'r holl ddeunyddiau lapio bêls a phlastigion eraill gael eu hailgylchu drwy gludwr cymeradwy.
- Cadw llain glustogi o 1m o ymyl perth (neu'r ffens ar gyfer perthi sydd â ffens) heb ei haredig na'i gwrteithio'n organig neu'n anorganig ac sydd heb blaladdwyr na chwynladdwyr wedi'u gwasgaru arni (na'n llifo arni). Caiff y llain glustogi hon ei mesur o ymyl/bôn y clawdd â pherth neu waelod y ffens.
- Cadw'r holl byllau ar y daliad a pheidio â llenwi na draenio rhan o bwll.

**Peidiwch â gwneud y canlynol:**

- Difrodi unrhyw nodweddion ffiniol traddodiadol megis ffens rheiliau haearn, estyll pren, ffensys llechi, cloddiau, perthi neu waliau cerrig
- Defnyddio pridd neu ddeunydd mân arall i lenwi bylchau yng nghanol wal sych rhwng wynebfeini
- Defnyddio lletemau (cerrig bach i sefydlogi cerrig mwy) ar wyneb wal
- Storio tail, silwair neu wastraff fferm arall ac unrhyw sylweddau peryglus neu nad ydynt yn beryglus ar nodweddion tirwedd neu archaeolegol.
- Trin (e.e. aredig, rotofetio, tyrchu â phigau neu ddisgio) unrhyw dir o fewn 1m i berth, wal gerrig neu glawdd pridd, ni waeth beth fo maint y cae.
- Torri neu docio gwrychoedd (gan gynnwys coed gwrychoedd) yn ystod y tymor nythu adar (1 Mawrth i 31 Awst) oni bai bod un o'r canlynol yn berthnasol:
    - mae'r goeden yn hongian dros ffordd fawr, ffordd, trac neu lwybr troed a ddefnyddir gan y cyhoedd, ac mae'r gwaith yn angenrheidiol am fod y llystyfiant sy'n hongian drosodd:
        - yn rhwystro cerbydau neu gerddwyr rhag mynd heibio
        - yn rhwystro golwg gorwyr, neu'r golau o lamp gyhoeddus,
        - yn peri perygl i bobl ar geffylau
    - mae angen torri neu docio'r goeden am ei bod wedi marw, am fod ganddi glefyd, am ei bod wedi'i difrodi neu am fod ei gwreiddiau'n anniogel, ac felly mae'n debygol o achosi perygl drwy gwympo ar ffordd fawr, ffordd neu lwybr troed
    - mae angen i'r cwmni sy'n gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw linellau trydan neu ffôn sy'n hongian drosodd dorri coed yn eu hôl am resymau diogelwch

- ar dir âr, lle mae’r arfer amaethyddol arferol yn ei gwneud yn ofynnol i gnwd âr gaeaf gael ei blannu cyn 31 Awst, bydd angen i chi dorri’r coed perthnasol yn ôl o 1 Awst ar yr amod nad ydych yn aflonyddu ar adar sy’n nythu
- mae hysbysiad gorfodi a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Lleol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, Adran 154 er mwyn sicrhau na chaiff llwybr cerbydau neu gerddwyr ei rwystro na’i beryglu, ac ystyrir bod angen tocio/torri neu blygu’r goden a/neu ganghennau coed yn y lleoliadau a ddisgrifir
- mae’r gwaith torri neu docio yn cael ei wneud er mwyn cynnal ffos
- mae’r goeden mewn perllan
- gellir adfer gwrychoedd, e.e. plygu/bondocio ym mis Mawrth ar yr amod nad yw’r gwaith yn aflonyddu ar adar sy’n nythu.
- caniateir gwaith adfer gwrychoedd e.e. plygu neu fondocio hyd at 30 Ebrill os yw’r gwaith ar gyfer cystadleuaeth a/neu ddigwyddiad hyfforddi yn benodol, cyn belled â bod caniatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru wedi’i sicrhau cyn y digwyddiad. Hefyd, mae’n rhaid i’r digwyddiad gydymffurfio â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Caniateir yr eithriadau a ddisgrifir uchod cyn belled â’ch bod hefyd yn bodloni eich rhwymedigaethau o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ar gyfer gwarchod adar gwyllt.

Dylech gadw tystiolaeth, e.e. ffotograffau a/neu unrhyw lythyrau oddi wrth yr awdurdodau cymwys perthnasol sy’n dangos yn glir pam roedd angen torri neu docio coed rhwng 1 Mawrth a 31 Awst. Dylid darparu’r rhain ar y cam archwilio os gofynnir amdanynt.

- Cwympo unrhyw goeden oni bai bod eithriad yn berthnasol. Mae eithriad yn cyfeirio at y canlynol:
  - trwydded cwympo coed ddilys
  - caniatâd cynllunio llawn
  - hysbysiad a gyflwynwyd i gydymffurfio â Deddf Senedd y Deyrnas Unedig neu Ddeddf Senedd Cymru, megis hysbysiad a roddwyd gan awdurdod priffyrdd
  - Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol

  Yr eithriad i’r uchod yw os yw’r goeden yn beryglus a bod perygl gwirioneddol ac uniongyrchol, yn hytrach na pherygl canfyddedig.

Os cewch eich herio, bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth bod y goeden yn beryglus, er enghraifft drwy adroddiad tyfwr coed achrededig neu dystiolaeth ffotograffig.

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r dyddiadur gweithgarwch a chadw tystiolaeth o'r rhesymau pam mae coed a/neu wrychoedd wedi cael eu torri / tocio rhwng 1 Mawrth a 31 Awst a sicrhau bod y dystiolaeth ar gael yn ystod yr archwiliad os gofynnir amdani.

## H6 Rhanddirymiadau

Os nad ydych chi'n gallu bodloni un neu fwy o ofynion y Cod i Bawb, rhaid i chi wneud cais am randdirymiad drwy gwblhau 'Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Ffurflen Rhanddirymiad neu Ymholiad' ar eich cyfrif RPW Ar-lein. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol. Gweler adran K am ragor o wybodaeth.

# Adran I: Gofyniad bod 10% o Fferm yn Gynefin

Mae'n un o ofynion y Cod i Bawb fod o leiaf 10% o bob fferm yn cael ei reoli fel cynefin er lles bioamrywiaeth yr un pryd â chynhyrchu bwyd. Mae hyn yn elfen bwysig o'r cynllun i helpu Llywodraeth Cymru i daro ein targedau bioamrywiaeth a thaclo'r argyfwng natur.

Bydd y SAF yn cyfrifo'n awtomatig yr arwynebedd sy'n ofynnol i fodloni'r trothwy o 10% ac yn seiliedig ar eich datganiad bydd yn cadarnhau a ydych wedi bodloni'r gofyn hwn yn y Cod i Bawb ai peidio.

Os ydym yn gweld nad ydych wedi bodloni'r gofyn bod 10% o'ch fferm yn gynefin (e.e. mewn archwiliad) gellir eich cosbi yn unol â'r Safonau Dilysadwy a'r Matrics Cosbau (gweler Adran Q).

## I1 Cyfrif trothwy'r gofyn bod 10% o fferm yn gynefin

Bydd yr arwynebedd lleiaf sydd ei angen i gyrraedd y trothwy o 10% yn cael ei gyfrif yn awtomatig ar y SAF ar sail Arwynebedd cymwys eich Fferm Gyfan.

Ni fydd y rhannau o dir comin fydd wedi'u neilltuo ichi (ac eithrio tir comin sy'n cael ei bori gan un porwr) na thir sy'n cael ei gyd-bori yn cael eu defnyddio na'u cynnwys i gyfrif y gofyn hwn.

Mae manylion sut bydd Arwynebedd y Fferm Gyfan yn cael ei gyfrif ar gael yn Adran D.

Enghraifft:

Bydd gofyn i fferm sydd ag Arwynebedd Fferm Gyfan o 75 hectar gael o leiaf 7.5 hectar o gynefin ar draws Arwynebedd y Fferm Gyfan h.y. 75ha / 10 = 7.5ha.

## I2 Gorchudd tir a nodweddion tirwedd cymwys ar gyfer y gofynd bod 10% o fferm yn gynefin

Defnyddir cyfanswm arwynebedd y gorchudd tir a nodweddion tirwedd canlynol i benderfynu a ydych wedi bodloni'r gofyn bod 10% o'ch fferm yn gynefin, yn y drefn a nodir isod:

1) Pob cynefin lled-naturiol fel y'i diffinnir o dan UA5: Cynnal Cynefin.
2) Coetiroedd llydanddail sydd wedi sefydlu. Mae'r rhain yn ardaloedd o goetir neu ganopi coed o 0.1ha neu fwy.
3) Perthi/gwrychoedd wedi'u hadfer neu eu creu ers 1 Ebrill 2022 o dan gynlluniau Glastir Uwch, Grantiau Bach Glastir neu Grantiau Bach yr Amgylchedd.
4) Perthi/gwrychoedd mewn 'cyflwr da'.
5) Cynefinoedd Dros Dro o dan UA6: Creu cynefinoedd dros dro ar dir wedi'i wella

Disgrifir isod fanylion pob gorchudd tir a nodwedd tirwedd, a sut byddant yn cael eu hystyried yn y SAF, gan gynnwys yr arwynebedd procsi fydd yn cael ei gyfrif ar gyfer perthi.

## I3 Pob cynefin lled-naturiol fel y'i diffinnir yn UA5: Cynnal Cynefin.

Bydd y cynefinoedd lled-naturiol hyn yn cael eu dangos ar eich map SFS. Os gwnaethoch chi lenwi ffurflen Cadarnhau Data’r SFS, bydd unrhyw rannau gafodd eu diweddaru i’w gweld ar y map SFS.

Byddwch yn cael cyfle i newid, cadarnhau a datgan pob ardal o gynefin lled-naturiol ar eich fferm yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar eich SAF 2026. Gweler Adran L7.

Ni chewch ddefnyddio cynefin ar dir comin a thir o dan drefniadau cyd-bori/pori cyfran, ac eithrio cynefin ar dir comin sy'n cael ei bori gan un porwr ac sydd wedi'i gofrestru fel parsel tir gyda RPW, i fodloni'r gofyn bod 10% o fferm yn gynefin.

Bydd y SAF yn cynnwys yn awtomatig pob darn o gynefin lled-naturiol sydd wedi'i ddatgan er mwyn cadarnhau a ydych wedi bodloni'r gofyn o 10%.

## I4 Coetiroedd llydanddail sydd wedi sefydlu. Arwynebedd o 0.1 hectar neu fwy o goetir

Bydd coetir llydanddail a chanopi coed yn cael eu dangos ar eich map SFS. Os gwnaethoch chi lenwi ffurflen Cadarnhau Data’r SFS, bydd unrhyw rannau gafodd eu diweddaru i’w gweld ar y map SFS.

Byddwch yn cael cyfle i gadarnhau a datgan pob ardal o goetir a chanopi coed ar eich fferm yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar eich SAF 2026. Gweler Adran L7.

Diffinnir yr ardaloedd o goetir llydanddail sydd wedi sefydlu a ddefnyddir ar gyfer y gofyniad 10% o gynefin fel:

- Coetir neu ganopi coed, wedi'u mapio mewn blociau unigol o 0.1 hectar neu fwy, lle mae gennych reolaeth lawn drostynt. Pwysig: gall yr arwynebedd gynnwys unrhyw ganopi sy'n hongian o ffermydd sy’n ffinio.
- Coetir llydanddail sydd wedi sefydlu hyd at y pwynt y byddwch yn cyflwyno eich SAF 2026. Efallai na fyddan nhw wedi'u cynnwys ar eich ffurflen Cadarnhau Data'r SFS neu ar fap yr SFS.
- Ystyr 'wedi sefydlu', yw coetiroedd sydd newydd eu plannu neu grwpiau o goed yn y ddaear. Nid oes angen i goetir sydd newydd ei blannu fod wedi cyrraedd aeddfedrwydd penodol.
- Mae 'llydanddail', yn golygu bod mwy na 80% o'r tir dan goed yn goed llydanddail. Gall hyd at 20% o’r tiroedd hyn fod o dan goed conwydd a bytholwyrdd.

Rhaid rheoli plociau unigol o 0.1 hectar neu fwy o goetir neu ganopi coed yn unol ag UA9: Cynnal Coetir. Gweler Adran J9.

Bydd y SAF yn cynnwys yn awtomatig pob coetir llydanddail 0.01 ha neu fwy gafodd ei ddatgan er mwyn cadarnhau a ydych wedi bodloni'r gofyn o 10%.

**Pwysig:** Ni fydd arwynebeddau o gynefin o fewn y coetir neu’r canopi coed, yn cael eu defnyddio i gyfri’r gofyn o 10%. Byddai hynny’n golygu bod y cynefin yn cael ei gyfrif ddwywaith.

Os nad ydych chi’n cyrraedd y trothwy yn awtomatig drwy’ch cynefin lled-naturiol a choetir, bydd angen i chi ystyried perthi/gwrychoedd a chynefin dros dro i fodloni'r gofyn bod 10% o'r fferm yn gynefin.

## I5 Perthi/Gwrychoedd wedi'u hadfer neu eu creu ers 1 Ebrill 2022 gyda chymorth Llywodraeth Cymru.

Dyma unrhyw berthi/gwrychoedd, sydd wedi'u hadfer neu eu creu ers 1 Ebrill 2022 o dan gynlluniau Glastir Uwch, Grantiau Bach Glastir neu Grantiau Bach yr Amgylchedd.

Nid oes angen i'r perthi hyn fodloni'r diffiniad o berth mewn 'cyflwr da’.

**Pwysig:** os cafodd y berth ei hadfer neu ei chreu cyn 1 Ebrill 2022, gyda neu heb gymorth Llywodraeth Cymru, bydd gofyn iddi fodloni’r diffiniad o berth mewn 'cyflwr da' i gyfrif at y 10% o gynefin gynefin.

Rhaid i chi barhau i fodloni gofynion y cynllun rydych wedi derbyn cyllid ganddo i adfer neu greu'r perthi er mwyn iddynt gael eu hystyried.

Diffinnir y rhain fel:

- Ystyr 'wedi'u hadfer' yw gwella cyflwr perthi, drwy adfywio (bondocio neu blygu) a/neu ailstocio a llenwi bylchau yn ôl yr angen i adfer dwysedd a pharhad y coesynnau.
- Ystyr 'wedi'u creu' yw sefydlu perthi lle nad oedd rhai yn bodoli cynt, fel ar hyd ffiniau caeau presennol neu i sefydlu ffiniau newydd.

Byddwch yn cael cyfle i ddatgan hyd y perthi/gwrychoedd hyn ar eich fferm yn yr Adran Data Caeau ar eich SAF 2026. Gweler Adran L6.

## I6 Perthi/gwrychoedd mewn 'cyflwr da’.

Rhaid i berthi/gwrychoedd mewn 'cyflwr da' fodloni'r meini prawf canlynol i gael eu cynnwys a'u hystyried ar gyfer y gofyn bod 10% o fferm yn gynefin:

- Yn gymysgedd o lwyni coediog sy'n darparu gwerth sylweddol o ran bioamrywiaeth ac wedi'u siapio trwy docio.

- Yn mesur o leiaf 3 metr o led a 2 fetr o uchder, neu 2 fetr o led a 3 metr o uchder.
  - Dylid mesur y perthi/gwrychoedd yn y gaeaf, ar ôl cwblhau unrhyw waith torri/tocio.
  - Dylid mesur yr uchder ar waelod y perthi/gwrychoedd, sef y ddaear neu ben clawdd pridd os oes un.
  - Dylid mesur y lled o waelod y berth.

- Yn o leiaf 20 metr o hyd parhaus, wedi'i fesur ar hyd ffin cae traddodiadol. Mae angen i hwn fod yn ffin parsel tir cyfredol.
  - Nid yw gatiau yn ffurfio rhan o'r hyd parhaus. Os oes giât, bydd y naill ochr a'r llall i'r giât yn cael ei ystyried yn ddechrau darn newydd o berth.

- Ni chaiff bylchau gyfrif am fwy na 5% o hyd parhaus y berth.
  - Diffinnir bwlch fel gwagle clir ym mhroffil fertigol y berth/gwrych (o'r rhan uchaf i'r gwaelod) sy'n fwy nag 1 metr o hyd.
  - Mae hyn fel y gellir cael bylchau derbyniol fel pwyntiau mynediad camfeydd, cafnau dŵr sydd wedi'u hymgorffori ac ardaloedd cysgodol o dan goed perthi.

  Enghraifft:

  - Perth o 30 metr, gyda bwlch o 3 metr yn y canol. Gan fod y bwlch yn fwy na 5% a bod hyd y perthi sy'n weddill yn llai nag 20 metr parhaus yr un, ni ellir ei gynnwys yn y berth.

- Rhaid atal da byw rhag niweidio'r perthi/gwrychoedd o'r ddwy ochr.
  - Cyn belled nad yw da byw yn gallu cyrraedd y berth, nid oes angen ei ffensio h.y. lle mae un ochr i'r berth yn ffinio â ffordd gyhoeddus, neu os yw'r berth ar dir âr.
  - Os bydd parseli tir sy'n ffinio yn newid i gadw da byw, dylid codi ffensys.
  - Mae'n dderbyniol defnyddio ffensys trydan i amddiffyn y berth os yw'r ffensys trydan yn cadw da byw allan.
  - Os oes gennych reolaeth ar un ochr y berth yn unig ac nad yw ochr eich cymydog yn ddiogel rhag da byw, ni ellir cynnwys y berth.

- Pan fydd dwy ochr y berth wedi'i ffensio, rhaid cael o leiaf 3 metr rhwng y ddwy ffens.

  Fel consesiwn, byddwn yn caniatáu isafswm o 2 fetr rhwng ffensys dwbl os yw'r ffensys wedi'u codi o dan gynllun Glastir Sylfaenol o 1 Ionawr 2012 neu gynllun Glastir Uwch o 1 Ionawr 2013.

Fodd bynnag, rhaid i'r holl berthi eraill â ffensys dwbl, gyda neu heb gymorth Llywodraeth Cymru, fod ag o leiaf 3 metr rhyngddynt i fodloni'r diffiniad 'Cyflwr Da.

- Gellir cynnwys perthi ger nodweddion anghymwys fel ffyrdd, traciau a thir y datganwyd y cynhelir gweithgaredd anamaethyddol arno i fodloni'r gofyn bod 10% o'r fferm yn gynefin.

Byddwch yn cael cyfle i ddatgan hyd y perthi/gwrychoedd mewn cyflwr da ar eich fferm yn yr Adran Data Caeau ar eich SAF 2026. Gweler Adran L6.

Ar gyfer ffiniau mewnol: Os yw'n berth fewnol rhwng eich parseli eich hun, byddai hyn yn cael ei ystyried fel bod gennych 50% o reolaeth ar gyfer pob parsel gan arwain at 100% i gyd.

Ar gyfer ffiniau allanol: Bydd angen i chi gadarnhau a oes gennych reolaeth dros 100% o'r berth (y ddwy ochr) neu dim ond 50% (un ochr).

## I7 Cyfrif arwynebedd cynefin perth sydd wedi’i ddatgan ar gyfer y gofyn o 10%

Byddwn yn defnyddio'r cyfrifiad canlynol i bennu arwynebedd cynefin y perthi/gwrychoedd a fydd yn cyfrannu at y gofyn bod 10% o fferm yn gynefin:

- Hyd y berth wedi'i luosi â 3 lle mae gennych 100% o reolaeth
- Hyd y berth wedi'i luosi â 1.5 lle rydych yn cadarnhau bod gennych reolaeth dros 50% o'r berth (un ochr)
- Yna mae'r cyfanswm mewn metrau sgwâr yn cael ei rannu â 10,000 i roi ffigur mewn hectarau.

Enghraifft:

Er enghraifft, mae perth 100 metr o hyd (lle mae gennych reolaeth ar y ddwy ochr) yn cael ei luosi â 3, sy’n rhoi 300 metr sgwâr. Bydd hyn yn cyfateb i 0.03 hectar i gyfrannu tuag at y gofyn bod 10% o'r fferm yn gynefin h.y. 300m$^2$ /10,000 = 0.03ha.

**Pwysig:** Nid yw perthi a ddefnyddir i gyfrannu at y gofyn bod 10% o fferm yn gynefin yn gymwys am y Taliad Cynnal Cynefin.

Rhaid rheoli'r holl berthi sy'n cael eu torri neu eu tocio'n rheolaidd yn unol ag UA8: Rheoli Perthi/Gwrychoedd. Gweler Adran J8.

Os nad oes gennych ddigon o gynefin lled-naturiol, coetir a pherthi i gyrraedd y trothwy, bydd angen i chi greu cynefin dros dro ar eich daliad er mwyn sicrhau eich bod yn bodloni'r gofyn bod 10% o fferm yn gynefin.

## I8 Cynefin dros dro wedi'u greu o dan UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella.

Os nad oes gennych ddigon o gynefin ar eich fferm ar hyn o bryd i fodloni'r gofyn bod 10% o fferm yn gynefin, rhaid i chi greu cynefin dros dro ychwanegol yn unol ag UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella.

Byddwch yn cael cyfle i ddatgan unrhyw gynefin dros dro sydd eisoes wedi'i greu a chadarnhau arwynebedd a lleoliad unrhyw gynefin dros dro newydd a gaiff ei greu yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar eich SAF 2026. Gweler Adran L7.

Bydd gennych tan ddiwedd blwyddyn y cynllun i greu'r cynefin dros dro; a bydd angen cadarnhau eich bod wedi cwblhau UA6 ar Ddangosfwrdd Cyffredinol yr SFS.

Mae ardaloedd o gynefin dros dro sydd wedi'u creu i fodloni'r trothwy o 10% yn gymwys ar gyfer y Taliad Cynnal Cynefin hyd at y trothwy o 10%.

Ni fydd unrhyw ardaloedd o gynefin dros dro sydd wedi'u creu uwchlaw'r trothwy o 10% yn gymwys am y Taliad Cynnal Cynefin.

**Os oes angen cynefin dros dro, rydym yn argymell eich bod yn creu digon i fynd dros y trothwy o 10% rhag ofn bod yr arwynebedd yn cael ei gamgyfrif.**

## I9 Sut bydd y SAF yn cyfri'r gofyn bod 10% o fferm yn gynefin

Bydd SAF 2026 yn gwneud y canlynol yn awtomatig:

- Cyfrif **Arwynebedd y Fferm Gyfan** ar sail y parsel tir ac unrhyw nodweddion anghymwys sydd wedi'u cadarnhau ar y parseli tir y mae SFS yn cael eu hawlio arnynt yn yr Adran Data Caeau.
- Adio'r arwynebeddau sydd wedi'u datgan ar gyfer pob math o gynefin unigol a nodwyd uchod a chyfrif **Cyfanswm y Cynefin** ar eich fferm.
- Cyfrif a chadarnhau a ydych wedi bodloni'r gofyn bod 10% o gynefin:

Bydd canran y cynefin ar y fferm yn cael ei gyfrif fel a ganlyn:

**<u>Cyfanswm Arwynebedd o dan Gynefin</u> x 100**
**Arwynebedd y Fferm Gyfan**

Ni fyddwch yn gallu cyflwyno eich SAF nes eich bod wedi datgan digon o gynefin i fodloni'r gofyn bod 10% o'r fferm yn gynefin, naill ai ar unwaith neu yn ystod blwyddyn y cynllun.

**<u>Enghraifft 1</u>**: Y trothwy o 10% gynefin wedi'i fodloni gan gynefin lled-naturiol presennol a choetir llydanddail wedi'u sefydlu ar y fferm.

**Arwynebedd Fferm Gyfan** **= 95.0 ha**

**Gofynion bod 10% yn gynefin (10% o Arwynebedd Fferm Gyfan)** **= 9.5 ha**

- Arwynebedd cynefin parhaol h.y. cynefin lled-naturiol bresennol = 8.0 ha
- Arwynebedd coetir llydanddail = 3.0 ha
- Hyd y perthi/gwrychoedd (wedi'i drosi'n arwynebedd) = 0.0 ha
- Arwynebedd cynefin dros dro = 0.0 ha

**Cyfanswm Arwynebedd o dan Gynefin = 11.0 ha**

**% Cynefin ar y fferm <u>Cyfanswm y Cynefin</u> - 11.0 ha x 100 = 11.6%**
**Arwynebedd y Fferm Gyfan - 95.0 ha**

Gan fod y trothwy o 10% eisoes wedi'i fodloni gan gynefin lled-naturiol a choetir llydanddail, nid oes angen datgan perthi/gwrychoedd, na chynefin dros dro i fodloni'r gofyn.

**<u>Enghraifft 2:</u>** Nid yw'r gofyn bod 10% o fferm yn gynefin wedi'i fodloni gan gynefin lled-naturiol a choetir llydanddail.

**Cyfanswm Arwynebedd y Fferm Gyfan = 95.0 ha**

**Gofynion bod 10% yn gynefin (10% o Arwynebedd Fferm Gyfan) = 9.5 ha**

- Arwynebedd cynefin parhaol h.y. cynefin lled-naturiol bresennol = 5.0 ha
- Arwynebedd coetir llydanddail = 0.0 ha
- Hyd y perthi/gwrychoedd (wedi'i drosi'n arwynebedd) = 1.0 ha
- Arwynebedd cynefin dros dro = 3.5 ha

**Cyfanswm Arwynebedd o dan Gynefin = 9.5 ha**

**% Cynefin ar y fferm <u>Cyfanswm y Cynefin</u> – 9.5 ha x 100 = 10.0%**
**Arwynebedd y Fferm Gyfan - 95.0 ha**

Gan nad oedd y trothwy o 10% wedi'i fodloni gan gynefin lled-naturiol a choetir llydanddail, bydd angen cynnwys cynefin ychwanegol o unrhyw berthi/gwrychoedd a ddatganwyd ar y SAF.

Fodd bynnag, gan mai dim ond 6 hectar yw arwynebedd y cynefin lled-naturiol a'r perthi gyda'i gilydd, ac mae angen 9.5 hectar i fodloni'r gofyniad bod 10% o'r fferm yn gynefin, **rhaid creu o leiaf 3.5 hectar o gynefin ychwanegol dros dro i gyrraedd y trothwy o 10%.**

## I10 Canfyddiadau Archwiliad

Yn ystod yr archwiliad, byddwn yn gwirio'r cynefin lled-naturiol presennol, y coetir llydanddail sydd wedi'i sefydlu ac unrhyw berthi/gwrychoedd a Chynefin dros dro a ddatganwyd i gyrraedd y trothwy o 10% o gynefin.

Bydd unrhyw dir neu nodweddion tirwedd nad ydynt yn bodloni gofynion neu ddiffiniadau'r UA yn cael eu tynnu ac ni fyddwn yn defnyddio unrhyw nodweddion

cynefin ychwanegol a welir yn yr archwiliad i 'wrthbwyso' yn erbyn unrhyw orchudd tir neu nodweddion y bernir nad ydynt yn gymwys h.y. ni fyddwn yn cyfnewid nodweddion anghymwys am unrhyw nodweddion cymwys a welir yn yr archwiliad, yn ôl-weithredol.

**Rydym yn argymell eich bod yn datgan digon o gynefin i fynd y tu hwnt i'r trothwy o 10% i ganiatáu ar gyfer unrhyw gamgyfrifo neu ardaloedd anghymwys y gellir eu canfod yn yr archwiliad.**

Os ydym yn canfod nad ydych wedi bodloni'r gofyn bod 10% o'r fferm yn gynefin gallech gael eich cosbi yn unol â'r Safonau Dilysadwy a Matrics Cosbau (gweler Adran Q).

## I11 Creu cynefinoedd parhaol o dan Haen Opsiynol y cynllun

Ni fydd unrhyw gynefin parhaol sy'n cael ei greu, ar ôl i chi gyflwyno eich SAF, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu creu o dan Haen Opsiynol y cynllun, yn cyfrif tuag at y gofyn bod 10% o'r fferm yn gynefin o fewn blwyddyn y cynllun.

Bydd angen cadarnhau a datgan arwynebedd cynefin parhaol sydd newydd ei greu ar eich SAF ym mlwyddyn ganlynol y cynllun, h.y. gall cynefin parhaol sy'n cael ei greu ar ôl 15 Mai 2026 gyfrif tuag at y gofynion bod 10% o'r fferm yn gynefin ym mlwyddyn 2027 y cynllun Cyffredinol.

## Adran J: Gweithredoedd Cyffredinol yr SFS

Mae Haen Gyffredinol yr SFS yn cynnwys set o ofynion - y Gweithredoedd Cyffredinol (UA) fel rydyn ni'n eu galw.

Y Gweithredoedd Cyffredinol yw:

- UA1: Iechyd Pridd
- UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu
- UA3: Meincnodi
- UA4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- UA5: Cynnal Cynefinoedd
- UA6: Creu cynefinoedd dros dro ar dir wedi'i wella
- UA7: Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig
- UA8: Rheoli Perthi/Gwrychoedd
- UA9: Cynnal Coetir
- UA10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd
- UA11: Yr Amgylchedd Hanesyddol
- UA12: Iechyd a Lles Anifeiliaid

Mae gofynion manwl pob Gweithred Gyffredinol a'r rhesymau drostynt wedi'u nodi yn yr adrannau isod, a byddant yn esbonio'r canlynol:

### J1 Pwy ddylai gynnal y Weithred Gyffredinol

Rhaid cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol dim ond os ydyn nhw'n berthnasol i'ch fferm. Er enghraifft, efallai na fydd y Gweithredoedd Cyffredinol canlynol yn berthnasol i fusnes eich fferm chi:

- Ni fydd UA1 yn berthnasol ichi os nad oes mewnbynnau (naturiol neu artiffisial) neu galch wedi'u rhoi neu na fyddant yn cael eu rhoi ar eich tir wedi'i wella.
- Ni fydd UA2 yn berthnasol ichi os nad ydych chi'n defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion ar eich tir.
- Ni fydd UA6 yn berthnasol ichi os oes gennych ddigon o gynefin i fodloni'r gofyn bod 10% yn gynefin.
- N fydd UA7 yn berthnasol ichi os nad oes safle dynodedig fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ar eich fferm.
- Ni fydd UA8 yn berthnasol ichi os nad oes gan eich fferm berthi/gwrychoedd neu os nad ydych yn Rheoli unrhyw un o'ch perthi/gwrychoedd drwy dorri neu docio.

- Ni fydd UA9 yn berthnasol ichi os nad oes gennych goetir mewn blociau unigol o ganopi coed 0.1ha neu fwy.
- Ni fydd UA11 yn berthnasol ichi os nad oes gennych unrhyw nodweddion hanesyddol.
- Ni fydd UA12 yn berthnasol ichi os nad oes gennych dda byw ar eich tir rydych chi'n berchennog neu'n geidwad cofrestredig arnyn nhw.

## J2 Gofynion

Manylion llawn gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol y mae'n rhaid eu bodloni.

## J3 Argymhellion Rheoli

Yn disgrifio argymhellion rheoli, i'ch tywys i gyflawni'r nodau a'r canlyniadau lle bo hynny'n briodol. Yr arfer gorau a ddisgrifir yma, ac ni fyddwn yn eu gwirio mewn archwiliad.

## J4 Llacio Rheolau

Manylion beth dylech ei wneud os nad ydych yn gallu bodloni un o fwy o ofynion y Weithred Gyffredinol.

## J5 SAF 2026

Yn esbonio pa wybodaeth y bydd angen ei datgan ar SAF 2026. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lenwi Dangosfwrdd Cyffredinol SFS.

## J6 Dangosfwrdd Cyffredinol SFS

Yn esbonio pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chadarnhau ar Ddangosfwrdd Cyffredinol SFS. Fe welwch ragor o fanylion am y dangosfwrdd yn Adran L12.

## J7 Cadw cofnodion

Yn esbonio pa gofnodion y bydd angen eu cadw ar gyfer pob un o'r Gweithredoedd Cyffredinol a beth fydd yn rhaid edrych arno mewn archwiliad.

**Pwysig:** Y Gweithredoedd Cyffredinol yw gofynion y cynllun. Rhaid i chi sicrhau'ch bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â'ch daliad a busnes eich fferm.

# J1: UA1: Iechyd Pridd

## J1.1 Nod

Prif amcan y weithred hon yw'ch helpu i ddeall cyflwr eich pridd ac i gynllunio'n effeithiol sut i wella a/neu gynnal iechyd, cynhyrchiant a gwytnwch hirdymor eich pridd.

Mae samplu a dadansoddi pridd yn angenrheidiol er mwyn gallu nodi ble mae angen targedu gweithred neu waith rheoli. Gall eich helpu i gynhyrchu bwyd yn fwy cynaliadwy ac effeithlon; lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddyn nhw a gwella canlyniadau amgylcheddol.

Mae cylch profi pridd 5 mlynedd yn cael ei ystyried yn arfer da ar gyfer systemau amaethyddol dwysedd isel. Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio canlyniadau profion pridd at ddibenion monitro ac adrodd cenedlaethol. Ni fydd canlyniadau'r profion yn cael eu defnyddio at unrhyw ddiben arall ac ni fydd modd eu defnyddio i adnabod ffermydd unigol h.y. byddwn yn crynhoi'r data.

## J1.2 Pwy ddylai gynnal y Weithred Gyffredinol hon

Rhaid i chi gynnal y Weithred Gyffredinol hon os ydych chi'n hawlio ar gae sydd â Thir wedi'i Wella. Tir yw hwnnw sydd wedi cael ei reoli i wella cynhyrchiant amaethyddol, er enghraifft trwy ei ailhau, neu dir sydd wedi neu a allai dderbyn calch a/neu fewnbynnau.

Rydym yn diffinio mewnbynnau fel slyri, gwrteithiau anorganig, tail a gwrteithiau organig, tail buarth, calch, slag basig, gwymon calchog, slwtsh carthion a slwtsh papur gwastraff.

Nid oes angen cynnal profion yr Haen Gyffredinol ar dir sy'n cael ei ystyried yn dir cynefin parhaol.

## J1.3 Gofynion

Rhaid i chi sicrhau bod profion yn cael eu cynnal ar o leiaf 20% o'r caeau sydd â thir wedi'i wella yn 2026 (blwyddyn 1) neu eu bod wedi cael eu cynnal yn y 5 mlynedd ddiwethaf. Rhaid i chi brofi pridd ar gyfartaledd 20% o'ch caeau sy’n cynnwys tir wedi'i wella o flwyddyn 2 ymlaen, fel bod pob cae yn cael ei samplu o fewn cyfnod o 5 mlynedd oni bai eich bod yn dewis cael seibiant ym mlwyddyn 2.

<u>Profion ar Bridd cyn yr SFS</u>

Gall profion pridd gafodd eu cynnal ar gaeau sy'n cynnwys tir wedi'i wella ar ôl 1 Ionawr 2022 gyfrif tuag at y Weithred Gyffredinol hon. Rhaid i ganlyniadau'r profion

hynny fod wedi cynnwys canlyniadau ar gyfer P, K, Mg a pH ond nid oes angen canlyniad ar gyfer Deunydd Organig.

Yn unol ag arfer da, bydd angen cynnal profion pridd ar gaeau eto 5 mlynedd o ddyddiad y prawf diwethaf. Mae hyn yn unol â gofynion profi pridd.

**Profion Pridd o dan yr SFS**

O 1 Ionawr 2026 ymlaen, rhaid i chi o leiaf brofi am Ffosfforws (P), Potasiwm (K), Magnesiwm (Mg), Hydrogen Potensial (pH - pH y Pridd yw mesur asidedd neu alcalinedd y pridd) a Deunydd Organig Pridd.

Rhaid i chi anfon eich samplau pridd i labordy achrededig i'w profi. Mae'n bwysig bod holl samplau'ch fferm yn cael eu hanfon i'r un labordy achrededig i sicrhau eu bod yn cael eu trin a'u dadansoddi'n union yr un fath a bod modd cymharu'r canlyniadau.

Mae gwefan AHDB yn rhestru labordai achrededig lle gallwch anfon samplau pridd i'w dadansoddi ac mae'n darparu manylion cwmnïau sy'n gallu samplu'r pridd a dadansoddi'r samplau yn y labordy.

Cyhoeddir Canllawiau Technegol ar gyfer Profi Pridd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rhaid cynnal y profion pridd erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn.

Gallai'r drefn brofi 5 mlynedd edrych fel hyn:

| Blwyddyn y Cynllun | % o'r caeau sy'n cynnwys tir wedi'i wella sydd wedi'u profi | Y gofyniad cronnus lleiaf |
|---|---|---|
| Blwyddyn 1 | 20% o'r caeau wedi'u profi | 20% wedi'u profi |
| Blwyddyn 2 | 20% o'r caeau wedi'u profi | 40% wedi'u profi |
| Blwyddyn 3 | 20% o'r caeau wedi'u profi | 60% wedi'u profi |
| Blwyddyn 4 | 20% o'r caeau wedi'u profi | 80% wedi'u profi |
| Blwyddyn 5 | 20% o'r caeau wedi'u profi | 100% wedi'u profi |

Gallwch brofi mwy nag 20% mewn unrhyw flwyddyn cyn belled â'ch bod yn bodloni'r hyn sy'n ofynnol bob blwyddyn dros y cyfnod o bum mlynedd.

Os byddwch chi'n dewis seibiant ym mlwyddyn 2, gallai'r drefn profi pridd edrych fel hyn;

| Blwyddyn y Cynllun | % o'r caeau sy'n cynnwys tir wedi'i wella sydd wedi'u profi | Y gofyniad cronnus lleiaf |
|---|---|---|
| Blwyddyn 1 | 20% o'r caeau wedi'u profi | 20% wedi'u profi |
| Blwyddyn 2 | Toriad – dim profion pridd wedi'u cynnal | Seibiant |
| Blwyddyn 3 | 20% o'r caeau wedi'u profi | 40% wedi'u profi |
| Blwyddyn 4 | 20% o'r caeau wedi'u profi | 60% wedi'u profi |
| Blwyddyn 5 | 20% o'r caeau wedi'u profi | 80% wedi'u profi |
| Blwyddyn 6 | 20% o'r caeau wedi'u profi | 100% wedi'u profi |

Os na fyddwch yn bodloni’r gofynion, efallai y cewch eich cosbi yn unol â’r Safonau Dilysadwy a’r Matrics Cosbau (gweler adran Q).

## J1.4 SAF 2026

Byddwn yn nodi ar y SAF y tir sydd gennych sydd wedi'i wella ac yn defnyddio'r wybodaeth honno i nodi'r caeau a allai o bosib fod angen cynnal profion pridd arnyn nhw.

Os oes gennych dir wedi'i wella nad oes mewnbynnau wedi'u rhoi arno ers 1 Ebrill 2022, a/neu na fydd yn derbyn mewnbynnau naturiol nac artiffisial a/neu galch o fewn blwyddyn y cynllun, bydd angen i chi gadarnhau hyn ar y SAF. Bydd y caeau hynny'n cael eu tynnu o'r gofyn i gynnal profion pridd.

Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i nodi oes angen cynnal y Weithred Gyffredinol hon ar eich daliad a chaiff ei dangos ar eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS.

## J1.5 Dangosfwrdd Cyffredinol SFS

Bydd Dangosfwrdd Cyffredinol SFS yn nodi'r holl gaeau y bydd yn rhaid cynnal profion pridd arnyn nhw.

Rhaid i chi gofnodi canlyniadau profion pridd pob cae unigol yr ydych wedi cynnal prawf pridd arno erbyn 15 Ionawr 2027 ar Ddangosfwrdd Cyffredinol SFS.

Bydd angen i chi gadarnhau rhif y cae, dyddiad y prawf a chanlyniadau'r prawf (P, K, Mg, pH, Deunydd Organig).

Rhaid i chi o leiaf nodi un set o ganlyniadau profion pridd ar gyfer pob cae.

Nid yw canlyniad y Deunydd Organig yn orfodol ar gyfer profion cyn 1 Ionawr 2026, ac ar gyfer profion a gynhaliwyd cyn 1 Ionawr 2026 dim ond dyddiad y profion pridd y mae'n orfodol i chi ei nodi.

Pan fydd yr wybodaeth wedi'i dilysu, bydd y dangosfwrdd yn cadarnhau a ydych wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon ar sail canlyniadau'r profion pridd sydd wedi'u cofnodi.

Bydd canlyniadau profion pridd a gofnodir yn cael eu defnyddio ar gyfer monitro cenedlaethol yn unig ac nid ar gyfer asesu ar lefel fferm. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Overview-of-National-Soil-Monitoring-Schemes-Dec24.pdf

## J1.6 Cadw cofnodion

Cadwch eich canlyniadau ar y fferm am o leiaf bum mlynedd a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio.

## J1.7 Cyswllt Ffermio

Ar ôl 1 Ebrill 2026, ni fydd Cyswllt Ffermio yn ariannu profion pridd ar gyfer ffermwyr sydd yn yr SFS, ond bydd cymorth yn dal ar gael i ddehongli'r canlyniadau a chynghori ar unrhyw gamau priodol dilynol.

# J2: UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM)

## J2.1 Nod

Mae Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM) yn gweithredu ar lefel y fferm gyfan ac yn defnyddio pob dull sydd ar gael i atal, monitro a rheoli plâu, chwyn a chlefydau.

Gall helpu i reoli ymwrthedd i blaladdwyr a lleihau'r risgiau iddyn nhw niweidio'r amgylchedd trwy dargedu eu defnydd a defnyddio atebion heb gemegion.

Nid yw IPM yn set sefydlog o arferion. Yn hytrach, mae'n ffordd hyblyg o wneud pethau fydd yn eich helpu i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer eich fferm.

## J2.2 Pwy ddylai gynnal y Weithred Gyffredinol hon

Rhaid i chi gynnal y Weithred Gyffredinol hon os ydych chi'n defnyddio Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion (PPP), neu'n cyflogi contractwyr i'w defnyddio, ar unrhyw dir rydych chi'n ei ffermio ac yn hawlio arno. Hyd yn oed yr ychydig bach o PPP a ddefnyddir i sbot-chwistrellu neu wrth ddefnyddio offer llaw e.e. wrth ddefnyddio Weed Wiper neu chwistrellu ysgall/dail tafol.

Mae PPP yn cynnwys y canlynol; pryfladdwyr, chwynladdwyr, plaladdwyr, ffwngladdwyr (gan gynnwys dresin hadau), molwsgladdwyr neu reoleiddwyr twf planhigion.

Mae rhestr o gynhyrchion cymeradwy ar gael yn y: Gofrestr Plaladdwyr

Os nad ydych wedi defnyddio, nac yn bwriadu defnyddio, PPP yn ystod y flwyddyn galendr gyfan, nid oes angen i chi gynnal y Weithred Gyffredinol hon.

## J2.3 Gofynion

**PPP**

Rhaid i chi gasglu a chofnodi data'r holl **PPP** sy'n cael ei ddefnyddio ar eich tir.

Dyma un o ofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS: SMR10 – cyfyngiadau ar ddefnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion a'r Cod i Bawb. Dylai'ch cofnodion gynnwys y manylion canlynol;

- pryd - dyddiad ac amser ei ddefnyddio
- lle – lleoliad a maint yr ardal oedd yn cael ei thrin
- pa gnwd oedd yn cael ei drin
- pam – y rheswm dros roi'r driniaeth
- pa gynnyrch a ddefnyddiwyd – gan gynnwys Plaladdwyr a Gymeradwywyd gan y Gweinidog (MAPP). Ar gyfer cynhyrchion a awdurdodwyd gyntaf cyn 1 Gorffennaf 1999, nodwch y rhif MAFF.
- faint – o gynnyrch a dresin
- y tywydd adeg rhoi’r driniaeth
- unrhyw wybodaeth arall berthnasol

Nid oes fformat safonol ar gyfer cofnodi defnydd o PPPs. Efallai y byddai'n help i chi ddefnyddio'r **Cofnod Defnyddio Plaladdwyr** ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Pwysig:** Os na fyddwch wedi cynnal y weithred hon, gallai'ch taliad Cynllun Cyffredinol gael ei gosbi yn unol â Safonau Dilysadwy Sylfaen Reoleiddio'r SFS a'r Matrics Cosbau (gweler Adran Q).

## Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu

Mae **cynllun rheolaeth integredig ar blâu (IPM)** yn golygu mynd ati mewn ffordd gydgysylltiedig i atal, canfod a rheoli plâu, chwyn a chlefydau.

Rhaid i chi gynnal asesiad bob blwyddyn o'r defnydd o PPP a'i gofnodi yn eich cynllun IPM. Rhaid diweddaru'r cynllun bob blwyddyn a'i ddefnyddio i adolygu'ch penderfyniadau ar reoli plâu trwy gydol y flwyddyn.

Nid ydym yn dweud wrthych pa gynllun y dylech ei gwblhau, gan fod gan y diwydiant lawer o dempledi addas y gallech eu defnyddio.

Mae'r sefydliadau canlynol yn cynnig cyngor a gwybodaeth am ddim (nid yw hon yn rhestr lawn);

- Mae ADAS yn cynnal ymchwil ac yn rhoi arweiniad.
- Mae hyb IPM Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) yn darparu offer ac arweiniad ar IPM i ffermwyr
- Mae IPM@Hutton yn cynnal ymchwil ac yn darparu adnoddau ar IPM
- Mae IPM Works yn rhwydwaith sy'n arddangos ac yn hyrwyddo strategaethau IPM
- Mae Voluntary Initiative yn gynllun o dan arweiniad y diwydiant sy'n darparu offer cynllunio, ffeithluniau a chyngor ar IPM i ffermwyr

Dylai'ch cynllun IPM ddangos y canlynol o leiaf:

- eich asesiad o ddulliau eraill a ddefnyddir i leihau'r defnydd o gemegion
- asesiad o'ch trefniadau presennol ar gyfer rheoli plâu cnydau, chwyn a chlefydau,
- cyfleoedd i ddefnyddio dulliau IPM ychwanegol.

Mae dulliau IPM yn cynnwys defnyddio technegau tyfu priodol, cylchdroadau cnydau amrywiol, cydgnydio, cnydau sydd ag ymwrthedd i blâu, defnydd effeithiol a phenodol o blaladdwyr a gwrtaith a chynefinoedd bywyd gwyllt o gwmpas caeau i ddenu pryfed rheibus fyddai'n bwyta plâu cnydau.

Rydym yn eich annog i ddefnyddio'r wybodaeth hon i helpu i nodi cyfleoedd i dargedu PPP a defnyddio llai ohonyn nhw i'n helpu i sicrhau'r manteision uchod.

Nid oes angen i chi gwblhau Cynllun IPM ar wahân os ydych eisoes yn cwblhau cynllun blynyddol sy'n cynnwys yr holl wybodaeth uchod.

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: [Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM) | LLYW.CYMRU]

Os na fyddwch wedi cynnal y weithred hon, gallai'ch taliad Cynllun Cyffredinol gael ei gosbi yn unol â Safonau Dilysadwy Sylfaen Reoleiddio'r SFS a'r Matrics Cosbau (gweler Adran Q).

## J2.4 SAF 2026

Rhaid i chi gadarnhau ar SAF 2026 a ydych chi'n defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, PPP ar eich daliad yn 2026.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i weld a yw'r Weithred Gyffredinol yn berthnasol i'ch fferm ac a fydd angen ei dangos ar eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS.

## J2.5 Dangosfwrdd Cyffredinol SFS

Rhaid i chi gadarnhau ar eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS erbyn 15 Ionawr 2027 eich bod wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

Nid oes angen i chi, wrth gadarnhau, gyflwyno cofnodion o'ch defnydd PPP neu gyflwyno eich cynllun IPM.

## J2.6 Cadw cofnodion

Rhaid i'r cofnod o'ch defnydd o PPP a'ch cynllun IPM blynyddol gael eu cwblhau a'u cadw ar eich fferm am o leiaf 5 mlynedd a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio os gofynnir amdanynt.

# J3: UA3: Meincnodi

## J3.1 Nod

Nod y weithred hon yw helpu'ch busnes i elwa ar brosesau meincnodi sylfaenol gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol (Dangosyddion).

Bydd mesur a monitro agweddau allweddol ar eich busnes ffermio trwy'r broses meincnodi yn eich helpu i weld cyfleoedd i wella a bod yn fwy effeithlon.

Mae'r Dangosyddion yn dangos pa feysydd rydych yn gwneud yn dda ynddyn nhw a'r meysydd hynny y mae angen eu gwella yn ôl safon gweddill y diwydiant a'r sector.

Gellir defnyddio'r Dangosyddion hyn i fonitro a gwella perfformiad ffermydd, gwella gallu ffermydd i addasu i newid, gwneud ffermydd yn fwy proffidiol a sicrhau manteision amgylcheddol yr un pryd.

Gall y weithred hon gysylltu â Gweithredoedd Cyffredinol eraill, yn enwedig gofynion UA12: Iechyd a lles anifeiliaid.

## J3.2 Pwy ddylai gynnal y Weithred Gyffredinol hon

Chi fydd yn gorfod cynnal y Weithred Gyffredinol hon.

## J3.3 Gofynion

Rhaid i chi gwblhau'r meincnodi erbyn 31 Rhagfyr 2026.

Bydd angen i chi naill ai lenwi:

1) Offeryn meincnodi gan y diwydiant neu gyflenwr cymeradwy.  Dyma enghreifftiau o offer o'r fath:
    - AHDB Farmbench.
    - Arolwg Busnes Fferm (Cymru a Lloegr)

   Neu

2) Gallwch ddefnyddio’r offer meincnodi: FARMDATA+ fydd ar gael o 1 Ebrill 2026 drwy Cyswllt Ffermio.

**Pwysig:** Ni fydd eich cofnodion chi'n dderbyniol i ni fel tystiolaeth o feincnodi. Rhaid i chi ddefnyddio offer meincnodi pwrpasol.

Byddwn yn adolygu manylion yr offer meincnodi a ddefnyddir yn 2026 i ddatblygu rhestr lawn o offer meincnodi sy'n dderbyniol o dan y cynllun ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Os nad ydych yn bodloni'r gofynion, gellir eich cosbi yn unol â'r Safonau Dilysadwy a'r Matrics Sancsiynau (gweler Adran Q).

**Offer meincnodi FARMDATA+**

Mae FARMDATA+ wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer yr SFS a bydd ar gael am ddim drwy Cyswllt Ffermio o 1 Ebrill 2026.

Bydd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y sectorau canlynol: Âr, cig eidion, llaeth, defaid, moch, dofednod a garddwriaeth. Mae ganddo hefyd adran "Fferm Gyfan".

Mae manylion cofrestru a rhestr lawn o'r Dangosyddion sydd ar gael ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS i'w gweld yn Atodiad 1 ynghyd â chanllawiau ar sut i gofrestru ar gyfer y Rhaglen Cyswllt Ffermio newydd a sut i gysylltu â FARMDATA+.

Os ydych chi'n defnyddio'r offer meincnodi FARMDATA+ ar gyfer y Weithred Gyffredinol hon, bydd gofyn i chi gwblhau'r canlynol:

- Os oes gennych fferm un sector, rhaid i chi gwblhau o leiaf ddau Ddangosydd i'r sector, ac un Dangosydd "Fferm Gyfan".
- Bydd ffermydd sy'n perthyn i fwy nag un sector yn gorfod cwblhau o leiaf ddau Ddangosydd penodol i bob sector, ac un Dangosydd “Fferm Gyfan”
- Os nad ydych chi'n berchen ar nac yn cadw da byw nac yn tyfu cnydau, rhaid i chi gwblhau 3 Dangosydd 'Fferm Gyfan'.

Dylai'r Dangosyddion hyn adlewyrchu’r agweddau ar eich busnes ffermio sydd fwyaf perthnasol ac ystyrlon i’r gwaith rydych chi’n ei wneud.

Ni fydd angen cwblhau’r un Dangosyddion bob blwyddyn, gan y gall eich amgylchiadau newid. Er hynny mae Dangosydd yn gweithio ar ei orau pan fydd yn monitro tuedd dros sawl blwyddyn i weld a yw’r perfformiad yn gwella.

Ar ôl ichi gofnodi'ch data ar FARMDATA+, bydd y system yn cyfrif ac yn dangos eich canlyniadau. Ar sail y canlyniadau hyn, bydd yn eich cyfeirio at y cymorth y gall Llywodraeth Cymru, Cyswllt Ffermio a darparwyr eraill ei gynnig ichi i'ch helpu i wella lle bo angen.

At eich defnydd chi mae’r Dangosyddion. Ni fyddwn yn monitro nac yn asesu'r data meincnodi.

Bydd y Dangosyddion yn benodol i'ch fferm chi, ac ni fydd y canlyniadau'n cael unrhyw effaith ar eich Taliad Cyffredinol.

## J3.4 SAF 2026

Bydd gofyn i chi gadarnhau pa Sectorau Ffermio sy'n berthnasol i'ch busnes chi wrth lenwi'ch SAF.

## J3.5 Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS

Rhaid i chi gadarnhau ar eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS erbyn 15 Ionawr 2027 eich bod wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

Os ydych chi'n defnyddio offer meincnodi'r diwydiant neu gyflenwr cymeradwy, rhaid i chi ddarparu'r manylion canlynol;

- Yr offer meincnodi a ddefnyddir
- Dyddiad cwblhau'r meincnodi

Ar ôl dilysu'r wybodaeth, bydd dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS yn cadarnhau a ydych wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

Os ydych chi'n defnyddio FARMDATA+, bydd teitlau'r Dangosyddion sydd wedi'u cwblhau'n cael eu rhannu'n awtomatig ag RPW a'u defnyddio i ddiweddaru'ch dangosfwrdd. Ni fydd canlyniadau'ch Dangosyddion Cyffredinol yr SFS yn cael eu rhannu.

## J3.6 Cadw cofnodion

Cadwch eich canlyniadau ar y fferm am o leiaf bum mlynedd a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio.

Os ydych wedi defnyddio FARMDATA+ i gwblhau'r Weithred Gyffredinol, ni fydd angen archwilio'ch cofnodion.

# J4: UA4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus

## J4.1 Nod

Nod y weithred hon yw buddsoddi yn eich datblygiad proffesiynol a llwyddiant eich fferm yn y dyfodol.

Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn ddull dysgu a datblygu sy'n hanfodol i gadw i fyny â'r arferion, y dechnoleg a'r rheoliadau ffermio diweddaraf. Trwy gymryd rhan yn rheolaidd mewn hyfforddiant, gweithdai a gweithgareddau dysgu, gallwch wella eich sgiliau, rhoi hwb i gynhyrchiant, a sicrhau'ch bod yn cydymffurfio â safonau'r amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Mae DPP hefyd yn cefnogi nodau cynaliadwyedd ac yn eich helpu i addasu i newidiadau yn y farchnad.

Gall y weithred hon gysylltu â Gweithredoedd Cyffredinol eraill, yn enwedig gofyniad UA12: Iechyd a lles anifeiliaid.

## J4.2 Pwy ddylai gynnal y Weithred Gyffredinol hon

Chi a/neu'ch partneriaid yn y busnes fydd yn gorfod cynnal y Weithred Gyffredinol hon

## J4.3 Gofynion

Rhaid i chi a/neu unigolyn yn eich busnes ffermio, fel y mae wedi'i gofrestru ar RPW, gynnal y  weithred hon erbyn 31 Rhagfyr 2026. Gall Cyswllt Ffermio gynnal y cyrsiau dan sylw neu gall darparwr gwahanol ac annibynnol eu cyflwyno. Y gofyniad yw cwblhau:

- o leiaf <u>chwe awr</u> o ddysgu, <u>a</u>
- modiwl hyfforddi iechyd a diogelwch gorfodol

Ni chewch gario unrhyw ddysgu ychwanegol a gwblhawyd mewn blwyddyn ymlaen i flynyddoedd i ddod.

Ond os yw unigolyn yn eich busnes yn cwblhau'r gofynion dysgu a'i fod yn aelod o fusnes fferm arall (sydd wedi'i gofrestru gyda RPW), gall y dysgu a wnaed ganddo gyfrif tuag at Weithred Gyffredinol y ddau fusnes.

Os nad ydych yn bodloni'r gofynion, gellir eich cosbi yn unol â'r Safonau Dilysadwy a'r Matrics Sancsiynau (gweler Adran Q).

#### Gweithgareddau a gwblheir drwy Cyswllt Ffermio

Er mwyn i'r gweithgareddau hyn a ddarperir gan Cyswllt Ffermio allu cyfrif at gynnal y weithred, rhaid eu cwblhau rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2026 ac ar gyfer blwyddyn 2026 y cynllun yn unig. Ar gyfer blynyddoedd nesa'r cynllun, dim ond o 1 Ionawr blwyddyn y cynllun y byddan nhw'n gymwys.

- grwpiau trafod
- gweithdai iechyd a lles anifeiliaid
- hyfforddiant achrededig
- dosbarthiadau meistr
- mentora
- Academi Amaeth
- Agrisgôp

Caiff yr holl weithgareddau dysgu a gwblheir drwy Cyswllt Ffermio eu cofnodi'n awtomatig o fewn cyfrif Storfa Sgiliau Cyswllt Ffermio yr unigolyn.

**<u>Gofyniad ac eithriad penodol ar gyfer blwyddyn 2026 y cynllun yn unig</u>**

1) Mae'n rhaid i'r hyfforddiant gorfodol ar iechyd a diogelwch gael ei gwblhau drwy Cyswllt Ffermio. Mae'r modiwl e-ddysgu bellach ar gael ar-lein, ond bydd cymorth wyneb yn wyneb hefyd ar gael ar draws Cymru os bydd angen cymorth ar bobl.

2) Bydd modiwlau e-ddysgu am yr SFS sydd eisoes wedi'u cwblhau gyda Cyswllt Ffermio o 1 Awst 2025 yn cyfrif tuah at y Weithred Gyffredinol hon ar gyfer 2026 yn unig.

Mae rhestr lawn o'r holl fodiwlau e-ddysgu cymwys ar gael yma
E-ddysgu Achrededig | Farming Connect

Gallwch weld y modiwlau e-ddysgu cymwys am arddwriaeth yma
Horticulture E-learning modules for SFS | Farming Connect

Bydd modiwlau e-ddysgu sy'n gysylltiedig â'r SFS a gwblheir o 1 Ionawr 2027 yn gymwys i flwyddyn 2027 y cynllun.

Caiff pob modiwl e-ddysgu a gwblheir ei gofnodi fel awr o ddysgu.

**Dolen i UA12: Iechyd a lles anifeiliaid**

Mae'r elfen Lles Anifeiliaid yn canolbwyntio ar gloffni a chyflwr y corff, sef y ddwy broblem lles fwyaf ar ffermydd yng Nghymru sydd hefyd yn effeithio'n sylweddol ar gynhyrchiant.

Rhaid i chi, neu aelod o'ch busnes fferm (neu unigolyn enwebedig) gwblhau hyfforddiant i ddysgu sut i sgorio cyflwr corff (BCS) a sgorio symudedd bob 5 mlynedd.

Gall gweithdy iechyd a lles anifeiliaid sy'n cael ei ariannu gan Cyswllt Ffermio a'i ddarparu gan filfeddygfa neu fodiwl e-ddysgu iechyd a lles anifeiliaid a gwblheir gyfrif tuag UA4 DPP (o'i gwblhau ym mlwyddyn y cynllun) ac UA12 Iechyd a lles anifeiliaid, os caiff ei gwblhau gan y person priodol.

Mae'r cyfnod cwblhau 5 mlynedd yn golygu y gall unrhyw hyfforddiant a restrir isod gafodd ei gwblhau ar ôl 1 Ionawr 2022 gyfrif ar gyfer blwyddyn 2026 y cynllun.

- Gweithdy Cloffni mewn Defaid AH&W (wedi'i gyflwyno gan filfeddyg, wedi'i achredu gan LANTRA)
- Gweithdy Lleihau Cloffni mewn Gwartheg Godro AH&W (wedi'i gyflwyno gan filfeddyg, wedi'i achredu gan LANTRA)
- Cwrs Hyfforddi Achrededig mewn Cloffni - Meistr Cymru
- Cwrs Hyfforddi Achrededig Canolradd ar Docio Carnau

Manylion llawn UA12: Mae gofynion iechyd a lles anifeiliaid ar gael yn J12.

### Dysgu Allanol (nid trwy Cyswllt Ffermio)

Er mwyn i'r dysgu a ddarperir gan ddarparwyr allanol neu sefydliadau eraill gael ei ystyried yn gymwys ar gyfer y Weithred Gyffredinol hon, rhaid i'r dysgu hwnnw:

- fodloni un neu fwy o'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) canlynol
    - cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy
    - lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, ac addasu iddo
    - cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu
    - gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, annog mynediad y cyhoedd iddyn nhw ac i ymwneud â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

- arwain at ganlyniadau dysgu clir (medru diffinio beth fydd dysgwr wedi'i ddysgu a beth fydd yn gallu ei wneud ar ôl cwblhau'r gweithgaredd yn llwyddiannus)
- gallu profi'r hyn a ddysgir – naill ai trwy asesiad wedi'i fformatio, neu adborth llafar trwy gydol y gweithgaredd
- cadarnhau eich presenoldeb, gan gynnwys hyd h.y. yr amser a gymerir.

Byddwn yn derbyn dulliau dysgu sydd yn yr un fformat â'r rhai a ddarperir drwy Cyswllt Ffermio, gan gynnwys:

- e-ddysgu
- grwpiau trafod
- gweithdai iechyd a lles anifeiliaid
- hyfforddiant achrededig
- dosbarthiadau meistr
- mentora

Ni fydd presenoldeb mewn cynadleddau, sioeau teithiol na chyfarfodydd yn dderbyniol. Fodd bynnag, os yw'r digwyddiadau hyn yn cynnwys sesiynau neu grwpiau trafod sy'n bodloni'r meini prawf uchod (e.e. yn bodloni un neu fwy o

amcanion SLM) gellid eu hystyried cyn belled â'ch bod yn cadw tystiolaeth eich bod wedi cymryd rhan a  manylion yr hyn rydych wedi'i ddysgu.

## J4.4 SAF 2026

Nid oes unrhyw wybodaeth benodol y mae'n rhaid i chi ei darparu ar SAF 2026 mewn perthynas â'r Weithred Gyffredinol hon.

## J4.5 Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS

Rhaid i chi gadarnhau ar eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS erbyn 15 Ionawr 2027 eich bod wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

Os caiff ei gwblhau drwy Cyswllt Ffermio, bydd manylion y gwaith dysgu sydd wedi'i gwblhau'n cael eu rhannu'n awtomatig gyda RPW, i ddiweddaru eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS.

Os cafodd y cwrs ei gyflwyno gan ddarparwr allanol, rhaid i chi gadarnhau'r manylion canlynol;

- Teitl y cwrs
- Dyddiad presenoldeb
- Oriau o ddysgu
- Amcanion SLM a gafodd eu cwmpasu
- Yr unigolyn o'r busnes fferm a ddilynodd y cwrs.

Ar ôl dilysu'r wybodaeth, bydd y dangosfwrdd yn cadarnhau a ydych wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

## J4.6 Cadw cofnodion

Cadwch eich cofnodion dysgu ar y fferm am o leiaf bum mlynedd a sicrhau eu bod ar gael i’w harchwilio.  Dylen nhw brofi'r manylion sydd wedi'u rhoi ar eich dangosfwrdd.

Os ydych wedi cynnal y Weithred Gyffredinol trwy Cyswllt Ffermio, ni fydd angen archwilio'ch cofnodion.

# J5: UA 5: Cynnal cynefinoedd

## J5.1 Nod

Nod y weithred hon yw cadw a chynnal cynefinoedd parhaol lled-naturiol neu gynefinoedd sydd newydd eu creu ar eich fferm fel eu bod o fudd i dda byw sy'n pori a'r amgylchedd naturiol.

Gall cynefinoedd lled-naturiol ymestyn o'r arfordir i'r ucheldir, gan gynnwys rhostiroedd, gwlyptiroedd a gwahanol laswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau sy'n cael eu rheoli fel tir pori neu gaeau gwair ledled ffermydd Cymru. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnig porthiant i dda byw ac yn dibynnu ar lefelau pori cynaliadwy i allu cynnig cynefin i fywyd gwyllt, a thirwedd ddeniadol ac amrywiol. Gweler canllawiau Dosbarthiad Cynefin.

Bydd ardaloedd o gynefin lled-naturiol sy'n cael eu hawlio a'u rheoli yn unol â'r Weithred Gyffredinol hon yn gymwys i gael y Taliad Cynnal Cynefinoedd ychwanegol (gweler Adran O).

## J5.2 Pwy fydd angen cwblhau'r Weithred Gyffredinol hon

Rhaid i chi gwblhau'r Weithred Gyffredinol hon os oes gennych un neu fwy o'r canlynol:

1. Morfeydd heli
2. Twyni tywod arfordirol a thraethau graean:
   a) twyni tywod
   b) twyni tywod a thraethau graean
3. Rhos yr arfordir a rhos llawr gwlad
4. Gwlyptir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog:
   a) gwlyptir wedi'i amgáu: cyforgorsydd iseldir, ffeniau a thir gwlyb / mignen
   b) glaswelltir gwlyb
5. Glaswelltir sych lled-naturiol wedi'i amgáu
   a) ei reoli fel tir pori
   b) ei reoli fel gweirglodd
6. Cynefinoedd agored yr ucheldir
7. Perllannau traddodiadol
8. Rhedyn trwchus
9. Coetir
10. Coetir pori

11. Pyllau parhaol ar gyfer bywyd gwyllt

12. Ardaloedd cynefin sydd newydd eu creu ar dir wedi'i wella:
    a) coridorau glan nant newydd
    b) mawnog sydd newydd ei hadfer
    c) glaswelltir heb fewnbynnau, o gynlluniau blaenorol
    d) unrhyw dir arall sydd wedi'i wella neu dir gafodd ei goedwigo, sy'n cael ei reoli i greu cynefin

Dangosir lleoliad a maint pob dosbarthiad cynefin ar Fap y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Bydd canllawiau pellach i'ch helpu i adnabod cynefin lled-naturiol ar eich daliad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

At ddibenion y Weithred Gyffredinol hon, cynefin lled-naturiol yw unrhyw lystyfiant y mae llai na 25% ohono'n rhywogaethau amaethyddol wedi'u hau, yn unol â Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (EIA) 2017, neu gynefinoedd a grëwyd o'r newydd fel y'u cadarnhawyd ar yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar SAF 2026.

## J5.3 Gofynion

Rhaid i chi fodloni'r gofynion hyn a gofynion y Cod i Bawb: Rhan 2 – Bioamrywiaeth a Chynefinoedd (gweler Adran H).

Rhaid i chi reoli'r holl gynefinoedd lled-naturiol ar eich daliad, yn unol â'r dosbarthiad cynefin perthnasol.

**Mae'r gofynion manwl ar gyfer pob un o'r dosbarthiadau cynefin eang wedi'u nodi yn Atodiad 2.**

Os nad ydych yn bodloni'r gofynion, gellir cymhwyso sancsiynau neu gosbau yn unol â'r Matrics Safonau a Sancsiynau Dilysadwy (gweler Adran Q).

## J5.4 Dyddiadur Gweithgarwch a Dyddiadur Stocio

Mae'n rhaid i chi gadw cofnod o rai gweithgareddau mewn dyddiadur gweithgarwch. Mae'n ofynnol i chi hefyd gadw dyddiadur stocio os oes gennych gynefinoedd agored yr ucheldir. Mae manylion penodol wedi'u nodi yn y gofynion manwl yn Atodiad 2.

Bydd canllawiau pellach ynghylch dyddiaduron gweithgarwch a dyddiaduron stocio a thempledi enghreifftiol ar gael yn 'Pan ddaw'r arolygydd - canllaw defnyddiol i ffermwyr' sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## J5.5 Safleoedd Dynodedig

Rhaid rheoli tir mewn safleoedd dynodedig (e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)) yn unol â'r dosbarthiad cynefin priodol. Fodd bynnag, gellir amrywio hyn:

- Os oes gennych Gytundeb Rheoli Tir (megis Cytundeb Adran 16) eisoes â CNC. Rhaid i chi barhau i reoli eich tir yn unol â'r cytundeb hwn nes iddo ddod i ben.
- Os oes gennych Gynllun Rheoli a Rhaglen Waith (SoW) y cytunwyd arni, y rhoddwyd cydsyniad SoDdGA ar ei chyfer, fel rhan o *Weithred Gyffredinol 7 Cynllun Rheoli Safle Dynodedig,* neu
- Os ydych yn gwneud gwaith rheoli cynefinoedd mwy penodol o dan thema Opsiynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y rhoddwyd cydsyniad SoDdGA ar ei gyfer.

Gan fod y rhain yn cynnwys cydsyniadau SoDdGA a gofynion rheoli safle-benodol wedi'u teilwra, lle mae'r rhain ar waith, byddant yn disodli gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

Os yw Cytundeb Rheoli Tir presennol gyda CNC yn gofyn am yr un weithred â'r Weithred Gyffredinol hon ar gyfer yr un darn o dir, yna bydd y taliad Cynnal Cynefinoedd yn cael ei addasu yn unol â hynny i osgoi cyllido dwbl ar yr ardal honno.

## J5.6 Rhanddirymiadau

Mae gofynion y dosbarthiadau cynefin a nodir yn Atodiad 2 yn cynnwys manylion rhanddirymiadau posibl a allai fod yn berthnasol. Mae'r rhain er gwybodaeth yn unig ac nid ydynt yn rhestr gynhwysfawr. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau am randdirymiad gan ddefnyddio'r ffurflen ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

Os na allwch fodloni un neu fwy o ofynion y Weithred Gyffredinol hon, rhaid gofyn am randdirymiad drwy lenwi'r 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Ffurflen Rhanddirymiad neu Ymholiad' ar eich cyfrif RPW Ar-lein. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol. Mae rhagor o wybodaeth yn Adran K.

Os yw'ch daliad yn cynnwys cynefin lled-naturiol yn bennaf a'ch bod yn poeni nad oes digon o hyblygrwydd i fodloni'r gofynion, gallwch ofyn am gyngor i ystyried opsiynau neu randdirymiadau posibl i'ch helpu i fodloni'r Weithred Gyffredinol hon. Bydd cyngor ar gael yn ddi-oed i'r rhai y mae eu daliad yn cynnwys dros 90% o gynefin lled-naturiol.

## J5.7 Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026

Rhaid i chi gadarnhau ardaloedd o gynefin lled-naturiol ar eich daliad ar Ffurflen SAF 2026 yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd. Bydd canllawiau pellach i'ch helpu i gwblhau'r adolygiad sylfaenol ar gael gyda'r canllaw 'Sut i gwblhau' yr SAF Sengl ym mis Mawrth.

Er mwyn osgoi cyllido dwbl, rhaid i chi gadarnhau ar SAF 2026 a ydych yn cael taliad am unrhyw un o'r gofynion rheoli uchod o unrhyw ffynhonnell arall (e.e. Cytundeb Rheoli A16 CNC). Fel rhan o ddilysu eich hawliad o dan Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol i gefnogi eich datganiad.

## J5.8 Dangosfwrdd Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Bydd angen i chi gadarnhau ar Ddangosfwrdd Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy erbyn 15 Ionawr 2027 eich bod wedi bodloni'r gofynion ar gyfer y Weithred Gyffredinol hon.

Ar ôl i'r wybodaeth gael ei dilysu, bydd y dangosfwrdd yn cadarnhau a ydych chi wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

## J5.9 Cadw Cofnodion

Rhaid i chi gwblhau dyddiadur gweithgarwch a dyddiadur stocio (os yw'n briodol) a'u cadw ar eich fferm am gyfnod o 5 mlynedd a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio os gofynnir amdanynt.

# J6: UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella

## J6.1 Nod

Nod y weithred hon yw creu cynefin dros dro i ategu unrhyw gynefinoedd sy'n bod eisoes ar eich fferm a'ch helpu i fodloni'r gofyn bod 10% o'ch fferm yn gynefin.

Yn ogystal â chynnal bywyd gwyllt fel pryfed peillio ac adar ar y fferm, mae cynefinoedd dros dro, fel ymylon tir âr neu wyndynnydd cymysg, yn gweithio yn amddiffyn nentydd a phyllau, gan hidlo llygryddion a lleihau erydiad pridd.

Gan ddibynnu ar y math o gynefin y dewiswch ei greu, gall y cynefinoedd dros dro hyn wella ansawdd y pridd, lleihau colledion pridd, lleihau effaith sychder a llifogydd ar y fferm, a rhoi hwb i infertebratau buddiol fel pryfed hofran a phryfed peillio eraill.

## J6.2 Pwy ddylai gynnal y Weithred Gyffredinol hon

Os nad oes gennych ddigon o gynefin lled-naturiol, coetir llydanddail wedi'u sefydlu, perthi/gwrychoedd sy'n newydd ers mis 1 Ebrill 2022, neu berthi sy'n bodloni'r amod 'cyflwr da', rhaid i chi greu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella i fodloni'r gofyn bod 10% o'ch fferm yn gynefin bob blwyddyn.

Bydd unrhyw ddarn o gynefin dros dro gafodd ei greu ac sy'n cael ei reoli yn unol â'r Weithred Gyffredinol hon yn gymwys am y Taliad Cynnal Cynefin (gweler Adran O).

Ond ni fydd unrhyw ddarnau o gynefin dros dro sydd wedi'u creu uwchlaw'r trothwy o 10% yn gymwys am y Taliad Cynnal Cynefin.

Darllenwch Adran I am ragor o fanylion am y gofyn i gynnal 10% o gynefin.

## J6.3 Gofynion

Rhaid i chi greu digon o gynefin dros dro cyn diwedd blwyddyn y cynllun (h.y. 31 Rhagfyr 2026).

Gallwch ddewis un neu fwy o gynefinoedd dros dro o blith y rhestr ganlynol:

1. ymylon o wyndwn
2. talarau o ŷd a llin heb eu gwrteithio, eu chwistrellu na'u cynaeafu
3. ymyl sefydlog o borfa arw ar dir âr
4. ymyl o borfa arw mewn cylchdro ar dir âr
5. cymysgedd o ydau gwanwyn a chnwd protein heb eu chwistrellu, gyda'r sofl wedi'i gadw
6. cadw sofl ydau dros y gaeaf
7. cnwd gorchudd ar gyfer bywyd gwyllt ar dir wedi'i wella

8. clustogfa heb ei chwistrellu, heb ei gwrteithio a heb ei thrin wrth ymyl cynefin presennol (gan gynnwys dŵr agored) ar laswelltir wedi'i wella
9. gwyndynnydd cymysg ar dir wedi'i wella gyda chyfnod caeedig (mae gwyndynnydd amlrywogaeth neu flodeuog yn enwau eraill arnynt)
10. glaswelltiroedd wedi'u gwella a gaiff eu torri'n hwyr
11. glaswelltir wedi'i wella sydd wedi cael ei adael i hadu

**Mae gofynion rheoli manwl ar gyfer pob math o gynefin dros dro yn cael eu disgrifio yn Atodiad 3.**

Nid yw cynefin dros dro yn cael ei ystyried yn gynefin lled-naturiol. Felly, nid oes angen i chi fodloni gofynion y Cod i Bawb: 'Rhan 2 Bioamrywiaeth a Chynefin' ar y tir hwn. Ond rhaid cadw at ofynion eraill y Cod i Bawb sy'n berthnasol i chi.

Os na fyddwch yn bodloni'r gofynion, gallech gael eich cosbi yn unol â'r Safonau Dilysadwy a'r Matrics Cosbau (gweler Adran Q).

## J6.4 Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol

Wrth ddewis tir i'w ddefnyddio i greu cynefin dros dro, rhaid defnyddio'r diffiniad o dir wedi'i wella yn **Asesiad o'r effeithiau amgylcheddol: canllawiau | LLYW.CYMRU** i benderfynu pa dir y gellir ei drin.

Dylid cymryd gofal lle mae glaswelltir parhaol (a hawlir fel GR2 ar SAF) yn cael ei ystyried ar gyfer creu cynefin newydd dros dro gan y gallai eisoes gynnwys cynefin gwerthfawr.

I osgoi gwneud hynny, rydyn ni'n eich cynghori i ddewis glaswelltir parhaol lai na 10 oed. Fel arall, cynhaliwch opsiynau dros dro nad ydynt yn golygu trin y tir (e.e. 10 Toriad hwyr, neu 11 Caniatáu i'r cnwd hadu).

## J6.5 Safleoedd Dynodedig

Ni chaniateir i chi ddewis unrhyw un o'r mathau o gynefinoedd dros dro os oes angen trin tir gafodd ei gategoreiddio yn 2025 fel tir pori parhaol (cod cnydau GR2 y SAF), o fewn y canlynol:

- dalgylch llyn dynodedig neu
- afon ddynodedig, neu o fewn 100m i'w glannau, neu
- safle dynodedig arall sy'n ddibynnol ar ddŵr

Nid ydych yn cael trin y tir ar safle dynodedig, oni bai bod gennych ganiatâd SoDdGA i wneud hynny.

Mae map cyfyngiadau ar gael ar gyfer yr uchod ar eich Map SFS. Os ydych am gynnal unrhyw un o'r gweithgareddau hyn o fewn man sydd wedi'i nodi ar y map cyfyngiadau, bydd angen dilyn y drefn arferol ar gyfer gwneud cais i CNC am ganiatâd SoDdGA drwy hysbysiad o fwriad. Ni ellir dechrau unrhyw gamau i greu cynefin dros dro nes eich bod wedi cael caniatâd ysgrifenedig.

## J6.6 Dyddiadur Gwaith

Bydd angen ichi gadw cofnod o rai gweithgareddau mewn dyddiadur gwaith. Mae'r manylion penodol wedi'u nodi yn Atodiad 3.

Mae rhagor o arweiniad ar ddyddiaduron gwaith a thempledi enghreifftiol ar gael yn y 'Pan ddaw'r archwilydd. Canllaw defnyddiol i ffermwyr' ar wefan Llywodraeth Cymru.

## J6.7 SAF 2026

Os na fyddwch yn bodloni'r 10% o gynefin, rhaid ichi ddatgan unrhyw gynefin dros dro sydd eisoes wedi'i greu a/neu gadarnhau arwynebedd a lleoliad unrhyw gynefin dros dro newydd fydd yn cael ei greu cyn diwedd blwyddyn y cynllun, yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar eich SAF 2026. Bydd rhagor o help i chi ar gyfer cynnal yr adolygiad sylfaenol yng nghanllaw ‘Sut i Lenwi’ y SAF a gyhoeddir ym mis Mawrth.

Bydd angen i chi ddatgan codau cnydau priodol i gadarnhau eich cynefin dros dro, gan gynnwys codau cnydau eilaidd sy'n berthnasol (gweler adran 4).

## J6.8 Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS

Bydd angen i chi gadarnhau ar Ddangosfwrdd Cyffredinol yr SFS erbyn 15 Ionawr 2027 eich bod wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

Ar ôl dilysu’r wybodaeth, bydd y dangosfwrdd yn cadarnhau a ydych wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

## J6.9 Cadw cofnodion

Rhaid i chi lenwi’ch dyddiadur gwaith a’i gadw ar eich fferm am 5 mlynedd a sicrhau ei fod ar gael i archwilydd ei weld.

# J7: UA 7: Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig

## J7.1 Nod

Mae rhwydwaith safleoedd dynodedig Cymru yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Safleoedd Ramsar a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

Dyma'r enghreifftiau gorau oll o'n hamgylchedd naturiol gwerthfawr ac maent yn rhan o'n tirwedd amaethyddol. Yn ogystal â bod yn hollbwysig o ran atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth natur, gall safleoedd dynodedig esgor ar lawer rhagor o ganlyniadau hanfodol, o'u rheoli'n effeithiol, megis lleihau'r risg o lifogydd a storio carbon.

Ein huchelgais yw sicrhau bod yr holl safleoedd dynodedig yn y Cynllun yn cael eu rheoli'n effeithiol erbyn diwedd 2030.

Y weithred hon yw'r cam cyntaf tuag at wireddu'r uchelgais honno, trwy weithio gyda chi i lunio Cynllun Rheoli a chytuno ar Raglen Waith a all arwain at ragor o weithredu i gynnal a gwella unrhyw safleoedd dynodedig ar eich daliad.

Cyn y Cynllun Rheoli, bydd gofyn i chi gynnal y safle yn unol â gofynion Gweithred Gyffredinol 5: Cynnal cynefinoedd a/neu Weithred Gyffredinol 9: Cynnal coetir.

## J7.2 Pwy fydd angen cwblhau'r Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i chi gwblhau'r Weithred Gyffredinol hon os yw eich daliad yn cynnwys rhan o Safle Dynodedig (e.e. SoDdGA, AGA, ACA, Safle Ramsar a Gwarchodfa Natur Genedlaethol) neu safle cyfan. Hefyd, byddai hyn yn cynnwys unrhyw Dir Comin lle mai chi yw'r unig berchennog/porwr.

Byddwn yn cadarnhau unrhyw safleoedd sydd gennych ar eich daliad drwy'r Map Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Os oes gennych gytundeb rheoli ar waith eisoes, gan gynnwys cytundeb Adran 16 gyda CNC sy'n cynnwys rheoli Safleoedd Dynodedig ar eich daliad, efallai y bydd hynny'n ddigon i fodloni'r gofyniad ar gyfer y Weithred Gyffredinol hon.

Os oes gennych hawliau pori ar gyfer tir comin sy'n cynnwys safleoedd dynodedig, bydd y perchennog a'r porwyr yn gallu cael mynediad at yr haen gydweithredol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig.

## J7.3 Gofynion

Bydd angen i chi weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a CNC i ddatblygu Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig a chytuno ar Raglen Waith.

Rhaid cwblhau'r Weithred Gyffredinol hon erbyn 31 Rhagfyr 2030, a chysylltir â chi i ddechrau'r broses o ddatblygu eich Cynllun Rheoli.

Bydd angen Cynllun Rheoli unigol ar gyfer pob Safle Dynodedig ar eich daliad.

Bydd y Cynllun Rheoli yn cwmpasu ardal y safle dynodedig. Hefyd, gellir ystyried 'llain glustogi' o amgylch y safle ar sail achosion unigol yn sgil unrhyw effaith bosibl ar y safle a fydd yn cynnwys disgrifiad o'r safle ac yn nodi dyheadau yn y dyfodol. Hefyd, bydd yn cynnwys Rhaglen Waith i'w chwblhau dros gyfnod o 5 mlynedd.

Bydd cynnwys y Rhaglen Waith yn dibynnu ar y safle, a gallai gynnwys taliadau rheoli blynyddol ar sail arwynebedd yn ogystal â gwaith cyfalaf**.** Bydd manylion llawn y Manylebau Technegol ar gyfer y gweithredoedd hyn yn cael eu cyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2026.

Os nad ydych chi'n bodloni'r gofynion, gellir cymhwyso sancsiynau yn unol â'r Matrics Safonau Dilysadwy a Sancsiynau cyhoeddedig (gweler Adran Q).

**Sut alla i gael Cynllun Rheoli Safle Dynodedig?**

Ar ôl derbyn pob SAF 2026, byddwn yn adolygu nifer y safleoedd sy'n destun hawliad gennych ac yn cysylltu â chi maes o law i ddechrau'r broses.

Bydd asesiad safle yn cael ei gynnal gyda chi ar gyfer pob Safle Dynodedig ar eich daliad, a fydd yn ystyried eich arferion ffermio presennol ac yn nodi'r camau a'r anghenion rheoli mwyaf priodol. Yn dilyn yr asesiad, byddwn yn gweithio gyda chi i gytuno ar gamau rheoli a gweithgareddau i'w cynnwys yn y Rhaglen Waith.

Bydd y Rhaglen Waith yn cael ei chytuno gennych chi a'i chymeradwyo neu ei chydsynio gan CNC.

Yn amodol ar lefel y galw, mae'n bosibl na fydd modd cynnig Cynllun Rheoli yn ystod eich blwyddyn gyntaf o gymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Haen Gyffredinol. Byddwch yn cael eich ystyried ar gyfer Cynllun Rheoli yn y blynyddoedd dilynol.

**Sut alla i baratoi ar gyfer yr asesiad o'r safle?**

Cyn unrhyw asesiad, gallai fod yn werth chweil i chi ystyried eich dyheadau ar gyfer y safle a'r broses o'i reoli, yn ogystal â materion penodol sy'n peri pryder o safbwynt rheoli'r safle ar hyn o bryd, a sut i fynd i'r afael â nhw.

Hefyd, gellid rhoi ystyriaeth i unrhyw waith cyfalaf sydd angen ei wneud i helpu i reoli'r safle. Gellir trafod yr wybodaeth hon wedyn fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Rheoli a'r Rhaglen Waith.

**Ymgynghori â Sefydliadau Eraill**

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen ymgynghori â sefydliadau eraill. Bydd y broses hon yn safle-benodol a bydd yn dibynnu ar y camau rheoli sy'n cael eu cynnig ar gyfer y Rhaglen Waith.

Bydd CNC yn cadarnhau a oes angen cynnwys sefydliadau eraill ac a oes angen i chi gael unrhyw gydsyniad ychwanegol.

Bydd y sefydliadau y bydd angen ymgynghori â nhw o bosibl yn cynnwys Cadw ac Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, os oes nodweddion hanesyddol yn bresennol, neu Awdurdodau Lleol os oes Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn bresennol ac, os yw'n berthnasol, ar gyfer creu pyllau.

## J7.4 SAF 2026

Bydd angen i chi gadarnhau a oes gennych safle dynodedig ar eich daliad a chadarnhau eich bwriad i gynnal gweithrediadau rheoli priodol.

Yn ogystal â'r uchod, bydd yn ofynnol i chi gadarnhau'r ardaloedd cynefin a choetir ar y safleoedd dynodedig fel rhan o'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd. Bydd rhagor o ganllawiau i'ch helpu i gwblhau'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar gael gyda'r canllaw 'Sut i gwblhau' SAF ym mis Mawrth.

## J7.5 Dangosfwrdd Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Lle bo'n berthnasol, bydd Dangosfwrdd Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn amlygu'r angen am Gynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig.

Hefyd, bydd modd i chi nodi a ydych yn barod i'r cynllun gysylltu â chi i ddechrau datblygu'r Cynllun Rheoli.

Bydd y Dangosfwrdd yn cael ei ddiweddaru:

- Os oes gennych gytundeb rheoli ar waith eisoes, gan gynnwys cytundeb Adran 16 gyda CNC, sy'n cwmpasu rheoli Safleoedd Dynodedig sy'n bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol, neu
- Unwaith y bydd CNC wedi rhoi caniatâd ar gyfer y Cynllun Rheoli ac wedi cytuno i'r Rhaglen Waith gysylltiedig.

## J7.6 Cadw Cofnodion

Nid oes unrhyw ofynion cadw cofnodion penodol ar gyfer y Weithred Gyffredinol hon.

# J8: UA8: Rheoli Perthi/Gwrychoedd

## J8.1 Nod

Diben y weithred hon yw creu perthi/gwrychoedd trwchus sy'n rhoi cysgod ac sy'n cael eu gadael i storio carbon a chynhyrchu blodau, ffrwythau a hadau fel bwyd ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau gan gynnwys adar a phryfed peillio.

Mae perthi'n bodoli mewn cylch parhaus, o rai sydd newydd eu plannu i derfynau lletach, talach, llai unffurf. Mae gwaith rheoli'n allweddol i'r broses hon, er mwyn i berthi allu tyfu ac aeddfedu ac i gynnal eu strwythur a'u hiechyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ein tirweddau a’n bywyd gwyllt yn ffynnu ar glytwaith o berthi, bob un â'i hamrywiaeth ei hun o blanhigion amrywiol eu maint. Mae'r amrywiaeth hon yn cryfhau cymeriad y dirwedd ac yn creu cynefinoedd hanfodol i fywyd gwyllt allu ffynnu.

Mae perthi trwchus yn cysgodi cnydau rhag y gwynt ac yn cynnig cysgod a lloches i'ch da byw. Gall perthi lletach a thalach ar hyd derfynau'ch fferm gynnig ffiniau bioddiogelwch gwerthfawr rhwng eich da byw chi a da byw cymdogion.

## J8.2 Pwy ddylai gynnal y Weithred Gyffredinol hon

Rhaid i chi gynnal y Weithred Gyffredinol hon os oes gennych reolaeth lwyr ar y perthi ar eich daliad a'u bod yn cael eu rheoli trwy eu torri a/neu eu tocio.

Os nad ydych chi'n torri neu'n tocio'ch perthi, nid oes angen ichi ddilyn y gofynion isod.

## J8.3 Gofynion

- Peidiwch â thocio na thorri'r un berth ddwy flynedd o'r bron h.y. gadewch fwlch o ddwy flynedd cyn y toriad nesaf.

  Bydd angen ichi wneud hyn ar ddwy ochr y berth. Er enghraifft, chewch chi ddim torri un ochr y berth ym mlwyddyn 1 ac ochr arall yr un darn o berth ym mlwyddyn 2.

  Nid yw hyn yn golygu na chewch dorri mieri sy’n tyfu y tu allan i broffil y berth, os ydych yn gwneud hynny er budd iechyd a lles anifeiliaid.

  Caniateir yr eithriadau canlynol er mwyn ichi allu torri neu docio perth bob blwyddyn os oes gofyn:

  - mae'r berth neu goeden y berth yn tyfu dros briffordd, ffordd, trac neu lwybr, a bod y gwaith yn angenrheidiol am resymau iechyd a diogelwch.
  - mae'r gwaith torri neu docio yn cael ei wneud fel rhan o drefn cynnal a chadw ffosydd ar dir wedi’i wella.

- os oes angen gofalu am geblau trydan neu ffôn uwchben, bydd y cwmni sy’n gyfrifol amdanynt yn cael torri rhywfaint ar y coed a/neu’r perthi am resymau diogelwch.
- caniateir adfer perth e.e. plygu neu fondocio ym mis Mawrth cyn belled nad ydych hyd y gwyddoch yn aflonyddu ar adar sy’n nythu
- caniateir adfer perth e.e. plygu neu fondocio hyd at 30 Ebrill os gwneir hynny’n benodol ar gyfer cystadleuaeth a/neu ddigwyddiad hyfforddi, cyn belled â’ch bod wedi cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn y digwyddiad. Bydd gofyn bod y digwyddiad yn cydymffurfio â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Dylech gadw tystiolaeth, e.e. ffotograffau a/neu unrhyw lythyrau oddi wrth y cwmnïau perthnasol neu'r awdurdodau cymwys sy'n dangos yn glir pam roedd angen torri neu docio coed yn amlach na phob yn ail flwyddyn.

- Rhaid i chi beidio â thorri na thocio perth yn ystod y tymor nythu adar, 1 Mawrth i 31 Awst (caniateir eithriadau). Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn y Cod i Bawb (gweler adran H).

- Rhaid ichi adael i'r berth dyfu'n fwy trwchus ac yn dalach trwy ei thocio i bwynt ychydig yn uwch a lletach bob tro rydych yn ei thocio neu'n ei thorri. Dylai'r pwyntiau hyn adael o leiaf 5cm yn fwy o dyfiant rhwng pob toriad. Ar ôl i’r berth dyfu 3m x 2m (neu 2m x 3m) o led ac o uchder, gallwch ddewis ei chadw ar y maint hwnnw drwy ei thorri.

  Rydym yn cydnabod y gall perthi mewn mannau sy'n agored i wyntoedd cryfion ar yr arfordir neu yn yr ucheldir dyfu'n arafach ac na fyddant yn tyfu'r 5cm a ddisgwylir. Fodd bynnag, bydd dal gofyn ichi adael tyfiant wrth docio.

- Rhaid cadw neu blannu o leiaf un goeden yn y berth bob 50m ar gyfartaledd. Dylech fodloni'r gofyn hwn fesul cae.

Er enghraifft, ar berth 200m o hyd o gwmpas ffin cae, dylech anelu at gael 4 coeden yn y berth sy'n amgylchynu'r cae. Pan fydd perth yn rhannu dau gae, gellir cyfrif yr un coed ar gyfer caeau sy'n ffinio.

Pan fydd angen i chi sefydlu coeden mewn perth i ateb y gofyn hwn, gallwch wneud hynny trwy naill ai:

1) nodi'r planhigion yn y berth sydd â'r potensial i ddatblygu'n goed a gadael iddyn nhw dyfu, neu
2) blannu coed hirgyff newydd yn y berth.

**Caniatáu i blanhigion yn y berth dyfu.**

Rhaid nodi'r coed hyn cyn y tro cyntaf y byddwch yn torri neu'n tocio'r berth ar ôl eich hawliad cyntaf am haen Gyffredinol yr SFS. Rydyn ni'n eich cynghori i dagio'r coed rhag ichi eu tocio trwy ddamwain. Wrth benderfynu pa goed yn y berth i'w cadw, dylech rhoi blaenoriaeth i rywogaethau heblaw coed ynn os medrwch.

**Plannu coed newydd yn y berth.**

Rhaid i chi blannu'r coed cyn diwedd y tymor plannu cyntaf ar ôl hawlio Taliad Cyffredinol yr SFS h.y.  erbyn 31 Mawrth 2027.

Gall coeden perth newydd gyfrif tuag at ofynion UA10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd (gweler adran J10).

Rhaid i'r egin goed newydd fod o leiaf 1m o daldra pan fyddwch yn eu plannu a rhaid dewis rhywogaeth frodorol sy'n tyfu'n dda mewn perthi lleol, gan y byddant yn cyfrannu at dirwedd ddeniadol a chynyddu gwerth y berth i fywyd gwyllt.

Rydym yn argymell y coed canlynol:

Gwernen, Coeden Geirios (Du ac Aderyn), Criafolen, Aethnen, Afalau Surion, Draenen Wen, Bedwen (Arian a Llwyd), Helygen (Brau, Deilgron a Llwyd), Masarnen Fach, Pisgwydden (Dail Bach a Dail Mawr), Poplysen Wen, Poplysen Ddu, Derwen (Di-goes a Choesynnog)

Peidiwch â phlannu coed ynn oherwydd clefyd (Chalara) coed ynn

Rydyn ni'n eich cynghori i dagio'r coed rhag ichi eu tocio trwy ddamwain.

Os na fyddwch yn bodloni'r gofynion, gallech gael eich cosbi yn unol â'r Safonau Dilysadwy a'r Matrics Cosbau (gweler adran Q).

**Llacio'r rheol er lles adar sy'n nythu ar y ddaear**

Fe fydd ambell ardal lle na fyddai bob tro'n briodol sefydlu coeden newydd mewn perth, er enghraifft ardal sy'n bwysig ar gyfer adar fel y gylfinir neu'r gornchwiglen sy'n nythu ar y ddaear.

Os bydd cae o fewn neu'n rhannu ffin â haen gyfyngiadau'r Gylfinir a'r Gornchwiglen, ni fydd angen i chi sefydlu coed perth. Cyfeirir at yr ardaloedd hyn fel ardal Rhydwyr Bridio a bydd y wybodaeth hon ar gael ar fap SFS ar RPW Ar-lein.

## J8.4 SAF 2026

Rhaid i chi gadarnhau ar SAF 2026 a oes gennych reolaeth lwyr ar berthi ar eich daliad.

Ni fydd gofyn i chi nodi perthi unigol na chadarnhau eu hyd. Ond os ydych chi'n datgan unrhyw un o'ch perthi ar gyfer eich 10% o gynefin, bydd angen i chi ddatgan hyd y perthi cymwys hyn ar y SAF.

## J8.5 Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS

Bydd angen ichi gadarnhau ar Ddangosfwrdd Cyffredinol yr SFS eich bod wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

Ar ôl dilysu’r wybodaeth, bydd y dangosfwrdd yn cadarnhau’ch bod wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

## J8.6 Cadw cofnodion

Gall fod yn syniad da cadw dyddiadur gwaith sy'n cofnodi'r holl waith y byddwch yn ei wneud ar eich perthi, gan gynnwys unrhyw waith plannu a dyddiadau torri/tocio.

Rhaid i chi gadw tystiolaeth, e.e. ffotograffau a/neu unrhyw lythyrau/e-byst oddi wrth y cwmnïau perthnasol neu'r awdurdodau cymwys sy'n dangos yn glir pam roedd angen torri neu docio coed yn amlach na phob yn ail flwyddyn.

Dylech lenwi’ch dyddiadur gwaith a’i gadw ar y fferm am 5 mlynedd a sicrhau ei fod ar gael ar gyfer ei archwilio pan ofynnir amdano.

# J9: UA9: Cynnal coetir

## J9.1 Nod

Nod y weithred hon yw cadw a chynnal y coetiroedd sydd gennych ar eich daliad.

Mae coetir o fewn systemau da byw yn gwella lles anifeiliaid, yn gwneud ffermydd yn fwy gwydn ac yn gwella canlyniadau amgylcheddol.

Mae coetiroedd hefyd yn rhan hanfodol o’r tirwedd; maen nhw'n bwysig i fywyd gwyllt, i’n hiechyd ac i’n mwynhad; ac maen nhw'n rhannau annatod o dir ffermio.

## J9.2 Pwy ddylai gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Mae angen cynnal y Weithred Gyffredinol hon os oes gennych flociau unigol o goetir sydd 0.1 hectar neu fwy ar eich daliad sydd o dan eich rheolaeth lwyr chi. Gall eich coetir fod yn goetir llydanddail, yn blanhigfa gonwydd neu’n gymysgedd o’r ddau.

Bydd unrhyw ddarn o goetir sy'n cael ei reoli yn unol â'r Weithred Gyffredinol hon yn gymwys am y Taliad Cynnal Coetir ychwanegol (gweler Adran O).

Rhaid i chi hefyd fodloni gofynion GAEC 7 Sylfaen Reoleiddio'r SFS mewn perthynas â choed (gweler Adran G). Er enghraifft, pryd y byddwch yn cael cwympo neu dorri coed.

**Pwysig:**

Dylid rheoli coed unigol neu grwpiau o goed sy'n llai na 0.1 hectar yn unol â'r Cod i Bawb: Rhan 3 – Coed (gweler Adran H). Nid yw'r coed hyn yn gymwys am y Taliad Cynnal Coetir.

Nid yw perllannau a choed pori yn cael eu hystyried yn goetir a dylid eu cadarnhau a'u rheoli yn unol ag UA5: Cynnal Cynefin (gweler Adran J5) a'r Cod i Bawb (gweler Adran H)

## J9.3 Cydymffurfio ag Amodau Coetir a Choed mewn Cytundebau Tenantiaeth

Wrth asesu eich gallu i gydymffurfio â gofynion y Weithred Gyffredinol hon, mae'n hanfodol ystyried telerau penodol eich cytundeb tenantiaeth o ran coed a choetir. Bydd eich cyfrifoldebau ac a ydych yn gymwys yn dibynnu ar natur yr amodau hyn:

- **Os nad yw'r coetir a'r coed yn rhan o'r denantiaeth**: Nid oes gan y tenant reolaeth ar y tir na'r coed. Felly, mae'n annhebygol y byddwch yn gallu bodloni'r gofynion ac, os nad yw'r tir o dan eich rheolaeth lwyr, ni ddylech ei ddatgan.

- **Os nad yw'r coed yn dod o denantiaeth ond bod y coetir ei hun wedi'i gynnwys**: Efallai bod gan y tenant rai cyfrifoldebau am reoli'r coetir (e.e. llystyfiant y llawr, llwybrau mynediad, neu gynnal cynefinoedd) ond nad yw’n cael gwneud unrhyw beth all effeithio'n uniongyrchol ar y coed (e.e. tocio, cwympo neu blannu). Yn y senario hwn, dylech ddatgan y tir ar y SAF a dylech allu bodloni'r gofynion. Ond efallai y bydd angen ichi ofyn am gael eich rhyddhau o ofynion penodol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â choed, os bydd y landlord am wneud rhywbeth sydd heb ei ganiatáu.
- **Os yw'r coetir a'r coed yn rhan o’r denantiaeth**: Mae gan y tenant reolaeth lwyr ar y tir a'r coed. Yn y senario hwn, disgwylir i chi gydymffurfio'n llawn â'r gofynion. Dylech ddatgan y tir ar y SAF.

Felly, mae'n hanfodol edrych yn fanwl ar y cytundeb tenantiaeth i wybod beth sydd o dan eich rheolaeth a beth yw'ch cyfrifoldebau.

## J9.4 Gofynion

**Rhaid i chi:**

- gadw at yr holl ofynion cyfreithiol ynghylch coed a choetiroedd. Gallwch weld y rheolau yngylch faint y gallwch ei gwympo yn ogystal â gofynion o ran trwyddedau cwympo yn Sylfaen Reoleiddio’r SFS (gweler Adran G).
- cadw coed marw sy'n cyfateb i o leiaf 5% o faint y safle (1 o bob 20 o goed y canopi). Nid yw bonion coed sydd wedi’u cwympo yn cyfrif tuag at y ffigur hwn. Dylai'r 5% gynnwys cymysgedd o goed marw sy'n sefyll a choed marw ar lawr. Yn ddelfrydol, bydd y coed marw yn cynnwys coed maint canopi o amrywiaeth o rywogaethau. Os oes gennych dros 5% yn goed marw, cewch eu cymryd o'r safle cyn belled â bod o leiaf 5% yn aros.
- monitro effaith pori, difrod gan wiwerod llwyd ac unrhyw geirw sy'n bwyta'r dail a brigau a all effeithio ar allu coed a choetir i oroesi. Gall effeithiau annerbyniol gynnwys coed wedi’u blingo o'u rhisgl, mwy na 10% o lawr y coetir wedi’i stablad (sathru) neu’n foel, a phrinder blodau ar lawr y coetir yn y gwanwyn a'r haf. Os medrwch, peidiwch â gadael i dda byw bori'r coetir yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf.
- cadw'r holl fannau sy’n fwriadol agored yn y coetir, megis rhodfeydd neu lennyrch. Mae mannau agored yn caniatáu symudiad a mynediad drwy'r coetir ac yn cyfrannu at ei werth ecolegol. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd i gadw mannau’n agored a rhwystro coed rhag tyfu ynddynt. Gall hyn gynnwys torri a phori. Gall mannau agored bwriadol gyfrif am hyd at 20% o'r bloc coetir.

- sicrhau bod gwaith tocio neu dorri yn cael ei wneud yn briodol â thoriad glân ac nad yw'n arwain at ddirywiad yng nghyflwr y coed.
- annog aildyfiant naturiol trwy dorri planhigion, fel rhedyn neu fieri a allai atal coed ifanc rhag tyfu, yn ôl o bryd i'w gilydd. Cadwch fannau agored fel rhodfeydd a llennyrch yn glir. Dros amser, bydd hyn yn helpu i greu cymysgedd o goed ifanc a llwyni ifanc i gynnal canopi'r coetir.

**Peidiwch â:**

- Thorri amodau trwydded cwympo. I gael rhagor o wybodaeth am drwyddedau cwympo gweler GAEC 7 o Sylfaen Reoleiddio'r SFS (gweler Adran G) a CNC / Gwiriwch a oes angen trwydded cwympo arnoch

- Niweidio fflora brodorol, coed a'u gwreiddiau yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys osgoi'r gweithgareddau canlynol o fewn coetir:
    - Peidiwch â thrin y pridd na'i droi o fewn cyrraedd gwreiddiau'r coed.
    - Peidiwch â defnyddio agro-gemegolion, gan gynnwys:
        - Gwrteithiau
        - Chwynladdwyr
        - Plaladdwyr:
    - Peidiwch â defnyddio peiriannau trwm a allai:
        - Cywasgu pridd
        - Difrodi gwreiddiau
        - Difrodi rhisgl
    - Peidiwch â phalu ffosydd, cloddio, na chodi pridd ger coed.
    - Peidiwch â storio deunyddiau (e.e. boncyffion, offer, cemegau) wrth fon y coed
    - Peidiwch â chynnau tannau na llosgi ger coed.

- Peidiwch â thorri, tocio na chwympo coed yn ystod tymor nythu'r adar rhwng 1 Mawrth a 31 Awst oni bai bod yr eithriadau canlynol yn berthnasol a'ch bod yn gallu hefyd fodloni eich rhwymedigaethau o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ar gyfer gwarchod adar gwyllt;

    - mae'r goeden yn hongian dros ffordd fawr, ffordd, trac neu lwybr troed a ddefnyddir gan y cyhoedd, ac mae'r gwaith yn angenrheidiol am fod y llystyfiant sy'n hongian drosodd:
        - yn rhwystro cerbydau neu gerddwyr rhag mynd heibio
        - yn rhwystro golwg gyrwyr, neu'r golau o lamp gyhoeddus, neu
        - yn peri perygl i bobl ar geffylau
    - mae angen torri neu docio'r goeden am ei bod wedi marw, am fod ganddi glefyd, am ei bod wedi'i difrodi neu am fod ei gwreiddiau'n anniogel, ac

felly mae'n debygol o achosi perygl drwy gwympo ar ffordd fawr, ffordd neu lwybr troed
    - mae angen i'r cwmni sy'n gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw linellau trydan neu ffôn uwchlaw'r ddaear dorri coed yn eu hôl am resymau diogelwch
    - ar dir âr, lle mae'n arfer amaethyddol i gnwd âr gaeaf gael ei blannu cyn 31 Awst, bydd angen ichi dorri'r coed perthnasol yn ôl o 1 Awst cyn belled nad ydych yn aflonyddu ar adar sy'n nythu
    - mae Awdurdod Lleol wedi cyflwyno hysbysiad gorfodi o dan Adran 154 o Ddeddf Priffyrdd 1980 er mwyn sicrhau na chaiff llwybr cerbydau neu gerddwyr ei rwystro na'i beryglu, ac ystyrir bod angen tocio/torri neu blygu'r goden a/neu ganghennau coed yn y lleoliadau a ddisgrifir
    - bod angen torri neu docio i gynnal ffos.

    Dylech gadw tystiolaeth, e.e. ffotograffau a/neu unrhyw lythyrau oddi wrth yr awdurdodau cymwys perthnasol sy'n dangos yn glir pam roedd angen torri neu docio coed rhwng 1 Mawrth a 31 Awst. Dylech ddangos y dystiolaeth pan ofynnir amdani mewn archwiliad.

- Rhoi porthiant atodol i anifeiliaid o fewn coetir llydanddail.

  Gellir rhoi porthiant atodol mewn coetiroedd conwydd lle bo gofyn penodol am hynny er lles da byw.  Os ydych yn ystyried rhoi porthiant atodol i anifeiliaid mewn coetir conwydd, rhaid i chi ddilyn y canllawiau yn y Cod i Bawb sy'n ymwneud â phorthi atodol ar dir cynefin heb ei amgáu. (gweler Adran H)

  Nid ystyrir bod adar hela yn dda byw at ddibenion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Caniateir ichi roi porthiant atodol i adar hela yn unol â Chanllawiau ‘Sustainable Gamebird Releasing’ yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt lle caiff adar eu rhyddhau'n gyfreithlon.

- Peidiwch â defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion ac eithrio at ddiben rheoli rhywogaethau estron goresgynnol neu reoli plâu a chlefydau coed hysbysadwy. Gofalwch eich bod yn dilyn canllawiau'r cynnyrch a'ch bod wedi cael cymeradwyaeth CNC os byddwch yn eu defnyddio mewn neu wrth ymyl cwrs dŵr neu safle dynodedig

- Peidiwch â defnyddio'r coetir ar gyfer gweithgareddau mewn cerbydau oddi-ar-y-ffordd sydd heb eu cymeradwyo. Rhaid i bob digwyddiad gadw at y Cod Defnyddwyr Llwybrau, y Cod Cefn Gwlad, a'r rheoliadau cyfreithiol a diogelwch perthnasol.

- Peidiwch â chynnal gweithgareddau symud pridd nac adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, baeau llwytho/mannau pentyrru nac unrhyw strwythurau newydd o fewn y coetir, heb gymeradwyaeth ymlaen llaw. Rhaid i chi ofyn am

gymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol cyn dechrau unrhyw waith.

Os oes gennych Gynllun Rheoli Coedwigoedd dilys sydd wedi'i gymeradwyo gan CNC, neu drwydded cwympo, dylech barhau i reoli eich coetir yn unol â'r gofynion hyn.

Os na fyddwch yn bodloni'r gofynion, gallech gael eich cosbi yn unol â'r Safonau Dilysadwy a'r Matrics Cosbau (gweler Adran Q)

## J9.5 Safleoedd Dynodedig

Os yw'r ardal o goetir o fewn safle dynodedig, rhaid i chi beidio â thorri coed, symud pren marw, porthi atodo na defnyddio peiriannau neu gynhyrchion amddiffyn planhigion na gwneud gwaith rheoli a restrir fel Gwaith a allai fod yn Niweidiol (PDO) neu Waith sy'n Debygol o Niweidio'r Buddiant Arbennig (OLDSI) heb ganiatâd SoDdGA o fewn ffin SoDdGA. Cyn gwneud unrhyw waith o'r fath, bydd angen mynd trwy'r broses arferol o wneud cais i CNC am ganiatâd SoDdGA drwy hysbysiad o fwriad. Rhaid i unrhyw waith sy'n cael ei wneud gael ei wneud yn unol â'r caniatâd SoDdGA a roddir. Yr eithriadau i hyn fydd:

- Os oes gennych Gytundeb Rheoli Tir, megis Cytundeb Adran 16, eisoes gydag CNC. Rhaid i chi barhau i reoli'ch tir yn unol â'r cytundeb hwnnw nes y daw i ben.
- Os oes gennych Gynllun Rheoli a Rhestr Gwaith (SoW) y cytunwyd arnynt y mae caniatâd SoDdGA wedi'i roi ar eu cyfer fel rhan o Gynllun Rheoli Safle Dynodedig UA7
- Rydych chi'n gwneud gwaith rheoli cynefinoedd sydd wedi'i dargedu o dan thema Opsiynol yr SFS, ac mae caniatâd SoDdGA wedi'i roi ar ei gyfer. Os oes gennych Gynllun Rheoli Coedwigoedd sy'n cydymffurfio ag UKFS sydd wedi'i gymeradwyo gan CNC. Os yw Cytundeb Rheoli Tir sydd gennych eisoes ag CNC yn gofyn ichi wneud yr un gwaith ar yr un darn o goetir, yna caiff y taliad cynnal coetir ei addasu yn unol â hynny rhag ichi gael eich talu ddwywaith ar yr un darn o dir.

## J9.6 Llacio'r Gofynion

Os nad ydych yn gallu bodloni un neu fwy o ofynion y Weithred Gyffredinol hon, rhaid gofyn am rhanddirymiad drwy lenwi'r 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Rhanddirymiad neu Ffurflen Ymholiad' ar eich cyfrif RPW Ar-lein. Caiff pob achos ei ystyried yn ôl ei deilyngdod. Gweler Adran K am ragor o wybodaeth.

## J9.7 SAF 2026

Rhaid i chi gadarnhau'r darnau o goetir a/neu ganopi coed dros 0.1 hectar ar SAF 2026 fel rhan o'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

Gellir defnyddio coetir llydanddail wedi'i sefydlu (sydd ag o leiaf 80% ohono'n rhywogaethau llydanddail) dros 0.1 hectar o faint i fodloni'r gofyn bod 10% o'r fferm yn gynefin (gweler Adran I).

Rhag eich talu ddwywaith, rhaid i chi gadarnhau ar SAF 2026 a ydych yn derbyn taliad am unrhyw un o'r gofynion rheoli uchod o unrhyw ffynhonnell arall (e.e. Cytundeb Rheoli Adran 16 CNC). Fel rhan o'r broses o ddilysu'ch eich hawliad am daliad Cyffredinol yr SFS, efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth i gefnogi'ch datganiad.

## J9.8 Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS

Rhaid i chi gadarnhau ar eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS eich bod wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

Pan gaiff yr wybodaeth ei dilysu, bydd y dangosfwrdd yn cadarnhau'ch bod wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

## J9.9 Cadw cofnodion

Rhaid i chi gadw tystiolaeth pam mae coed wedi cael eu torri/tocio rhwng 1 Mawrth a 31 Awst fel y nodir uchod a sicrhau ei bod ar gael os gofynnir am ei gweld mewn archwiliad.

Os yw coeden yn cael ei thorri am ei bod yn beryglus, dylech gadw tystiolaeth ei bod yn berygl yn hytrach nag yn berygl canfyddedig h.y. tystiolaeth ffotograffig.

Os oes gennych Gynllun Rheoli Coedwigoedd dilys sydd wedi'i gymeradwyo gan CNC, neu drwydded cwympo a allai fod yn drech na rhai o'r gofynion a restrir uchod, efallai y bydd angen i chi roi tystiolaeth o hyn.

Dylech gadw unrhyw gymeradwyaeth/caniatâd a roddwyd ar gyfer gweithgareddau mewn coetiroedd, gan efallai y bydd angen eu dangos mewn archwiliad.

Rhaid ichi gadw'r holl dystiolaeth ar eich fferm am gyfnod o 5 mlynedd a'i dangos pan ofynnir ichi wneud mewn archwiliad.

# J10: UA10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi / Gwrychoedd

## J10.1 Nod

Nod y weithred hon yw eich annog i ystyried ble y byddai plannu coed, coetir neu berthi/gwrychoedd o fudd i'ch busnes ffermio.

Trwy integreiddio rhagor o goed a pherthi ar draws eich fferm, darperir rhwystrau bioddiogelwch ar hyd terfynau'r fferm, a chysgod a lloches i dda byw ac i gnydau o'u plannu fel lleiniau cysgodi. Gellir hefyd eu plannu yma ac acw ar eich tir fel rhan o system coed pori neu goed âr. Mae gan goed system wreiddiau helaeth, sy'n cynorthwyo'r pridd i ddal mwy o ddŵr ac atal erydiad, gan helpu ffermydd i fod yn fwy gwydn rhag sychder a glaw trwm.

Mae plannu cnwd pren ar gyfer y dyfodol, fel rhan o fusnes fferm sydd wedi arallgyfeirio, yn gallu bod yn opsiwn addas.

Mae gan y weithred hon gysylltiad â Gweithredoedd Cyffredinol eraill ac mae'n gallu cefnogi'r gofyniad bod 10% o bob fferm yn gynefin.

Mae coed ychwanegol a blannwyd neu a sefydlwyd mewn perthi/gwrychoedd er mwyn bodloni gofynion Gweithred Gyffredinol 8: Rheoli Perthi/Gwrychoedd hefyd yn gallu cyfrif tuag at gyflawni'r gofyniad yn ymwneud â'r arwynebedd plannu sylfaenol ar gyfer y Weithred Gyffredinol hon.

Gall unrhyw goetir llydanddail sydd newydd ei blannu (sy'n cynnwys o leiaf 80% o goed llydanddail) mewn blociau unigol o 0.1 hectar neu fwy, neu berthi/gwrychoedd newydd unigol 20m o hyd neu fwy, gyfrif tuag at eich gofyniad blynyddol i neilltuo 10% o'r tir fel cynefin os yw'n cael ei blannu cyn dyddiad cau SAF, sef 15 Mai. Gweler y gofynion ar gyfer 10% o dir cynefin yn Adran I.

## J10.2 Pwy sydd angen cwblhau'r Weithred Gyffredinol hon

Bydd angen i chi gwblhau Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd, waeth beth yw'r arwynebedd presennol o orchudd canopi coed neu berthi/gwrychoedd ar eich daliad neu ddeiliadaeth y tir.

## J10.3 Gofynion

Mae'r Weithred Gyffredinol hon yn cynnwys dau ofyniad gwahanol:

- Cwblhau Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd ar RPW ar-lein erbyn 31 Rhagfyr 2026.
- Dangos cynnydd tuag at roi eich cynllun ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2028.

Os nad ydych chi'n bodloni'r gofynion, gellir cymhwyso sancsiynau yn unol â'r Matrics Safonau Dilysadwy a Sancsiynau cyhoeddedig (gweler Adran Q).

## 1. Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi / Gwrychoedd

Dylai eich cynllun nodi rhannau o'ch daliad a fyddai, yn eich barn chi, yn elwa ar goed, coetir neu berthi/gwrychoedd newydd ar sail yr hyn rydych chi'n ei wybod am ffermio, eich math o fferm a'i lleoliad.

Gall y cynllun gynnwys blociau o goed, coed unigol neu gymysgedd o'r ddau.

Gallwch gynnwys coed unigol i'w plannu ar hyd ffiniau caeau traddodiadol, gan gynnwys oddi mewn i berthi/gwrychoedd presennol.

**Cynllun coed**

Mae'n rhaid i'ch cynllun gynnwys o leiaf 0.1 hectar o goed newydd posibl. Byddwn yn cyfrifo hyn ar eich rhan trwy ddefnyddio'r arwynebeddau a'r coed rydych chi wedi'u plotio yn eich cynllun cyfle.

- Isafswm maint arwynebedd y gellir ei nodi yn y cynllun yw 0.01ha.
- Bydd gan goed unigol sy'n cael eu plotio yn y cynllun arwynebedd tybiannol o $4m^2$.

**Cynllun perthi/gwrychoedd**

Os ydych chi'n cynnwys plannu perthi/gwrychoedd newydd yn eich cynllun, rhaid i isafswm hyd y perthi/gwrychoedd unigol fod yn 20 metr.

**Cwblhau eich Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd ar RPW Ar-lein**

Bydd y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd ar gael i chi ei gwblhau trwy eich cyfrif RPW Ar-lein o Haf 2026 ymlaen.

Bydd angen i chi ateb cyfres o gwestiynau am y canlyniadau rydych chi'n dymuno eu cyflawni o bosibl e.e. lliniaru perygl llifogydd. Bydd y rhain yn eich tywys i ystyried pa ardaloedd a allai fod yn addas ar gyfer plannu cyn mapio'r manylion.

Ar ôl i chi gwblhau'r cynllun, darperir crynodeb o'r arwynebeddau o goed newydd a hyd y perthi/gwrychoedd rydych chi wedi'u mapio.

Mae'n bosibl y bydd yr holl dir sy'n cael ei ddosbarthu fel cynefinoedd presennol, neu dir sy'n bwysig i rywogaethau â blaenoriaeth, fel y gylfinir, yn anaddas ar gyfer ei blannu. Mae pob un o'r rhain yn cael eu dosbarthu fel nodweddion sensitif, a

byddwch yn cael gwybod am unrhyw nodweddion sensitif wrth gwblhau'r cynllun.

Er y bydd gwaith plannu coed newydd a gwblhawyd ers 1 Ebrill 2022 yn cyfrif tuag at ddangos cynnydd tuag at weithredu'r cynllun, bydd angen i chi gynnwys arwynebeddau plannu coed ychwanegol yn eich cynllun yn 2026.

Mae rhagor o fanylion am ardaloedd anghymwys, nodweddion sensitif a rhanddirymiad posibl wedi'u darparu isod.

**Diwygiadau i'ch Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd**

Ar ôl i chi gwblhau'ch cynllun, gallwch ei ddiwygio ar unrhyw adeg. Bydd hyn yn golygu bod modd i chi roi cyfrif am newid mewn amgylchiadau, megis newidiadau i'r tir, newidiadau i gytundeb tenantiaeth, neu os ydych chi am newid arwynebedd y coed a'r gwrychoedd posibl sydd i'w plannu.

## 2. Cynnydd tuag at weithredu eich cynllun a'r gofynion plannu sylfaenol

Rhaid i chi ddangos cynnydd tuag at weithredu eich cynllun erbyn 31 Rhagfyr 2028. Gellir dangos hyn fel a ganlyn:

| Dangos Cynnydd | Terfyn amser |
|---|---|
| Plannu coed a/neu goetir sy'n cwmpasu arwynebedd o 0.1ha o leiaf ers 1 Ebrill 2022.<br>● Os ydych chi wedi cwblhau'r gofyniad plannu hwn fel rhan o gynllun creu coetir Llywodraeth Cymru, byddwn yn cadarnhau'n awtomatig eich bod wedi bodloni'r gofyniad.<br>● Os ydych chi wedi cwblhau'r gofyniad plannu hwn y tu allan i gynllun Llywodraeth Cymru, bydd angen i chi gadarnhau arwynebedd neu nifer y coed a blannwyd, a'r dyddiadau sefydlu, yn yr SAF. | Amherthnasol. |
| Bod â Llythyr Dyfarnu Grant cymeradwy gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â phlannu o leiaf 0.1ha o goed neu goetir newydd, a chwblhau'r gwaith plannu erbyn 31 Mawrth 2029. | Y Llythyr Dyfarnu Grant i'w dderbyn erbyn 31 Rhagfyr 2028 |

| | |
|---|---|
| | Y gwaith plannu i'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2029. |
| Cwblhau gwaith plannu o leiaf 0.1ha o goed neu goetir y tu allan i gynllun grant Llywodraeth Cymru. | Y gwaith plannu i'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2029 |
| Cyflwyno a gofyn am gymeradwyo cais am randdirymiad os yw'n briodol. | 31 Rhagfyr 2028 |

**Noder:**

Rhaid i chi blannu o leiaf 0.1 hectar (gydag isafswm dwysedd plannu o 2,500 o goed/ha) neu 250 o goed unigol a allai fod mewn un bloc neu'n gyfuniad o goed unigol, coed mewn perthi/gwrychoedd a grwpiau llai o goed. Rhaid newid coed sy'n methu â sefydlu am rai newydd.

Rhaid cwblhau'r gwaith plannu coed erbyn 31 Mawrth 2029 waeth a ydych chi wedi hawlio am Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy am y tro cyntaf yn 2026, 2027 neu 2028.

Ar ôl eu plannu, ni fydd arwynebeddau o goed newydd sydd wedi'u plannu mewn blociau unigol ac sy'n llai na 0.1 hectar yn gymwys ar gyfer y Taliad Cynnal Coetir ac ni fyddant yn cyfrannu at y gofyniad o 10% ar gyfer tir cynefin.

Gallwch ddewis cwblhau eich gwaith plannu coed newydd naill ai oddi mewn neu'r tu allan i gynllun creu coetir Llywodraeth Cymru.

Bydd angen i chi fod wedi gwneud cais am grant erbyn 1 Tachwedd 2028 os ydych chi'n dewis plannu coed trwy ddefnyddio Cynllun Llywodraeth Cymru.

Mae rhagor o fanylion am blannu coed, arwynebeddau anghymwys, rhanddirymiadau posibl a'r cyllid grant sydd ar gael wedi'u darparu isod.

**Pa fath o waith plannu coed nad yw'n cyfrif tuag at y gofyniad 0.1ha?**

Ni fydd y mathau canlynol o blannu coed yn cyfrif tuag at y gofyniad sylfaenol ar gyfer plannu coed:

- Plannu ar dir anghymwys *(gweler y manylion isod)*
- Perllannau

- Plannu coed Nadolig
- Creu neu adfer perthi/gwrychoedd. Er nad yw'r perthi/gwrychoedd eu hunain yn cyfrif, mae coed unigol sy'n cael eu plannu mewn perthi/gwrychoedd (e.e. un pob 50m) yn gallu cyfrif tuag at y gofyniad am 0.1ha/250 o goed.

**Tir anghymwys**

Ni fydd unrhyw waith plannu coed sy'n digwydd ar y tir canlynol yn cyfrif tuag at y gofyniad plannu sylfaenol:

- Darnau o dir o fewn coetir presennol neu o dan ganopi coed presennol, fel y cadarnhawyd yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd SAF.
- Tir a ddatganwyd yn eich SAF fel Nodweddion Anghymwys a Gweithgareddau/Tir Anamaethyddol.
- Darnau o dir sy'n safleoedd dynodedig neu'n ardaloedd gwarchodedig lle nad oes gennych ganiatâd na chydsyniad i blannu coed, er enghraifft, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig *(gweler yr is-bennawd "Nodweddion sensitif" am ragor o wybodaeth).*
- Darnau o dir lle bydd coed yn cael eu sefydlu trwy aildyfiant naturiol a/neu adfywio naturiol.
- Darnau o dir lle bydd coed yn cael eu plannu fel gweithgaredd ailstocio, gan gynnwys ail-blannu coed marw neu goed sydd wedi cwympo.
- Darnau o dir neu goed unigol lle mae angen plannu coed at ddibenion cydbwyso oherwydd bod coed wedi'u cwympo'n anghyfreithlon ac mae'n ofynnol i chi blannu coed newydd, er enghraifft, fel rhan o ailstocio neu hysbysiad gorfodi.
- Darnau o dir nad ydych chi'n gyfrifol am eu rheoli'n llawn e.e. tir comin, tir a ddefnyddir yn gyffredin, tir pori a rennir neu dir sy'n cael ei ddal ar sail trwydded bori.

**Nodweddion sensitif:**

Er y byddwch yn gallu mapio cyfleoedd plannu ar sail nodweddion sensitif, ni ddylech blannu oni bai eich bod wedi derbyn caniatâd gan CNC drwy Gynllun Creu Coetir wedi'i ddilysu, neu fod gennych gontract Grantiau Bach - Cynllun Creu Coetir cymeradwy ar gyfer y gwaith plannu.

Mae'n bosibl na fydd modd i chi blannu ar sail nodweddion sensitif, felly rydym yn eich annog i fapio cyfleoedd plannu ar rannau eraill o'ch fferm oherwydd bydd hynny'n debygol o'i gwneud hi’n symlach ac yn gyflymach i chi roi eich cynllun ar waith.

### Rhanddirymiad o'r gofynion sylfaenol i blannu coed

Gall rhanddirymiad o'r gofyniad sylfaenol i blannu coed fod yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol;

- Rydych chi'n denant nad oes gennych ganiatâd eich landlord i fynd ati i blannu coed newydd. Efallai y bydd gofyn i chi ddarparu eich cytundeb tenantiaeth neu lythyr gan eich landlord os oes gennych denantiaeth anysgrifenedig, fel tystiolaeth nad ydych yn gallu plannu coed newydd.
- Nid oes gennych ddigon o dir addas i blannu coed newydd oherwydd nodweddion sensitif, er enghraifft, cynefin â blaenoriaeth neu fawndir. Rhaid eich bod wedi cyflwyno cais cyn ymgeisio i CNC ac wedi derbyn cadarnhad gan CNC nad oes modd plannu coed ar eich tir. Bydd angen i chi sicrhau bod amser rhesymol wedi cael ei neilltuo ar gyfer eich cais cyn ymgeisio ac i dderbyn ymateb cyn y dyddiad cau ar 31 Rhagfyr 2028.
- Nid oes gennych unrhyw ardaloedd/digon o ardaloedd cymwys ar eich fferm.

  **Noder:** Ni fydd yn ofynnol i chi gyflwyno cais am randdirymiad os ydych chi'n dibynnu ar waith plannu coed sydd wedi cael ei wneud ers 1 Ebrill 2022 i fodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

  Os ydych chi'n credu bod rhanddirymiad yn berthnasol i chi, dylech lenwi'r ffurflen Rhanddirymiad neu Ymholiad drwy eich cyfrif RPW Ar-lein (gweler Adran K).

### Cymorth Grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru

Mae cymorth dewisol ar gael ar gyfer amrywiaeth o opsiynau plannu coed gwahanol gan ddibynnu ar eich system amaethyddol, y math o dir a'i nodweddion sensitifrwydd amgylcheddol.

- Mae rhai cynlluniau yn cefnogi gwaith plannu ar 0.1 hectar ar dir sydd wedi'i wella at ddibenion amaethyddol
- Mae eraill wedi'u cynllunio ar gyfer tir mwy sensitif, ac mae'n bosibl y bydd angen isafswm arwynebedd mwy, fel 0.25 hectar.
- Hefyd, mae opsiwn ar gael i fodloni'r gofyniad trwy **amaeth-goedwigaeth**, trwy blannu **isafswm o 250 o goed gwasgaredig**.

Mae rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau grant ar gael yn [Grantiau a thaliadau gwledig | Is-bwnc | LLYW. CYMRU]

### Plannu annibynnol (y tu allan i Gynllun Grant Llywodraeth Cymru)

- Peidiwch â phlannu coed ynn oherwydd y perygl o glefyd (Chalara) coed ynn.

- Argymhellir y dylid plannu coed rhwng yr hydref a'r gwanwyn er mwyn rhoi cyfle i'r coed ymsefydlu.
- Rhaid amddiffyn coed rhag difrod posibl gan anifeiliaid sy'n pori neu'n deintio'r brigau (er enghraifft, trwy ddefnyddio llewys coed), ond nid oes angen eithrio stoc o goed unigol neu ardaloedd o blannu coed newydd.
- Rhaid newid coed sy'n methu â sefydlu am rai newydd.
- Rhaid cwblhau'r holl waith plannu coed newydd yn unol â'ch gofynion cyfreithiol. Rhaid i chi sicrhau nad oes unrhyw waith sy'n cael ei wneud i fodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon yn torri rhwymedigaethau amgylcheddol o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol arall, gan gynnwys Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop, nac yn niweidio unrhyw nodweddion amgylcheddol hanesyddol.

## J10.4 SAF 2026

Mae angen defnyddio'r Codau Cnydau perthnasol i ddatgan gwaith plannu coed newydd yn ogystal â diweddaru'r manylion canopi coed yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd. Bydd rhagor o ganllawiau i'ch helpu i gwblhau'r adolygiad sylfaenol ar gael gyda'r canllaw 'Sut i gwblhau' SAF ym mis Mawrth.

## J10.5 Dangosfwrdd Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Ar ôl i chi gwblhau a chyflwyno eich cynllun cyfle i blannu coed a chreu perthi/ gwrychoedd, bydd Dangosfwrdd Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei ddiweddaru'n awtomatig.

Bydd cynnydd tuag at weithredu eich cynllun a chwblhau'r gofynion plannu coed yn cael ei ddangos o 2027 ymlaen.

## J10.6 Cadw Cofnodion

Nid oes unrhyw ofynion cadw cofnodion ar gyfer y Weithred Gyffredinol hon, ond gallech chi gadw unrhyw gofnodion sy'n gysylltiedig â phlannu coed nad ydynt yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

# J11: UA 11: Yr Amgylchedd Hanesyddol

## J11.1 Nod

Nod y Weithred Gyffredinol hon yw monitro, cynnal a diogelu ein nodweddion hanesyddol pwysig (neu ein hasedau fel y'u gelwir weithiau), a helpu i gynnal cymeriad diwylliannol neilltuol Cymru.

Mae cefn gwlad Cymru yn glytwaith o dirweddau naturiol a diwylliannol, a ffurfiwyd gan y rhyngweithio rhwng pobl, gan gynnwys cenedlaethau o ffermwyr, a'r amgylchedd naturiol dros filoedd o flynyddoedd. Tirwedd Cymru, fel y mae heddiw, sy'n rhoi i Gymru ei chymeriad gweledol a diwylliannol neilltuol.

## J11.2 Pwy sydd angen cwblhau'r Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i chi gwblhau'r Weithred Gyffredinol hon os oes gennych unrhyw un o'r canlynol ar eich daliad.

Henebion Cofrestredig

Caiff henebion sydd o bwys cenedlaethol eu dosbarthu'n Henebion cofrestredig. Mae'r gyfraith yn eu diogelu rhag difrod, achosion o aflonyddu a gwaith anawdurdodedig o dan **Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), 2023 (ar legislation.gov.uk).**

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol

Gall Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol gyfeirio at un safle, grŵp o safleoedd neu ardaloedd archaeolegol sensitif mwy o ran maint. Er nad yw'r gyfraith yn eu diogelu, maent yn bwysig fel safleoedd o arwyddocâd lleol neu ranbarthol sy'n cyfrannu at gymeriad hanesyddol cefn gwlad.

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig

Mae yna bob math o wahanol barciau a gerddi hanesyddol a thirweddau hanesyddol wedi'u dylunio, o barciau ceirw a thir parc gwledig o amgylch plastai i dir ysbytai a pharciau cyhoeddus. Maent yn cwmpasu ardaloedd mawr yn aml a gallant gynnwys olion archaeolegol a strwythurau adeiledig, gwaith plannu ffurfiol ac anffurfiol, tir parc, tir amaeth, coetir, nodweddion dŵr a thirffurfiau naturiol ac artiffisial. Mae'r elfennau hyn oll yn cyfrannu at ddiddordeb hanesyddol arbennig y safle a gall meithrin dealltwriaeth dda ohonynt, gan gynnwys cynllun hanesyddol a defnydd tir hanesyddol, eich helpu i wneud penderfyniadau rheoli sympathetig ac ar sail gwybodaeth heb beryglu'r arwyddocâd hanesyddol.

Adeiladau Fferm Traddodiadol

Fel arfer, adeiladwyd adeiladau fferm traddodiadol cyn 1919, gyda waliau solet a chan ddefnyddio deunyddiau lleol, gan gynnwys llechi, carreg neu bren. Maen nhw fel arfer yn ddiaddurn ac wedi'u hadeiladu at ddiben ac mae gan lawer ohonynt y nodweddion allanol gwreiddiol o hyd. Maen nhw'n dystiolaeth hanesyddol bwysig o

adeiladwaith domestig at ddiben ac arferion ffermio'r gorffennol, heb elfennau modern yn aml. Maen nhw'n rhan allweddol o'r amgylchedd hanesyddol ond nid ydynt wedi'u diogelu'n gyfreithiol o reidrwydd. Mae'n werth cadw adeiladau fferm traddodiadol gan eu bod yn cyfrannu at y dirwedd ehangach, golygfeydd a'n dealltwriaeth o hanes, ac maent hefyd yn strwythurau defnyddiol ac ymarferol.

Bydd lleoliad a maint y nodweddion hyn yn cael eu nodi ar y Map SFS.

## J11.3 Gofynion

Rhaid i chi fodloni'r gofynion canlynol;

**Henebion Cofrestredig**

- Rhaid i chi fodloni eich gofynion cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw Henebion Cofrestredig ar eich tir, yn unol â Sylfaen Reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy GAEC 7.
- Rhaid i chi gwblhau archwiliad o leiaf unwaith y flwyddyn i weld a oes dirywiad wedi bod.
- Rhaid i chi gael tystiolaeth, fel ffotograffau â geotag o unrhyw ddirywiad, a'i chadw am bum mlynedd. Hefyd, **gallwch** gyflwyno'r ffotograffau i Cadw drwy'r ddolen hon https://mapdata.llyw.cymru/survey/cadw-condition-monitoring/ neu drwy e-bostio: ScheduledMonuments@llyw.cymru.
- Dylech sicrhau nad yw prysgwydd yn amharu ar yr heneb a dylech wneud gwaith sylfaenol i dynnu prysgwydd a llystyfiant goresgynnol (gan gynnwys unrhyw rywogaethau estron goresgynnol). Ni ddylech wneud unrhyw waith rheoli prysgwydd neu lystyfiant yn ystod y tymor nythu adar, rhwng 1 Mawrth a 31 Awst.
- Dylech wneud gwaith sylfaenol i drwsio effeithiau erydiad os bydd mân erydiad yn effeithio ar rannau o'r Heneb Gofrestredig.
- Rhaid i chi gadw cerbydau oddi ar olion sy'n sefyll a defnyddio cerbydau ysgafnach neu gerbydau sydd â theiars isel eu pwysau yn enwedig ar adegau allweddol o'r flwyddyn, pan fydd y tir yn wlyb neu'n orlawn o ddŵr. Defnyddiwch lwybr arall i osgoi'r Heneb Gofrestredig lle bynnag y bo modd.
- Rhaid i chi beidio â rhoi porthiant atodol neu osod cafnau dŵr newydd y tu mewn i ardal yr Heneb Gofrestredig rhag i dda byw stablad (sathru) y tir ac erydu.
- **Noder:** Heblaw am dynnu prysgwydd a gwaith sylfaenol i drwsio erydiad, nid oes modd gwneud unrhyw waith ar Heneb Gofrestredig heb gydsyniad ysgrifenedig gan Cadw. Mae canllawiau pellach ar gael ar wefan Cadw: Gofalu am eich heneb gofrestredig | Cadw

**<u>Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol</u>**

Ni ddylech ddifrodi Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol a nodir ar eich daliad. Mae mathau o ddifrod yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- Aflonyddu ar y tir neu gloddio'r tir, yn enwedig o dan uwchbridd.
- Taflu neu storio deunydd, gan gynnwys storio dros dro.
- Tynnu unrhyw ddeunydd, gan gynnwys cerrig, pridd neu isbridd.
- Arwyddion gweladwy o erydu (colli uwchbridd neu isbridd ac aflonyddu arno) a achosir gan dda byw a cherbydau neu arfer amaethyddol arall.
- Plannu coed.
- Caniatáu i brysgwydd sefydlu a datblygu oni chytunir ar hynny ar gyfer amcanion cadwraeth.
- Aredig neu ail-hau safleoedd heb eu trin.
- Symud nodweddion cerrig unigol.
- Trin y tir yn ddyfnach nag mewn blynyddoedd blaenorol.

**<u>Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig</u>**

- Rhaid i chi gadw adeiladau a strwythurau parciau a gerddi hanesyddol.
- Rhaid i chi wneud gwaith cynnal a chadw arferol, megis gwaith sylfaenol i dynnu prysgwydd.
- Rhaid i chi gadw llwybrau hanesyddol ac osgoi creu llwybrau ychwanegol sy'n darnio’r tir parc ac yn newid y cynllun hanesyddol.
- Rhaid cydymffurfio â Gweithred Gyffredinol 7 Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig wrth reoli Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig sydd hefyd wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

**Peidiwch â gwneud y canlynol:**

- rhoi porthiant ychwanegol neu osod cafnau dŵr newydd ger nodweddion hanesyddol neu goed parcdir.
- caniatáu i dda byw erydu neu ddifrodi tir parc neu nodweddion gerddi/hanesyddol

- caniatáu i dda byw ddifrodi coed parcdir h.y. tynnu rhisgl, difrodi gwreiddiau a chywasgu'r pridd

- difrodi llwybrau hanesyddol drwy dir parc

- cael gwared ar blanhigion hanesyddol

- defnyddio peiriannau i ddifrodi coed mewn tir parc

- tynnu nodweddion strwythurol neu dirweddol neu aflonyddu arnynt

- taflu neu storio deunydd, gan gynnwys storio dros dro

- ailfodelu'r dirwedd mewn ffordd sy'n ailbroffilio'r topograffi yn sylweddol h.y. gwneud gwaith mawr ar y pridd neu gyflwyno seilwaith newydd.

## Adeiladau Fferm Traddodiadol

**Noder:** Nid yw'r gofynion yn eich rhwystro rhag addasu neu drosi unrhyw adeilad fferm, ond eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi cael pob cydsyniad a thrwydded gan yr awdurdodau perthnasol.

Mae'r gofynion isod yn cynnwys gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio sylfaenol ac felly nid oes angen Cydsyniad Adeilad Rhestredig. Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu gwneud unrhyw waith ar adeilad rhestredig yn ychwanegol at y mathau o waith a nodir isod, dylech gadarnhau a oes angen cydsyniad arnoch.

- Rhaid i chi gadw'r holl adeiladau traddodiadol ac olion strwythurau ar eich tir, waeth beth fo'u cyflwr, oni bai eu bod yn achosi perygl iechyd a diogelwch amlwg.

- Diffinnir perygl amlwg fel rhywbeth sy'n ddigon agos at hawl tramwy cyhoeddus neu ganiataol fel y gallai deunydd sy'n cwympo rwystro'r llwybr neu rywbeth sy'n ddigon agos at lwybr mynediad arall neu adeilad fel y gallai cerrig sy'n cwympo achosi difrod.

- Os ydych chi'n gwaredu adeilad traddodiadol neu ran o adeilad traddodiadol sydd yn eich barn chi yn achosi perygl, rhaid i chi gadw tystiolaeth, fel ffotograffau â geotag.

- Rhaid i chi dynnu llystyfiant newydd oddi ar waliau cyn i’r tyfiant gydio. Dylid trin tyfiant goresgynnol na ellir ei dynnu â llaw heb ddifrodi gwaith cerrig neu waith pwyntio â chwynladdwr systemig, drwy chwistrellu'r coesyn, a'i adael yn ei le i farw a chwympo i'r llawr.

- Dylech dynnu llystyfiant sy'n tyfu yn erbyn waliau allanol, lle nad yw gwneud hynny'n lleihau uniondeb strwythurol y waliau sy'n weddill, a sicrhau nad yw pridd yn cronni wrth waelod waliau neu uwchben lefel rhwyllau awyru o dan y llawr neu frics aer. Archwiliwch sianeli a gylïau draenio am graciau ac uniadau agored, a'u selio os oes angen. Dylech osgoi storio deunyddiau y tu allan i'r adeilad yn agos at y waliau.

- Dylech ailosod cerrig rhydd unigol a gwneud gwaith pwyntio neu rendro ar ddarnau bach, gan sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â'r morter calch neu'r gwaith rendro presennol. Ni ddylech bwyntio unrhyw holltau ar grib y wal na selio bylchau rhwng waliau ag estyll talcen / tywydd / soffit. Yn ogystal, dylech adael 10% o'r holltau sy'n weddill heb eu llenwi. Archwiliwch unrhyw holltau rydych am eu llenwi â thortsh cyn dechrau unrhyw waith ac, os gwelwch unrhyw ystlumod neu faw ystlumod, rhowch y gorau i'r holl waith pwyntio a cheisio cyngor. Dylech wneud y gwaith rhwng 15 Mawrth ac 1 Ebrill a/neu rhwng 1 Medi a 31 Hydref.

- Dylech glirio unrhyw ddail a gweddillion o landeri, yn enwedig yn ystod yr hydref a'r gaeaf.

- Wrth ailosod pibellau dŵr, dylech osod darnau gwahanu pren y tu ôl i'r bracedau er mwyn gwella awyru a mynediad i ailaddurno. Os ydynt yn bresennol, sicrhewch fod rhwyllau a gorchuddion yn eu lle. Defnyddiwch rodenni i glirio draeniau os bydd angen.

Bydd canllawiau technegol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru i'ch helpu i fodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

Os nad ydych chi'n bodloni'r gofynion, gellir cymhwyso sancsiynau yn unol â'r Matrics Safonau Dilysadwy a Sancsiynau cyhoeddedig (gweler Adran Q).

## J11.4 Rhanddirymiadau

Os nad ydych chi'n gallu bodloni un neu fwy o ofynion y Weithred Gyffredinol hon, rhaid i chi wneud cais am randdirymiad drwy gwblhau 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Ffurflen Rhanddirymiad neu Ymholiad' ar eich cyfrif RPW Ar-lein. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol. Gweler adran K am ragor o wybodaeth.

## J11.5 SAF 2026

Bydd yn ofynnol i chi gadarnhau a oes gennych unrhyw nodweddion amgylchedd hanesyddol ar eich daliad.

## J11.6 Dangosfwrdd Cyffredinol SFS

Bydd angen i chi gadarnhau ar y Dangosfwrdd Cyffredinol SFS erbyn 15 Ionawr 2027 eich bod wedi bodloni holl ofynion y Weithred Gyffredinol hon.

Unwaith y mae'r wybodaeth wedi'i dilysu, bydd y dangosfwrdd yn cadarnhau a ydych chi wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

## J11.7 Cadw Cofnodion

Mae'r gofynion manwl ar gyfer y Weithred Gyffredinol hon yn cynnwys disgrifiad o'r mathau gwahanol o dystiolaeth sydd eu hangen i gofnodi newidiadau mewn cyflwr, (megis ffotograffau â geotag) neu gamau rheoli sydd wedi'u cymryd er budd yr ased hanesyddol.

Dylid cadw'r dystiolaeth a/neu'r dyddiadur gweithgarwch ar eich fferm am o leiaf 5 mlynedd a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio ar gais.

# J12: UA12: Iechyd a Lles Anifeiliaid

## J12.1 Nod

Nod y Weithred hon yw sicrhau ansawdd bywyd da i anifeiliaid drwy'r egwyddor 'gwell atal clwy na'i wella'.

Ei nod hefyd yw eich helpu i gydweithio â'ch milfeddyg i gadw'r anifeiliaid ar eich fferm mor iach ac mor gynhyrchiol â phosibl, ac i gefnogi'r mentrau a'r safonau iechyd a lles rhagorol sy'n cael eu cynnal ar ffermydd da byw Cymru.

Mae gan y weithred hon gysylltiadau cryf ag UA3: Meincnodi ac ag UA4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus (gweler Adrannau J3 a J4).

Rydyn ni'n eich cynghori i gynnal y weithred hon yn gynnar ym mlwyddyn y cynllun, gan y gallai helpu gyda meincnodi a dysgu ar gyfer 2026.

## J12.2 Pwy ddylai gynnal y Weithred Gyffredinol hon

Bydd angen i chi gynnal y Weithred Gyffredinol hon os ydych chi'n berchen neu'n geidwad cofrestredig ar dda byw, sy'n cael eu magu neu eu ffermio i gynhyrchu bwyd neu nwyddau.

Nid oes angen cynnal y Weithred Gyffredinol hon os:
- ydych chi'n berchen ar anifeiliaid anwes neu'n eu cadw yn unig fel anifeiliaid anwes neu fel rhan o weithgaredd tebyg i sw anifeiliaid anwes.
- nad chi sy'n gyfrifol am yr unig anifeiliaid sydd gennych ar eich tir (h.y. ar dac)

## J12.3 Gofynion

Mae tri gofyn penodol i'r Weithred Gyffredinol hon:
- Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC - Animal Health Improvement Cycle)
- Asesiad Bioddiogelwch Anifeiliaid sy'n dod i'r Fferm (Incoming Animal Biosecurity Risk Assessment)
- Lles Anifeiliaid

Ni fydd angen cynnal Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid ar fentrau bach sydd ond yn gwerthu wrth giât y fferm (e.e. wyau), neu lle cedwir da byw i'w bwyta'n breifat.

Perchennog y busnes neu'r ceidwad cofrestredig sy'n gyfrifol am bob elfen o'r Weithred Gyffredinol hon, ond gellir dirprwyo cyfrifoldeb i aelod enwebedig o staff y fferm (e.e. rheolwr fferm, stocmon) sydd â chyfrifoldeb rheolaidd am reoli anifeiliaid ac sy'n meddu ar wybodaeth amser real briodol o'r da byw a'r system ffermio.

Os na fyddwch yn bodloni'r gofynion, gallech gael eich cosbi yn unol â'r Safonau Dilysadwy a'r Matrics Cosbau (gweler Adran Q).

## J12.4 Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)

Nod y broses AHIC yw gwella iechyd, lles a chynhyrchiant anifeiliaid a gwneud y fferm yn fwy cynaliadwy trwy gydweithio strwythuredig, aml-gam a pharhaus rhwng y ffermwr a'r milfeddyg.

Os oes gennych fwy nag un rhywogaeth o dda byw ar eich daliad, dim ond ar gyfer un rhywogaeth y mae angen cwblhau'r AHIC. Mater i chi a'ch milfeddyg yw asesu pa un fyddai'n elwa fwyaf.

**Pa filfeddyg ddylai gynnal yr AHIC**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyflwyno hyfforddiant gorfodol ar AHIC i filfeddygfeydd ledled Cymru sy'n delio ag anifeiliaid mawr. Felly, y filfeddygfa leol sy'n gyfrifol am roi presgripsiynau milfeddygol ichi ac sy'n gofalu am eich anifeiliaid chi ddylai gynnal yr AHIC. Bydd ganddi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws iechyd eich da byw a gall ei defnyddio i ddeall a phennu amcanion a gweithredoedd realistig ar gyfer busnes eich fferm.

O dan amgylchiadau eithriadol, os yw capasiti neu allu'ch milfeddyg lleol yn brin, gallech ddefnyddio milfeddygfeydd eraill neu ymgynghorydd milfeddygol sy'n rhoi cyngor ar iechyd gwartheg a defaid yn rheolaidd, cyn belled â'u bod wedi cwblhau'r hyfforddiant AHIC gorfodol.

**Proses yr AHIC**

Rhaid llenwi templed yr AHIC, a rhaid i'ch milfeddyg ac aelod o fusnes eich fferm ei lofnodi. Mae'r templed hwn ar gael ichi ei lenwi'n ddigidol hefyd, gan ddefnyddio ap (os yw ar gael).

Mae templed yr AHIC ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Cynllun Ffermio Cynaliadwy | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

Mae proses yr AHIC wedi'i rhannu'n bedwar cam. Rydyn ni'n eu disgrifio isod a rhaid cymryd pob un i ateb gofynion y Weithred Gyffredinol hon. Y pedwar cam yw;

1. Mesur
2. Cynllunio
3. Gweithredu
4. Adolygu

Dylech gymryd camau'r AHIC mewn cylch 12 mis barhaus.

- Rhaid cwblhau Camau 1 a 2 a diweddaru a llofnodi templed yr AHIC erbyn 31 Rhagfyr 2026.

- Rhaid cwblhau camau 3 a 4 o fewn 12 mis ar ôl llofnodi'r cam 'mesur'. Mae hyn yn golygu, erbyn 31 Rhagfyr 2027, y byddwch wedi cwblhau'r AHIC i gyd ac wedi ailadrodd camau 1 a 2 ar gyfer blwyddyn 2027 y cynllun.

**Mesur** – Casglu gwybodaeth bwysig am iechyd eich da byw a'ch dull cynhyrchu (y Metrigau Iechyd Cynhyrchu (PHMs) fel y'u gelwir). Edrychwch ar y data hwn yn unol â nodau ac anghenion y fferm. Yna, gweithiwch allan y costau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid nad ydyn nhw'n gwneud cystal â'u gorau.

**Cynllunio -** Dewiswch un PHM neu fwy sy'n ymwneud ag agwedd ar iechyd neu gynhyrchu sydd angen ei gwella. Dyma'r agweddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar gynhyrchiant, iechyd a lles yr anifeiliaid, ac sy'n realistig eu gwella. Yna gallwch chi a'ch milfeddyg baratoi cynllun i sicrhau'r gwelliant y byddwch wedi cytuno arno.

**Gweithredu** - rhaid i chi, o dan arweiniad eich milfeddyg neu gymorth priodol arall yn ôl yr angen, gymryd y camau rydych wedi cytuno arnyn nhw, dros gyfnod addas o amser. Os oes rhannau o'r cynllun na fyddwch wedi'u cynnal, nodwch hynny ar dempled yr AHIC ac esbonio pam.

**Adolygu -** adolygu'r hyn rydych wedi'i wneud a'i effaith o fewn 12 mis ar ôl cytuno ar y cam Mesur.

Ar ôl i chi gwblhau'r cam 'Adolygu', bydd angen ichi ddechrau'r camau 'mesur' a 'cynllunio' am yr ail dro. Os na fyddwch wedi cynnal yr holl weithredoedd y cytunoch chi arnyn nhw yn y cylch cyntaf, gallwch eu cynnwys yng nghylch nesaf yr AHIC.

### AHIC a'r Cynllun Gwarant Fferm

Mae cynlluniau gwarant fferm yn nodi'r safonau iechyd a lles anifeiliaid y disgwylir i gynhyrchwyr eu bodloni.

Er bod proses yr AHIC yn cefnogi cynlluniau gwarant fferm, mae hi'n annog ymagwedd strwythuredig a di-dor at gynllunio gwella iechyd a lles anifeiliaid.

Felly, mae cynlluniau gwarant fferm yn rhoi sylfaen gadarn i'r AHIC ar gyfer cefnogi a gwella prosesau cynllunio iechyd a lles anifeiliaid sydd eisoes wedi'u mabwysiadu

Os yw darparwr eich cynllun gwarant fferm yn cadarnhau y gall y milfeddyg a'r ffermwr gwblhau'r AHIC ar eu platfformau digidol, bydd hyn yn dderbyniol ar gyfer yr elfen hon o'r Weithred Gyffredinol.

## J12.5 Asesiad Bioddiogelwch Anifeiliaid sy'n dod i'r Fferm

Diben yr elfen Bioddiogelwch yw rheoli bioddiogelwch a diogelu iechyd eich da byw gymaint ag y medrir, bob yn flwyddyn.

Rhaid cynnal Asesiad Risg Bioddiogelwch Anifeiliaid sy'n dod i’r Fferm erbyn 31 Rhagfyr 2026.

Rhaid i'r asesiad gael ei lofnodi gan eich milfeddyg ac aelod priodol o fusnes eich fferm.

Rhaid defnyddio'r templedi canlynol, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae tri templed ar gael: 'defaid', 'gwartheg' ac 'arall' [Cynllun Ffermio Cynaliadwy | Is-bwnc | LLYW.CYMRU]

Mae'r templed hwn ar gael ichi ei lenwi'n ddigidol hefyd, gan ddefnyddio ap (os yw ar gael).

Mae'r templed yn dangos i chi a'r milfeddyg y broses sydd angen ei dilyn ar gyfer y Weithred i sicrhau cysondeb, ansawdd ac effaith.

Os oes gennych fwy nag un rhywogaeth o dda byw, dylech Asesu'r Risg ar gyfer yr un yr ydych chi a'ch milfeddyg yn credu sydd fwyaf priodol.

Nid oes angen i chi gynnal Asesiad Risg blynyddol ar gyfer mwy nag un rhywogaeth o dda byw. Ond os oes gennych wartheg bîff a gwartheg godro, un Asesiad Risg sydd ei angen ar y ddau.

Law yn llaw â'ch milfeddyg, dylech greu trefn ar gyfer adnabod, rheoli a lleihau risgiau i fioddiogelwch wrth ddod â da byw i'r daliad (da byw rydych yn eu prynu a da byw sy'n dod adref ar ôl bod ar dac). Dylech asesu a chytuno ar fesurau sy'n briodol ar gyfer eich fferm i hyrwyddo bioddiogelwch. Gallai'r mesurau hynny gynnwys:

- Ynysu stoc sy'n dod i mewn
- Ymholiadau cyn eu prynu
- Profion ac ati cyn prynu
- Trin/brechu wrth iddyn nhw gyrraedd

Rhaid cadw cofnod o'r camau rydych wedi'u cymryd i leihau'r risg i fioddiogelwch ar y templed Asesu Risg.

Os yw darparwr eich cynllun gwarant fferm yn cadarnhau bod y milfeddyg a'r ffermwr yn gallu cwblhau'r Asesiad Risg ar eu platfformau digidol, bydd hyn dderbyniol ar gyfer yr elfen hon o'r Weithred Gyffredinol.

## J12.6 Lles Anifeiliaid

Mae'r elfen Lles Anifeiliaid yn canolbwyntio ar gloffni a chyflwr y corff, sef y ddwy broblem lles fwyaf ar ffermydd yng Nghymru sydd hefyd yn effeithio'n sylweddol ar gynhyrchiant.

Mae'r elfen hon yn ei gwneud yn ofynnol i chi, fel ceidwad da byw, gynnal asesiad o sgôr symudedd a chyflwr corff eich stoc ac mae'n rhoi'r sgiliau i chi wneud hynny. Dyma'r cam cyntaf i godi’ch ymwybyddiaeth am broblemau lles posibl ac i gymryd camau i reoli ac atal problemau lles rhag digwydd yn y dyfodol.

Mae'r elfen Lles Anifeiliaid felly yn cynnwys dwy ran.

**1. Hyfforddiant Sgiliau**

Rhaid i chi, neu aelod o'ch busnes fferm (neu unigolyn enwebedig) gwblhau hyfforddiant i ddysgu sut i sgorio cyflwr corff (BCS) a sgorio symudedd erbyn 31 Rhagfyr 2026.

Os ydych chi'n cadw mwy nag un rhywogaeth o dda byw, dim ond hyfforddiant ar gyfer un rhywogaeth sydd ei angen ym mlwyddyn gyntaf Haen Gyffredinol yr SFS. Dylech gwblhau hyfforddiant ar gyfer y rhywogaethau eraill yn y blynyddoedd wedi hynny. Yna bydd angen cwblhau'r hyfforddiant ar gyfer pob rhywogaeth bob 5 mlynedd.

Er enghraifft, os ydych chi'n cadw defaid a gwartheg: bydd angen cwblhau’r hyfforddiant ar gyfer defaid erbyn 31 Rhagfyr 2026. Rhaid cwblhau'r hyfforddiant ar gyfer gwartheg erbyn 31 Rhagfyr 2027. Ni fydd gofyn i chi ddilyn unrhyw hyfforddiant ar gyfer defaid eto tan 2031 na hyfforddiant ar gyfer gwartheg tan 2032.

Mae'r cyfnod cwblhau 5 mlynedd yn golygu y gall unrhyw hyfforddiant a restrir isod gafodd ei gwblhau ar ôl 1 Ionawr 2022 gyfrif ar gyfer blwyddyn 2026 y cynllun.

**Cwblhau'r hyfforddiant sgiliau ar-lein drwy Cyswllt Ffermio**

Mae Cyswllt Ffermio'n cynnig 5 modiwl e-ddysgu perthnasol yn E-ddysgu | Farming Connect

Os caiff ei gwblhau ar ôl 1 Awst 2025 gan y person priodol, mae'r dysgu hwn yn cyfrif hefyd tuag at UA4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

**Cwblhau hyfforddiant achredededig drwy Cyswllt Ffermio**

Mae'r cyrsiau canlynol hefyd yn cyfrif tuag at y Weithred Gyffredinol hon:

- Gweithdy Cloffni mewn Defaid AH&W (wedi'i gyflwyno gan filfeddyg, wedi'i achredu gan LANTRA)
- Gweithdy Lleihau Cloffni mewn Gwartheg Godro AH&W (wedi'i gyflwyno gan filfeddyg, wedi'i achredu gan LANTRA)
- Cwrs Hyfforddi Achrededig mewn Cloffni - Meistr Cymru
- Cwrs Hyfforddi Achrededig Canolradd ar Docio Carnau

Mae'r holl hyfforddiant sy’n cael ei gwblhau drwy Cyswllt Ffermio yn cael ei gofnodi'n awtomatig ar y Storfa Sgiliau a bydd RPW yn cael gwybod am ddyddiad cwblhau, teitl a hyd y cwrs.

**Gofynion hyfforddiant neu dystiolaeth eraill:**

Mae'r hyfforddiant canlynol hefyd yn dderbyniol ar gyfer sgorio cyflwr corff a symudedd:

- Cwblhau cymhwyster RAU lefel 4: Cloffni mewn Gwartheg a Thocio Carnau Gwartheg yn Broffesiynol
- Tystiolaeth o raglen iechyd anifeiliaid wedi'i chynllunio gan filfeddyg i reoli cloffni (e.e. cynllun 5 pwynt ar gyfer defaid) a chyflwr cyrff da byw ar eich fferm, gyda thystiolaeth o weithgarwch monitro sgoriau.
- Aelod o'r rhaglen 'Healthy Feet' ar gyfer gwartheg

Ar gyfer rhywogaethau eraill (camelidau, geifr, moch, dofednod, ceirw):
Yn hytrach na'r modiwlau sgiliau penodedig, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o raglen iechyd anifeiliaid wedi'i chynllunio gan filfeddyg i reoli cloffni a chyflwr cyrff ar gyfer y da byw hyn ar eich fferm, gyda thystiolaeth o weithgarwch monitro sgoriau.

Bydd cwrs achrededig gan Cyswllt Ffermio neu unrhyw un o'r cyrsiau eraill a restrir uchod a fydd wedi'i gwblhau ar ôl 1 Ionawr 2026 gan berson priodol, yn cyfrif hefyd at UA4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

**2. Sgoriau cyflwr corff a symudedd**

Dylech ddechrau sgorio cyflwr y corff a symudedd ar eich fferm ar adeg briodol, er enghraifft, sgorio cyflwr cyrff defaid cyn rhoi hwrdd iddynt, fel ei fod yn dod â'r budd mwyaf posibl i les yr anifeiliaid.

Ar ôl cwblhau'r 'hyfforddiant sgiliau', rhaid sgorio cyflwr corff a symudedd **nifer gynrychioliadol o dda byw** yn eich buches a/neu'ch diadell a chofnodi'r sgôr, yn unol â'r cyngor ar arfer gorau yn yr hyfforddiant.

Rhaid sgorio cyflwr corff a symudedd y fuches a'r ddiadell o leiaf bob blwyddyn, erbyn 31 Rhagfyr (hynny yw 31 Rhagfyr 2026).

Gallwch rannu'r wybodaeth hon gyda'ch milfeddyg a'i defnyddio i helpu i drefnu'ch ymweliad AHIC.

Ar gyfer sgorio symudedd gwartheg, gall eich milfeddyg wneud hyn hefyd os yw'n "Mobility Mentor ™ achrededig (Dod o hyd i "Mobility Mentor: Rhaglen Healthy Feet | AHDB) neu gallwch ddefnyddio sgoriwr achrededig RoMS ™ (RoMS | Cofrestr y Sgorwyr Symudedd - UK).

## J12.7 Ardystiad gan Filfeddyg ar gyfer allforio cynnyrch

Bydd yr ymweliadau gan filfeddyg ar gyfer elfennau AHIC a Bioddiogelwch y Weithred Gyffredinol hon yn bodloni'r meini prawf ar gyfer yr Ardystiad blynyddol gan Filfeddyg ar gyfer allforio cynhyrchion i'r UE. Felly, gellir cynhyrchu rhif Ardystiad Milfeddyg (VAN) a'i roi ar y templedi AHIC a Bioddiogelwch gan ddefnyddio'r canllaw hwn:

Veterinary attestation for animal health visits (previously veterinary declaration) - GOV.UK

Pwysig: Mae aelodau o gynlluniau gwarant fferm achrededig cymeradwy eisoes ac yn dal i fod wedi'u heithrio o'r gofyn i ddarparu rhif VAN ar gyfer ardystio cynhyrchion ar gyfer eu hallforio i'r UE.

## J12.8 SAF 2026

Rhaid i chi gadarnhau ar eich SAF 2026 eich bod naill ai'n berchen ar dda byw neu'ch bod yn geidwad cofrestredig ar dda byw.

## J12.9 Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS

Rhaid i chi gadarnhau ar eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS erbyn 15 Ionawr 2027 eich bod wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon. Bydd hyn yn gadarnhad eich bod wedi cwblhau:

- Camau perthnasol yr AHIC,
- Asesiad Risg Bioddiogelwch Anifeiliaid sy'n Dod i'r Fferm, a
- Lles Anifeiliaid – hyfforddiant sgiliau i sgorio cyflwr corff a symudedd.

Ar ôl dilysu'r wybodaeth, bydd y dangosfwrdd yn cadarnhau a ydych wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

**Ar gyfer AHIC ac Asesiad Risg Bioddiogelwch Anifeiliaid sy'n Dod i'r Fferm**
Os darparwr Cynllun Gwarant Fferm sy'n eu cynnal, caiff ei gadarnhad ar y templedi eu bod wedi'u cwblhau ei rannu'n awtomatig gyda RPW, i ddiweddaru eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS.

**Ar gyfer hyfforddiant sgiliau:**
Os yw'r hyfforddiant wedi'i ddarparu gan ddarparwr allanol, rhaid i chi nodi'r canlynol:
- Teitl y cwrs
- Dyddiad presenoldeb
- Oriau dysgu
- Yr Unigolyn a gwblhaodd y cwrs

Ar ôl dilysu'r wybodaeth, bydd y dangosfwrdd yn cadarnhau a ydych wedi bodloni gofynion y Weithred Gyffredinol hon.

Os caiff ei gwblhau trwy Cyswllt Ffermio, bydd manylion yr hyfforddiant a gwblhawyd yn cael eu rhannu'n awtomatig gyda RPW, i ddiweddaru eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS.

Nid oes angen i chi gyflwyno eich cofnodion AHIC, Asesiad Risg Bioddiogelwch Anifeiliaid sy'n Dod i'r Fferm, neu Sgoriau Cyflwr Corff a Symudedd.

## J2.10 Cadw cofnodion

Cadwch eich cofnodion ar y fferm am o leiaf bum mlynedd a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio.

- Templed AHIC,
- Templed Asesu Risg Bioddiogelwch Anifeiliaid sy'n dod i'r Fferm,
- Cofnod o 'hyfforddiant sgiliau', a

- Sgoriau cyflwr corff a symudedd

Ond os yw AHIC a'r asesiad risg bioddiogelwch wedi'u cwblhau ar blatfform digidol cynllun gwarant fferm ac i'r hyfforddiant sgiliau gael ei ddarparu drwy Cyswllt Ffermio, ni fydd angen gweld y cofnodion hyn mewn archwiliad.

Efallai yr hoffech siarad â darparwr eich cynllun gwarant fferm i ddeall a allai'r broses hon helpu i osgoi dyblygu a lleihau costau.

## Adran K: Llacio'r gofynion

Weithiau caiff gofynion Haen Gyffredinol yr SFS eu llacio am gyfnod dros dro sy'n golygu na fydd yn rhaid ichi gadw at un neu fwy o ofynion y cynllun. Mae rhanddirymiad yn enw mwy ffurfiol arno.

Mae'n briodol mewn amgylchiadau y tu hwnt i'ch rheolaeth, er enghraifft, cyfnodau hir o dywydd eithafol, problem â thenantiaeth neu lle mae risg i les anifeiliaid neu iechyd a diogelwch.

Os nad ydych yn gallu bodloni un o ofynion y cynllun, ac nad yw eithriad eisoes wedi'i nodi yn y gofynion, gellir gofyn am gael llacio'r gofynion drwy lenwi'r ffurflen Rhanddirymiad neu Ymholiad ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

Bydd y ffurflen ar gael o 31 Rhagfyr 2025 a gellir defnyddio'r ffurflen i ofyn am lacio'r gofynion unrhyw adeg ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu flwyddyn yn y dyfodol. Cewch gyflwyno tystiolaeth ategol a/neu efallai y gofynnir i chi gyflwyno tystiolaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

Er mwyn ystyried llacio’ch ofynion, rhaid ichi ddangos pam nad ydych yn gallu bodloni'r rheol neu'r gofyniad perthnasol a bydd pob achos yn cael ei ystyried ar wahân a gall olygu holi cyrff allanol (e.e. CNC).

Wrth aros am ganiatâd i lacio gofynion, peidiwch â gwneud unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r cais hwnnw.

Os oes digwyddiad neu amgylchiad sy'n effeithio ffermwyr ledled Cymru neu mewn rhanbarth (e.e. sychder difrifol) gall Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhanddirymiad cyffredinol. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn rhoi gwybod ichi bod y gofyn penodol hwnnw wedi'i lacio a manylion y gofyn hwnnw.

# Adran L: Gwneud Cais a Dilysu

## L1 Gwneud Cais

I wneud cais am daliad Haen Gyffredinol yr SFS a'i hawlio, rhaid i chi sicrhau'r canlynol:

- bod eich busnes neu'ch sefydliad wedi'i gofrestru ar RPW Ar-lein. Gweler adran RPW Ar-lein: canllaw i gwsmeriaid
- Bod eich tir wedi'i gofrestru gydag RPW. Gweler adran M3.
- Eich bod yn cyflwyno'r SAF **erbyn 15 Mai 2026.**

**Pwysig:**

Bydd y SAF ar gael ar RPW Ar-lein o **ddydd Llun, 2 Mawrth 2026.**

Byddwch yn cael dewis i naill ai wneud cais am Haen Gyffredinol yr SFS neu am y BPS.

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'ch hawliad am Haen Gyffredinol yr SFS, a bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r SAF wedi mynd heibio (15 Mai 2026 neu 9 Mehefin 2026 gyda chosbau hawlio hwyr), os oes gennych hawliau BPS, fyddan nhw ddim ar gael i chi mwyach ar gyfer 2026 nac ar gyfer blynyddoedd i ddod. Does dim angen ichi wneud unrhyw beth.

## L2 Sut i wneud cais ar y SAF

Bydd 'Canllaw Sut i Lenwi Ffurflen Gais Sengl (SAF) 2026 Ar-lein y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Haen Gyffredinol' hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru o **2 Mawrth 2026**. Bydd y canllaw hwn yn esbonio'n fanwl sut mae llenwi pob rhan o'r SAF i hawlio Haen Gyffredinol yr SFS a chynlluniau tir eraill.

Bydd y SAF yn cynnwys hefyd help ar gyfer ei llenwi:

• Os oes arweiniad ar gael ar gyfer y dudalen rydych chi arni, bydd botwm 'Help ar gyfer y dudalen hon' i'w weld ar ochr dde ucha'r dudalen. Bydd y botwm hwn yn agor canllaw fydd yn esbonio pob cwestiwn neu eitem ar y dudalen.

• Bydd help ar gael hefyd ar gyfer sut i ateb rhai cwestiynau penodol ar y SAF. Os oes help ar gael ar sut i ateb cwestiwn, bydd botwm Help yn ymddangos wrth ymyl y cwestiwn.

Os ydych yn cael trafferth llenwi'ch SAF, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW (gweler Atodiad 7 am fanylion cyswllt). Mae staff ar gael i roi help ac i esbonio sut i gwblhau'r cais.

Rhaid cael apwyntiad er mwyn ymweld â'n Swyddfeydd Rhanbarthol. Os oes angen help personol arnoch, yn enwedig os ydych chi'n llenwi'r SAF am y tro cyntaf, gall y Ganolfan Gyswllt i Cwsmeriaid roi help ichi dros y ffôn. Gall drefnu apwyntiad ichi

ddod i Swyddfa Ranbarthol i gael 'Cymorth Digidol' lle gall aelod o staff fynd â chi trwy'r cais.

Dylech wneud trefniadau i lenwi'ch SAF cyn gynted ag y medrwch ar ôl iddi ddod ar gael gan ddefnyddio'r canllawiau a'r help rydym yn eu disgrifio uchod.

**Pwysig** Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu'ch helpu a'ch cefnogi ond fydd hi ddim yn gyfrifol am yr hyn rydych chi'n ei hawlio neu ddim yn ei hawlio. Eich cyfrifoldeb chi yw hynny.

## L3 Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r SAF

Rhaid i'ch SAF gyrraedd RPW erbyn canol nos Wener 15 Mai 2026 fan hwyraf. Bydd cais sy'n cyrraedd rhwng 16 Mai 2026 a 9 Mehefin 2026 yn cael cosb ariannol.

Bydd ceisiadau a hawliadau sy'n ein cyrraedd ar ôl 9 Mehefin 2026 yn cael eu gwrthod.

Bydd neges i'w hatgoffa i gyflwyno'u SAF yn cael ei hanfon yn ystod yr wythnosau sy'n dechrau 20 Ebrill 2026, 4 Mai 2026 ac 1 Mehefin 2026 at y rheini sydd wedi hawlio ar y SAF o'r blaen ond nad ydyn nhw eto wedi cyflwyno eu cais ar gyfer 2026.

## L4 Pwy sy'n cael cyflwyno'ch SAF?

Dim ond chi neu berson sydd wedi cael caniatâd y busnes ffermio i gyflwyno ceisiadau ar eich rhan fydd yn cael cyflwyno SAF.

Os hoffech i asiant neu drydydd parti gyflwyno'r SAF ar ran y busnes, ac nad ydynt eisoes wedi'u hawdurdodi i wneud hynny, dilynwch y cyfarwyddiadau ar dudalennau RPW Ar-lein, neu cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid i ofyn am ffurflen 'Awdurdodi Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein Asiant / Asiant Coetir / Undeb Ffermwyr a Chymdeithas Ffermio'.

## L5 Hawlio taliad Haen Gyffredinol yr SFS ar y SAF

Y dudalen 'Hawliadau' fydd y dudalen gyntaf y byddwch yn ei gweld pan fyddwch chi'n dechrau llenwi SAF yr SFS. Bydd yr hawliad am daliad Haen Gyffredinol yr SFS wedi'i lenwi'n awtomatig ar eich rhan.

Yn yr adran data caeau, bydd angen i chi roi tic hawlio wrth bob parsel sydd yn eich barn chi yn gymwys am yr SFS. Rhaid i chi roi tic wrth bob parsel cymwys.

Yn yr adran Tir Comin, bydd angen i chi roi tic hawlio wrth unrhyw hawliau pori tir comin sydd yn eich barn chi yn gymwys am yr SFS.

## L6 Datgan tir yn adran Data Caeau'r SAF (gweler hefyd Adran D ar Pwy sy'n Gymwys)

Byddwn yn rhestru'ch caeau yn adran 'Data Caeau' eich SAF ar eich rhan a lle medrwn, byddwn wedi nodi'u codau cnydau a'u harwynebedd hefyd ar eich rhan, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn eich datganiad 2025.

Os oes angen newid ffin cae neu nodwedd parhaol sydd wedi'i lenwi ymlaen llaw ar eich rhan ar eich SAF neu os oes angen ychwanegu cae, bydd angen i chi gyflwyno Rheoli Fy Nhir cyn dechrau adran Data Caeau'ch SAF.

Bydd y SAF yn llenwi'r adran Data Caeau yn awtomatig ar eich rhan gyda'r newidiadau y byddwch wedi'u gwneud yn "Rheoli fy Nhir". Ond os byddwch yn newid manylion y cae cyn cyflwyno'r ffurflen "Rheoli fy Nhir", byddwch yn colli'r newidiadau hynny pan fydd y SAF ei hun yn diweddaru manylion y caeau.

Rhaid i chi ddatgan yr holl dir y mae gennych reolaeth lwyr arno am o leiaf 10 mis o'r flwyddyn galendr, gan gynnwys tir comin ag un porwr. Nid oes angen i'r cyfnod o 10 mis fod yn ddi-dor, ond rhaid bod gennych reolaeth lwyr ar y tir ar 15 Mai 2026.

Ni ddylech ddatgan tir rydych chi'n berchen arno ac wedi'i roi ar rent, oni bai'ch bod wedi cadw'ch rheolaeth lwyr arno.

Ni ddylech ddatgan tir os nad oes gennych y rheolaeth briodol arno, er enghraifft, tir sydd o dan delerau trwydded bori.

Dylech gadarnhau neu newid y codau cnydau a'r arwynebeddau sydd wedi'u llenwi ar eich rhan yn ôl yr angen i ddangos y sefyllfa fel y mae ar 15 Mai 2026. Mae Atodiad 4 yn rhestru'r holl godau cnydau sydd ar gael i wneud hyn.

Rhaid i chi ddatgan yn gywir yr holl nodweddion anghymwys a pharhaol ar y daliad a'r nodweddion anghymwys dros dro. Mae Atodiad 4 yn esbonio sut mae gwneud hyn.

Rhaid i chi hefyd ddatgan unrhyw dir cymwys rydych wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu arno am gyfnod dros dro (e.e. oherwydd piblinellau cwmnïau nwy, dŵr neu drydan).

Rhaid i chi ddatgan yn gywir hyd unrhyw berth/gwrych os oes ydych am iddi gyfrif at y gofyn bod 10% yn gynefin

Mae'n bwysig eich bod yn gwneud yn siŵr bod yr holl dir y mae angen ichi ei ddatgan ac yr ydych am hawlio Haen Gyffredinol yr SFS arno wedi'i nodi ar eich SAF.

## L7 Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd

Wrth lenwi'r adran Data Caeau, bydd yn rhaid i chi gynnal yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.  Hwn fydd eich cyfle olaf i gadarnhau, ychwanegu, dileu neu newid y darnau canlynol o dir sydd wedi'u mapio ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS:

- Pob cynefin sy'n bod eisoes, fel y'i diffinnir yn UA5 - Cynnal Cynefinoedd: Rhaid cadarnhau pob cynefin lled-naturiol fel un o'r 12 categori cynefin bras.
- Darnau o dir sy'n cael eu defnyddio i greu Cynefinoedd Dros Dro yn unol ag UA6 - Cynefin Dros Dro, os oes angen.
- Canopi Coed: Bydd angen i chi gadarnhau faint o dir ar eich daliad sydd o dan ganopi coed coetir, gan gynnwys coetir llydanddail sefydledig 0.1ha neu fwy, a fydd yn cyfrif tuag at UA9: Cynnal coetiroedd.

Os yw'r cynefin ar haen gyfyngiadau'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd, rhaid ichi ddarparu dogfennau ategol os hoffech ei newid neu ei ddileu.

Fel rhan o'r SAF, byddwn yn cyflwyno crynodeb ar lefel y fferm sy'n dangos cyfanswm yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan yn Gynefin Lled-Naturiol ac yn goetir llydanddail 0.1ha neu fwy, hyd y Perthi/Gwrychoedd sydd wedi'i ddatgan i gwrdd â'r gofyn o 10% o gynefin ynghyd â'r Cynefin Dros Dro a sut maen nhw'n cyfrannu at y 10% o gynefin.

## L8 Datgan tir comin ar y SAF

Dylech ddefnyddio'r adran 'Tir Comin' i ddatgan unrhyw hawliau tir comin sydd gennych ac i nodi a ydych am hawlio Taliad Cyffredinol yr SFS ar yr hawliau hynny.

Os ydych wedi gwneud cais am rif adnabod cae ar gyfer tir comin sy'n cael ei bori gan un porwr a'ch bod wedi cael un, bydd angen ei ddatgan yn yr adran Data Caeau ar y SAF. Peidiwch â datgan tir comin sydd â dim ond un porwr yn yr adran Tir Comin.

## L9 Cadarnhau gwybodaeth ychwanegol ar y SAF

Bydd angen i chi hefyd gadarnhau'r manylion sy'n berthnasol i'r Gweithredoedd Cyffredinol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i benderfynu pa Weithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch daliad chi ac i greu 'Dangosfwrdd' Cyffredinol SFS ar gyfer busnes eich fferm chi.

Bydd gofyn i chi hefyd gadarnhau'ch bod yn derbyn y Datganiad a'r Ymrwymiadau o ran Sylfaen Reoleiddio'r SFS, y Cod i Bawb ac unrhyw Weithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i chi o 1 Ionawr 2026.

## L10 Cyflwyno'r SAF

Ar ôl i chi lenwi'r cais, ac wrth gadarnhau'ch bod yn derbyn y Datganiadau a'r Ymrwymiadau, rydych yn ymrwymo i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru ac felly'n dod yn ddeiliad cytundeb at ddibenion Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025. Byddwch yn parhau i fod yn ymgeisydd at ddibenion y ddeddfwriaeth nes ein bod yn cadarnhau'ch bod yn gymwys.

Bydd y copi o’ch cais fydd yn cael ei baratoi pan fydd eich cais wedi’i gyflwyno ac y bydd ar gael ar eich cyfrif RPW Ar-lein, yn cynnwys hefyd restr o’r Gweithredoedd Cyffredinol sy’n berthnasol i fusnes eich fferm chi ar sail eich atebion ar y SAF.

## L11 Dogfennau Ategol

Rhaid i chi gyflwyno'r dogfennau ategol canlynol (yn ôl y gofyn) er mwyn cadarnhau'ch bod yn gymwys am Haen Gyffredinol yr SFS:

**Tystiolaeth eich bod yn Gymwys – 550 awr o lafur safonol**

Os oes gennych lai na 3 hectar o dir amaethyddol cymwys (gan gynnwys eich cyfran o’r tir comin) wedi'i gofrestru gydag RPW, rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth bod dros 550 o oriau o lafur safonol wedi'u treulio yn cynnal gweithgareddau amaethyddol neu gysylltiedig yn y flwyddyn galendr 1 Ionawr – 31 Rhagfyr 2025. Rhaid cyflwyno’r dystiolaeth gyda’ch cais.

Mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys:

- Llythyr achrededig gan gyfrifydd, fydd yn cadarnhau bod y busnes wedi cwblhau mwy na 550 o oriau ym mlwyddyn galendr 2025

**neu**

- I dystiolaeth ategol arall heblaw am lythyr cyfrifydd fod yn dderbyniol, rhaid iddi allu rhoi’r un lefel o gadarnhad. Mae hynny’n golygu y dylai fod wedi’i dilysu gan rywun achrededig annibynnol, fel cyfreithiwr, sy’n deall digon am y busnes i gadarnhau’r haeriad o 550 o oriau.

**Tystiolaeth i gefnogi dileu neu newid darnau o gynefin ar haen gyfyngiadau’r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar gyfer UA5: Cynnal Cynefin**

- Arolwg/adroddiad ecolegol (gyda thystiolaeth o brofiad/cymwysterau’r ecolegydd/acronomegydd)
- Ffotograffau â geo-dag o’r safle
- Cadarnhad a oes Asesiad o’r Effaith Amgylchedd wedi’i gynnal o’r cynefin/cae unrhyw bryd
- Gwybodaeth am reoli’r tir e.e. a yw wedi’i ailhau, ac os ydy, pryd, gwtaith, pori ac a yw wedi’i ladd ar gyfer gwair neu silwair.

**Tystiolaeth Ychwanegol**

Gellir gofyn am ragor o dystiolaeth ategol wrth ddilysu hawliadau. Bydd manylion y dystiolaeth sydd ei hangen a'r rhesymau pam y mae ei hangen, yn ogystal â dyddiadau cau ar gyfer ei chyflwyno yn cael eu darparu drwy RPW ar-lein.

## L12 Dangosfwrdd Cyffredinol SFS

Bydd eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS ar gael ar eich cyfrif RPW ar-lein o fis Mehefin 2026. I ddechrau, bydd y dangosfwrdd yn cadarnhau pa Weithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i fusnes eich fferm chi.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, rhaid defnyddio'r dangosfwrdd i gadarnhau'ch bod wedi cynnal yr holl Weithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch fferm chi.

Byddwn yn anfon neges atoch i ddweud pryd bydd y dangosfwrdd yn barod i'w lenwi.

Mae gofynion yr holl Weithredoedd Cyffredinol wedi'u nodi yn Adran J a hefyd y manylion y bydd gofyn ichi eu nodi ar Ddangosfwrdd Cyffredinol yr SFS ar gyfer pob Gweithred Gyffredinol.

Dylai'r holl Weithredoedd Cyffredinol sydd angen eu cynnal erbyn 31 Rhagfyr 2026 gael eu diweddaru ar y dangosfwrdd erbyn **15 Ionawr 2027.**

Ni fydd gweddill taliad Cyffredinol SFS yn cael ei dalu nes bod y dangosfwrdd wedi'i ddiweddaru i gadarnhau bod yr holl weithredoedd wedi'u cynnal.

Os na fyddwch wedi cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol neu os ydych wedi cynnal eich gweithredoedd ond heb diweddaru'ch Dangosfwrdd Cyffredinol SFS erbyn 15 Ionawr 2027, gallai'ch Taliad Cyffredinol gael ei gosbi yn unol â'r Safonau Dilysadwy a'r Matrics Cosbau.

## L13 Caniatâd SoDdGA

Os oes safleoedd dynodedig ar eich fferm, bydd angen ichi gadarnhau hyn ar y SAF. Byddwn yn gofyn ichi gadarnhau'ch penderfyniad i ymuno â Haen Gyffredinol yr SFS, a bydd hynny'n cael ei dderbyn fel eich hysbysiad o fwriad i gynnal gwaith rheoli ar dir y SoDdGA sydd o dan eich rheolaeth chi yn unol â'r Cod i Bawb a Gweithredoedd Cyffredinol yr SFS.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi ba rannau o'r cynllun y mae'r caniatâd yn ymwneud â nhw ar eich cyfrif RPW Ar-lein ar ôl 9 Mehefin. O ran unrhyw ofyniad ychwanegol a nodir ar wahân o fewn y canllawiau, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cyflwyno cais i CNC drwy'r broses ganiatâd arferol ar gyfer SoDdGA

Os nodir gofynion ychwanegol ar wahân yn y canllaw, rhaid ichi ofalu eich bod wedi cael pob cydsyniad, caniatâd a thrwydded sydd eu hangen cyn cynnal unrhyw waith a nodir.

## L14 Dilysu

Ar ôl i chi gyflwyno'ch hawliad, bydd RPW yn cynnal archwiliadau gweinyddol i gadarnhau'ch bod yn gymwys. Bydd hynny'n cynnwys edrych ar ofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS, y Cod i Bawb, y gofyn bod 10% yn gynefin a holl Weithredoedd Cyffredinol perthnasol eich fferm.

Byddwn yn gwirio hefyd i gadarnhau bod yr wybodaeth ar eich SAF ac mewn dogfennau ategol perthnasol yn gywir a chyflawn a hefyd y wybodaeth a ddarperir trwy eich Dangosfwrdd Cyffredinol SFS.

Byddwn yn cymharu'r wybodaeth ar y System Adnabod Parseli Tir (LPIS) â'r wybodaeth y byddwch wedi'i datgan ar eich SAF. Rhaid gofalu bod taliadau'n cael eu gwneud ar y darnau cywir o dir, nad yw ffermwyr yn cael eu talu ddwywaith am wneud yr un peth ac nad yw'r categorïau defnyddio tir yn groes i'r gofynion defnyddio tir yn eich hawliad.

O beidio â rhoi gwybodaeth ddigon manwl, gallai hynny arwain at oedi wrth ddilysu'ch hawliad a'ch talu wrth inni gadarnhau cywirdeb yr hawliad. Gallai olygu lleihau'ch taliad neu'ch cosbi.

Os bydd archwiliadau'n dangos nad ydych wedi cydymffurfio, gellir dilyn trefn weinyddol briodol arall, ac os gwelir bod angen, gellir cynnal archwiliad ffisegol.

Os na fyddwch wedi bodloni'r gofynion, efallai y cewch eich cosbi yn unol â'r Safonau Dilysadwy a'r Matrics Cosbau (gweler Adran Q).

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i ddarganfod ceisiadau twyllodrus ac i ddal y rheini sy'n gyfrifol amdanynt. Bydd yn awyddus hefyd i sicrhau na chaiff neb sydd wedi creu amodau ffug ar gyfer cael taliad yn cael ei dalu. Ni fydd yn talu ymgeisydd oni bai ei fod yn siŵr y tu hwnt i bob amheuaeth resymol fod yr ymgeisydd yn gymwys amdano.

# Adran M: Newidiadau i Strwythur Busnes a Newidiadau i'r Tir

## M1 Strwythur Busnes

Os ydych yn gysylltiedig â mwy nag un busnes ffermio, peidiwch â chymryd yn ganiataol y caiff y busnesau hynny eu trin fel busnesau ar wahân wrth wneud cais am gymhorthdal amaethyddol, hyd yn oed os ydyn nhw’n gyrff ar wahân o safbwynt y gyfraith, fel partneriaethau neu gwmnïau cyfyngedig. Diben hyn yw sicrhau nad ydych yn creu amodau artiffisial i gael taliad.

Dim ond os ydy’r busnes yn cael ei redeg fel busnes ar wahân yn unol ag amodau penodol y dylech gyflwyno cais ar wahân ar ei gyfer. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried:

- statws cyfreithiol y busnes
- enwau a chyfrifoldebau’r bobl sy’n rhan o’r busnes (gan gynnwys canran eu cyfranddaliadau os oes angen)
- i ba raddau y mae’r busnes yn cael ei redeg ar wahân ar lefel ymarferol o ddydd i ddydd
- a oes ganddo gynlluniau a chyfrifon ar wahân
- bod penderfyniadau ar gyfer ffermydd ar wahân yn cael eu gwneud yn annibynnol, a
- pwy sydd â rheolaeth economaidd a'r budd cyffredinol.

Nid yw’r un o’r rhain ar ei ben ei hun yn ddigon i droi’r ddadl ac mae’n bosibl y gofynnwn i chi am fwy o wybodaeth, fel cytundeb partneriaeth, tystysgrif y cwmni, erthyglau’r cwmni a/neu gyfrifon. Eich cyfrifoldeb chi yn y pen draw yw profi i Lywodraeth Cymru fod y busnesau’n rhai ar wahân.

Bydd angen asesu busnesau fferm sy’n uno neu’n rhannu bob yn un yn ôl eu hamgylchiadau penodol a’r cyllid amaethyddol y ceisir amdano.

Rhaid anfon manylion unrhyw uniadau neu raniadau i RPW i’w hasesu.

## M2 Diweddaru cofnodion eich busnes

Cofiwch roi gwybod i RPW Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau ym manylion eich busnes. Os oes angen newid manylion eich busnes, gallwch newid y rhan fwyaf ohonyn nhw ar RPW Ar-lein. Ond, efallai y bydd angen mwy o fanylion arnom ar gyfer newidiadau mawr.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru gael gwybod am newidiadau fel partner yn ymuno â'r busnes neu'n gadael y busnes, h.y. newid i strwythur y busnes, yn ysgrifenedig gyda llofnod yr holl bartneriaid.

Os yw'r wybodaeth sydd wedi'i llenwi ymlaen llaw ar ffurflen neu wedi'i phrintio ar lythyr yn anghywir, e.e. rhifau ffôn anghywir neu gamsillafu enwau neu gyfeiriadau,

anfonwch y cywiriadau i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu drwy'ch cyfrif RPW Ar-lein. Ni fydd angen i'ch partneriaid lofnodi'r cywiriadau.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cofnodion sydd gennym am eich busnes ffermio yn gywir a chyfredol. Mae hyn yn cynnwys eich dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) ar gyfer llythyru.

## M3 Cofrestru tir a newidiadau i'r tir

Dylech roi gwybod i RPW am newidiadau i gaeau ac am unrhyw dir sy'n cael ei drosglwyddo o fewn 30 niwrnod ar ôl i hynny ddigwydd. Os na fyddwch wedi gwneud hynny o fewn 30 diwrnod, rhaid i chi roi gwybod i ni am newidiadau i'ch tir cyn gynted â phosibl.

Dylech lenwi 'Rheoli Fy Nhir', ar eich cyfrif RPW Ar-lein i;

- Gofrestru parseli tir.
- Ychwanegu, dileu neu newid nodweddion nad ydynt yn gymwys.
- Rhoi gwybod i ni am dir sy'n cael ei drosglwyddo (h.y. prynu, gwerthu, rhentu, uno/rhannu busnes)
- Newid dyddiadau gorffen rhent.
- Rhoi gwybod i ni am newid yn y ffiniau (uno, hollti, symud ffiniau).

Darllenwch “RPW Ar-lein: defnyddio Rheoli Fy Nhir” sydd ar gael ichi ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru am ragor o fanylion. #

Bydd cais “Rheoli Fy Nhir” ar gael ar RPW Ar-lein o 12 Ionawr 2026.

.

## M4 Newidiadau i dir sy'n gofyn am rifau caeau newydd

Bydd angen rhifau newydd ar y caeau canlynol:

• caeau sydd heb eu cofrestru gydag RPW

• caeau sydd wedi’u rhannu’n barhaol

• caeau sydd wedi’u huno’n barhaol

• caeau sydd â ffin newydd.e.e. ar ôl gwerthu peth o’r tir

Ni fydd angen ichi roi gwybod i RPW os yw’r cae wedi’i rannu dros dro e.e. rhwng dau neu ragor o gnydau. Dylech eu dangos ar eich SAF gan ddefnyddio llinell ar wahân ar gyfer pob rhan o'r cae os ydynt yn dal ar gael i chi ar 15 Mai.

Dim ond os oes ffin rhwystr yn eu rhannu a bod llwybrau mynediad ar wahân i'r ddau y cewch rannu adeiladau a buarthau. Os nad oes ffin rhwystr a llwybr mynediad ar wahân, chewch chi ddim rhannu'r parsel.

Rhaid gwneud cais am rifau caeau newydd ar 'Rheoli Fy Tir' ar RPW Ar-lein cyn llenwi’r adran data caeau ar eich cais SAF.

## M5 Trosglwyddo tir yn ystod y cyfnod o 10 Mis

Os ydych am drosglwyddo tir allan sydd wedi'i ddatgan ar eich SAF yn ystod y cyfnod o 10 mis, rhaid i chi roi gwybod i RPW drwy "Rheoli fy Tir" o fewn 30 diwrnod.

Ni chaiff taliad ei wneud ar y tir rydych chi'n ei drosglwyddo allan. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn Haen Gyffredinol yr SFS i drosglwyddo eich hawliad ar gyfer y tir hwn i fusnes neu sefydliad arall.

Os ydych chi'n trosglwyddo tir i mewn ar ôl i ffenestr y SAF gau ar 15 Mai 2026, ni chewch ychwanegu'r tir hwnnw at eich hawliad y flwyddyn honno. Bydd yn rhaid i chi aros tan y flwyddyn nesaf i wneud hawliad ar y tir hwnnw.

## M6 Diweddaru mapiau tir amaethyddol yng Nghymru

Mae RPW yn diweddaru ei PIS gan ddefnyddio'r wybodaeth MasterMap ddiweddaraf a ddarperir gan yr Arolwg Ordnans, lluniau o’r awyr a lluniau lloeren.

Efallai y bydd parseli tir eich daliad, o ganlyniad, yn newid, er enghraifft, trwy newid ffiniau cae a/neu nodweddion parhaol fel adeiladau, ffyrdd, afonydd a phyllau dŵr. Byddwn yn rhoi gwybod ichi am unrhyw newidiadau sy’n effeithio ar eich hawliad pan fyddwn yn cynnal archwiliad

Mae’n bwysig eich bod yn llenwi’r adran Data Caeau ar eich SAF 2026 yn gywir. Dylech hefyd sicrhau bod unrhyw newidiadau sy'n ganlyniad i archwiliad tir a gynhaliwyd yn ystod 2025 (mae manylion wedi'u cynnwys yn adroddiad IACS 7A ar eich cyfrif RPW Ar-lein), neu newidiadau o ganlyniad i apêl, wedi'u gwneud i'ch SAF.

# Adran N: Archwiliadau

## N1 Archwiliadau ar y fferm

Bydd canran o'r hawlwyr yn cael eu dewis a'u harchwilio bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y cynllun gan gynnwys Sylfaen Reoleiddio'r SFS.

Mae Sylfaen Reoleiddio'r SFS yn cynnwys gofynion y Rheoliadau Adnabod Da Byw a'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (CoAP). Mae gan y Rheoliadau hyn drefn archwilio ar wahân.

Bydd yr holl archwiliadau yn cael eu cynnal gan Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW) Llywodraeth Cymru a/neu Awdurdod Rheoli Cymwys (CCA) arall neu Asiant Dirprwyedig ar ran Llywodraeth Cymru.

Caiff archwiliadau eu dewis ar sail risg ac ar hap.

- Wrth ddewis ar sail risg, defnyddir meini prawf priodol i benderfynu pa ffermydd i'w harchwilio.
- Bydd y dewis ar hap yn defnyddio sampl rheoli, fydd yn cyfateb i rhwng 20% a 25% o'r boblogaeth gyffredinol.

Y ganran leiaf o ffermydd y gellir eu harchwilio bob blwyddyn, ar gyfer pob elfen o Haen Gyffredinol yr SFS a Sylfaen Reoleiddio'r SFS, yw:

- Haen Gyffredinol yr SFS (Y Cod i Bawb a Gweithredoedd Cyffredinol) - 3% o'r holl hawlwyr/deiliaid cytundeb.
- Sylfaen Reoleiddio'r SFS - 1% o'r holl hawlwyr/deiliaid cytundeb.
- Adnabod Gwartheg (SMR 7 o Sylfaen Reoleiddio'r SFS) – 3% o geidwaid da byw.
- Adnabod Defaid a Geifr (SMR 8 o Sylfaen Reoleiddio'r SFS) – 3% o geidwaid da byw.

Mae'n bosibl y cynhelir archwiliadau ychwanegol os bydd aelod o'r cyhoedd neu sefydliadau eraill yn tynnu sylw at achos.

Ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS a Sylfaen Reoleiddio'r SFS, gellir newid canran yr hawlwyr a ddewisir bob blwyddyn yn ôl faint o wallau a gafwyd yn sampl rheoli ar hap y flwyddyn cynt (cyfradd wallau uwch neu is na 2%). Dyna'r drefn reoli a ddefnyddiwyd ar gyfer cynlluniau blaenorol.

Lle medrwn, byddwn yn cyfuno archwiliadau i edrych ar nifer o elfennau neu gynlluniau yn ystod un archwiliad neu ymweliad â fferm. Er enghraifft, gellir cyfuno archwiliadau i weld a yw'r ffermwr yn cydymffurfio â Sylfaen Reoleiddio'r SFS ac

archwiliadau i weld a yw'n cydymffurfio â Haen Gyffredinol yr SFS, yn ogystal ag unrhyw gymorth amaethyddol arall, megis Creu Coetir neu Gymorth Organig.

Bydd rhybudd bod archwiliad yn cael ei gynnal yn fyr iawn.

- Ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS a Sylfaen Reoleiddio'r SFS, bydd archwiliad fel arfer yn cael ei gynnal o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl rhoi'r rhybudd, ond gellir rhoi hyd at 10 diwrnod gwaith o rybudd o dan amgylchiadau eithriadol.

- Ar gyfer Adnabod Gwartheg ac Adnabod Defaid a Geifr - bydd archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddirybudd, er mewn achosion eithriadol mae'n dderbyniol rhoi hyd at 48 awr o rybudd.

Bwriad archwiliadau yw’ch cefnogi, nid i’ch rhoi o dan straen di-angen. Trwy weithio gyda’n harchwilwyr, gallwch wneud y broses yn un syml a llesol. Er enghraifft, os nad yw dyddiad yr archwiliad yn gyfleus, gallwch ofyn am gael newid y trefniadau, a gallwch enwi rhywun arall i fod yn bresennol yn eich lle os oes angen.

Mae cyfathrebu felly’n hanfodol, er enghraifft i ddweud bod yna oedi neu am amgylchiadau na wnaethoch eu rhagweld a bydd archwilwyr am wneud eu gorau i’ch bodloni. Bydd y cydweithio hwn yn sicrhau bod archwiliadau’n deg, yn ymarferol ac yn canolbwyntio ar eich helpu i ateb y gofynion heb iddyn nhw fynd yn faich.

Fel rheol, un archwilydd fydd yn cynnal yr archwiliad ond ambell waith caiff ei gydweithwyr neu archwilwyr eraill (neu’r ddau) fod yn bresennol hefyd.

Gellir defnyddio technoleg lloeren a lluniau o'r awyr i asesu a yw tir yn gymwys a gellir eu defnyddio i nodi parseli penodol i ymweld â nhw fel rhan o'r archwiliad.

## N2 Archwiliadau Haen Gyffredinol yr SFS

### Beth byddwn ni'n ei wneud mewn archwiliad?

Bydd ein harchwilwyr yn ymweld â'ch fferm ac yn edrych ar eich tir, eich cnydau a’ch cofnodion ac yn cadarnhau, os yn briodol, bod gofynion y cynllun yn cael eu bodloni.

Wrth drefnu apwyntiad neu ar ôl cyrraedd eich fferm, bydd yr archwilydd yn trafod:

- pwrpas yr ymweliad
- y Gweithredoedd Cyffredinol sy'n cael eu cynnal ar eich fferm
- sut caiff yr archwiliad ei gynnal

- beth bydd gofyn ichi ei wneud
- am faint bydd yr archwiliad yn para (er gallai hyn ddibynnu ar yr hyn a welir yn yr archwiliad).

Bydd ymweliadau'n dechrau yn y prif ddaliad os bydd hynny'n ymarferol, a bydd yr archwilydd yn cyflwyno'i hun i'r ffermwr/cynrychiolydd a bydd wastad cerdyn adnabod swyddogol ganddo i'w ddangos os gofynnir am gael ei weld.

**Sut gallwch baratoi ar gyfer archwiliad?**

Gallwch baratoi ar gyfer archwiliad drwy:

- sicrhau eich bod wedi ateb pob llythyr gan RPW ac ateb unrhyw gwestiynau am eich cais.
- rhoi gwybod mewn da bryd i RPW am unrhyw beth sydd wedi newid yn eich cais neu'ch hawliad e.e. newid defnydd tir
- cadw cofnodion diweddar sy'n gywir ac yn gyflawn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd yn y llyfryn "Pan ddaw'r archwilydd - canllaw defnyddiol i ffermwyr' sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Beth mae'r archwilydd yn ei wneud**

Bydd yr archwilydd yn gwneud yn siwr nad ydych yn hawlio ar dir sy'n anghymwys o dan Haen Gyffredinol yr SFS a bod 10% o'r tir yn gynefin.  Gall y rhan hon o'r archwiliad gynnwys edrych ar ffiniau, mesur caeau, perthi/gwrychoedd a choetir, asesu mathau o gnydau a chynefinoedd a thynnu tir anghymwys fel ffyrdd, arwynebau caled, adeiladau, afonydd/nentydd a thir anamaethyddol o'r cyfanswm.

Bydd yn defnyddio mapiau a delweddau o'r awyr i wneud mesuriadau. Ni fydd yn ystyried llethrau a phantau.

Lle gall, bydd yn cymryd sampl o barseli i'w hasesu a sicrhau bod gofynion y cynllun yn cael eu bodloni.  Gellir cynyddu'r sampl hwn os gwelir anghysondebau neu wallau.

Efallai y bydd angen i'r archwilydd weld y dystiolaeth sy'n cefnogi'ch datganiad tir e.e. cytundebau rhent, i gadarnhau'ch bod yn bodloni'r gofyniad rheoli 10 mis. Efallai y bydd yn rhaid iddo hefyd gynnal gwiriadau ychwanegol i brofi'ch bod yn cynnal y gweithgaredd amaethyddol / ategol (lle bo'n berthnasol).  Gallai hyn gynnwys edrych ar dderbynebau ac anfonebau.

**Beth byddwn yn ei archwilio**

Bydd yr archwilydd am weld tystiolaeth ddogfennol sy'n cadarnhau'ch bod wedi cynnal holl Weithredoedd Cyffredinol eich busnes ffermio.

**Cofnodion Fferm a Chyfnod eu Cadw**

Rhaid i chi gadw holl gofnodion y fferm a'r dogfennau ategol sydd eu hangen i brofi'ch bod wedi cydymffurfio â gofynion y cynllun ac wedi cynnal yr holl Weithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch fferm, am o leiaf 5 mlynedd.

Os hoffech i Lywodraeth Cymru daflu golwg ar eich cofnodion er mwyn gallu dweud a ydyn nhw'n bodloni'r safonau gofynnol, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid i drefnu apwyntiad i chi gael cwrdd â'r FLS.

Nid yw'r Gwasanaeth hwn yn cael dweud a yw'ch cofnodion yn gywir ond maen nhw'n cael dweud a ydy'r fformat yn bodloni gofynion y cynllun. Ni chaiff gywiro camgymeriadau sydd eisoes wedi'u darganfod mewn archwiliad neu os oes archwiliad eisoes wedi'i gyhoeddi.

## N3 Sylfaen Reoleiddio'r SFS

Mae'r Sylfaen Reoleiddio'r SFS yn set o ofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i bob ffermwr eu bodloni. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys Gofynion Rheoli Safonol (SMRs) a safonau Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC). Gweler Adran Q.

Os na fyddwch yn bodloni'r gofynion, gallech gael eich cosbi yn unol â Safonau Dilysadwy a Matrics Lleihau Taliadau Sylfaen Reoleiddio'r SFS, sydd ar gael i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-llinell-sylfaen-reoleiddiol-2026.

Bydd archwiliadau Sylfaen Reoleiddio'r SFS yn cael eu cynnal gan yr Awdurdodau Rheoli Cymwys (CCA) a'r Asiantwyr Dirprwyedig canlynol:

| Awdurdod Rheoli Cymwys | Maes Cyfrifoldeb |
|---|---|
| Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW)<br>Llywodraeth Cymru | SMR 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 14, 15.<br>GAEC 6 a 7 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | SMR 1 a GAEC 2 a 3 |
| Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | SMR 11, 12, 13 |

| | |
|---|---|
| Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol<br><br>(Archwiliadau gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion) | SMR 5 |

Gall archwiliad o Sylfaen Reoleiddio'r SFS gynnwys archwilio elfennau gwahanol. Mae hyn yn golygu y gallech gael eich archwilio fwy nag unwaith yn y flwyddyn os nad yw'r CCA perthnasol yn gallu gwirio'r holl ofynion y mae'n gyfrifol amdanyn nhw mewn un archwiliad neu os yw'ch fferm wedi'i dewis i gael ei harchwilio gan fwy nag un CCA. Os medrwn, byddwn yn ceisio cyd-drefnu archwiliadau i leihau'r baich.

**Beth byddwn yn ei archwilio**

Bydd yr archwilydd yn cadarnhau bod SMRs a GAECs yn cael eu bodloni drwy:

- asesu’r tir yn weledol
- archwilio anifeiliaid yn gorfforol (gan gynnwys archwilio tagiau clust)
- archwilio cofnodion fferm
- Archwilio seilweithiau ar y fferm (lle y bo’n briodol)

Byddwn hefyd yn sicrhau bod profion TB Gwartheg yn unol ag SMR 4 (Cyfraith ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd) yn cael eu cwblhau drwy ofyn am gael gweld cronfa ddata’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

## N4 Beth sy’n digwydd ar ôl archwiliad?

Ar ddiwedd yr archwiliad ffisegol, bydd yr archwilydd yn llenwi ffurflen a fydd yn crynhoi prif ganfyddiadau’r archwiliad ac yn nodi manylion unrhyw amodau sydd wedi’u torri.  Cofiwch, gallai archwiliad gweinyddol gael ei gynnal ar ôl yr archwiliad ffisegol a dangos bod amodau eraill wedi’u torri.

Gofynnir ichi lofnodi’r ffurflen i gydnabod bod yr archwiliad wedi’i gynnal a’ch bod yn deall y prif ganfyddiadau.

Bydd cyfle ichi hefyd gofnodi unrhyw sylwadau ar ôl yr archwiliad, gan gynnwys tystiolaeth a allai yn eich barn chi fod yn berthnasol i unrhyw achos o dorri amodau sy'n cael ei ddarganfod yn yr archwiliad.

Os bydd 'modd cywirio' yr amod gafodd ei dorri, rhoddir manylion unrhyw gamau y mae'n rhaid i chi eu cymryd i unioni'r toriad, a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny, ar ffurflen IACS7.

Byddwch yn cael cadw copi uchaf y ffurflen IACS7 a bydd yr archwilydd yn cadw’r copi isaf.  Weithiau bydd ffurflenni eraill yn cael eu gadael gyda chi, i nodi’r canfyddiadau ychwanegol yn fanwl.

Os byddwn yn archwilio'ch gwartheg ac yn gweld camgymeriadau, byddwn yn gadael ffurflen arall ichi sy’n rhestru rhifau’r tagiau y gwelwyd camgymeriadau arnynt. Byddwn yn mynd ag unrhyw basbort sbâr ac yn rhoi derbynneb ichi amdano.

Os byddwn yn archwilio da byw ac yn gweld bod rhywbeth yn bod ar lawer o dagiau clust neu’n methu â chael hyd i gofnod ar gyfer pob anifail ar y fferm, efallai y byddwn yn gosod gorchymyn ar y fferm i gyfyngu ar symud anifeiliaid.

Os oes unrhyw beth ar y ffurflenni nad ydych yn ei ddeall, gofynnwch i’r archwilydd ei esbonio.

Gallai CCA neu Asiant Dirprwyedig roi llythyr ôl-archwiliad manwl ichi sy’n crynhoi canfyddiadau’r archwiliad.

Yn achos pob archwiliad, mae’n bosibl y bydd angen cynnal archwiliad gweinyddol ar ôl yr archwiliad ffisegol cyn cyhoeddi’r manylion.

Pan fydd yr holl archwiliadau wedi’u cynnal, bydd y manylion yn cael eu rhoi yn ein cronfa ddata inni allu dilysu’ch hawliad. Byddwn yn anfon 'llythyr canfyddiadau'r archwiliad' atoch i esbonio effeithiau unrhyw dramgwydd fydd wedi cael ei weld yn ystod yr archwiliad.

**Pwysig:** Gall archwiliad gweinyddol sy’n cael ei gynnal ar ôl yr archwiliad ffisegol ddatgelu tramgwyddau ychwanegol.

Os bydd archwiliad yn dangos eich bod yn cydymffurfio, ni fyddwn yn anfon llythyr atoch.

## N5 Rhwystro archwiliad

Mae'n ofyniad cyfreithiol eich bod yn caniatáu i archwiliad gael ei gynnal i gadarnhau'ch bod yn cydymffurfio ag amodau a gofynion cymhwysedd y cynllun, gan gynnwys Sylfaen Reoleiddio'r SFS.

Os byddwch yn gwrthod gadael i’r archwiliad gael ei gynnal heb reswm da (e.e. salwch difrifol, profedigaeth) a bod yr archwilydd wedi dangos y gall ad-drefnu’r ymweliad, bydd yr archwilydd yn esbonio goblygiadau penderfyniad o’r fath ac yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig ichi am ddyddiad ac amser yr archwiliad, gan ganiatáu o leiaf 48 awr o rybudd cyn cynnal yr archwiliad.

Os byddwch chi neu'ch cynrychiolydd yn rhwystro archwilydd rhag cynnal yr archwiliad hwn, caiff pob cais a hawliad gennych ei wrthod.

## N6 Ymddygiad annerbyniol

Ni ddylai swyddogion, unigolion na sefydliadau Llywodraeth Cymru sy'n gwneud dyletswyddau ar ran Llywodraeth Cymru (e.e. CNC), Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS), Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), EID Cymru, Awdurdodau Lleol), ddioddef ymddygiad ymosodol, difrïol na sarhaus na gofynion afresymol a pharhaus gan ymgeiswyr/hawlwyr neu eu cynrychiolwyr. Ni ddylai aelodau'r Panel Apelio Annibynnol ddioddef ymddygiad o'r fath chwaith.

Mae dogfen Rheoli Ymddygiad Annerbyniol Cwsmeriaid Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru sy'n esbonio beth yn ein barn ni yw ymddygiad annerbyniol.

**Gall ymddygiad annerbyniol arwain at dynnu taliadau yn ôl a/neu wrthod cais neu hawliad.**

# Adran O: Taliadau

## O1 Taliadau Haen Gyffredinol yr SFS

Mae taliad blynyddol Haen Gyffredinol yr SFS yn cynnwys pedwar categori talu ar wahân ar draws dwy elfen, fel a ganlyn:

- Y Taliad Sylfaenol Cyffredinol a'r
- Taliad Gwerth Cymdeithasol:

**Y Taliad Sylfaenol Cyffredinol**

Mae'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn cynnwys tri chategori talu ar wahân sy'n adlewyrchu'r costau a ysgwyddir a'r incwm a gollir wrth ymgymryd â gofynion y cynllun, gan gynnwys y Cod i Bawb a'r Gweithredoedd Cyffredinol. Y tri chategori talu yw:

Taliad y Fferm Gyfan

Mae hwn yn daliad haenog, sy'n cael ei dalu fel cyfradd fesul hectar ar holl Arwynebedd y Fferm Gyfan sy'n gymwys am yr SFS, gan gynnwys tir comin neu dir o dan drefniant cyd-bori/pori cyfran.

Taliad Cynnal Cynefin

Mae'r taliad hwn yn ychwanegol at Daliad y Fferm Gyfan. Telir un gyfradd fesul hectar o gynefin lled-naturiol parhaol sy'n cael ei reoli yn unol ag UA5): Cynnal Cynefin, ac eithrio cynefin ar dir comin neu dir o dan drefniant cyd-bori/pori cyfran.

Cynefin dros dro sydd wedi'i greu yn unol ag UA6: Telir yr un gyfradd fesul hectar hefyd am greu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella, hyd at y trothwy i fodloni'r gofyn bod 10% o’ch daliad yn gynefin.

**Ni fydd taliad cynnal cynefin ar gyfer unrhyw gynefin dros dro fydd wedi'i greu sydd dros y trothwy o 10%.**

Taliad Cynnal Coetir

Mae'r taliad hwn yn ychwanegol at y taliad Fferm Gyfan. Telir un gyfradd fesul hectar o goetir sy'n cael ei reoli yn unol ag UA9: Cynnal Coetir, ac eithrio coetir ar dir comin neu dir o dan drefniant cyd-bori/pori cyfran.

Pwysig: Ni chaiff y Taliad Cynnal Cynefin na'r Taliad Cynnal Coetir eu talu ar dir sydd eisoes o dan gytundeb rheoli y tu allan i Haen Gyffredinol yr SFS lle mae taliad cynnal refeniw yn cael ei dalu (naill ai'n flynyddol neu fel un taliad cronnus sengl).

Os nad oes gennych gytundeb rheoli ar eich safle dynodedig gydag unrhyw gorff rheoleiddio arall (e.e. cytundeb rheoli Adran 16 gyda CNC) bydd hawl gennych i'r taliadau dan sylw.

**Taliad Gwerth Cymdeithasol**

Mae'r Taliad Gwerth Cymdeithasol yn cael ei dalu fel un gyfradd fesul hectar ar holl Arwynebedd y Fferm Gyfan sy'n gymwys yn eich cais, gan gynnwys tir comin neu dir o dan drefniant cyd-bori/pori cyfran.

Dyma'r pedwerydd categori talu ac mae'n adlewyrchu gwerth cymdeithasol canlyniadau'r Cynllun Cyffredinol sy'n cael eu darparu trwy arferion ffermio cynaliadwy nad yw prisiau'r farchnad am gynnyrch amaethyddol yn eu hadlewyrchu'n briodol ond sy'n cyfrannu at amcanion statudol Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

## O2 Cyfraddau Talu

Y cyfraddau talu ar gyfer blwyddyn 2026 y cynllun yw:

| **Categorïau'r Taliadau:** | **Cyfradd Dalu** |
|---|---|
| Taliad y Fferm Gyfan | £70 yr hectar am y 70 hectar cyntaf, yna<br>£2 yr hectar ar gyfer yr holl dir cymwys sy'n weddill |
| Taliad Cynnal Cynefin | £69 yr hectar |
| Taliad Cynnal Coetir | £62 yr hectar |
| Taliad Gwerth Cymdeithasol | £107 yr hectar |

## O3 Capio Taliadau

Bydd cap ar y Taliad Cyffredinol (cyfanswm y Taliad Sylfaenol Cyffredinol a'r Taliad Gwerth Cymdeithasol) fel a ganlyn:

| Gwerth Taliad yr Haen | Y Cap |
|---|---|
| Haen 1 hyd at £25,000 | 0% |
| Haen 2 Mwy na £25,000 a hyd at £50,000 | 5% |
| Haen 3 Mwy na £50,000 a hyd at £150,000 | 10% |
| Haen 4 Mwy na £150,000 a hyd at £200,000 | 15% |
| Haen 6 Mwy na £200,000 a hyd at £250,000 | 30% |
| Haen 7 Mwy na £250,000 a hyd at £300,000 | 55% |
| Haen 8 Mwy na £300,000 | 100% |

Bydd archwiliadau’n cael eu cynnal i wneud yn siŵr na fydd ffermwyr wedi creu amodau artiffisial er mwyn osgoi’r cap. Os gwelwn eich bod wedi rhannu’ch busnes yn artiffisial er mwyn cael mantais, gallech golli’ch taliad.

## O4 Taliad Sefydlogrwydd ar gyfer 2026

Bydd Taliad Sefydlogrwydd untro o £1,000 yn cael ei dalu i hawlwyr Haen Gyffredinol yr SFS os bydd Arwynebedd y Fferm Gyfan yn 100 hectar neu lai. Mae hyn yn cynnwys eich cyfran chi o unrhyw dir comin sy’n cael ei hawlio.

Nid yw'r cap uchod yn berthnasol i'r Taliad Sefydlogrwydd ond bydd yn cael ei leihau os byddwch yn cael eich cosbi.

## O5 Gostwng Taliadau a Chosbau

Mae'r trefniadau ar gyfer tynnu arian o'r taliadau a'u trefn yn cael eu disgrifio yn Adran Q8.

## O6 Gostyngiadau Llinol

Mae taliadau Haen Gyffredinol yr SFS yn dibynnu ar nenfwd y gyllideb y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arni bob blwyddyn.

Os yw cyfanswm gwerth y taliadau a fydd wedi'u hawlio yn werth mwy na'r gyllideb fydd ar gael ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS, bydd pob Taliad Cyffredinol yn cael ei ostwng yn llinellol i lefel y gyllideb fwyaf sydd ar gael.

## O7 Gwneud Taliadau

Caiff pob taliad ei wneud trwy System Glirio Awtomataidd y Bancwyr (BACS), i gyfrif banc dilys.

Cyn belled â bod hawliad cymwys wedi'i wneud a bod yr holl ddogfennau ategol angenrheidiol wedi dod i law, ein nod yw rhagdalu hyd at 70% o amcangyfrif eich hawliad am Daliad Cyffredinol o fis Hydref 2026

Bydd taliadau llawn a thaliadau balans yn cael eu gwneud o fis Rhagfyr 2026, ar ôl dilysu'ch hawliad yn llawn, gan gynnwys cael gwybod gennych eich bod wedi cynnal yr holl Weithredoedd Cyffredinol perthnasol trwy Ddangosfwrdd Cyffredinol yr SFS ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

Ni ddylech wneud penderfyniadau busnes ar y rhagdybiaeth y byddwch yn derbyn Rhag-daliad a Thaliad Balans ar y dyddiad cynharaf posibl. Gallai'ch Taliad Cyffredinol gael ei dalu'n hwyrach, ar ôl cynnal yr holl archwiliadau dilysu.

## O8 Talu Taliadau yn ôl

Pan welir bod taliad anghywir wedi'i wneud, gellir gofyn ichi dalu'r arian hwn neu ran ohono, yn ôl.

Os bydd angen ichi ad-dalu arian, bydd RPW yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i chi am y ddyled.

Os na fyddwch wedi talu'r ddyled, caiff y swm llawn ei dynnu'n awtomatig o'r taliadau cymorth amaethyddol cyntaf ddaw'n ddyledus i chi yn y dyfodol o dan yr SFS neu unrhyw gynllun cymorth eraill a sefydlwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

## Adran P: Amgylchiadau'n Newid

Yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Haen Gyffredinol yr SFS, rhaid i chi roi gwybod i RPW cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, am unrhyw newid yn eich amgylchiadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddo effeithio ar eich gallu i fodloni'r meini prawf cymhwysedd a/neu ofynion y cynllun. Dylech wneud hyn o fewn 60 diwrnod ar ôl i'r newid perthnasol yn eich amgylchiadau ddigwydd.

Pan fyddwch wedi rhoi gwybod i ni, gallwn gymryd un neu fwy o'r camau canlynol:

(a) newid, dileu neu ddisodli amod, am gyfnod dros dro neu’n barhaol.

(b) newid, dileu neu ddisodli unrhyw ofynion neu amserlenni, am gyfnod dros dro neu’n barhaol

(c) gosod cosbau a/neu leihau taliadau

(d) mynnu'ch bod yn ad-dalu'r taliadau a wnaed ichi yn y flwyddyn hon neu’r flwyddyn cynt, neu ran ohonyn nhw.

Bydd RPW yn barod i dderbyn y gallai cyfres o ddigwyddiadau sy'n gyfystyr ag Amgylchiadau Eithriadol fod wedi’ch rhwystro rhag cadw at ymrwymiadau penodol. Ceir mwy o fanylion yn Adran Q13.

# Adran Q: Gostyngiadau i daliadau, cosbau, eithriadau a'r ddarpariaeth ar gyfer cywiro camgymeriadau

Ni thelir unrhyw daliad (gan gynnwys taliad ymlaen llaw) nes ein bod wedi cadarnhau eich bod yn gymwys. Os oes angen tystiolaeth ond na chyflwynir y dystiolaeth honno erbyn dyddiad cau'r SAF, set 15 Mai 2026, bydd eich cais yn cael ei wrthod.

Gellir gosod gostyngiadau i'ch Taliad Cyffredinol:

- os yw'ch SAF (Ffurflen Cais Sengl) yn dod i law hwyr.
- os canfyddir bod gwybodaeth rydych wedi'i darparu yn anghyflawn neu'n anghywir h.y. wedi tanddatgan neu orddatgan tir.

Gellir gosod cosbau ychwanegol:

- os derbynnir hysbysiad bod Gweithredoedd Cyffredinol a dogfennaeth ategol wedi'u cwblhau'n hwyr.
- os nad ydych yn bodloni gofynion y cynllun h.y. diffyg cydymffurfio a thramgwydd.

Gellir gosod gostyngiadau i daliadau, gan gynnwys eich eithrio o'r cynllun, heb ragfarn, os ydych wedi creu amodau artiffisial i fodloni gofynion y cynllun.

## Q1 Cyflwyno SAF yn Hwyr

Rhaid i chi wneud cais a hawlio Haen Gyffredinol y SAF cyn y dyddiad cau sef 15 Mai 2026.

Gellir derbyn y SAF hyd at 25 diwrnod calendr ar ôl y dyddiad cau. Gelwir hyn yn gyfnod hawlio hwyr y SAF.

Os byddwch yn cyflwyno'ch SAF ar ôl 15 Mai, bydd y Taliad Cyffredinol yn cael ei ostwng 1% bob diwrnod gwaith (o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc) drwy gydol y cyfnod hawlio hwyr, hyd at a chan gynnwys 9 Mehefin 2026.

Ni ellir cyflwyno na derbyn SAF ar ôl y cyfnod hawlio hwyr.

Bydd manylion llawn dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno SAF yn cael eu darparu yn y Llyfryn Rheolau Cais Sengl a gyhoeddir yn flynyddol.

## Q2 Tanddatgan tir

Mae Haen Gyffredinol y SAF yn gynllun 'Fferm Gyfan'.

Rhaid i chi ddatgan yr holl dir amaethyddol yng Nghymru sydd ar gael ar y SAF, gan gynnwys yr holl nodweddion tirwedd, nodweddion a wnaed gan ddyn ac unrhyw nodweddion eraill nad ydynt yn gymwys i gael taliad.

Rhaid i chi ddatgan eich holl dir y mae gennych reolaeth drosto am o leiaf 10 mis o'r flwyddyn galendr ar y SAF. Gall methu â datgan eich holl dir, gan gynnwys ardaloedd nad ydynt yn gymwys, arwain at leihau eich Taliad Cyffredinol.

Pan fo gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd sy’n cael ei ddatgan ar y SAF a chyfanswm yr arwynebedd ar y daliad y dylid fod wedi ei ddatgan, bydd y Taliad Cyffredinol yn cael ei leihau fel a ganlyn;

| Gwahaniaeth | Gostyngiad |
|---|---|
| Hyd at 3% | Dim gostyngiad yn y taliad |
| Mwy na 3% a hyd at 20% | Gostyngiad o 1% yn y taliad |
| Mwy na 20% a hyd at 50% | Gostyngiad o 2% yn y taliad |
| Mwy na 50% | Gostyngiad o 3% yn y taliad |

## Q3 Gorddatgan Tir

Gellir cyflwyno cosb os gwelwn fod Arwynebedd cymwys y Fferm Gyfan sydd wedi’i ddatgan yn fwy na chyfanswm yr Arwynebedd Fferm Gyfan a welir. Gall hyn fod mewn amgylchiadau lle rydych chi yn hawlio ar barseli tir, ond ein bod yn canfod maes o law nad oes gennych reolaeth o'r tir am 10 mis o flwyddyn y cynllun.

Pan fo'r gwahaniaeth rhwng Arwynebedd cymwys y Fferm Gyfan sydd wedi’i ddatgan a chyfanswm Arwynebedd y Fferm Gyfan a welir yn fwy na naill ai 3% neu 2 hectar o'r arwynebedd a bennwyd, bydd yr Arwynebedd Fferm Gyfan sy'n gymwys i gael taliad yn cael ei leihau 1.5 gwaith y gwahaniaeth a ganfuwyd

| Gwahaniaeth mewn arwynebedd | Gostyngiad |
|---|---|
| Hyd at 3% | Dim gostyngiad yn y taliad |
| Hyd at 2 hectar | Dim gostyngiad yn y taliad |
| Pan fo'r gorddatganiad yn fwy na 2 hectar a'r gwahaniaeth yn fwy na 3% a hyd at 10% | Arwynebedd Fferm Gyfan a bennwyd llai (0.75 x gwahaniaeth) |
| Pan fo'r gorddatganiad yn fwy na 2 hectar a'r gwahaniaeth yn fwy na 50% | Arwynebedd Fferm Gyfan a bennwyd llai (1.5 x gwahaniaeth) |

Enghreifftiau:

- Caiff yr Arwynebedd Fferm Gyfan ei ddatgan yn 100 hectar ond gwelir ei fod yn 98.5 hectar. Yr Arwynebedd Fferm Gyfan a ddefnyddir i gyfrifo'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol fydd 98.5 hectar, ac ni fydd unrhyw ostyngiad ychwanegol yn gymwys gan nad yw'r gwahaniaeth yn fwy na 3% neu 2 hectar.

- Caiff yr Arwynebedd Fferm Gyfan ei ddatgan yn 100 hectar ond gwelir ei fod yn 80 hectar. Gan fod y gwahaniaeth yn 20 hectar, yr Arwynebedd Fferm Gyfan a

ddefnyddir i gyfrifo'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol fydd 50 hectar, sef 80 hectar llai 30 hectar h.y. y gwahaniaeth a ganfuwyd o 20 hectar x 1.5.

Ond os bydd y gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan a'r arwynebedd a welir yn fwy na naill ai 3% neu 2 hectar, **ond ddim mwy na 10% o'r arwynebedd a welwyd**, caiff y gosb a gymhwysir ei chyfrifo (fel y disgrifir uchod) ond caiff ei haneru.

Enghraifft:

- Caiff yr Arwynebedd Fferm Gyfan ei ddatgan yn 100 hectar ond gwelir ei fod yn 90 hectar. Cyfrifir y gostyngiad yn yr Arwynebedd Fferm Gyfan fel 10 hectar x 1.5 = 15 hectar. Fodd bynnag, gan nad yw'r arwynebedd sydd wedi'i orddatgan yn fwy na 10%, mae'r gostyngiad yn yr arwynebedd o 15 hectar yn cael ei haneru. Bydd yr Arwynebedd Fferm Gyfan yn 82.5 hectar, sef y 90 hectar a welir, llai gostyngiad o 7.5 hectar.

Ni fydd cosbau am orddatgan yn cael eu cymhwyso ar dir Cynefin neu Goetir. Pan fo ardaloedd o Gynefin neu Goetir wedi'u datgan ond naill ai nad ydynt yn bresennol neu nad ydynt yn cael eu rheoli yn unol â gofynion y Safonau Dilysadwy a'r Matrics Cosbau (gweler Adran Q5).

## Q4 Cynnal Gweithredoedd Cyffredinol

Rhaid derbyn hysbysiad bod Gweithred Gyffredinol wedi'i chynnal trwy Ddangosfwrdd Cyffredinol yr SFS erbyn **15 Ionawr 2027**,

Os na fyddwch yn bodloni'r gofynion, cewch eich cosbi yn unol â'r Safonau Dilysadwy a'r Matrics Cosbau (gweler Adran Q5).

## Q5 Methu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun

Cyfeirir at ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS neu'r Cod i Bawb a Gweithredoedd Cyffredinol fel tor amodau a gellir ei nodi o ganlyniad i archwiliad neu wiriadau gweinyddol.

Bydd RPW yn asesu'r tor amodau hyn yn erbyn setiau o Safonau Dilysadwy a Matricsau Cosbau.

Mae dwy set ar wahân o Safonau Dilysadwy a Matricsau Cosbau. Mae'r naill yn ymwneud â Sylfaen Reoleiddio'r SFS, a'r llall yn ymwneud â'r Cod i Bawb a'r Gweithredoedd Cyffredinol.

Bydd y matricsau yn pennu'r lefel briodol o gosbau i'w cymhwyso ar gyfer yr holl dor amodau a welir. Gall cosb amrywio o lythyrau cynghori i gosbau ariannol yn dibynnu

ar ddifrifoldeb y tor amodau. Byddwch yn cael eich hysbysu'n ysgrifenedig o'r tor amodau a'r gosb berthnasol.

Bydd cosbau'n cael eu categoreiddio fel a ganlyn;

- Sylfaen Reoleiddio'r SFS
- Y Cod i Bawb, gan gynnwys gofyniad bod 10% o'ch fferm yn gynefin.
- Gweithredoedd Cyffredinol

Os yw'r tor amodau yn arwain at gosbau ariannol, bydd y rhain yn cael eu cymhwyso i'ch Taliad Cyffredinol.

Mae'r tabl isod yn dangos sut gellir cymhwyso cosbau ariannol i bob elfen unigol o'r Taliad Cyffredinol.

| | Sylfaen Reoleiddio'r SFS | Cod i Bawb a Gweithredoedd Cyffredinol | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Torri Sylfaen Reoleiddio'r SFS | Torri'r Cod i Bawb, gan gynnwys gofyniad bod 10% o'ch fferm yn gynefin | Torri Gweithredoedd Cyffredinol (ac eithrio UA5, UA6 ac UA9) | Torri Gweithredoedd Cyffredinol UA5 a/neu UA6 | Torri Gweithred Gyffredinol UA9 |
| Taliad y Fferm Gyfan | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Taliad Cynnal Cynefin | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Taliad Cynnal Coetir | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| Taliad Gwerth Cymdeithasol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Taliad Sefydlogrwydd (2026 yn unig) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Q6 Sylfaen Reoleiddio'r SFS

Lle rydym yn nodi diffyg cydymffurfiaeth â Sylfaen Reoleiddio'r SFS, bydd cosbau'n cael eu cymhwyso yn yr un modd ag ar gyfer tor amodau Trawsgydymffurfio, y fframwaith sydd wedi bod yn sail i Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS).

Rhaid bodloni gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS ar gyfer blwyddyn gyfan y cynllun rydych chi'n hawlio.

Os nad ydych yn bodloni gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS, gellir cymhwyso cosb ariannol i'ch Taliad Cyffredinol. Byddai'r gosb yn cael ei chymhwyso i'r taliad am y flwyddyn y canfyddir yr achos o dorri rheolau.

Yn ogystal, gall diffyg cydymffurfio arwain at erlyniad gan yr Awdurdod Rheoli Cymwys.

Wrth benderfynu ar y gosb, rhoddir ystyriaeth i fwriad, graddau, difrifoldeb, hyd ac unrhyw ailadrodd o'r tor amodau ac i bwy yn uniongyrchol y gellir priodoli'r tor amodau.

- Bwriad – p'un a yw'r tor amodau yn cael ei ddosbarthu fel 'esgeulus' neu 'bwriadol'
- Maint – a yw'r tor amodau yn cael 'effaith oddi ar y fferm' neu a yw'n gyfyngedig i 'effaith ar y fferm'.
- Difrifoldeb – bydd y tor amodau yn cael ei ddosbarthu yn seiliedig ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio, gan amrywio o'r 'lleiaf' i 'uchel'
- Hyd – bydd y tor amodau'n cael ei ddosbarthu fel naill ai 'modd ei gywiro' neu 'parhaol' yn ôl a ydym yn ystyried y gellir cywiro effeithiau'r tor amodau.

Mae cosbau'n cael eu cymhwyso lle gellir priodoli'r tor amodau yn uniongyrchol i chi neu eich busnes/sefydliad. Mewn amgylchiadau lle gallai tir fod wedi cael ei drosglwyddo rhwng hawlwyr, bydd cosbau'n gymwys i'r parti y gellir priodoli'r tor amodau iddo'n uniongyrchol

Fodd bynnag, os byddwch yn trosglwyddo'ch tir i fusnes neu sefydliad arall, nad ydynt yn hawlio SFS neu BPS, am ran o'r flwyddyn, gall unrhyw dor amodau a achosir ganddyn nhw ar y tir hwnnw effeithio ar eich taliadau chi gan mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS yn cael eu bodloni am flwyddyn gyfan y cynllun.

Os bydd ffermwr yn torri'r Rheoliadau Tagio a Chofrestru Gwartheg a/neu Ddefaid/Geifr, ceidwad yr anifeiliaid fydd fel arfer yn cael ei gosbi am unrhyw dor amodau cysylltiedig. Ond os ydych yn gadael i anifeiliaid o'r fath bori ar eich tir, dylech gymryd camau rhesymol i ofalu bod y ceidwad wedi'u cofrestru yn ôl y gofyn, gan gynnwys yr angen i roi gwybod i BCMS, EID Cymru neu'r gwasanaeth AML2 bod anifeiliaid wedi'u symud i'ch tir ac oddi ar eich tir.

Esgeulustod

Os nad ydych yn bodloni gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS, bydd cosb yn cael ei chymhwyso a fydd fel arfer yn gosb ariannol o 3% ar y Taliad Cyffredinol ond gellid gostwng y gosb hon i 0% neu ei chynyddu i 5% yn dibynnu ar natur y tor amod.

Rhennir gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS yn bedwar maes, gyda phob maes yn cynnwys nifer o safonau gwahanol (h.y. SMR/GAEC);

- Amgylchedd, Newid yn yr Hinsawdd a Chyflwr Amaethyddol Da y tir (SMR 1-3 a GAEC 2, 3, 6 a 7).
- Iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion (SMR 4-10)
- Lles anifeiliaid (SMR 11-13).

- Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rhywogaethau Estron Goresgynnol (SMR 14-15)

Os nad ydych yn cydymffurfio â mwy nag un gofyniad yn erbyn y safonau yn yr un maes (e.e. o fewn iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion), er y byddant yn cael eu cofnodi fel achosion ar wahân o dorri rheolau, dim ond un gosb fydd yn gymwys i'r maes hwn.

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gofynion yn erbyn safonau mewn meysydd ar wahân, bydd yr achosion hyn o dorri'r rheolau yn arwain at gosbau ar wahân yn cael eu cymhwyso.

Ar yr amod nad yw'r tor amodau a nodwyd wedi digwydd o'r blaen a/neu nad yw wedi'i ddosbarthu fel un bwriadol, bydd unrhyw gosbau ariannol yn cael eu hadio at ei gilydd, ond y gosb uchaf fydd 5% o'r Taliad Cyffredinol.

<u>Ailadrodd</u>

Os byddwch yn torri'r un gofyniad eto o fewn cyfnod o dair blynedd, bydd y gosb a gyfrifir am dorri'r rheol eto yn cael ei luosi â 3, cyn belled â'ch bod wedi cael gwybod am yr achos cynharach o dorri rheolau, a bod gennych gyfle rhesymol i unioni'r tor amodau.

Os byddwch yn torri'r un rheol eto wedi hynny, bydd y cosbau a fydd yn gymwys i chi o ganlyniad i'r diffyg cydymffurfio blaenorol yn parhau i gael eu lluosi â 3 nes ei fod yn cyrraedd 15% a dyna uchafswm y gosb.

Unwaith y bydd cosb am esgeulustod yn cyrraedd yr uchafswm o 15%, os fyddwch yn cadw at yr un gofyniad unwaith eto o fewn cyfnod o dair blynedd, yna ystyrir eich bod wedi torri'r rheol yn fwriadol. Caiff y gosb a gymhwysir ei chyfrifo ar sail y gosb flaenorol am esgeulustod a gawsoch cyn cyrraedd y trothwy o 15% ac yna caiff ei lluosi â 3. Bydd y rheolau ar dorri amodau'n fwriadol yn cael eu rhoi ar waith yn awr bob tro y byddwch yn torri'r un gofyniad. Mae cosb uwch o lawer am dorri safon yn fwriadol.

Os ydych wedi derbyn cosb Trawsgydymffurfio o fewn y 3 blynedd cyn eich cais cyntaf am y Cynllun Cyffredinol a'ch bod wedi hynny yn torri'r un gofyniad o fewn Sylfaen Reoleiddio'r SFS, bydd torri'r gofyniad eto yn gymwys yn unol â Matrics Sylfaen Reoleiddio'r SFS.

<u>Diffyg Cydymffurfio Bwriadol</u>

Os ydym o'r farn eich bod wedi methu'n fwriadol â chydymffurfio ag unrhyw un o ofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS, byddwch yn cael cosb gyffredinol o 20% ond gellid lleihau'r gostyngiad i 15% neu ei gynyddu i 100% gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y toriad o'i fesur yn ôl ei faint, ei ddifrifoldeb, a yw'n barhaol ac a yw'n dramgwydd

eildro. Bydd achos Bwriadol o dorri amodau yn cael ei gyfrifo yn unol â Matrics Cosbau Sylfaen Reoleiddio'r SFS.

## Q7 Cod i Bawb a Gweithredoedd Cyffredinol yr SFS

Os nad ydych yn bodloni unrhyw un o ofynion y Cod i Bawb a/neu'r Gweithredoedd Cyffredinol cymwys, byddwn yn ystyried eich bod yn torri'r gofynion, a bydd cosbau'n gymwys.

Wrth benderfynu ar achosion o dorri amodau'r Cod i Bawb a'r Gweithredoedd Cyffredinol, bydd y canlynol yn cael eu hystyried;

Difrifoldeb

Mae difrifoldeb y tor amodau yn cael ei ddosbarthu fel naill ai difrifoldeb Isel, Canolig neu Uchel yn dibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Maint

Mae maint y tor amod yn cael ei ddosbarthu fel Maint 1 neu Faint 2, yn dibynnu ar gyfran arwynebedd y tor amod mewn perthynas ag arwynebedd yr hawliad cyfan.

Parhaol

Mae tor amod yn cael ei ddosbarthu fel un 'Modd ei gywiro' os gellir cywiro effeithiau'r diffyg cydymffurfio o fewn 12 mis calendr o'r dyddiad y canfyddir y diffyg cydymffurfio.

Mae tor amod yn cael ei ddosbarthu fel 'Parhaol' os na ellir cywiro effeithiau'r diffyg cydymffurfio o fewn 12 mis calendr o'r dyddiad y canfuwyd y diffyg cydymffurfio neu cyn dyddiad cau'r Weithred Gyffredinol.

Pan fo tor amod yn cael ei ddosbarthu fel un 'Modd ei gywiro', byddwn yn nodi'r amserlen ar gyfer cywiro'r tor amod a gallwn atal taliadau nes bod y diffyg cydymffurfio wedi'i gywiro. Os nad yw tor amod wedi'i gywiro, efallai y byddwn yn ailddosbarthu'r tor amod fel un 'Parhaol'.

Ailadroddus

Pan ddarganfyddir achos o dorri'r Cod i Bawb neu'r Gweithredoedd Cyffredinol o fewn 3 blynedd i'r tor amod gwreiddiol, mae tor amodau ailadroddus yn gymwys yn unol â Matrics Cosbau'r SFS.

Ôl-weithredu

Ni fydd cosbau a gymhwysir oherwydd bod torri'r Cod i Bawb neu'r Gweithredoedd Cyffredinol yn cael eu cymhwyso'n ôl-weithredol i Daliadau Cyffredinol y flwyddyn flaenorol ar y cyfan, a bydd cosb yn cael ei chymhwyso i'r flwyddyn y canfyddir y tor amod.

Fodd bynnag, gellir cymhwyso cosbau ôl-weithredol mewn achosion lle mae tystiolaeth gymhellol bod y tor amod wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, lle mae lluniau o'r awyr yn dangos bod cynefin lled-naturiol wedi'i ddifrodi mewn blwyddyn cynt neu os gwelir na wnaethoch chi gynnal y profion pridd gofynnol mewn blwyddyn cynt, caiff taliad y flwyddyn cynt ei chosbi.

Grwpio a Chapio Tor amodau

Y Cod i Bawb

Mae'r Cod i Bawb yn cynnwys pedair rhan, gyda phob rhan yn cynnwys sawl gofyniad gwahanol. Dyma'r pedair rhan;

- Diogelu'r pridd
- Bioamrywiaeth a chynefinoedd (gan gynnwys gofyniad bod 10% o'ch fferm yn gynefin)
- Coed
- Nodweddion y dirwedd

Os nad ydych yn cydymffurfio â mwy nag un gofyniad o fewn yr un rhan o'r Cod i Bawb (e.e. diogelu'r pridd), er y byddant yn cael eu cofnodi fel tor amodau ar wahân, dim ond un gosb fyddai'n gymwys ar gyfer y rhan hon.

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gofynion mewn rhannau ar wahân, gallai'r tor amodau hyn arwain at gosbau ar wahân yn cael eu cymhwyso.

Enghreifftiau:

- Os ydym yn nodi tri achos o dorri amodau rhan Diogelu'r Pridd y Cod i Bawb, bydd unrhyw gosb a gymhwysir yn cael ei gapio i'r tor amod uchaf a welir.
- Os ydym yn nodi tor amodau ar draws sawl rhan o'r Cod i Bawb, (fel diogelu'r pridd a nodweddion y dirwedd) bydd y gosb ariannol uchaf a gymhwysir i bob un yn cael eu hadio at ei gilydd a'u cymhwyso i'r Taliad Cyffredinol (gweler y tabl uwchben)

Bydd pob achos o dorri'r Cod i Bawb yn cael ei gofnodi, a byddwch yn cael eich hysbysu. Gellir defnyddio pob tor amod at ddibenion cymhwyso cosbau ailadrodd pe bai'r un tor amodau'n cael eu canfod mewn blynyddoedd i ddod.

Gweithredoedd Cyffredinol

Ar gyfer Gweithredoedd Cyffredinol (fel sy'n gymwys i chi)), os nad ydych yn cydymffurfio â mwy nag un gofyniad o fewn yr un Weithred Gyffredinol (e.e. UA12: Iechyd a Lles Anifeiliaid), er y bydd pob achos o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gofnodi, dim ond un gosb fyddai'n gymwys i'r Weithred Gyffredinol hon.

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gofynion mewn Gweithredoedd Cyffredinol ar wahân, gallai'r tor amodau hyn arwain at gosbau ar wahân yn cael eu cymhwyso.

Enghreifftiau:

- Os ydym yn nodi tri achos o dorri amodau mewn perthynas ag UA12: Iechyd a Lles Anifeiliaid, bydd unrhyw gosb a gymhwysir yn cael ei chapio i'r tor amdo uchaf a welir.
- Os ydym yn nodi achosion o dorri amodau ar draws nifer o'r Gweithredoedd Cyffredinol, bydd y gosb ariannol uchaf a gymhwysir i bob un yn cael eu hadio at ei gilydd a'u cymhwyso i'r Taliad Cyffredinol, ac eithrio UA5: Cynnal Cynefinoedd, UA6: Creu cynefinoedd dros dro ar dir wedi'i wella ac UA9: Cynnal Coetir (gweler y tabl uwchben).
- Os ydym yn nodi achosion o dorri amodau UA5 Cynnal Cynefinoedd neu UA6: Creu cynefinoedd dros dro ar dir wedi'i wella, bydd y gosb ariannol uchaf a gymhwysir i bob un yn cael eu hadio at ei gilydd a'u cymhwyso i'r taliadau Cynnal Cynefinoedd a Gwerth Cymdeithasol.
- Os ydym yn nodi achosion o dorri amodau UA9: Cynnal Coetir, bydd y gosb ariannol uchaf a gymhwysir yn cael ei chymhwyso i'r taliadau Cynnal Coetir a Gwerth Cymdeithasol.

Bydd pob achos o dorri amodau Gweithredoedd Cyffredinol yn cael ei gofnodi a byddwch yn cael eich hysbysu. Gellir defnyddio pob tor amod at ddibenion cymhwyso cosbau ailadrodd pe bai'r un tor amodau'n cael eu canfod mewn blynyddoedd i ddod.

## Q8 Crynhoi gostyngiadau

Bydd gostyngiadau i daliadau Haen Gyffredinol yr SFS yn cael eu gwneud i ran berthnasol y taliad. Bydd gostyngiadau gwahanol i Daliad y Fferm Gyfan, y Taliad Cynnal Cynefin, y Taliad Cynnal Coetir, y Taliad Gwerth Cymdeithasol a'r Taliad Sefydlogrwydd. Felly, byddwn yn eu disgrifio ar wahân. Bydd y gostyngiadau'n cael eu gwneud yn y drefn a ddisgrifir isod a bydd pob gostyngiad yn ei dro yn seiliedig ar swm canlyniad y gostyngiad cynt.

**Taliad y Fferm Gyfan**

- gor-ddatgan
- cyflwyno'r SAF yn hwyr a dogfennau ategol hwyr
- peidio â datgan tir
- Gweithredoedd Cyffredinol (ond nid am dorri UA5, 6, 9)
- Y Cod i Bawb
- Capio, gostyngiadau llinellol i barchu cyllideb yr SFS
- Sylfaen Reoleiddio'r SFS

**Taliad Cynnal Cynefin**

- gor-ddatgan
- cyflwyno'r SAF yn hwyr a dogfennau ategol hwyr
- peidio â datgan tir

- Gweithredoedd Cyffredinol 5 a 6
- Y Cod i Bawb
- Capio, gostyngiadau llinellol i barchu cyllideb yr SFS
- Sylfaen Reoleiddio’r SFS

**Taliad Cynnal Coetir**

- gor-ddatgan
- cyflwyno’r SAF yn hwyr a dogfennau ategol hwyr
- peidio â datgan tir
- Gweithred Gyffredinol 9
- Y Cod i Bawb
- Capio, gostyngiadau llinellol i barchu cyllideb yr SFS)
- Sylfaen Reoleiddio’r SFS

**Taliad Gwerth Cymdeithasol**

- gor-ddatgan
- cyflwyno’r SAF yn hwyr a dogfennau ategol hwyr
- peidio â datgan tir
- Gweithredoedd Cyffredinol
- Y Cod i Bawb
- Capio, gostyngiadau llinellol i barchu cyllideb yr SFS)
- Sylfaen Reoleiddio’r SFS

**Taliad Sefydlogrwydd**

- gor-ddatgan
- cyflwyno’r SAF yn hwyr a dogfennau ategol hwyr
- peidio â datgan tir
- Gweithredoedd Cyffredinol
- Y Cod i Bawb
- Capio, gostyngiadau llinellol i barchu cyllideb yr SFS)
- Sylfaen Reoleiddio’r SFS

## Q9 Camgymeriadau Amlwg

Mae RPW yn gweithredu darpariaeth Camgymeriadau Amlwg yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r cynllun. Gellir cywiro ac addasu ceisiadau am gymorth neu daliadau ac unrhyw ddogfennau ategol neu hysbysiadau perthnasol a ddarperir gan yr hawlwyr ar unrhyw adeg ar ôl iddynt eu cyflwyno mewn achosion o gamgymeriadau amlwg a gydnabyddir gan RPW. Gellir cydnabod camgymeriadau amlwg ar sail asesiad cyffredinol o'r achos penodol ac ar yr amod bod yr hawlydd wedi gweithredu mewn ewyllys da.

Fel rheol gyffredinol, i gamgymeriad fod yn amlwg, byddwn wedi gallu ei ddarganfod gan ddefnyddio'r dogfennau a'r wybodaeth yr oeddech wedi'u cyflwyno i RPW fel rhan o geisiadau neu wrth hawlio taliadau neu i'w cefnogi, gan gynnwys dogfennau

ategol a hysbysiadau perthnasol, ac o ganlyniad i wiriadau cynhwysfawr yn erbyn gwybodaeth berthnasol arall a gedwir gan Lywodraeth Cymru.

## Q10 Newidiadau ac Ychwanegiadau i'r SAF

Cyn belled â'ch bod yn cyflwyno'ch SAF erbyn canol dydd 15 Mai 2026, gallwch newid eich SAF heb gosb hyd at a chan gynnwys 1 Mehefin 2026 i:

- ychwanegu parseli amaethyddol oedd o dan eich rheolaeth ac ar gael ichi eu defnyddio am 10 mis gan gynnwys 15 Mai 2026
- newid defnydd parseli tir a/neu
- newid y cynlluniau rydych yn eu hawlio ar barseli tir unigol.

Bydd newidiadau a ddaw i law ar ôl 1 Mehefin 2026 yn cael cosb am gyrraedd yn hwyr o 1% am bob diwrnod gwaith mewn perthynas â'r parseli tir sy'n cael eu newid. Ni dderbynnir newidiadau sy'n cyrraedd ar ôl 9 Mehefin 2026.

Ond os ydych eisoes wedi cael gwybod bod camgymeriad yn eich SAF neu os ydych wedi cael gwybod am archwiliad a fydd yn dangos camgymeriad wedi hynny, chewch chi ddim cywiro camgymeriad neu newid manylion y parseli tir dan sylw.

## Q11 Rhoi Gwybod am Gamgymeriad

Cewch roi gwybod i RPW trwy lythyr unrhyw bryd os oes unrhyw ran o gais Haen Gyffredinol yr SFS yn anghywir neu wedi dod yn anghywir ers cyflwyno'r cais. Bydd yr wybodaeth a rowch yn cael ei defnyddio i newid eich cais heb eich cosbi.

Ond ni chewch gywiro camgymeriad o'r fath os bydd Llywodraeth Cymru neu Awdurdod Rheoli Cymwys neu Asiant Dirprwyedig eisoes wedi rhoi gwybod i chi am y camgymeriad neu eich bod yn cael gwybod bod archwiliad yn cael ei gynnal sydd wedyn yn datgelu enghraifft o ddiffyg cydymffurfio e.e. hysbysiad bod cae a gafodd ei ddatgan ar yr SFS ddim o dan eich rheolaeth mewn gwirionedd.

Mewn perthynas â rheolaethau Sylfaen Reoleiddio'r SFS, os byddwch yn darganfod camgymeriad neu hepgoriad mewn perthynas â gwybodaeth a gofnodwyd ar y System Olrhain Gwartheg ar gyfer eich gwartheg, dylech hysbysu BCMS o'r camgymeriad ar unwaith. Gallwch osgoi cosbau os yw'r cronfeydd data canolog ar gyfer symud da byw yn gywir cyn i unrhyw archwiliad ddechrau neu os ydych yn bodloni'r gofynion ar gyfer rhoi gwybod am gamgymeriad.

## Q12 Tynnu'r SAF yn ôl

Mae gennych yr hawl unrhyw bryd i dynnu eich cais am Haen Gyffredinol y SAF yn ôl heb gosb, ond nid pan fyddwch wedi cael gwybod bod camgymeriadau arni neu fod archwiliad am gael ei gynnal.

Rhaid i chi wneud cais i dynnu'r SAF yn ôl naill ai drwy eich cyfrif RPW Ar-lein neu drwy lythyr at Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.

Os byddwch yn tynnu'ch SAF 2026 yn ôl cyn y dyddiad cau sef 15 Mai (neu gyfnod hawlio hwyr y SAF) cewch gyfle i gyflwyno SAF arall.

Os caiff ei thynnu'n ôl cyn y dyddiad cau (neu gyfnod hawlio hwyr y SAF) gallwch ailgyflwyno'ch cais am SFS neu gyflwyno cais BPS a/neu gadw'ch hawliadau BPS i'w defnyddio mewn blynyddoedd i ddod.

Os byddwch yn tynnu'ch SAF 2026 yn ôl ar ôl 9 Mehefin, ni fyddwch yn gallu ailgyflwyno a hawlio am unrhyw gynllun.

## Q13 Amgylchiadau Eithriadol

Bydd RPW yn barod i dderbyn y gallai cyfres o ddigwyddiadau sy'n gyfystyr ag Amgylchiadau Eithriadol fod wedi'ch rhwystro rhag cadw at ymrwymiadau penodol.

Amgylchiadau Eithriadol yw amgylchiadau anarferol sydd y tu hwnt i reolaeth yr hawlydd, a oedd yn annisgwyl ac nad oedd modd eu hosgoi er gwaethaf pob gofal heb aberth ormodol ar ei ran.

Dyma enghreifftiau o Amgylchiadau Eithriadol y gallem eu cydnabod:

- Digwyddiadau naturiol, fel cyfnod hir o dywydd drwg, llifogydd neu glefyd ar anifail neu blanhigyn
- Salwch neu anaf difrifol neu farwolaeth sy'n effeithio ar y busnes
- Colli rheolaeth ar y busnes mewn ffordd na ellid fod wedi'i ragweld er enghraifft bod tenantiaeth yn dod i ben neu oherwydd gorchymyn prynu gorfodol
- Amgylchiadau ariannol fel methdalaeth
- Problemau yn y gadwyn gyflenwi, gyda thystiolaeth
- Difrod troseddol gan drydydd parti, fel tân troseddol neu fandaliaeth

Er mwyn i RPW ystyried a derbyn digwyddiad fel Amgylchiadau Eithriadol, rhaid i fanylion yn ysgrifenedig ddod i law, o fewn 60 diwrnod i'r hawlwyr, neu rywun sy'n gweithredu ar eu rhan, fod mewn sefyllfa i wneud hynny.

Gall digwyddiad sy'n gyfystyr ag Amgylchiadau Eithriadol effeithio'n uniongyrchol ar un aelod yn unig o sefydliad neu fusnes fferm, fodd bynnag, dylid esbonio sut gwnaeth y digwyddiadau effeithio ar allu pawb yn y busnes neu'r sefydliad yn ei gyfanrwydd i gyflawni eu rhwymedigaethau.

Gellir gofyn am dystiolaeth ddogfennol ychwanegol a dylid ei darparu fel y bo'n briodol.

Mae'r ddarpariaeth Amgylchiadau Eithriadol ar gael mewn perthynas â'r canlynol:

- Cyflwyno cais neu hawliad yn hwyr.
- Hysbysiad hwyr o ddogfennaeth ategol mewn perthynas â chais, hawliad neu gadarnhad o gwblhau Gweithred Gyffredinol
- Yr hawl am daliad mewn perthynas â rhai arwynebeddau cymwys a ddatganwyd ar gais neu hawliad ond nad ydynt bellach ar gael i'r ymgeisydd neu ddeiliad y cytundeb oherwydd digwyddiad Amgylchiadau Eithriadol.
- Yr analluu i gydymffurfio â gofynion y cynllun gan gynnwys amodau cymhwystra.
- Cosbau am dorri amodau'r cynllun.
- Y gofyniad i ad-dalu'n rhannol neu'n llawn y taliadau a dderbyniwyd.

Bydd pob hysbysiad o Amgylchiadau Eithriadol yn cael ei ystyried yn ofalus fesul achos.

## Q14 Troseddau

- Mae rheoliad 19 o Reoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwystra, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025 yn sefydlu troseddau mewn perthynas ag agweddau penodol ar gymorth ariannol y darperir ar eu cyfer o dan y rheoliadau hynny. Mae'r rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny'n gymwys i Daliad Cyffredinol yr SFS.
- Mae enghreifftiau o droseddau yn cynnwys rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar unrhyw adeg, methu â darparu gwybodaeth, tystiolaeth neu gopïau o gofnodion pan ofynnir amdanynt ac atal neu rwystro fel arall archwiliad, gan gynnwys methu â darparu cymorth rhesymol wrth i archwiliad gael ei gynnal.
- Pan fyddwn yn barnu eich bod wedi cyflawni trosedd yn unol â'r rheoliadau, gellir tynnu eich Taliad Cyffredinol SFS yn ôl yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

## Q15 Creu Amodau Artiffisial

- Os gwelwn eich bod wedi creu amgylchiadau artiffisial i gael mantais o'r gofynion sy'n ymwneud â'r Taliad Cyffredinol, gan gynnwys osgoi rheolau capio taliadau, byddwn yn ymchwilio i'r mater ac mae'n bosibl y byddwn yn cadw taliadau'n ôl neu'n gwrthod eich hawliad a/neu'n gofyn am ad-daliad.

# Adran R: Newidiadau i Reolau’r Cynllun

**R1 Newid yn y Ddeddfwriaeth (gan gynnwys newid sut mae’n cael ei dehongli)**

Weithiau, mae’r gyfraith yn cael ei newid a bydd disgwyl ichi gadw at unrhyw newidiadau i reolau’r chynllun wedi i Lywodraeth roi gwybod ichi amdanyn nhw.

**R2 Newidiadau i reolau’r cynllun**

Mae’n bosib y bydd angen i ni newid rheolau’r cynllun. Gallai hynny fod am nifer o resymau gwahanol, er enghraifft, i ddiweddaru’r amodau rheoli yn sgil cyngor gwyddonol newydd neu newid rheolau’r cynllun i ystyried newid yn y ddeddfwriaeth neu’r polisi. Byddwn yn cyhoeddi’r newidiadau hyn ar **ein gwefan** ac os gwelwn fod angen, byddwn yn cysylltu â chi’n uniongyrchol amdanyn nhw.

# Adran S: Y Drefn Apelio a Chwyno

## S1 Apelau

Mae'r 'Broses Apelio Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig' yn rhoi'r hawl i chi ofyn am adolygiad o'ch achos os ydych yn teimlo nad yw RPW wedi gwneud penderfyniad cywir yn unol â rheolau'r cynllun.

Mae dwy ran i'r broses apelio:

- Cam 1: adolygiad gan ail swyddog nad oedd yn gyfrifol am y penderfyniad gwreiddiol
- Cam 2: adolygiad gan Banel Apelio Annibynnol (os ydych yn anfodlon â'r ymateb yng Ngham 1).

Mae'r Panel Annibynnol yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol, gan ddod â'r broses i ben.

Nid oes tâl am apêl cam 1. Codir ffi am apêl cam 2 ond byddwn yn ad-dalu'r costau hyn yn llawn os bydd yr apêl yn llwyddiannus.

Rhaid i apêl, gan gynnwys y dystiolaeth, ddod i'n llaw trwy RPW Ar-lein o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr sy'n disgrifio'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses apelio a sut i gyflwyno apêl trwy ddefnyddio'r ffurflen apelio ar-lein ar gael ar ein gwefan yn **Apeliadau Grantiau a Thaliadau Gwledig: canllaw | LLYW.CYMRU**

## S2 Cwynion

Byddwn yn ymdrin â phob cwyn o dan drefn ffurfiol Llywodraeth Cymru ar gwynion.

Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud cwyn gan y Tîm Cynghori ar Gwynion:

Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 03000 251378

Gwefan: **Cwyn am Lywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU**

Gallwch hefyd ddewis cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
Gwefan: **www.ombwdsmon.cymru**

# Adran T: Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad hwn yn eich hysbysu am y defnydd gan Lywodraeth Cymru o'r wybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â'ch hawliad o dan Haen Gyffredinol yr SFS. Mae'n esbonio hefyd sut y bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Y rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth a gyflwynir fel rhan o Haen Gyffredinol yr SFS yw **Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

Y swyddog diogelu data ar gyfer yr un wybodaeth yw'r **Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**
**E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymr**u

Sail gyfreithiol y prosesu yw bod ei angen i gyflawni tasg a gynhelir wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n casglu data personol er mwyn gallu eich adnabod chi, eich lleoliad a'ch busnes(au).

Prosesir y data trwy broses wedi'i hawtomeiddio o reolau busnes sy'n defnyddio Cyfeirnod y Cwsmer fel allwedd.

Caiff eich gwybodaeth ei storio am ddeng mlynedd ar ôl blwyddyn y gwnaed y taliad.

## T1 Rhesymau dros rannu data personol

Gall Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth bersonol â'r canlynol;

- CNC
- Cyswllt Ffermio
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)
- Contractwyr ymchwil sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru
- Adrannau eraill y Llywodraeth neu gyrff rheoleiddio.

Gellir defnyddio'r wybodaeth fel a ganlyn:

- Asesu cymhwystra a phrosesu a dilysu gofynion cynlluniau SFS a chyfrifo taliadau.
- Cynhyrchu a chyhoeddi mapiau sy'n dangos y tir sydd wedi cael cyllid.
- Llunio adroddiadau o ddata o wahanol ffynonellau a/neu grynodebau ystadegol, ar gyfer eu cyhoeddi.

- llywio penderfyniadau sy'n gysylltiedig â newid polisi a chyllid gan gynnwys astudiaethau sy'n cael eu cynnal ar ran Llywodraeth Cymru.
- Medru cysylltu â thirfeddianwyr/defnyddwyr mewn argyfwng, e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau.
- Diogelu budd ymgeiswyr mewn cadwraeth tir a materion a all godi yn sgil ymholiadau am ariannu.
- Caniatáu i bartneriaid allu gwneud eu dyletswyddau cyfreithiol.
- Datgelu gwybodaeth i awdurdodau rheoleiddio, fel Tollau a Chyllid Ei Fawrhydi, Awdurdodau Lleol a'r Heddlu
- Cyhoeddi gwybodaeth benodol ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.

## T2 Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

Caiff yr wybodaeth ei rheoli a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i hymrwymiadau a'i dyletswyddau o dan y canlynol:

- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwystra, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y symiau a delir i ddeiliaid cytundebau gwledig sydd wedi derbyn cymorth o dan Reoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol 2025. Bydd gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar gyfer pob deiliad cytundeb a bydd yn cynnwys yr enw llawn, y dref bost ac ardal y cod post a'r ardal lle mae deiliad y cytundeb yn preswylio, neu leoliad swyddfa gofrestredig neu brif ganolfan fusnes deiliad y cytundeb a manylion y symiau sy’n cael eu talu o dan bob cynllun cymorth yn y flwyddyn ariannol a disgrifiad o'r gweithgareddau sydd wedi’u hariannu gan y taliadau perthnasol.

Fodd bynnag, ni fydd hyn yn gymwys i'r deiliaid cytundeb hynny sy'n derbyn cymorth perthnasol llai na £1,250 yn y flwyddyn ariannol.

Bydd y manylion a gyhoeddir yn parhau i fod ar gael am dair blynedd o'r dyddiad y cânt eu cyhoeddi.

## T3 Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i weld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn ei gadw amdanoch
- i ofyn i ni gywiro unrhyw wallau yn y data hwnnw

- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft pan fyddwch yn tynnu'ch cais yn ôl cyn ichi gael eich talu)
- i'ch data gael ei 'ddileu'
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: **swyddogdiogeludata@llyw.cymru**

Dyma'r manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

2il Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Rhif ffôn: 0330 414 6421
Gwefan: https://ico.org.uk/

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.

# Adran U: Monitro a Gwerthuso

## U1 Beth yw monitro a gwerthuso?

Mae monitro yn golygu casglu data, wrth ac ar ôl cynnal y cynllun, i helpu i wneud penderfyniadau gwell yn awr ac yn y dyfodol.[1]

Mae cysylltiad agos rhwng monitro a gwerthuso. Bydd gwerthusiad cyffredin yn dibynnu'n drwm ar ddata monitro.

Mae gwerthuso yn golygu asesu dyluniad, gweithrediad a chanlyniadau'r cynllun. Mae'n cynnwys deall sut mae'r cynllun cymorth yn cael neu wedi cael ei weithredu a beth yw ei effeithiau, i bwy a pham.[2]

Mae gwerthuso yn golygu hefyd nodi'r hyn y gellir ei wella a sut, a hefyd amcangyfrif ei gost-effeithiolrwydd ac effaith y polisi.

## U2 Pam mae angen monitro a gwerthuso?

Mae monitro a gwerthuso yn ffordd bwysig o weld y gwersi y gellir eu dysgu er mwyn dylunio a darparu cymorth yr SFS yn well yn y dyfodol.

## U3 Monitro a gwerthuso'r SFS

Llywodraeth Cymru fydd yn monitro a gwerthuso'r SFS ac yn adrodd arno, a hynny drwy:

1. ofynion cyfreithiol Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, gan roi sylw arbennig i amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM); a
2. gwerthuso'r cynllun.

## U4 Gofynion Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

O dan y Ddeddf, mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i fonitro a gwerthuso cyfraniad unrhyw gymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru at gyflawni amcanion SLM ac i adrodd ar hynny.

Mae monitro yn hanfodol i Lywodraeth Cymru allu bod yn atebol trwy fesur ei pherfformiad ar sail amcanion SLM a dibenion y cymorth. Mae adroddiadau yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Senedd a'r cyhoedd i allu cadw golwg ar hynt y cynllun a'r hyn sy'n cael ei wneud trwyddo.

---

[1] The Green Book
[2] HMT_Magenta_Book.pdf

Mae'r Ddeddf yn pennu fframwaith monitro ac adrodd clir ar lefelau amcanion SLM a'r cynllun cymorth. Mae'n cynnwys pum lefel adrodd:

- **Y Cynllun Cymorth Amlflwydd**, sef rhag-gynllun pum mlynedd sy'n nodi sut mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhoi cymorth yn ystod cyfnod y cynllun i gyfrannu at gyflawni amcanion SLM. Cyhoeddwyd y **Cynllun Cymorth Amlflwydd** cyntaf ym mis Rhagfyr 2024

- Caiff datganiad o **ddangosyddion a thargedau SLM** ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025 i'w ddefnyddio i asesu cynnydd i wireddu amcanion SLM.

- Cyhoeddi ym mis Mawrth 2026 **adroddiad blynyddol** a gyhoeddir ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i ddangos y cymorth ariannol ac anariannol a ddarperir o dan bŵer y Ddeddf i ddarparu cymorth drwy gynlluniau cymorth, gan gynnwys yr SFS.

- Bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi **adroddiad effaith** bob pum mlynedd a fydd yn gwerthuso'r holl gymorth y bydd Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu o dan y ddeddf. Bydd yn cynnwys asesiad o'i effaith ac o effeithiolrwydd y cymorth o ran cyflawni'r dibenion y darperir y cymorth ar eu cyfer, a chyfraniad y cymorth at gyflawni amcanion SLM. Bydd yr adroddiad effaith cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2030, gan gwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd Rhagfyr 2029.

- Bydd **Adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy** yn cael ei gynhyrchu bob pum mlynedd i asesu effeithiolrwydd y camau a gymerir gan Weinidogion Cymru yn unol â'u dyletswydd i gyflawni amcanion SLM. Bydd yn asesu cynnydd cronnus o ran cyflawni amcanion SLM (ers i'r ddyletswydd SLM ddod i rym) yn ogystal â'r cynnydd dros gyfnod yr adroddiad. Rhaid iddo hefyd asesu'r cynnydd yn erbyn dangosyddion a thargedau SLM ac esbonio a yw pob targed wedi cael ei gyflawni. Daw cyfnod yr adroddiad SLM cyntaf i ben ddiwedd Rhagfyr 2025 a chaiff ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2026.

## U5 Reoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddiaeth (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chynlluniau cymorth y mae Gweinidogion Cymru yn darparu cymorth oddi tanynt. Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy’n cael cymorth o dan gynllun cymorth ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth i Weinidogion Cymru y gall fod ei hangen er mwyn, er enghraifft, wirio bod deiliad y cytundeb yn parhau i fodloni’r meini prawf cymhwysedd a sicrhau cydymffurfedd ag amodau’r cynllun:

8. Rhaid i ddeiliad cytundeb ddarparu, yn y modd hwnnw ac ar yr adegau hynny a bennir gan Weinidogion Cymru, yr wybodaeth honno neu’r dystiolaeth honno sy’n ofynnol gan Weinidogion Cymru i—
(a) gwirio a yw deiliad y cytundeb yn parhau i fodloni’r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cael cymorth,
(b) gwirhau cydymffurfedd â’r amodau y darperir cymorth yn ddarostyngedig iddynt,

(c) monitro i ba raddau y mae diben y cynllun cymorth wedi ei gyflawni, neu y bydd yn cael ei gyflawni, a
(d) adolygu neu werthuso—
(i) unrhyw un neu ragor o’r gweithgareddau a gynhelir gan ddeiliad y cytundeb o dan y cynllun cymorth, a
(ii) llwyddiant y cynllun cymorth yn ei gyfanrwydd.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng monitro'r cymorth a ddarperir o dan gynllun a sefydlwyd yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf a'r fframwaith adrodd a gynhwysir yn y Ddeddf. Er mwyn bodloni'r gofynion adrodd, caiff yr holl gymorth a roddir ei fonitro i fesur effaith ac effeithiolrwydd y cymorth hwnnw, yn ogystal â sicrhau rheolaeth ariannol briodol ac effeithiol. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a gyflwynir gan geiswyr / deiliaid cytundeb i fonitro effaith y cymorth i roi darlun cywir o effeithiau'r cynlluniau cymorth ar draws y sector amaethyddol yng Nghymru ac o berthnasedd gweithredoedd o ran darparu'r cymorth hwnnw, ynghyd â'u cyfraniad at gyflawni amcanion SLM. Gall hyn gynnwys data a gesglir trwy arolygiadau a datganiadau neu wrth weinyddu cynlluniau a bydd gofyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a hysbysiadau preifatrwydd cynlluniau.

## U6 Gwerthuso'r SFS

Yr SFS fydd prif gyfrwng, ond nid unig gyfrwng Llywodraeth Cymru, i gyflawni amcanion SLM. Yn ogystal â gofynion monitro ac adrodd y Ddeddf, bydd gan yr SFS hefyd ei fframwaith monitro, adrodd a gwerthuso ei hun er mwyn gallu asesu effeithiolrwydd y cynllun a sicrhau ei fod yn werth yr arian. Er mwyn helpu i werthuso'r SFS, efallai y byddwn yn gofyn i'r rheini sydd ar y cynllun gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil. Bydd y wybodaeth a'r adborth a gesglir drwy'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at ddatblygu'r cynllun yn y dyfodol, a helpu i sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol, yn ymatebol ac yn fuddiol i'r diwydiant amaeth yng Nghymru.

Bydd strategaeth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru’n bwriadu asesu sut y bydd amcanion SLM a chynlluniau gan gynnwys yr SFS yn cael eu hasesu o ran gwerth am arian a'u canlyniadau i Gymru, gan gynnwys canlyniadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Bydd y strategaeth yn cydnabod natur hirdymor y canlyniadau a geisir ac yn nodi mesurau interim a all ddangos cynnydd ar sail data perfformiad/rheoli gan Lywodraeth Cymru, CNC a darparwyr gwasanaethau eraill.

## U7 Beth mae hyn yn ei olygu i chi a’ch data:

Gallai Llywodraeth Cymru rannu’r wybodaeth rydych wedi’i rhoi iddi mewn cysylltiad â’ch hawliad am Haen Gyffredinol yr SFS (gan gynnwys eich data personol) â chontractwyr trydydd parti er mwyn monitro a gwerthuso’r cynllun.

O ganlyniad, efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn ichi gymryd rhan mewn gwaith ymchwil. Byddwn yn esbonio diben yr ymchwil ichi, ond mater ichi yn llwyr fydd

cymryd rhan. Bydd eich cyfraniad yn yr ymchwil yn ein helpu i sicrhau bod y cynlluniau’n parhau’n effeithiol.

Bydd contractwyr yn defnyddio’r data a ddarperir i gynnal yn unig weithgareddau ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru a hynny’n unol â Rheoliadau Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (GDPR).

Cewch ragor o wybodaeth ynghylch sut y caiff yr wybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â Haen Gyffredinol yr SFS ei defnyddio yn yr Hysbysiad Preifatrwydd yn Adran T.

# Atodiad 1: UA3: Meincnodi – Cyswllt Ffermio a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys canllawiau ar sut i gofrestru neu ailgofrestru gyda Cyswllt Ffermio a sut i gysylltu â FARMDATA+ ynghyd â'r rhestr o’r Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd ar gael.

## Cyswllt Ffermio

**CAM 1**
Symud i One Login: Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, mae angen i chi symud eich cyfrif RPW presennol i wasanaeth newydd One Login GOV.UK.

**CAM 2**
Cofrestrwch / Ail-gofrestrwch gyda Cyswllt Ffermio trwy eich cyfrif RPW Ar-lein o 4 Mawrth 2026.

Unwaith y bydd eich cofrestriad wedi'i gymeradwyo, byddwch yn cael defnyddio FARMDATA+.

Mae Cyswllt Ffermio ar gael i'ch helpu gyda’r broses symud a chofrestru.

Ffoniwch Ganolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio i drefnu apwyntiad TGCh un-i-un ar 03456 000 813.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ôl sector a pherthnasedd

**Tir âr:**
- Defnyddio pryfladdwyr £/ha
- Defnyddio chwynladdwyr £/ha
- Costau gwrtaith £/ha
- Defnyddio nitrogen kgN/ha
- Cynnyrch t/ha ydau a rêp had olew
- Cynnyrch t/ha tatws

**Bîff:**
- Cyfradd cyfnewid buchesi sugno
- Buchod / treisiedi-heffrod sugno sydd wedi cael llo yn y chwe wythnos cyntaf %
- Bwlch rhwng lloi
- Oedran buwch sugno adeg geni ei llo cyntaf
- Enillion Pwysau Byw Dyddiol (DLWG) - pesgi bîff
- Enillion Pwysau Byw Dyddiol (DLWG) - magu gwartheg stôr
- Enillion pwysau byw dyddiol llo (DLWG) ar 200 diwrnod
- Defnydd o ddwysfwyd kg/y pen - pesgi gwartheg bîff
- Oedran gwartheg adeg eu lladd
- Nifer y lloi a fagwyd fesul buwch
- % marwolaethau buchod

**Llaeth:**

- Cyfradd beichiogi fesul buwch %
- Bwlch rhwng lloi
- % gwartheg sydd wedi cael llo yn ystod y chwe wythnos cyntaf
- Cyfradd stocio gwartheg godro fesul hectar
- Buwch - cyfanswm cost porthiant a brynwyd (ceiniog y litr)
- Defnydd dwysfwyd fesul buwch odro kg/l
- Cyfradd cyfnewid y fuches odro
- Treisiad/Heffer - oed yn cael llo cyntaf
- Cyfartaledd cynnwys protein llaeth %
- Llaeth a gynhyrchir litrau/buwch/blwyddyn

**Garddwriaeth:**

- Cynnyrch fesul metr2
- Gwerth gwerthiant fesul metr2
- Maint yr elw gros
- Defnydd dŵr (litrau)

**Moch:**

- Cymhareb trosi porthiant ar gyfer pesgi (FCR)
- Enillion Pwysau Byw (DLWG) - diddyfnu hyd at besgi kg/diwrnod
- Oed diddyfnu perchyll (Diwrnodau)
- Toreidiau fesul hwch y flwyddyn
- Cyfradd cyfnewid hychod %

**Dofednod:**

- Brwyliaid - Cymhareb Trosi Porthiant (FCR)
- Dofednod dodwy - porthiant a fwyteir g/iâr/dydd
- Dofednod dodwy - costau meddyginiaethau milfeddygol ceiniog/iâr
- Brwyliaid - costau meddyginiaethau milfeddygol ceiniog/iâr
- % Marwolaethau cronnus dofednod
- % wyau ansawdd 1af
- Wyau fesul aderyn dan do

**Defaid:**

- Cyfradd stocio defaid / ha
- Colledion ŵyn - sganio i fagu (fel % o ŵyn wedi'u sganio)
- % Sganio mamogiaid
- Porthiant a brynwyd £/pen - mamogiaid magu
- Porthiant a brynwyd £/y pen - Ŵyn stôr a brynwyd
- Defnyddio dwysfwyd ar gyfer ŵyn y pen
- Costau milfeddygol £/pen - Mamogiaid bridio
- Magu ŵyn %
- % Marwolaethau - Ŵyn o'u prynu i'w gwerthu
- Enillion Pwysau Byw Dyddiol (DLWG) - prynu i besgi
- Enillion Pwysau Byw Dyddiol Oen (DLWG) - adeg geni hyd at werthu
- Cyfradd marwolaethau mamogiaid

**Categorïau fferm gyfan**

**Amgylcheddol:**
- Km o berthi/gwrychoedd dros 30 oed
- Km o berthi/gwrychoedd o dan 30 oed
- % Math o goetir ar y fferm
- Dadansoddiad pridd safonol
- Dadansoddiad deunydd organig a charbon
- Nifer mwydod/pryfed genwair mewn pridd glaswelltir
- Nifer mwydod/pryfed genwair mewn pridd cnydau
- Dadansoddiad Gweledol o Strwythur y Pridd (VESS)
- % o gynefin lled-naturiol ar y fferm
- % o gnydau gorchudd

**Trosolwg o'r fferm:**
- Elw fesul hectar (cyn rhent a chostau cyllid)
- Elw fesul hectar (cyn rhent a chostau cyllid) - math arall o fferm
- Elw fesul awr a weithiwyd
- Dadansoddiad cyfrannol o gyfrifon: % y trosiant a werir ar gostau amrywiol
- Llafur â thâl £/ha
- Llafur â thâl £/ha - math arall o fferm
- Ynni a pheiriannau £/ha
- Ynni a pheiriannau £/ha - math arall o fferm
- Trwsio / cynnal a chadw tir ac adeiladau £/ha
- Trwsio / cynnal a chadw tir ac adeiladau £/ha - math arall o fferm
- Dibrisiant peiriannau
- Dibrisiant peiriannau - math arall o fferm
- Dibrisiant adeiladau £/ha
- Dibrisiant adeiladau £/ha - math arall o fferm
- Costau amrywiol £/ha
- Costau amrywiol £/ha - math arall o fferm

**Cnwd pori**
- Cost gwrtaith £/ha ar gyfer glaswellt ac indrawn
- Cost chwistrellu £/ha
- Elw gros llawn cnwd pori £/ha
- Defnydd o nitrogen artiffisial kgN/ha ar gnwd pori
- Cynnyrch glaswellt pori t/ha
- Cynnyrch indrawn t/ha
- Cylchdroadau pori y flwyddyn
- Hectarau dan wyndwn cymysg neu gnydau protein

# Atodiad 2: Gweithred Gyffredinol 5: Cynnal Cynefinoedd – Gofynion y dosbarthiadau cynefin

Mae'r gofynion manwl ar gyfer pob dosbarthiad cynefin unigol wedi'u nodi isod.

Rhaid i chi fodloni'r gofynion hyn **yn ogystal â'r Cod i Bawb** (Rhan 2 – Bioamrywiaeth a Chynefinoedd). (gweler Adran H)

Darperir Argymhellion Rheoli hefyd i gynorthwyo eich rheolaeth o'r safle. Nid yw'r rhain yn ofynion gorfodol y Weithred Gyffredinol hon.

## 1. Morfeydd Heli

## Disgrifiad

Mae'r llystyfiant sy'n tyfu ar forfa heli, rhwng y llanw isel ac uchel, yn gallu gwrthsefyll halen. Mae'r llystyfiant hwn yn cynnwys planhigion arloesol y morfa heli megis corn carw'r môr a chordwellt, sy'n tyfu ar y ffin â'r môr/afon lanw ac yn cael eu boddi gan y môr bron bob dydd.

Bydd canol y morfa heli yn gartref i wellt y morfa, gydag amrywiaeth hefyd o blanhigion sy'n gallu goddef halen megis seren y morfa, y troellig arfor a'r llyriad arfor. Dim ond pan fydd gorllanw y bydd y rhan hon o'r morfa o dan ddŵr.

Ym mhen uchaf y morfa, gwelir planhigion fel y frwynen arfor a glas yr heli a hefyd planhigion nad ydyn nhw'n gallu goddef halen cystal ac sydd i'w gweld hefyd yn tyfu ar y tir fel peiswellt coch, maeswellt rhedegog a pheradyl yr hydref. Dim ond ambell waith y flwyddyn y bydd y rhannau uchaf hyn o'r morfa yn cael eu boddi gan y llanw.

Mae morfeydd heli yn gynefin pwysig hefyd i adar, pysgod ac infertebratau, ac mae'n helpu i amddiffyn ardaloedd mewndirol rhag llifogydd ac erydiad.

### Nod

Bwriad y gofynion hyn yw eich helpu i sicrhau nad glaswellt bras / tal na thwmpathau o laswellt gyda haen drwchus o laswellt marw arnyn nhw yw'r prif lystyfiant. Bydd clystyrau o lystyfiant mwy na 15cm o daldra yn gorchuddio o leiaf 30% o'r morfa heli.

Bwriad y gofynion hyn yw eich helpu i gynnal amrywiaeth o fathau o blanhigion morfeydd heli a fydd yn adlewyrchu safle'r planhigion o fewn ystod y llanw.

## Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- osgoi gorbori a thanbori.
- sicrhau bod llystyfiant byrrach rhwng 15cm a 5cm o daldra yn gorchuddio o leiaf 20% o ran ganol a phen ucha'r morfa

**Peidiwch â**

- newid unrhyw gilfachau, cletir na phantiau nac ymyrryd â newidiadau naturiol a dynamig megis newidiadau oherwydd stormydd
- torri brwyn rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf na thorri neu docio mwy na 30% o'r brwyn neu'r llystyfiant annymunol arall mewn unrhyw flwyddyn (gweler Tabl 1 Rheoli Llystyfiant Annymunol H). Rhaid cadw cofnod o dorri neu docio brwyn neu rywogaethau llystyfiant annymunol eraill yn eich dyddiadur gweithgarwch.
- plannu coed heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
- gadael i'r ardal gael ei stablad / sathru (mae sathru wrth ymyl giatiau a mannau bwydo a dyfrhau yn dderbyniol cyn belled nad yw'r tir sydd wedi'i sathru a'r tir moel yn fwy na 5% o'r arwynebedd)
- adeiladu, heb gymeradwyaeth, draciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled neu unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin, ac eithrio pontydd syml i groesi cilfachau.

  Sylwer: ni chaniateir adeiladu pontydd syml fel y gellir croesi cilfachau o fewn morfa heli arfordirol sydd o fewn Safle Dynodedig (e.e. ACA, SoDdGA). Bydd angen y broses arferol o wneud cais i CNC am gydsyniad drwy hysbysiad o fwriad.

## Argymhellion rheoli

- cynnal y morfa heli drwy ei bori'n ysgafn, gan wartheg lle bo hynny'n bosibl, a gwahardd pori pan fydd angen i gyflawni'r nodau (uchod). Gweler y lefelau stocio a argymhellir yn Nhabl 2 ar ddiwedd yr atodiad hwn
- yn rhan ganol ac ucha'r morfa, gallwch annog, creu neu gynnal y canlynol:
    - porfa amlrywogaeth gydag amrywiaeth o rywogaethau i flodeuo a hadu
    - amrywiaeth o strwythurau llystyfiant gan gynnwys clytweithiau mân neu ddarnau mwy o lystyfiant tal/byr

**Llacio posibl ar y gofynion**

- gellid ystyried llacio'r gofyn ynghylch uchder y borfa os oes llawer o wyddau gwyllt yn pori'r morfa ac yn cadw'r glaswellt yn fyr iawn dros ardal eang
- yn gyffredinol, ni ddylid pori'r morfa heli os yw wedi'i adael heb ei bori am dros 20-30 mlynedd
- mae morfa heli heb ei bori yn dderbyniol os yw hynny'n rhan o gynllun rheoli cymeradwy gafodd ei lunio i sicrhau canlyniadau er budd yr amgylchedd

- mae morfa heli heb ei bori yn dderbyniol lle nad yw'n ymarferol caniatáu da byw i fynd arno neu os yw'n beryglus i dda byw, er enghraifft lle nad yw'n bosib iddyn nhw fynd arno oherwydd cilfachau o'r môr

## 2. Twyni tywod arfordirol a thraethau graean

### Disgrifiad

Mae twyni tywod yn dirffurfiau ac ecosystemau arfordirol naturiol sydd uwchlaw’r penllanw. Mae twyni tywod yn ymffurfio lle mae’r traeth yn ddigon mawr i'r tywod allu sychu rhwng dau lanw a lle mae gwyntoedd o'r môr yn ddigon cryf i chwythu’r tywod tuag at y tir.

Mae twyni tywod yn systemau naturiol dynamig sy’n newid yn gyson yn sgil newidiadau yn y glaw, gwynt a thywod. Gan mai dim ond lle y ceir amodau amgylcheddol addas y gall twyni ffurfio, mae'r arwynebedd yng Nghymru yn fach.

Mae cynefin graean ar arfordir llawn egni, yn foel a symudol ond ar arfordir sefydlog, mae’r graean yn cael sefydlogi, gan ganiatáu i blanhigion gydio dros flynyddoedd olynol. Dylid gadael llystyfiant graean heb ei newid fel y gall y swbstrad symud pan fydd amodau’n caniatáu.

### Nod

Caiff twyni tywod eu rheoli’n bennaf drwy bori. Mae hynny'n cynnal porfa amrywiol ei huchder gydag amrywiaeth o blanhigion brodorol cyffredin a niferus, gan gynnwys blodau, a rhywogaethau amaethyddol megis rhygwellt yn absennol neu’n brin, a lle gall anifeiliaid a ffyngau brodorol ffynnu.

Bwriad y gofynion hyn yw eich helpu i gynnal ansawdd cynefinoedd graean a thwyni tywod.

Mae pob system twyni tywod yn wahanol, ond dylai fod amrywiaeth o fathau o dwyni o’r draethlin ar ymyl y môr, lle ceir clytwaith o dwyni symudol, i dwyni lled-sefydlog gyda glaswellt y twyni’n tyfu arnynt a, lle bydd amodau’n caniatáu, llaciau twyni llaith (pantiau).

Gall twyni tuag at gefn y system, ymhellach oddi wrth y draethlin, fynd yn fwy sefydlog a gall planhigion fel grug dyfu yno. Er mwyn sicrhau cynefin o ansawdd gwell, dylid anelu at gael o leiaf 10% o dir moel / tywod / cerrig mân ac ni ddylid gadael i goed neu brysgwydd ymledu.

### Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- cynnal porfa ag uchder amrywiol, gan gynnwys darnau o dyfiant byr (o dan 5cm) a thal (dros 15cm)

**Peidiwch â**

- pori stoc ar draeth graean
- plannu unrhyw goed na llwyni newydd
- gadael i'r ardal gael ei stablad / sathru (mae sathru wrth ymyl giatiau a mannau bwydo a dyfrhau yn dderbyniol cyn belled nad yw'r tir sydd wedi'i sathru a'r tir moel yn fwy na 5% o'r arwynebedd)
- torri neu docio brwyn neu rywogaethau llystyfiant annymunol eraill.
- gadael i brysgwydd ymledu
- rheoli neu geisio rheoli cwningod o fewn twyni tywod a thraethau graean
- codi tywod neu unrhyw agregau eraill o dwyni tywod neu raean.
- symud twyni (gan gynnwys ailbroffilio)
- ailbroffilio strwythur y graean, gan gynnwys unrhyw gefnau
- defnyddio neu ganiatáu cerbydau neu gychod at ddiben chwaraeon neu hamdden
- creu amddiffynfeydd môr neu waith amddiffyn yr arfordir heb gymeradwyaeth yr awdurdod cymwys perthnasol

## Argymhellion rheoli

### a) Twyni tywod

- gweler y lefelau stocio a argymhellir yn Nhabl 2
- rheoli drwy bori gwartheg a merlod (yn ddelfrydol, dim ond yn y gaeaf y dylid defnyddio defaid) i gynnal porfa amrywiol ei huchder
- mewn pantiau gwlyb (llaciau twyni), cynnal tyfiant bioamrywiol gyda llai na 70% o'r gorchudd yn laswellt
- gellir torri â pheiriant pan nad yw pori'n opsiwn am resymau ymarferol, neu i annog stoc i ddarn nad yw wedi'i bori o'r blaen. Dylid symud deunydd wedi'i dorri oddi ar y safle

### b) Twyni tywod a thraethau graean

- caniatáu newidiadau arfordirol naturiol a dynamig, megis newidiadau oherwydd stormydd neu wynt.
- ystyried gwneud cynlluniau wrth gefn er mwyn i gerbydau allu mynd ar y graean os bydd argyfwng

## Llacio posibl ar y gofynion

- Er mwyn caniatáu popeth sydd o dan y pennawd ‘peidiwch â’ am resymau iechyd a diogelwch a rhesymau lles pobl ac anifeiliaid.

## 3. Rhos yr arfordir a rhos llawr gwlad

## Disgrifiad

Corlwyni fel grug yw prif nodwedd rhos llawr gwlad a dylent orchuddio mwy na 25% o’r tir. Yn gyffredinol, mae hyn yn ganlyniad i bori ysgafn ac, weithiau, llosgi rheoledig ar briddoedd gwael. Gall ymddangos ar ffurf rhos sych ar bridd mwynol (gyda grug a grug y mêl) neu ros wlyb ar fawn bas (gyda grug croesddail a mwsogl Sphagnum). Mae rhos llawr gwlad yn gynefin i amrywiaeth o blanhigion, adar, ymlusgiaid ac infertebratau sydd wedi ymaddasu i’r priddoedd gwael, llystyfiant garw a strwythur amrywiol.

Fel arfer, mae rhosydd yr arfordir i’w cael o fewn 500m i’r môr ac, o ganlyniad i sgeintio o'r môr, mae rhywogaethau arfordirol megis seren y gwanwyn yn tyfu yng nghanol y grug.

## Nod

Mae'r gofynion hyn wedi'u llunio i reoli’r rhos i gynnal gorchudd o gorlwyni, amrywiol eu hoedran / uchder ar draws y dirwedd. Ni chaiff y deiliach a glaswellt marw ymffurfio'n ddarnau helaeth ac na fyddan nhw’n fwy na 50% o'r gorchudd. Lle ceir Sphagnum (migwyn), bydd clytiau niferus yn gorchuddio o leiaf 5% o’r ddaear.

Mae’r gofynion hyn wedi’u llunio i’ch helpu i gynnal amrywiaeth o ficro-gynefinoedd gan gynnwys darnau bach o dir moel, brigiadau creigiau, glaswellt, prysgwydd, rhedyn, pantiau ac ati.

## Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- cymryd y da byw oddi ar y tir os aiff yn rhy wlyb, i osgoi ei stablad (sathru) a’i gywasgu
- cynnal grug, grug y mêl, grug croesddail, neu eithin mân fel eu bod gyda’i gilydd fwy na 25% o’r gorchudd daear
- sicrhau na fydd mwy na 10% o’r arwynebedd yn dir moel, a bod hwnnw wedi’i wasgaru o amgylch y safle

**Peidiwch â**

- phlannu coed
- caniatáu i brysgwydd, mieri neu goed ymledu (gweler Tabl 1 Rheoli Llystyfiant Annymunol H).
- gadael i’r tir gael ei stablad (sathru) (mae sathru wrth ymyl giatiau a mannau bwydo a dyfrhau yn dderbyniol cyn belled nad yw’r tir sydd wedi’i sathru a’r tir moel yn fwy na 5% o’r arwynebedd)

- llosgi ardaloedd o dir gwlyb, rhos yr arfordir neu ros gwlyb
- pori rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth ar fawndir gwlyb:
    - lle mae mawndir gwlyb yn rhan o barsel mwy ac na ellir cadw stoc allan, dylid lleihau'r lefel stocio gyffredinol i sicrhau nad yw'r mawndir gwlyb yn cael ei orbori neu ei stablad (sathru)
    - os yw'r mawndir gwlyb wedi'i amgáu neu os yw'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r parsel, dylai cadw stoc allan

## Argymhellion rheoli

- gweler y lefelau stocio a argymhellir yn Nhabl 2 yn Nhabl 2.
- dylai llai na 5% o'r tir fod o dan brysgwydd / coed (heb gynnwys coed yn tyfu ar greigiau neu frigiadau craig, sy'n anos eu rheoli)
- pori i greu strwythur amrywiol o gorlwyni (grug, grug croesddail ac ati). Yn ddelfrydol, dylai'r corlwyni amrywio yn eu hoedran o rai ifanc i rai hen a rhai wedi gwywo
- dylech bori gwartheg a merlod yn lle defaid neu gyda defaid i gynnal cydbwysedd y corlwyni a lleihau deiliach marw
- mae'n dderbyniol torri llystyfiant i greu strimyn atal tân, i reoli llosgi ar ros sych ac i ddiogelu rhag tanau damweiniol neu droseddol. Gweler Cod llosgi grug a glaswellt | LLYW.CYMRU
- mae torri rhos sych, cyn belled ag y gwneir hynny fel rhan o gylchdro 10 mlynedd, yn ddull rheoli derbyniol. Gweler y Cod Llosgi Grug a Glaswellt
- Ni chaniateir llosgi, torri llystyfiant mewn strimyn atal tân na thorri ardaloedd o rostir sych o fewn safle dynodedig e.e. Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) neu SoDdGA heb gymeradwyaeth ymlaen llaw. Bydd angen y broses arferol o wneud cais i CNC am gydsyniad SoDdGA trwy hysbysiad o fwriad.
- mae rholio, cleisio neu dorri rhedyn yn ddull rheoli derbyniol

## Llacio posibl ar y gofynion

Er mwyn caniatáu popeth sydd o dan y pennawd 'peidiwch â' am resymau iechyd a diogelwch a rhesymau lles pobl ac anifeiliaid.

## 4. Gwlyptir wedi'i amgáu (cors, ffen, llac / mignen) a glaswelltir corsiog

### Disgrifiad

Mae corsydd, ffeniau a mignenni yn cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd gwlyptir, megis cyforgorsydd yr iseldir, gorgorsydd, gwelyau cors a gwernydd, dros fawn dwfn (mwy na 40cm fel arfer). Maen nhw hefyd yn cynnwys llaciau, sydd i'w cael hefyd ar fawn bas rhwng 5-40cm, neu bridd mwynol.

Mae amrywiaeth o rywogaethau planhigion corstir brodorol yn tyfu mewn glaswelltir corsiog. Brwyn a glaswellt y gweunydd (*Molinia*) yw'r prif rywogaethau yn aml, ynghyd ag amrywiaeth o hesg, blodau a glaswellt, sy'n gynefin i amrywiaeth o anifeiliaid brodorol, gan gynnwys britheg y gors.

### Nod

Dylech reoli glaswelltir corsiog trwy ei bori er mwyn cynnal porfa amrywiol ei huchder sydd ag amrywiaeth o blanhigion corstir brodorol niferus sy'n cael blodeuo a hadu. Ni fydd brwyn a glaswellt y gweunydd yn gorddominyddu, a gall anifeiliaid brodorol (gan gynnwys infertebratau) ffynnu.

Dylech reoli corsydd, ffeniau a mignenni i gynnal corlwyni, amrywiol eu hoed / uchder gyda chyfuniad o rug brodorol, hesg, brwyn, migwyn a llystyfiant cors yn tyfu mewn merddwr.

Dylech reoli glaswelltir heb ei wella wedi'i amgáu sydd yn yr un parsel â chors, ffen a mignen yn unol â'r cynefin y mae'n rhan ohono. Dylai'r cynefinoedd hyn gael eu rheoli fel na fydd deunydd/deiliach marw yn ffurfio clytiau helaeth sy'n fwy na 20% o gyfanswm yr arwynebedd.

Bwriad y gofynion hyn yw eich helpu i gynnal gwlyptir a glaswelltir amrywiol wedi'u hamgáu, ac i gynnal amrywiaeth o ficro-gynefinoedd gan gynnwys clytiau bach o dir moel, brigiadau craig, prysgwydd a rhedyn.

### Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- cymryd y da byw oddi ar y tir os aiff yn rhy wlyb, i osgoi ei stablad (sathru) a'i gywasgu
- cynnal glaswelltir corsiog amrywiol ei uchder, gydag o leiaf 75% o'r glaswelltir (ac eithrio brwyn) rhwng 10cm a 50cmn yn yr haf (1 Mehefin i 30 Awst)

**Peidiwch â**

- phlannu unrhyw goed newydd ar wlyptir wedi'i amgáu.

- plannu unrhyw goed newydd ar laswelltir corsiog, heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
- gadael i'r cae gael ei stablad (sathru) (mae sathru wrth ymyl giatiau a mannau bwydo a dyfrhau yn dderbyniol cyn belled nad yw'r tir sydd wedi'i sathru a'r tir moel yn fwy na 10% o'r arwynebedd).
- ar laswelltir corsiog, torri neu docio mwy na 30% o'r brwyn pabwyr neu rywogaethau annymunol mewn unrhyw flwyddyn (gweler Tabl 1 Rheoli Llystyfiant Annymunol yn H). Dylid cadw cofnod o dorri neu docio brwyn neu rywogaethau llystyfiant annymunol eraill yn eich dyddiadur gweithgarwch.
- gadael i brysgwydd ymledu.
- pori gwlyptir wedi'i amgáu (cors, ffen, mign) rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth. Dylid cadw cofnod o symudiadau stoc, ar ac oddi ar y tir, yn eich dyddiadur gweithgarwch i fodloni'r gofyniad hwn.

## Argymhellion rheoli

- gweler y lefelau stocio a argymhellir yn Nhabl 2.
- cynnal strwythur llystyfiant amrywiol gyda chlytiau agored, lle nad yw rhywogaethau megis grug, hesg ac eithin mân yn uwch nag uchder pen-glin a lle mae corlwyni yn amrywio o rai ifanc i rai arloesol, i rai hen a rhai wedi gwywo
- ni ddylai mwy na 75% o'r tir (ac eithrio clytiau bach tua 20 x 20m) fod o dan blanhigion tal (h.y. glaswellt, hesg a brwyn talach)
- mewn cors, dylai'r dŵr fod yn agos at yr wyneb drwy gydol y flwyddyn fel bod mawn yn gallu parhau i gronni
- ar fawn bas, dylai mwy na 10% o gyfanswm yr arwynebedd fod o dan figwyn (Sphagnum)
- ni ddylai mwy na 5% o'r arwynebedd fod o dan rywogaethau brodorol goresgynnol (e.e. rhedyn)
- ni ddylai fod yna unrhyw rywogaethau goresgynnol eraill (e.e., Rhododendron, jac y neidiwr a chlymog Japan)

**a) Gwlyptir wedi'i amgáu – corsydd yr iseldir, ffeniau a llaciau/mignenni**

- gweler y lefelau stocio a argymhellir yn Nhabl 2.
- dylech bori'r cynefin â gwartheg, merlod neu ddefaid i:
    - atal prysgwydd rhag lledaenu
    - atal glaswellt talach (gan gynnwys Molinia), brwyn a hesg rhag gorddominyddu; a,

    - chynnal neu wella cydbwysedd rhwng hesg llai a blodau a mwsoglau gwlyptir

- lle bydd mwy na 50% o dan laswellt y gweunydd (Molinia), dylech ei bori o 1 Ebrill – 31 Hydref ar ddwysedd rhwng 0.30 ac 0.20 uned da byw/hectar
- dim ond pori ysgafn iawn fydd ei angen ar wlyptir sydd â gorchudd cymysg o haenau a rhywogaethau, a dim pori yn y gaeaf
- anelu at strwythur llystyfiant amrywiol gyda llawer o glytiau agored heb fod yn uwch nag uchder pen-glin

**b) Glaswelltir corsiog**

- gweler y lefelau stocio a argymhellir yn Nhabl 2.
- gallwch ddilyn y drefn rheoli gweirglodd yn lle'r drefn rheoli tir pori – dilynwch yr amseriadau torri a phori adladd o dan ‘Glaswelltir sych lled-naturiol wedi’i amgáu – gweirglodd’. Ewch â'r torion o’r glaswelltir.

  Ni chaniateir i chi reoli ardaloedd o laswelltir corsiog fel gweirglodd ar Safle Dynodedig heb gydsyniad SoDdGA dilys gan CNC.

## Llacio posibl ar y gofynion

- Unrhyw wyriad o'r gofynion uchod

## 5. Glaswelltir sych lled-naturiol wedi'i amgáu (glaswelltir sur, niwtral, calchaidd, metelaidd)

### Disgrifiad

Mae’r categori hwn yn cynnwys glaswelltiroedd sur, niwtral, calchaidd neu fetelaidd (sy’n gysylltiedig â hen fwyngloddfeydd metel), y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi’u hamgáu a'u lled-wella neu heb eu gwella.

Ceir yn y glaswelltiroedd hyn amrywiaeth o laswellt llai cynhyrchiol o safbwynt amaethyddol a chymunedau o flodau gwyllt, gan ddibynnu ar amodau'r pridd. Ceir y glaswelltiroedd hyn yn wynebu pob cyfeiriad ac ar dir amrywiol ei uchder, o'r ffridd i lawr i laswelltir yr arfordir. Lle'u ceir uwchlaw terfyn amgáu'r tir (yn y mynydd), bydd angen ichi eu rheoli o dan ddosbarth cynefin 6 – Cynefinoedd agored yr ucheldir.

<u>Gallwch ddewis, yn flynyddol, pa un o'r ddau ddull rheoli canlynol y byddwch yn ei ddefnyddio.</u>

### a) Ei reoli fel tir pori

### Nod

Bwriad y gofynion hyn yw'ch helpu i gynnal y glaswelltir trwy ei bori, er mwyn cael tyfiant amrywiol ei uchder lle bydd amrywiaeth o blanhigion brodorol (gan gynnwys blodau) yn gyffredin ac yn gallu blodeuo a hadu, a lle gall anifeiliaid (gan gynnwys infertebratau) a ffyngau glaswelltir brodorol ffynnu.

Gan ddibynnu ar y math o laswelltir, bydd y borfa’n cynnwys o leiaf 3 blodyn dangosol, megis pysen-y-ceirw fach, y bengaled, teim, clust y llygoden, tresgl y moch a briwydd wen, yn ogystal â glaswellt, megis cynffonwellt y maes, rhonwellt y ci a pheiswellt y defaid.

Dylai rhywogaethau amaethyddol megis rhygwellt a meillion gwyn fod yn absennol neu’n brin. Yn y tymor canolig i hir, nid glaswellt bras / tal fydd y prif lystyfiant, ac eithrio mewn clytiau na fyddant yn fwy na 5% o’r glaswelltir ac ni fydd deunydd marw yn ffurfio clytiau mawr ac ni fyddan nhw'n fwy na 10% o gyfanswm yr arwynebedd.

Nod y gofynion hyn yw eich helpu i gynnal y glaswelltir drwy bori.

### Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- cymryd da byw oddi ar y safle os aiff amodau’n rhy wlyb, i osgoi stablad (sathru) a chywasgu mwy na 5% o’r tir
- ei bori er mwyn cael tyfiant amrywiol ei uchder lle bydd o leiaf 75% o’r glaswelltir rhwng 5cm ac 20cm rhwng 15 Mai a 31 Awst

- sicrhau bod 75% o’r glaswelltir â thyfiant o 2cm i 10cm rhwng 1 Medi a 31 Hydref
- sicrhau na fydd mwy na 5% o arwynebedd y cae yn bridd moel a bod hwnnw wedi’i wasgaru o amgylch y cae.

Mewn AGA Dynodedig) lle mae'r frân goesgoch yn nodwedd, mae amrywiad i fodloni'r gofyniad uchder porfa yn yr haf a gofyniad y dylai 70% o uchder y borfa fod yn 3cm neu'n is rhwng 15 Mai a 31 Awst.

Yr AGA perthnasol yw:

- Arfordir Castellmartin
- Craig yr Aderyn
- Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli
- Glannau Ynys Gybi
- Mynydd Cilau, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal
- Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Tyddewi
- Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro

Mae'r haen AGA Brân Goesgoch ar fap y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sydd ar gael ar eich cyfrif RPW Ar-lein yn dangos yr ardaloedd lle mae'r gofynion hyn yn berthnasol.

**Peidiwch â**

- gwasgaru unrhyw wrtaith anorganig neu organig megis tail buarth, slyri, slwtsh carthion, tail ieir neu flawd pysgod
- plannu unrhyw goed newydd heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
- Ni chaniateir plannu coed o fewn safle dynodedig. Bydd angen y broses arferol o wneud cais i CNC am gydsyniad SoDdGA drwy hysbysiad o fwriad.
- gadael i’r cae gael ei stablad (sathru) (mae sathru wrth ymyl giatiau a mannau bwydo a dyfrhau yn dderbyniol cyn belled nad yw’r tir sydd wedi’i sathru na’r tir moel yn fwy na 5% o’r arwynebedd)
- gwasgaru calch ar laswelltir sur, calchaidd neu fetelaidd
- torri neu docio mwy na 30% o’r brwyn pabwyr neu rywogaethau annymunol eraill mewn unrhyw flwyddyn (gweler Tabl 1 Rheoli Llystyfiant Annymunol yn H). Dylid cadw cofnod o dorri neu docio brwyn neu rywogaethau llystyfiant annymunol eraill yn eich dyddiadur gweithgarwch.
- gadael i brysgwydd neu redyn ymledu.

## Argymhellion rheoli

- gweler y lefelau stocio a argymhellir yn Nhabl 2.
- yn ddelfrydol, dylid rhoi gwartheg neu geffylau i bori glaswelltir niwtral yn hytrach na defaid
- gallwch wasgaru calch os oes angen i gynnal pH pridd rhwng 5.5 a 6.5 ar laswelltir niwtral

## Llacio posibl ar y gofynion

- Yn ystod cyfnodau estynedig o dywydd eithafol, megis sychder, tir wedi'i rewi ac eira, efallai y byddwn yn llacio'r rheolau ynghylch uchder y borfa.
- Efallai y bydd modd gwneud cais i newid y gofynion o ran uchder os byddwch yn dilyn trefn pori a gorffwys benodol. Gofynnir i chi gadw Dyddiadur Gweithgarwch i ategu'r drefn honno.

## b) Ei reoli fel gweirglodd

## Nod

Y nod yw cynnal uchder porfa amrywiol ei huchder lle mae amrywiaeth o rywogaethau brodorol (gan gynnwys blodau) yn gyffredin, a lle gall planhigion, anifeiliaid a ffyngau glaswelltir brodorol ffynnu.

Yn dibynnu ar y math o laswelltir, bydd y borfa'n cynnwys o leiaf dri blodyn dangosol, megis pysen-y-ceirw, y bengaled, teim gwyllt, clust y llygoden, tresgl y moch a'r friwydd wen, yn ogystal â glaswelltau, megis cynffonwellt y maes, rhonwellt y ci a pheiswellt y defaid.

Ni fydd mwy na 5% o arwynebedd y tir yn bridd moel, a bydd hwnnw wedi'i wasgaru o amgylch y cae.

Bwriad y gofynion hyn yw'ch helpu i gynnal y glaswelltir drwy ei ladd, cywain y gwair a phori'r adladd.

## Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- os ydych chi'n pori yn y gwanwyn, o 1 Mawrth, dylid sicrhau bod 75% o'r glaswelltir yn uwch na 5cm
- ewch â'r da byw oddi yno erbyn 15 Mai. Dylech gofnodi'r dyddiad y mae da byw yn cael eu symud o'r weirglodd yn eich Dyddiadur Gweithgarwch.
- lladd a chywain cnwd gwair unwaith y flwyddyn rhwng 7 Gorffennaf a 30 Medi (mae gwair neu wywair yn dderbyniol, ond nid silwair). Dylech gofnodi

dyddiadau torri a'r dyddiad y mae cnwd gwair yn cael ei dynnu yn eich Dyddiadur Gweithgarwch.

**Sylwer:** Pan fo parseli tir wedi'u lleoli o fewn haen gyfyngiad Ardaloedd Gylfinir Pwysig (ICA), rhaid i chi beidio â thorri gwair tan 15 Gorffennaf ar y cynharaf. Cyfeirir at yr ardaloedd hyn fel Rhydyddion Bridio a bydd yr wybodaeth hon ar gael ar fap y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar RPW Ar-lein.

- ar ôl ei ladd, bydd 75% o'r glaswelltir rhwng 2cm a 10cm tan 31 Hydref
- cymryd y da byw oddi ar y tir os aiff yn rhy wlyb, i osgoi ei stablad (sathru) a'i gywasgu

**Peidiwch â**

- gwasgaru unrhyw wrtaith anorganig neu organig megis slyri, slwtsh carthion, tail ieir neu flawd pysgod, ac eithrio haen denau o dail buarth (dim mwy nag 6t/hectar y flwyddyn neu 12t/hectar bob yn ail flwyddyn). (Gweler Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Haen Gyffredinol: UA5 Cynnal Cynefinoedd Glaswelltir Sych Lled-naturiol – disgrifiad o'r cynefin am ragor o wybodaeth am benderfynu ar y math o bridd yn ôl y rhywogaethau sy'n bresennol). Dylech gofnodi unrhyw ddefnydd o dail buarth yn eich Dyddiadur Gweithgarwch
- plannu unrhyw goed newydd heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

  Ni chaniateir plannu coed o fewn safle dynodedig (neu SoDdGA). Bydd angen y broses arferol o wneud cais i CNC am gydsyniad SoDdGA drwy hysbysiad o fwriad.
- gadael i'r cae gael ei stablad (sathru) (mae sathru wrth ymyl giatiau a mannau bwydo a dyfrhau yn dderbyniol cyn belled nad yw'r tir sydd wedi'i sathru na'r tir moel yn fwy na 5% o'r arwynebedd)
- gwasgaru calch ar laswelltir sur, calchaidd neu fetelaidd
- caniatáu i brysgwydd neu redyn ledaenu ((gweler Tabl 1 Rheoli Llystyfiant Annymunol yn H).
- pori'r adladd tan o leiaf bedair wythnos ar ôl lladd y gwair. Dylech gofnodi dyddiadau pori yn eich Dyddiadur Gweithgarwch.

## Argymhellion rheoli

- troi gwair/gwywair o leiaf ddwywaith cyn ei gywain
- gwasgaru calch os oes angen i gynnal pH pridd rhwng 5.5 a 6.5 ar laswelltir niwtral

- yn ddelfrydol, dylid rhoi gwartheg neu geffylau i bori glaswelltir niwtral yn hytrach na defaid

## Llacio posibl ar y gofynion

- Yn ystod cyfnodau estynedig o dywydd eithafol, megis sychder, gallwn lacio'r rheolau ynghylch lladd gwair ac uchder y borfa.
- Efallai y bydd modd defnyddio'r cnwd i wneud silwair os caiff ei gynaeafu ym mis Medi ac os yw wedi hadu.
- Efallai y bydd modd gwneud cais i newid y gofynion o ran uchder os byddwch yn dilyn trefn pori a gorffwys benodol. Gofynnir i chi gadw dyddiadur gweithgarwch i ategu'r drefn honno.

## 6. Cynefinoedd agored yr ucheldir

## Disgrifiad

Gall ucheldir (tir uwchlaw'r terfyn amgáu uchaf) gynnwys cymysgedd o gynefinoedd gan gynnwys rhos, cors, glaswelltir, nentydd a llynnoedd.

Mae'r math o gynefin yn dibynnu ar y tir gwaelodol, y math o bridd, dŵr daear, draeniad, llethr, y cyfeiriad mae'n wynebu ac uchder. ~~Dylai'r~~ cynefin adlewyrchu'r ffactorau naturiol hyn, ac effeithiau lefelau pori isel i ganolig heb welliannau amaethyddol fel aredig, ail-hau neu wrtaith artiffisial.

## Nod

Bwriad y gofynion hyn yw'ch helpu i gynnal clytwaith o gynefinoedd ar dir heb ei amgáu gyda strwythur llystyfiant amrywiol a chlytiau agored, gyda rhywogaethau megis grug, hesg ac eithin mân.

Dylai corlwyni megis grug gynnwys amrywiaeth o blanhigion ifanc a hen a bydd 75% o'r glaswelltir gwlyb a sych o dan dyfiant amrywiol ei uchder rhwng 5 a 50cm yn ystod misoedd yr haf.

Ar gors, dylai lefelau dŵr fod yn agos at yr wyneb drwy gydol y flwyddyn fel bod mawn yn gallu parhau i gronni. Lle ceir migwyn (Sphagnum), dylech gynnal clytiau niferus sy'n gorchuddio o leiaf 5% o'r tir.

Gall ucheldir (tir uwchlaw'r terfyn amgáu uchaf) gynnwys cymysgedd o gynefinoedd gan gynnwys rhostir, cors, glaswelltir, nentydd a llynnoedd. Dylai'r cynefin adlewyrchu'r ffactorau naturiol hyn yn bennaf, fel y'u haddaswyd gan lefelau pori isel i ganolig a heb welliannau amaethyddol fel aredig, ail-hau neu ychwanegu gwrtaith artiffisial.

Nod y gofynion hyn yw eich helpu i gynnal y clytwaith o gynefinoedd.

## Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- cofnodi'r math o dda byw, niferoedd a symudiadau mewn dyddiadur stocio a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio os gofynnir amdano.
- rheoli'r cynefinoedd trwy bori priodol, gan osgoi tanbori neu orbori eang
- pori rhwng 1 Ebrill – 30 Medi ar ddwysedd o ddim llai na 0.04 UDB/ha
- Pori rhwng 1 Hydref – 31 Mawrth ar ddwysedd o ddim mwy na 0.2 UDB/ha. Sylwer: ni fydd y gyfradd uchaf yn addas i nifer o gynefinoedd a bydd yn arwain at orbori os caiff ei defnyddio ar fawndiroedd ac unrhyw gynefin â chorlwyni fel grug.

Gweler Tabl 3 Canllawiau dwysedd stocio ar gyfer cynefinoedd agored yr ucheldir

- sicrhau na fydd lefel y pori'n lleihau arwynebedd y corlwyni (grug, llus ac ati), os ydyn nhw'n bresennol.
- cymryd y da byw oddi ar y tir os aiff yn rhy wlyb, i osgoi ei stablad (sathru) a'i gywasgu. Mae stablad (sathru) wrth ymyl giatiau yn dderbyniol
- cadw at y Cod llosgi grug a glaswellt (2008)

**Peidiwch â**

- phlannu unrhyw goed newydd heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
- Ni chaniateir plannu coed o fewn safle dynodedig. Bydd angen y broses arferol o wneud cais i CNC am gydsyniad SoDdGA drwy hysbysiad o fwriad.
- torri neu docio mwy na 30% o frwyn neu chwyn mewn unrhyw flwyddyn (gweler Tabl 1 Rheoli Llystyfiant Annymunol yn H). Dylid cadw cofnod o dorri neu docio brwyn neu rywogaethau llystyfiant annymunol eraill yn eich dyddiadur gweithgarwch.

## Argymhellion rheoli

- pori gyda gwartheg a/neu ferlod yn lle defaid neu gyda defaid
- pori cyn lleied â phosibl rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth. Gall pori lefel isel gan ferlod fod yn dderbyniol yn ystod y dyddiadau hyn
- mae rholio, cleisio neu dorri rhedyn yn dderbyniol
- tynnu conwydd a rhododendron sydd wedi hau eu hunain
- mae'n dderbyniol torri llystyfiant i greu strimyn atal tân, i reoli llosgi ar ros sych ac i ddiogelu rhag tanau damweiniol neu droseddol.

## 7. Rhedyn trwchus

### Disgrifiad

Nodwedd rhedyn trwchus yw absenoldeb llwyr unrhyw blanhigion eraill; ffurfir haen drwchus, ddwfn o ddeunydd marw yn ystod yr hydref a'r gaeaf a lleiniau o dyfiant tal dyrys yn yr haf.

Prin yw gwerth amgylcheddol ac amaethyddol rhedyn trwchus. Mae ganddyn nhw effeithiau annymunol a niweidiol, gan gynnwys risg o danau gwyllt. Gall rhedyn gynnal poblogaethau o drogod parasitig yn ogystal â gwneud gwaith amaethyddol, megis crynhoi stoc, yn fwy anodd.

### Nod

Y nod hirdymor yw naill ai gwella ac adfer lleiniau o redyn trwchus yn fath arall o gynefin glaswelltir lled-naturiol mwy gwerthfawr (glaswelltir lled-naturiol wedi'i amgáu, glaswelltir heb ei wella heb ei amgáu neu glytwaith) gan ddefnyddio hierarchaeth o weithgareddau rheoli rhedyn (e.e. rholio, cleisio, torri neu ei bori gan wartheg a/neu ferlod). Neu, cyn belled â bod gennych blan creu coetir a rhaglen rheoli rhedyn, gallai'r tir fod yn addas ar gyfer plannu coed.

At ddibenion y dosbarth cynefin hwn, dylai rhedyn trwchus gyfrif am 40% i 100% o'r tir lle maen nhw'n tyfu (ni ddylid cynnwys cynefinoedd cyfagos heb fawr ddim rhedyn neu ddim rhedyn yn y categori cynefin rhedyn trwchus). Bydd y rhedyn yn dal ac yn drwchus, ac yn cyfyngu stoc i lwybrau yn unig. Bydd deiliach marw wedi cronni'n ddwfn oddi tano a gallai fod yn amhosibl mynd trwy'r rhedyn.

Bwriad y gofynion hyn yw'ch helpu i gynnal y cynefin mewn cyflwr heb ei wella.

### Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)

#### Peidiwch â

- Gwasgaru unrhyw chwynladdwyr, pryfladdwyr neu blaladdwr arall (ac eithrio i sbot-drin/clwt-chwynnu rhywogaethau estron goresgynnol, chwyn niweidiol neu fel rhan o raglen rheoli rhedyn) (gweler Tabl 5 Rheoli Llystyfiant Annymunol ar ddiwedd yr atodiad hwn)
- rheoli rhedyn trwchus trwy losgi. Mae creu strimyn atal tân i leihau'r risg o danau gwyllt yn dderbyniol – gweler y canllawiau technegol yn y Cod llosgi grug a glaswellt (2008).

### Argymhellion rheoli

- Gweler y lefelau stocio a argymhellir yn Nhabl 2.
- cynnwys da byw trwm (gwartheg, merlod) fel rhan o gyfundrefn bori

- gall pori yn y gwanwyn cynnar (Mawrth i Fai) gan ddefnyddio da byw trwm (gwartheg neu ferlod) helpu i leihau goruchafiaeth rhedyn
- cynnal rhaglen o weithgareddau rheoli rhedyn (e.e. rholio, cleisio, torri)
- dilyn canllawiau ar ymwybyddiaeth o gynefin y Fritheg Berlog Y Swyddfa Gymreig | Butterfly Conservation. Glöyn byw prin yw'r Fritheg Berlog, ac fe'i gwelir yn aml mewn ardaloedd o redyn agored
- sefydlu strimynnau atal tân ar gyfer atal tanau gwyllt a lleihau'r risg ohonynt, yn enwedig ar safleoedd risg uchel a bregus sydd â hanes o dân, neu lle ceir cynllun rheoli llosgi

## Llacio posibl ar y gofynion

- Er mwyn caniatáu popeth sydd o dan y pennawd 'peidiwch â' am resymau iechyd a diogelwch a rhesymau lles pobl ac anifeiliaid.

## 8. Perllannau traddodiadol

### Disgrifiad

Mae perllannau traddodiadol yn debyg i goetir pori a thir parc, a ddiffinnir gan eu strwythur yn hytrach na'r math o lystyfiant. Diffinnir perllannau traddodiadol fel grwpiau o goed ffrwythau a chnau a blannwyd ar wreiddgyff cryf ar ddwysedd isel mewn glaswelltir parhaol ac a reolir mewn ffordd llai dwys. Mae yna lawer o wahaniaethau rhanbarthol, gan gynnwys perllannau afalau, gellyg, ceirios, eirin, eirin du a chnau Ffrengig.

Mae cynefin perllan draddodiadol o'r radd flaenaf yn cynnwys glaswelltir pori gyda choed ffrwythau amrywiol o ran eu hoed, gyda digonedd o bren marw a phwdr sy'n sefyll ac ar lawr.

### Nod

Y nod yw cynnal y glaswelltir i gadw neu annog rhywogaethau sy'n nodweddiadol o laswelltir niwtral. Cynnal nodweddion arferol perllannau sy'n cael eu rheoli'n llai dwys megis pren marw a thyllau pydredd yn y coed. Gall hyn gynnal mwsoglau, cennau a ffyngau yn ogystal ag infertebratau, adar a mamaliaid. Diogelu mathau traddodiadol o goed ffrwythau, yn enwedig y rhai sy'n lleol i'r ardal.

Bwriad y gofynion hyn yw'ch helpu i gynnal y cynefin trwy sicrhau nad glaswellt bras / tal fydd y prif lystyfiant, ac eithrio mewn clytiau. Annog cynnal a/neu ddatblygu cynefin a thirwedd amrywiol sy'n cynnwys coed ffrwythau safonol, glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau a ffiniau caeau traddodiadol.

### Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- rheoli'r glaswelltir trwy:
  - pori dwysedd isel fel nad yw da byw yn tynnu rhisgl coed aeddfed a bod y borfa 90% o'r arwynebedd yn fwy na 5cm, neu
  - ei drwy a chodi'r torion 2 i 4 gwaith y flwyddyn.
- cadw'r holl goed ffrwythau presennol, oni bai eu bod wedi'u heintio neu'n gallu achosi niwed
- atal difrod i goed gan dda byw neu beiriannau
- cadw'r holl bren marw yn y berllan (oni bai ei fod wedi'i heintio)

### Peidiwch â

- thocio uchelwydd (mae cynaeafu cynaliadwy yn dderbyniol)

- defnyddio unrhyw wrteithiau anorganig. Os ydych yn lladd gwair, gellir defnyddio tail buarth wedi pydru’n dda (wedi’i storio am o leiaf ddeuddeg mis) ar gyfradd o ddim mwy na 6 t/ha y flwyddyn neu 12 t/ha bob yn ail flwyddyn. Nid oes unrhyw wrtaith organig arall, gan gynnwys slyri, slwtsh carthion, tail ieir a blawd pysgod, yn dderbyniol. Dylid cadw cofnod o ddefnyddio tail buarth yn eich dyddiadur gweithgarwch.
- defnyddio golch olew tar gan ei fod yn lleihau gwerth bywyd gwyllt y berllan

**Argymhellion rheoli**

- gweler y lefelau stocio a argymhellir yn Nhabl 2.
- pori ar lefelau na fydd yn creu tir moel o amgylch bonion y coed
- rheoli'r coed gan ddefnyddio cyn lleied â phosibl o fewnbynnau cemegol
- os ydych chi’n cynnal y glaswelltir drwy ei dorri, peidiwch â'i dorri mor aml fel na fydd planhigion yn y borfa'n cael blodeuo ond nid mor anaml fel bod twmpathau glaswellt bras neu fieri yn lledaenu. Rhaid mynd â thorion o’r safle
- gwasgaru calch os oes angen i gynnal pH pridd rhwng 5.5 a 6.5
- tocio’r coed ffrwythau bob tymor lle bo angen i gynnal lefel resymol o iechyd a chynhyrchiant ac i ddiogelu coed rhag cael eu difrodi gan y gwynt
- pentyrru unrhyw bren marw neu bren wedi’i docio mewn lle lled-gysgodol o fewn y berllan. Dim ond pren heintiedig y dylech ei symud neu ei losgi

**Llacio posibl ar y gofynion**

- Er mwyn caniatáu popeth sydd o dan y pennawd ‘peidiwch â’ am resymau iechyd a diogelwch a rhesymau lles pobl ac anifeiliaid.

## 9. Prysgwydd (gan gynnwys rhedyn gwasgaredig a llai trwchus)

### Disgrifiad

Llwyni yn bennaf yw prysgwydd a gall fod yn gynefin sy'n datblygu neu'n gynefin ar ei anterth. Mae'r llwyni'n amrywio, ond mae'r rhywogaethau mwyaf cyffredin yn debygol o gynnwys drain duon, drain gwynion, eithin, criafol, ysgaw, bedw, mieri a helyg.

Gall coridor ar lan nant, a gafodd ei greu o dan gynllun blaenorol, ddatblygu'n brysgwydd a syrthio i'r categori hwn.

Mae rhedyn gwasgaredig a llai trwchus gyda haen o ddaear yn gynefin gwerthfawr ar gyfer cyfres o rywogaethau o'r fritheg ac mae'n darparu cynefin da ar gyfer adar sy'n nythu a gorchudd ar gyfer adar, mamaliaid, amffibiaid ac ymlusgiaid eraill wrth iddynt symud. Mae da byw yn gallu mynd i ganol rhedyn gwasgaredig a llai trwchus (heb gael eu cyfyngu i lwybrau yn unig) ac ni fydd fawr o redyn marw os o gwbl a bydd glaswellt a llystyfiant arall yn tyfu drwyddo.

### Nod

Nod rheoli yw cynnal yr haen ddaear ac atal y canopi rhedyn rhag cau. Dylai'r haen ddaear gynnwys planhigion blodeuol sy'n darparu neithdar a phaill yn y gwanwyn.

Dros amser, cynhelir y rhedyn gwasgaredig a llai trwchus fel eu bod yn cadw eu natur agored gydag isdyfiant o blanhigion. Dylech rwystro rhedyn rhag tyfu'n dal, trwchus sy'n cyfyngu stoc i lwybrau yn unig. Ni fydd trwch o ddeiliach rhedyn marw, na all rhywogaethau eraill o lystyfiant dreiddio a thyfu drwyddo, yn cael cronni, neu bydd yn lleihau.

Bwriad y gofynion hyn yw'ch helpu i gynnal prysgwydd a'i reoli'n dda, i gynnal amrywiaeth o fywyd gwyllt a darparu neithdar, hadau, ffrwythau, cysgod a safleoedd nythu ar gyfer infertebratau, adar a mamaliaid, yn ogystal â chysgod a lloches i dda byw. Mae hefyd yn cynnig cynefin addas ar gyfer llawer o blanhigion blodeuol. Prysgwydd amrywiol o ran oed, rhywogaeth a strwythur sy'n cynnal yr amrywiaeth ehangaf o fywyd gwyllt.

### Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- cadw pob llain o brysgwydd brodorol ar lethrau arfordirol, glannau afonydd, twyni tywod, clogwyni calchfaen, gwaelodion cymoedd ac yn yr ucheldir.
- Mae'n dderbyniol torri prysgwydd i'w rwystro rhag lledaenu

**Peidiwch â**

- gwasgaru unrhyw chwynladdwyr, pryfladdwyr neu blaladdwr arall; ac eithrio i sbot-drin/clwt-chwynnu rhywogaethau estron goresgynnol, chwyn niweidiol neu fel rhan o raglen rheoli rhedyn (gweler Tabl 1 Rheoli Llystyfiant Annymunol yn H). Dylid cadw cofnod o sbot-driniaethau yn eich dyddiadur gweithgarwch.
- rheoli prysgwydd trwy losgi. Mae creu strimyn atal tân i leihau'r risg o danau gwyllt yn dderbyniol – gweler y canllawiau technegol yn y Cod llosgi grug a glaswellt (2008).

**Argymhellion rheoli**

- gweler y lefelau stocio a argymhellir yn Nhabl 2.
- os caiff ardaloedd prysgwydd eu pori, dylid pori ar gyfradd nad yw'n fwy na'r hyn a bennir ar gyfer y glaswelltir oddi tano
- os nad yw'r prysgwydd yn cael ei bori ar hyn o bryd, gan gynnwys ar gyfer coridorau glan nant newydd, cadwch at y drefn honno
- cynnal a chadw'r holl goed safonol sydd wedi'u gwasgaru ymhlith y prysgwydd
- os oes bylchau o fewn y prysgwydd, gadewch i goed / prysgwydd aildyfu'n naturiol
- os ydych yn pori tir â rhedyn arno, defnyddiwch wartheg a/neu geffylau yn unig, neu drefn stocio gymysg (yn enwedig rhwng mis Mawrth a mis Mai) er mwyn iddyn nhw all malu a chleisio'r rhedyn i gadw ei natur agored
- dilyn canllawiau er lles cynefin y Fritheg Berlog. Glöyn byw prin yw'r Fritheg Berlog, ac fe'i gwelir yn aml mewn ardaloedd o redyn

**Llacio posibl ar y gofynion**

- Tynnu prysgwydd yn barhaol er budd nodweddion hanesyddol neu archeolegol.
- Cael gwared ar brysgwydd lle mae'n lledaenu i gynefin o werth cadwraethol uwch, megis glaswelltir sych lled-naturiol wedi'i amgáu neu rostir llawr gwlad a'r arfordir.

## 10. Coetir pori

### Disgrifiad

Fel arfer, mae coetir pori yn gynnyrch systemau rheoli tir hanesyddol ac yn ffurfio strwythur llystyfiant, yn hytrach na bod yn gymuned benodol o blanhigion. Mae'r strwythur hwn fel arfer yn cynnwys coed mawr, amrywiol eu dwysedd, sydd wedi tyfu heb gystadleuaeth coed eraill, yn gymysgedd amrywiol o dir pori, rhos a/neu goetir.

Fel arfer, diffinnir coetir pori fel llain o dir â llai na 30% ohono o dan orchudd o goed, a'r rheini'n goed unigol gwasgaredig. Bydd rhai o'r coed yn tyfu'n glystyrau i greu mwy na 30% o orchudd mewn ambell fan.

Dylai fod o leiaf 6 choeden yr hectar ar wasgar ar draws y safle. Bydd llawer o'r coed wedi tyfu heb gystadleuaeth coed eraill, gyda chorun llydan a dwfn a boncyffion byr.

Hefyd mae'r dosbarth cynefin hwn yn cynnwys ffridd (y Canolbarth a'r Gogledd) neu goedcae (y De) sy'n digwydd ble mae'r iseldir a'r ucheldir yn cwrdd.

### Nod

Bydd y nodau ar gyfer yr haen ddaear yn dibynnu ar y llystyfiant sy'n bresennol gan y gallai fod yn laswelltir, rhos, mawnog, prysg, coetir neu redyn.

Mae'r cynefin hwn yn arbennig o bwysig ar gyfer infertebratau sy'n byw mewn pren marw, cennau a sawl rhywogaeth o adar, a dylid rheoli'r cynefin fel ei fod yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal y rhywogaethau hyn.

Bwriad y gofynion hyn yw'ch helpu i gynnal coetir pori llwyddiannus trwy gynnal nifer y coed a chynnal neu wella cyflwr y llystyfiant ar y ddaear.

### Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- cadw coed a phrysgwydd gwasgaredig presennol
- cadw'r holl bren marw boed yn sefyll neu ar lawr, oni bai ei fod yn beryglus
- sicrhau nad yw da byw yn tynnu rhisgl coed aeddfed ac nad oes llawer o dir moel o amgylch bôn y coed (mae gan lai na 10% o goed dir moel o amgylch y bôn)

### Peidiwch â

- gadael i'r cae gael ei stablad (sathru) (mae sathru wrth ymyl giatiau a mannau bwydo a dyfrhau yn dderbyniol cyn belled nad yw'r tir sydd wedi'i sathru a'r tir moel yn fwy na 5% o'r arwynebedd)
- plannu unrhyw goed newydd heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhellion rheoli**

- gweler y lefelau stocio a argymhellir yn Nhabl 2.
- defnyddiwch wartheg neu ferlod i bori safleoedd sydd â chyfran uchel ohono'n rhos a / neu'n rhedyn
- os yw llystyfiant y ddaear yn cynnwys rhedyn trwchus, gall defnyddio da byw trwm (gwartheg neu ferlod) i'w pori yn gynnar yn y gwanwyn (mis Mawrth i fis Mai) helpu i leihau goruchafiaeth y rhedyn
- mae cyfran o brysgwydd yn fuddiol i ddarparu blodau a ffrwythau, felly dylech gadw'r prysgwydd oni bai ei fod yn lledaenu i orchuddio mwy nag 20% o arwynebedd y safle
- ar safleoedd lle mai rhedyn trwchus yw'r prif lystyfiant (lle nad oes fflora daear), derbynnir efallai na fydd pori yn bosibl
- ystyried caniatáu i'r safle droi'n goetir yn naturiol os oes coed yn lledaenu mewn safle lle mai rhedyn yw'r prif lystyfiant a'i fod yn anodd iawn / amhosibl ei bori
- mae torri neu docio yn dderbyniol, lle mae rhedyn, brwyn pabwyr neu lystyfiant annymunol arall yn lledaenu'n arbennig o helaeth (gweler Tabl 5 Rheoli Llystyfiant Annymunol ar ddiwedd yr atodiad hwn)
- mae llyfnu ag oged gadwyn i dorri clytiau trwchus o redyn marw yn dderbyniol
- mae plannu coed cyn belled nad eir dros y terfyn gorchudd coed o 30% yn dderbyniol

**Llacio posibl ar y gofynion**

- Er mwyn caniatáu popeth sydd o dan y pennawd 'peidiwch â' am resymau iechyd a diogelwch a rhesymau lles pobl ac anifeiliaid.

## 11. Pyllau parhaol ar gyfer bywyd gwyllt

### Disgrifiad

Diffinnir pyllau bywyd gwyllt fel nodweddion dŵr agored hyd at un hectar o faint, a'u prif swyddogaeth yw bod o fudd i natur. Os oes gan bwll presennol lain glustogi wedi'i ffensio, bydd yr holl ardal sydd wedi'i hamgáu (gan gynnwys y llain glustogi a'r dŵr agored) yn cael ei chynnwys yn y weithred.

Nid yw hyn yn cynnwys cyrsiau dŵr (dŵr sy'n symud) e.e. ffosydd, nentydd ac afonydd sy'n llifo; neu nodweddion os eu prif swyddogaeth yw storio dŵr at ddiben ffermio e.e. pyllau dyfrhau, cronfeydd dŵr, tanciau dŵr, unig ffynhonnell ddŵr ar gyfer da byw. Ar ben hynny, nid yw pyllau ar-lein (y rhai sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyrsiau dŵr) yn rhan o weithred rheoli pyllau bywyd gwyllt parhaol.

Efallai y bydd rhywogaethau gwarchodedig fel dyfrgwn, llygod y dŵr a madfallod dŵr cribog i'w cael mewn pyllau. Chi sy'n gyfrifol am nodi presenoldeb rhywogaethau o'r fath a sicrhau na fydd y gwaith yn effeithio'n niweidiol ar unrhyw rywogaethau gwarchodedig.

### Nod

Y nod yw rhoi stop ar golli'r nodweddion pwysig hyn yn nhirwedd Cymru.

Dylid rheoli pyllau sy'n bodoli eisoes, ynghyd â'u lleiniau clustogi, mewn modd a fydd yn cynyddu eu gwerth i fioamrywiaeth. Yn achos pyllau sy'n llawn silt, heb ddim dŵr agored o gwbl, a / neu byllau sy'n cynnwys llawer iawn o lystyfiant neu a gysgodir gan lwyni, efallai y byddant yn addas i'w hadfer fel rhan o Weithred Opsiynol.

Bwriad y gofynion hyn yw'ch helpu i gynnal pyllau er mwyn iddynt allu cynnal amrywiaeth o rywogaethau dŵr croyw (planhigion ac anifeiliaid) a bod yn 'gerrig camu' pwysig rhwng cynefinoedd dŵr croyw.

### Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- cynnal cyfran o'r pwll fel dŵr agored*, h.y. atal silt rhag cronni ynddo neu ei atal rhag sychu yn sgil gormod o lystyfiant. Rhaid gwneud unrhyw waith dadsiltio a chlirio coed / prysgwydd rhwng 15 Hydref a 15 Ionawr rhag niweidio adar, amffibiaid ac infertebratau sy'n bridio. Dylid cadw cofnod o'r gwaith a wnaed yn eich dyddiadur gweithgarwch.
- wrth dynnu silt neu lystyfiant i gynnal dŵr agored, peidiwch â chlirio mwy na thraean o arwynebedd y pwll mewn blwyddyn. Hynny er mwyn i'r infertebratau a'r amffibiaid sy'n byw yn y silt allu goroesi
- pan fydd trwch o gysgod dros bwll, dylech fondocio cyfran o'r coed ifanc a / neu'r prysgwydd sy'n tyfu ar ochr ddeheuol y pwll er mwyn i olau allu cyrraedd

wyneb y dŵr. Os ydych yn bondocio coed / prysgwydd, gofalwch eich bod yn eu torri o leiaf 15cm uwchlaw lefel y ddaear

- codi ffens o gwmpas y llain glustogi i gadw stoc allan
- sicrhau nad yw da byw yn cael niweidio pyllau a'u glannau trwy stablad a sathru. Mae'n dderbyniol parhau i ddefnyddio cilfachau yfed sy'n bodoli eisoes

**Peidiwch â**

- phlannu unrhyw goed newydd heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

  Ni chaniateir plannu coed o fewn safle dynodedig. Bydd angen y broses arferol o wneud cais i CNC am gydsyniad SoDdGA drwy hysbysiad o fwriad.
- gwasgaru mewnbynnau o unrhyw fath o fewn 10m i lan y pwll.
- caniatáu mynediad direolaeth i dda byw, all arwain at stablad/sathru glannau'r pwll. Gall cilfachau yfed fod yn dderbyniol (gweler uchod)
- rhyddhau pysgod neu anifeiliaid eraill i'r pwll
- gollwng unrhyw blanhigion addurnol neu ddyfrol i'r pwll, gan fod nifer ohonyn nhw'n oresgynnol
- *defnyddio peiriannau o fewn 5m i ymyl y dŵr. Hefyd, peidiwch â niweidio llystyfiant y glannau neu'r dorlan os oes llygod y dŵr yn bresennol
- *cael gwared ar brysgwydd neu garthu gwaelod y pwll os ceir tystiolaeth bod dyfrgwn neu wâl dyfrgwn yn y pwll neu ar ei lan
- dyfnhau gormod ar y pwll neu greu glannau serth. Nid oes yn rhaid i byllau bywyd gwyllt fod yn ddyfnach nag 1m a dylent gael glannau â llethr raddol
- hau unrhyw hadau o fewn llain glustogi'r pwll. Dim ond trwy aildyfiant naturiol y dylech ganiatáu i lystyfiant dyfu mewn unrhyw ardal o'r fath

**Argymhellion rheoli**

- pan fydd ffens atal stoc yn rhan o bwll, efallai y bydd angen cynnal neu drwsio'r ffens honno rhag i dda byw fynd at lannau'r pwll heb reolaeth
- wrth gynnal a chadw ffens, dylid ystyried defnyddio trefniant ffensio pedwar tymor
- gellir defnyddio clifachau yfed os bu'n arfer eu defnyddio yn y gorffennol a bod eu hangen o hyd
- mae rhai pyllau yn sychu'n naturiol yn ystod misoedd yr haf; nid oes angen eu gor-ddyfnhau

**Llacio posibl ar y gofynion**

- Os ceir tystiolaeth bod twll llygod y dŵr neu wâl dyfrgwn yn y pwll, gallwn lacio'r gofyn i gynnal cyfran o’r pwll ar ffurf dŵr agored rhag i beiriannau trwm darfu ar yr anifeiliaid.

## 12. Ardaloedd o gynefin sydd newydd eu creu ar dir wedi'i wella

### Disgrifiad

Mae'n bosib na fydd y cynefin rydych wedi bod yn gweithio arno i'w sefydlu a'i reoli fel cynefin ar dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol neu ar dir a oedd o dan goed yn y gorffennol yn cyfateb i'r disgrifiadau o gynefin a restrir uchod h.y. nid yw'n amlwg yn gynefin.

Fodd bynnag, disgwyliwn y bydd hyn yn newid dros amser; felly, wrth i'r cynefin ddatblygu, bydd ei ddosbarth fel 'cynefin sydd newydd ei greu' yn newid a bydd yn cael ei gategoreiddio fel y cynefin mwyaf priodol.

Gan ein bod am gydnabod y gwaith cadarnhaol y byddwch wedi'i wneud, o dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn derbyn bod y tir sy'n cael ei reoli fel cynefin yn gymwys i gael y taliad perthnasol, a'i fod yn cyfrannu at Ofyn y Cynllun bod o leiaf 10% o bob fferm yn gynefin.

Rhennir y canllawiau hyn yn bedwar gofyniad gwahanol, yn dibynnu ar fwriad y gwaith rheoli.

#### i) Coridorau glan nant newydd

Gall hyn gynnwys unrhyw goridor sydd wedi'i ffensio ar lan nant ac a gafodd ei greu o dan gynllun blaenorol, neu os yw'r rhan fwyaf o'r coridor yn laswelltir wedi'i wella ac nad yw wedi troi'n ôl i fod yn gynefin lled-naturiol eto.

### Nod

Gadael i gynefin amrywiol ddatblygu ac i lwyni a choed brodorol dyfu ar hyd lan nant. Bydd hyn yn cynnig cysgod/lloches i rywogaethau anifeiliaid sy'n defnyddio'r cwrs dŵr ac yn gwella ansawdd y dŵr trwy ddal gwaddodion a mewnbynnau sy'n dod o dir fferm cyfagos.

### Gofynion

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- asesu'r ardal bob blwyddyn a newid dosbarth y cynefin ar eich SAF ar ôl iddo fodloni meini prawf y cynefin dan sylw e.e. prysgwydd.
- cynnal a chadw ffensys atal stoc. Mewn ardaloedd sy'n dueddol i ddioddef llifogydd, argymhellir y gallai ffensys trydan lled-barhaol fod yn fwy addas na ffensys post a gwifren parhaol
- gadael i brosesau afon dynamig naturiol ddigwydd, megis erydu a dyddodi

### Peidiwch â

- phori'r ardal
- torri na thocio llystyfiant ac eithrio i reoli chwyn niweidiol

- symud pren sydd wedi syrthio yn neu wrth ymyl y sianel (oni bai y gellir cyfiawnhau gwneud hynny am fod risg y gall gau'r sianel)
- gosod mesurau diogelu glannau oni bai bod eu hangen i amddiffyn seilwaith hanfodol e.e. peipiau, pontydd, ffyrdd
- defnyddio'r ardal ar gyfer gweithgareddau gyda cherbydau, neu fel trac. Mae'n dderbyniol defnyddio mannau croesi presennol i weithio ar gaeau.

**Llacio posibl ar y gofynion**

- gellir caniatáu mynediad achlysurol neu dymhorol i dda byw at yr afon os ceir sefyllfa lle gallai pori ysgafn fod yn fuddiol e.e. er mwyn rheoli Jac y Neidiwr. Byddai'n rhaid cytuno ymlaen llaw ar amser a maint y mynediad hwnnw
- mewn ardaloedd sy'n cynnal llygod y dŵr, nid yw'n ddymunol cael llawer o goed ar lan yr afon. Efallai y bydd angen gwneud gwaith rheoli i atal prysgwydd a choed rhag datblygu'n eang, yn amodol ar gyngor ecolegydd

**ii) Mawn sydd newydd ei adfer**

Gall hyn gynnwys safleoedd adfer mawn ar dir wedi'i wella a gefnogir gan fentrau fel y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd a weinyddir gan CNC.

**Nod**

Darparu cymorth a rheolaeth briodol ar gyfer ardaloedd lle mae'r mawn wedi'i adfer ar fawnog a gafodd ei throi'n dir wedi'i wella'n amaethyddol, neu dir a oedd dan goed o'r blaen. Bydd hyn yn gwarchod ecosystem y fawnog a'r fioamrywiaeth sy'n datblygu, yn ogystal â helpu i ddal dŵr a lleihau allyriadau carbon.

**Gofynion**

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- asesu'r ardal bob blwyddyn a newid dosbarth y cynefin ar ôl iddo fodloni meini prawf y cynefin dan sylw.
- rheoli tir mewn cynefin sydd newydd ei greu yn unol â'r cyngor penodol a roddir gan y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, neu ddosbarth y cynefin a ddisgwylir yn y pen draw, er enghraifft cynefinoedd agored yr ucheldir neu wlyptir wedi'i amgáu.

**Llacio posibl ar y gofynion**

- os yw'r tir mor ddwrlawn fel nad oes modd pori'r safle'n ddiogel, ni fydd y canlyniadau mesuradwy yn berthnasol. Byddai'r cyfyngiadau'n parhau i fod yn berthnasol i bob gwlyptir wedi'i amgáu, p'un a yw'n cael ei bori ai peidio

- os bydd y gwaith adfer wedi creu darnau mawr o dir moel, ni fyddai'r cyfyngiadau ar dir moel yn berthnasol.

**iii) Glaswelltir heb fewnbynnau o gynlluniau blaenorol**

Gall hyn gynnwys ‘tir sy'n cael ei reoli fel cynefin’ ar laswelltir wedi’i wella (wedi'i gategoreiddio o dan Opsiwn 15 Glastir).

**Nod**

Bydd y gwaith rheoli hwn yn helpu i gadw'r glaswelltir wrth iddo ddatblygu’n gynefin sy'n fwy cyfoethog ei rywogaethau.

**Gofynion**

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- asesu’r ardal bob blwyddyn a newid dosbarth y cynefin ar eich SAF ar ôl iddo fodloni meini prawf y cynefin dan sylw
- rheoli tir mewn cynefin sydd newydd ei greu yn unol â dosbarth y cynefin a ddisgwylir yn y pen draw, gyda’r gofyn ychwanegol na ddylid rhoi unrhyw fewnbynnau arno, er enghraifft glaswelltir sych lled-naturiol wedi’i amgáu (opsiynau rheoli tir pori a gweirglodd).

**iv) Unrhyw dir arall sydd wedi’i wella neu a oedd dan goed o'r blaen ac sy'n cael ei reoli i greu cynefin**

**Nod**

Bydd y gwaith rheoli hwn yn helpu i barhau i ddatblygu cynefinoedd lled-naturiol.

**Gofynion**

- cadw at y Cod i Bawb (gweler Adran H)
- asesu’r ardal bob blwyddyn a newid dosbarth y cynefin ar eich SAF ar ôl iddo fodloni meini prawf y cynefin dan sylw
- rheoli tir mewn cynefin sydd newydd ei greu yn unol â dosbarth y cynefin a ddisgwylir yn y pen draw, gyda’r gofyn ychwanegol na ddylid rhoi unrhyw fewnbynnau

## Llacio posibl ar y gofynion

- Mae’n bosibl y bydd angen llacio'r rheolau yn y fan hon, gan ddibynnu ar y cynefin targed a’r gorchudd tir gwreiddiol. Er enghraifft, ni fyddai’r cyfyngiadau ar dir moel yn briodol ar gyfer tir a oedd dan goed o'r blaen.

## Tabl 2: Lefelau stocio a argymhellir

Dyma grynodeb o'r lefelau stocio a argymhellir ar gyfer pob dosbarthiad o gynefin. Canllaw yn unig yw'r ffigurau hyn a dylech eu darllen ar y cyd â'r nodau, gofynion a chanlyniadau rheoli uchod. Gweler Tabl 3 isod am ddosbarthiad cynefin 6 'Cynefinoedd agored yr ucheldir'.

| Dosbarthiad cynefin | Cynefinoedd penodol a all fod neu a fydd yn bresennol o fewn y dosbarthiad cynefin | Y lefel stocio uchaf a argymhellir |
|---|---|---|
| 1. Morfeydd heli | Morfeydd heli | 0.4 UDB/ha rhwng 1 Mawrth a 15 Gorffennaf Hyd at 1.0 UDB/ha am weddill y flwyddyn |
| 2. Twyni tywod arfordirol a thraethau graean | 2a) Twyni tywod | 0.1 - 0.3 UDB/ha y flwyddyn |
| | 2b) Traeth graean | Dim pori |
| 3. Rhos yr arfordir a rhos llawr gwlad | Rhos yr arfordir a rhos llawr gwlad | 0.2 - 0.5 UDB/ha 1 Ebrill - 30 Mehefin<br><br>0.1 - 0.25 UDB/ha 1 Gorffennaf - 31 Hydref<br><br>0 - 0.1 UDB/ha 1 Tachwedd - 31 Mawrth |
| 4. Gwlyptir wedi'i amgáu (cors, ffen, llac / mignen) a glaswelltir corsiog | 4a) Cyforgorsydd iseldir, ffeniau a llaciau / mignenni | Mwy na 50% o laswellt y gweunydd (Molinia): 0.20 - 0.30 UDB/ha 1 Ebrill – 31 Hydref<br><br>Llai na 50% o laswellt y gweunydd (Molinia): 0.01 - 0.05 UDB/ha 1 Ebrill – 31 Hydref |
| | 4b) Glaswelltir corsiog | 0.2 - 0.4 UDB/ha y flwyddyn |

| Dosbarthiad cynefin | Cynefinoedd penodol a all fod neu a fydd yn bresennol o fewn y dosbarthiad cynefin | Y lefel stocio uchaf a argymhellir |
|---|---|---|
| 5. Glaswelltir sych lled-naturiol wedi'i amgáu (sur, niwtral, calchaidd, metelaidd) | glaswelltir sur | 0.2 - 0.4 UDB/ha y flwyddyn |
| | glaswelltir calchaidd | 0.25 - 0.4 UDB/ha y flwyddyn |
| | glaswelltir niwtral | 0.5 - 0.7 UDB/ha y flwyddyn |
| | glaswelltir metelaidd | 0.25 - 0.4 UDB/ha y flwyddyn |
| 6. Cynefinoedd agored yr ucheldir | Gweler Tabl 3 isod | |
| 7. Perllannau traddodiadol | Perllannau traddodiadol | 0.75 UDB/ha y flwyddyn |
| 8. Rhedyn trwchus | Rhedyn trwchus | 0.1 UDB/ha y flwyddyn |
| 9. Prysgwydd | Prysgwydd (gan gynnwys rhedyn gwasgaredig a llai trwchus) | Gweler yr uchafswm a argymhellir ar gyfer y cynefin oddi tano |
| 10. Coetir pori | Coetir pori | Gweler yr uchafswm a argymhellir ar gyfer y cynefin oddi tano |
| 11. Pyllau parhaol ar gyfer bywyd gwyllt | Pyllau parhaol ar gyfer bywyd gwyllt | Rheoli mynediad i dda byw i atal difrod ar lan y pwll |
| 12. Cynefinoedd newydd eu creu | Coridor glan nant newydd | Dim pori |

| Dosbarthiad cynefin | Cynefinoedd penodol a all fod neu a fydd yn bresennol o fewn y dosbarthiad cynefin | Y lefel stocio uchaf a argymhellir |
|---|---|---|
| | Mawn wedi'i adfer | Pori yn unol â'r argymhellion ar gyfer y safle |
| | Glaswelltir heb fewnbwn | Gweler yr uchafswm a argymhellir ar gyfer y cynefin oddi tano |
| | Unrhyw dir arall sydd wedi’i wella neu a oedd dan goed o'r blaen ac sy'n cael ei reoli i greu cynefin | Gweler yr uchafswm a argymhellir ar gyfer y cynefin oddi tano |

## Tabl 3: Canllawiau stocio ar gyfer 6: cynefinoedd agored yr ucheldir

Dyma'r lefelau stocio a argymhellir ar gyfer y mathau o gynefin a geir o fewn cynefinoedd agored yr ucheldir. Canllaw yn unig yw'r ffigurau hyn. Bydd angen i chi gydymffurfio â'r lefelau stocio canlynol, gan sicrhau nad yw cynefinoedd mwy sensitif yn cael eu gorbori.

- lefel stocio gyffredinol isaf o 0.04 UDB/ha ar gyfer 1 Ebrill – 30 Medi, a
- lefel stocio gyffredinol uchaf o 0.2 UDB/ha ar gyfer 1 Hydref – 31 Mawrth.

| **Dosbarthiad cynefin** | **Cynefinoedd penodol a all fod neu a fydd yn bresennol o fewn y dosbarthiad cynefin** | **Y lefel stocio uchaf a argymhellir** |
|---|---|---|
| 6. Cynefinoedd agored yr ucheldir | Glaswelltir sur yr ucheldir | 0.3 - 0.5 uned da byw/hectar y flwyddyn |
| | Rhos mynydd | 0.02 - 0.03 UDB/ha y flwyddyn |
| | Rhos gwlyb | 0.05 - 0.10 uned da byw/hectar y flwyddyn |
| | Rhos sych | 0.10 - 0.15 uned da byw/hectar y flwyddyn |
| | Llaciau (pantiau gwlyb) | Hyd at 0.05 UDB/ha y flwyddyn |
| | Mawndir (gall gynnwys un neu fwy o'r canlynol: gorgors, rhos gwlyb a llac) | Hyd at 0.05 UDB/ha y flwyddyn, neu<br><br>Hyd at 0.02 UDB/ha y flwyddyn ar fawnog wedi'i hadfer |
| | Glaswelltir calchaidd | 0.25 - 0.4 UDB/ha y flwyddyn |

| Dosbarthiad cynefin | Cynefinoedd penodol a all fod neu a fydd yn bresennol o fewn y dosbarthiad cynefin | Y lefel stocio uchaf a argymhellir |
|---|---|---|
| | Prysgwydd (gan gynnwys rhedyn gwasgaredig a llai trwchus) | Gweler y lefel pori uchaf a argymhellir ar gyfer y cynefin oddi tano |
| | Coetir | Hyd at 0.02 UDB/ha y flwyddyn |

## Tabl 4: Unedau Da Byw Safonol (UDB)

Gellir defnyddio'r Unedau Da Byw hyn i gyfrifo niferoedd stocio ar gyfer pob math o gynefin yn seiliedig ar y lefelau stocio yn y tablau uchod.

| Da byw | Unedau Da Byw (UDB) |
|---|---|
| Oen blwydd | 0.09 |
| Oen benyw / gwryw | 0.09 |
| Mamog ag oen | 0.15 |
| Mamogiaid sych (gan gynnwys mamogiaid cyfoen) | 0.12 |
| Hyrddod | 0.12 |
| Geifr | 0.12 |
| Gwartheg hyd at 6 mis oed | 0.00 |
| Gwartheg 6 i 24 mis oed | 0.6 |
| Gwartheg dros 24 mis oed | 1.0 |
| Ceffylau | 1.0 |
| Merlod | 0.5 |
| Ebolion | 0.00 |

# Atodiad 3: UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella – gofynion opsiynau creu cynefin

Mae gofynion manwl pob un o'r mathau o gynefinoedd dros dro yn cael eu disgrifio isod.

## 1. Ymylon o wyndwn

O'u rheoli'n briodol, gall planhigion tir âr ailymddangos o'r banc hadau, hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi cael eu gweld ers sawl blwyddyn. Mae rhai o'r planhigion tir âr hyn yn brin iawn a gallant fod yn ffynonellau bwyd pwysig i bryfed ac adar tir fferm.

**Gofynion:**

- i'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig
- gellir cylchdroi'r ymyl o wyndwn yn flynyddol
- rhaid lleoli'r opsiwn hwn wrth ymyl cnwd ŷd, rêp had olew, had llin neu wreiddgnwd
- Gall y cnwd fod yn gnwd hydref neu gnwd gwanwyn
- sefydlwch ymyl o wyndwn bob blwyddyn, o leiaf 3m o led, cyn 15 Mai (wrth gnwd ŷd, had llin a rêp had olew), neu 1 Gorffennaf (gwreiddgnwd). Rhaid cofnodi ymylon a sefydlwyd ar ôl 15 Mai gan ddefnyddio cod cnwd eilaidd.
- Bydd y gofynion ar gyfer yr ymylon o wyndwn yn dod i ben pan gaiff y cnwd cyfagos ei gynaeafu neu ei bori. Dylech gofnodi ei sefydlu yn y dyddiadur gwaith.
- bydd angen creu gwely hadau bob blwyddyn a gadael i'r ymyl aildyfu'n naturiol

**Peidiwch â:**

- phori'r tir na'i wrteithio
- defnyddio plaladdwyr na dulliau mecanyddol i reoli chwyn ac eithrio i sbot-chwynnu ac i reoli chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, tafol llydanddail, llysiau'r gingroen, clymog Japan, rhododendron, Jac y Neidiwr, efwr enfawr. Dylech gofnodi dyddiadau sbot-chwynnu yn eich dyddiadur gwaith.

## 2. Talarau o ŷd a llin heb eu gwrteithio, eu chwistrellu na’u cynaeafu

Trwy adael talarau o ŷd a had llin heb eu cynaeafu, rhoddir lloches a bwyd gwerthfawr i bryfed, adar tir fferm a mamaliaid fel ysgyfarnogod.

**Gofynion:**

- ar dir wedi’i wella yn unig
- gellir cylchdroi'r dalar yn flynyddol
- gellir lleoli’r dalar wrth ymyl cnydau hydref a chnydau gwanwyn
- bydd gofyn bod y cnwd ŷd wedi cydio erbyn 15 Mai. Rhaid cofnodi ymylon a sefydlwyd ar ôl 15 Mai gan ddefnyddio cod cnwd eilaidd. Dylech gofnodi’ch bod wedi sefydlu cnwd ŷd yn eich dyddiadur gwaith.
- rhaid gadael o leiaf 3m o dalar o ŷd neu had llin ar hyd ymyl y cnwd a rhaid ei gadael heb ei gwrteithio, ei chwistrellu na’i chynaeafu
- dylech gadw’r dalar heb ei chynaeafu na'i phori tan 15 Chwefror y flwyddyn ganlynol. Dylech gadw cofnod yn eich dyddiadur gwaith os ydych yn pori a/neu'n trin tir y dalar.

## 3. Ymyl sefydlog o borfa arw ar dir âr

Gall ymylon o borfa arw wrth ymyl cnydau âr gynnig lloches a safleoedd bridio gwerthfawr i infertebratau, adar tir fferm a mamaliaid bach. O'u sefydlu ar lethr o dan y cae âr, gall yr ymylon hyn helpu i ddal gwaddodion hefyd.

**Gofynion:**

- ar dir wedi'i wella yn unig
- rhaid cadw'r ymyl sefydlog hwn o borfa (glaswellt) arw yn yr un lle am o leiaf dair blynedd o'r bron neu tra'ch bod yn cymryd rhan yn Haen Gyffredinol yr SFS, pa un bynnag sy fyrraf.
- gallwch sefydlu'r ymyl wrth gnwd hydref a chnwd gwanwyn
- Sefydlwch ymyl o borfa o leiaf dri metr o led wrth gnwd ŷd, rêp had olew neu had llin (erbyn 15 Mai) neu wreiddgnwd (erbyn 1 Gorffennaf). Rhaid cofnodi ymylon sy'n cael eu sefydlu ar ôl 15 Mai fel cnwd eilaidd. Dylech gofnodi ei sefydlu yn y dyddiadur gwaith.
- bydd yn dderbyniol i'r cnwd sy'n ffinio fod yn wyndwn glaswellt am hyd at ddwy flynedd mewn cylchdro cnydau o bum mlynedd
- rhaid torri'r borfa yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond nid cyn 1 Awst. Dylech gofnodi dyddiad torri'r ymyl yn y dyddiadur gwaith.
- ar ôl y flwyddyn gyntaf, gallwch dorri'r ymyl (hyd at 50% yn unig bob tro), ond ddim amlach nag unwaith bob tair blynedd. Cofnodwch y dyddiadau torri yn y dyddiadur gwaith.
- rhaid hau cymysgedd â 15% ohono'n laswellt sy'n ffurfio twmpathau, gyda'r gweddill yn laswellt meinddail. Bydd angen hau 15kg/ha o laswellt yn yr hydref neu 21kg/ha yn y gwanwyn. Mae glaswellt sy'n tyfu'n dwmpathau'n cynnwys: troed y ceiliog, rhonwellt, maswellt penwyn. Mae glaswellt meinddail yn cynnwys: peiswellt coch, peiswellt y defaid, gweunwellt garw, gweunwellt llyfn, maeswellt cyffredin, maeswellt rhedegog, maeswellt y cŵn, perwellt y gwanwyn, rhonwellt y ci, cynffonwellt y maes. **Ni ddylid cynnwys rhygwellt yn y gymysgedd.**

**Peidiwch â:**

- phori'r tir na'i wrteithio
- Defnyddio plaladdwyr ac eithrio i sbot-chwynnu ac i reoli chwyn niweidiol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, tafol llydanddail, llysiau'r gingroen; neu rywogaethau estron goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron, Jac y Neidiwr, efwr enfawr. Dylech gofnodi dyddiadau sbot-chwynnu yn eich dyddiadur gwaith.

## 4. Ymyl o borfa arw mewn cylchdro ar dir âr

Gall ymylon o borfa (glaswellt) arw wrth ymyl cnydau âr gynnig lloches a safleoedd bridio gwerthfawr i infertebratau, adar tir fferm a mamaliaid bach. O'u sefydlu ar lethr o dan y cae âr, gall yr ymylon hyn helpu i ddal gwaddodion hefyd.

**Gofynion:**

- ar dir wedi'i wella yn unig
- gallwch sefydlu'r ymyl wrth gnwd hydref a chnwd gwanwyn
- sefydlwch ymyl o borfa o leiaf 3m o led wrth gnwd ŷd, rêp had olew neu had llin (erbyn 15 Mai) neu wreiddgnwd (erbyn 1 Gorffennaf). Rhaid cofnodi ymylon a sefydlwyd ar ôl 15 Mai gan ddefnyddio cod cnwd eilaidd. Dylech gofnodi ei sefydlu yn y dyddiadur gwaith.
- os byddwch yn cadw'r ymyl yn yr un lle, rhaid torri'r borfa yn y flwyddyn gyntaf ond nid cyn 1 Awst. Dylech gofnodi dyddiad torri'r ymyl yn y dyddiadur gwaith.
- os byddwch yn cadw'r ymyl yn yr un lle ar ôl y flwyddyn gyntaf, gallwch dorri'r ymyl (hyd at 50% yn unig bob tro), ond ddim amlach nag unwaith bob tair blynedd. Cofnodwch y dyddiadau torri yn y dyddiadur gwaith.
- os ydy'r ymyl yn rhan o gylchdro, ni chewch ei dorri
- rhaid hau cymysgedd â 15% ohono'n laswellt sy'n ffurfio twmpathau, gyda'r gweddill yn laswellt meinddail. Bydd angen hau 15kg/ha o laswellt yn yr hydref neu 21kg/ha yn y gwanwyn. Mae glaswellt sy'n tyfu'n dwmpathau'n cynnwys: troed y ceiliog, rhonwellt, maswellt penwyn. Mae glaswellt meinddail yn cynnwys: peiswellt coch, peiswellt y defaid, gweunwellt garw, gweunwellt llyfn, maeswellt cyffredin, maeswellt rhedegog, maeswellt y cŵn, perwellt y gwanwyn, rhonwellt y ci, cynffonwellt y maes. **Ni ddylid cynnwys rhygwellt yn y gymysgedd.**
- bydd y gofynion ar gyfer yr ymyl yn dod i ben pan gaiff y cnwd sy'n ffinio ei gynaeafu, ond dim ond os yw'r ymyl yn rhan o gylchdro.

**Peidiwch â:**

- phori'r tir na'i wrteithio
- defnyddio plaladdwyr ac eithrio i sbot-chwynnu ac i reoli chwyn niweidiol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, tafol llydanddail, llysiau'r gingroen; neu rywogaethau estron goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron, Jac y Neidiwr, efwr enfawr. Dylech gofnodi dyddiadau sbot-chwynnu yn eich dyddiadur gwaith.

## 5. Cymysgedd o ydau a chnwd protein wedi'u hau yn y gwanwyn, heb eu chwistrellu, gyda'r sofl wedi'i gadw

Gall cymysgedd o ydau a chnwd protein wedi'u hau yn y gwanwyn a heb eu chwistrellu fod yn ffynhonnell hadau a neithdar werthfawr i fywyd gwyllt drwy gydol y tymor tyfu, a bydd y sofl yn gynefin sy'n cynnig cysgod a bwyd dros y gaeaf.

**Gofynion:**

- ar dir wedi'i wella yn unig
- sefydlu cnwd ŷd/protein heb ei chwistrellu, wedi'i hau yn y gwanwyn gan gadw'r sofl tan 15 Chwefror y flwyddyn sy'n dilyn.
- hau rhwng 1 Mawrth a 15 Mai Dylech gofnodi ei sefydlu yn y dyddiadur gwaith.
- gellir sefydlu'r cnwd drwy aredig, drilio a dulliau trin traddodiadol, bras droi neu ddrilio uniongyrchol.
- mae cnydau cymwys yn cynnwys haidd, gwenith, ceirch, rhygwenith, rhyg, ffa maes, pŷs, bysedd y blaidd neu ffacbys.
- Dylai'r cymysgedd hadau gynnwys 50% o hadau ŷd a 50% o hadau protein yn ôl pwysau.
- defnyddiwch hadau ardystiedig yn unig, gan hau'r gyfradd a argymhellir. Cadwch labeli / anfonebau fel tystiolaeth i'w dangos yn ystod ymweliadau archwilio.
- wrth ddewis y cnydau a'r mathau, dylech ystyried sut y byddwch am i'r cnwd gael ei ddefnyddio a dyddiad cynharaf ei gynaeafu.
- gallwch gywiro unrhyw ddiffygion o ran lefelau P, K a pH cyn sefydlu'r cnydau.
- gellir ei gynaeafu fel grawn, ei grimpio a'i storio gan ddefnyddio ychwanegyn neu ei gadw'n borthiant drwy ei silweirio (mewn pwll silwair neu mewn bêls silwair)

**Peidiwch ag:**

- aredig neu drin y tir cyn 1 Mawrth. Dylech gofnodi dyddiadau aredig neu drin y tir yn eich dyddiadur gwaith.
- hau unrhyw beth o dan y cnwd
- defnyddio plaladdwyr neu ddulliau chwynnu mecanyddol ar ôl i'r cnwd gydio. Gellir defnyddio ffwngladdwr os yw'n cael ei roi ar yr hadau cyn eu hau.
- sychu'r cnwd â chemegolion cyn ei gynaeafu

- cynaeafu’r cnwd cyn 1 Awst, neu lai na 14 wythnos ar ôl ei hau, pa bynnag ddyddiad fydd hwyraf. Cofnodwch unrhyw chwynladdwyr a ddefnyddir yn y dyddiadur gwaith.
- ei bori cyn 15 Chwefror y flwyddyn sy’n Dilyn

## 6. Cadw sofl ydau dros y gaeaf

Bydd yn ffynhonnell fwyd i adar brodorol tir fferm sy’n bwyta hadau, fel colfannod y mynydd, llinosiaid, brasod melyn a phetrys, i'w helpu i oroesi'r gaeaf. Hefyd, bydd sofl dros y gaeaf yn cynyddu amrywiaeth strwythurol y dirwedd amaethyddol, gan gynnal infertebratau a helpu dŵr i dreiddio’r pridd.

**Gofynion:**

- ar dir wedi’i wella yn unig
- rhaid i sofl y gaeaf ddilyn cnwd ydau
- gellir cylchdroi sofl y gaeaf yn flynyddol
- casglwch y gwellt o fewn 2 wythnos ar ôl y cynhaeaf a chaniatáu aildyfiant naturiol o laswellt a phlanhigion llydanddail
- ni fydd sofl indrawn, sofl sorgwm na sofl cnydau eraill gafodd eu hau oddi tanynt yn dderbyniol
- Dylech gofnodi dyddiadau cynaeafu ŷd, torri, aredig, trin neu ddrilio yn eich dyddiadur gwaith.

**Peidiwch â:**

- defnyddio chwynladdwyr ac eithrio i sbot-drin a rheoli chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol. Gellir defnyddio chwynladdwyr o 15 Chwefror.
- torri llystyfiant ar ôl cynaeafu cyn 15 Chwefror
- gwasgaru slyri rhwng cynaeafu'r cnwd a 15 Chwefror
- storio tail ar y cae
- darparu porthiant atodol yn y cae
- ei aredig, ei drin na’i ddrilio cyn 1 Mawrth
- ei bori cyn 15 Chwefror y flwyddyn sy’n dilyn.

## 7. Cnwd gorchudd ar gyfer bywyd gwyllt ar dir wedi'i wella

Gall cnydau gorchudd ddarparu cysgod i amrywiaeth o adar tir fferm a mamaliaid bach, a chynnig ffynhonnell fwyd werthfawr trwy'r hydref a'r gaeaf. Maen nhw hefyd yn gynefin pwysig i amrywiaeth o infertebratau, yn enwedig pryfed peillio.

**Gofynion:**

- ar dir wedi'i wella yn unig
- gellir cylchdroi cnwd gorchudd bywyd gwyllt neu ei gadw yn yr un lle, yn ôl y gofyn
- gallwch drin gwely hadau o leiaf dri metr o led a sefydlu cnwd cyn 15 Mai. Dylech gofnodi ei sefydlu yn y dyddiadur gwaith.
- gallwch ei sefydlu fel bloc mewn cae neu ar hyd ymyl cae
- rhaid i'r cymysgedd hadau fod yn gnwd gorchudd amlrywogaeth ar gyfer bywyd gwyllt / anifeiliaid hela sydd ar gael yn fasnachol ac yn addas ar gyfer y lleoliad. Cadwch labeli ac anfonebau fel tystiolaeth ar gyfer ymweliadau archwilio.
- os bydd angen defnyddio chwynladdwr fel rhan o amodau Rheolaeth Integredig ar Blâu, cewch chwistrellu'r llystyfiant â chemegyn sychu (*desiccant*) cyn hau'r gorchudd; ond fel arall, ni ddylech ddefnyddio chwynladdwyr ac eithrio i sbot-drin chwyn niweidiol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, tafol llydanddail, llysiau'r gingroen neu rywogaethau estron goresgynnol fel clymog Japan neu jac y neidiwr.
- dylech ail-hau os gwelwch nad yw'r cnwd wedi cydio

**Peidiwch â:**

- hau unrhyw beth o dan y cnwd
- hau indrawn
- pori neu dorri'r cnwd cyn 15 Mawrth yn y flwyddyn sy'n dilyn. Dylech gofnodi dyddiadau pori neu dorri yn eich dyddiadur gwaith.
- defnyddio pryfladdwyr
- defnyddio ffwngladdwyr ar ôl i'r cnwd sefydlu
- defnyddio molwsgladdwr oni bai'ch bod yn ei ddrilio gyda'r had.

## 8. Clustogfa heb ei chwistrellu, heb ei gwrteithio a heb ei thrin wrth ymyl cynefin presennol (gan gynnwys dŵr agored) ar laswelltir wedi'i wella

Gall lleiniau clustogi llydan ar laswelltir greu rhaniadau gwerthfawr rhwng rhannau'r fferm sy'n cael eu rheoli'n ddwys a chynefinoedd sy'n ffinio â nhw. Gall lleiniau clustogi ddal gwaddodion, maethynnau a chemegion gan leihau eu heffeithiau negyddol ar gynefinoedd, a hefyd maen nhw eu hunain yn cynnig cysgod a mannau bwydo i fywyd gwyllt.

**Gofynion:**

- darparu llain glustogi o laswellt, o leiaf 12m a hyd at 20m o led.
- gallwch leoli'r llain glustogi wrth ymyl cynefin sy'n bodoli eisoes, perth/gwrych neu gwrs dŵr. Nid oes angen bod gennych reolaeth lwyr ar y nodweddion cyfagos.
- bydd y llain heb ei gwrteithio, ei chwistrellu (gyda phlaladdwyr) na'i thrin
- Caniateir ei phori a'i thorri

## 9. Gwyndynnydd cymysg ar dir wedi'i wella gyda chyfnod caeedig (mae gwyndynnydd amlrywogaeth neu flodeuog yn enwau eraill arnynt)

Mae gwyndynnydd cymysg yn cynnig llawer o fudiannau. Maen nhw'n gynefin gwerthfawr i amrywiaeth o infertebratau, yn enwedig pryfed peillio pan fyddan nhw'n cael eu gadael i flodeuo. Maen nhw'n gartref i laswellt mwy gwydn gan gynnwys amrywiaeth o rywogaethau sy'n gwreiddio'n ddwfn ac sy'n gallu cyrraedd dŵr yn ystod cyfnodau sych, gan ddarparu porthiant cymysg i dda byw.

**Gofynion:**

- ar dir wedi'i wella yn unig
- dylid sefydlu gwyndwn cymysg sy'n cynnwys o leiaf pum rhywogaeth gwahanol o laswellt, tair rhywogaeth o godlys a thair rhywogaeth flodeuog
- rhaid hau o leiaf 25kg/hectar
- ni chewch hau mwy na 6kg/ha o rygwellt
- dim mwy na 9kg/ha o hadau glaswellt eraill (dim mwy na chyfanswm o 15kg/ha o hadau glaswellt)
- defnyddiwch dim ond hadau ardystiedig, gan hau'r gyfradd a argymhellir. Dylech gadw labeli ac anfonebau fel tystiolaeth ar gyfer ymweliadau archwilio
- gellir sefydlu'r gwyndwn ar ffurf cae cyfan neu fel ymyl cae
- rhaid cadw'r gwyndwn cymysg am dair blynedd neu tra byddwch yn cymryd rhan yn yr SFS, pa un bynnag sydd fyrraf a / neu i fodloni gofyn y cynllun i gynnal 10% o'ch daliad yn gynefin.
- sicrhau bod yr arwynebedd gofynnol ar gael ar gyfer pryfed peillio a bywyd gwyllt arall drwy ganiatáu cyfnod caeedig di-dor o chwe wythnos heb ei bori na'i dorri rhwng 1 Mai a 31 Gorffennaf. Bydd cyfnod caeedig fesul parsel. Os mai dim ond rhan barsel sydd ei angen i fodloni'r trothwy o 10%, dim ond y rhan honno fydd o dan gyfnod caeedig.
- Dylech gadw ffotograffau geo-dag sy'n dangos tystiolaeth o'r darnau tir a chyfnodau heb bori / torri.
- gallwch gywiro unrhyw ddiffygion o ran lefelau P, K a pH cyn sefydlu'r cnydau
- dylid hau rhwng 15 Ebrill a 15 Medi
- gallwch sefydlu'r cnwd drwy aredig, dulliau trin traddodiadol, bras droi neu ddrilio
- cymysgwch yr hadau yn yr hopran yn syth cyn hau'r cymysgedd hadau er mwyn eu gwasgaru'n gyfartal

- gallwch hau’r hadau ar led neu drwy ddrilio, ond dim dyfnach nag 1cm
- dylech rowlio ar ôl hau i gadw'r lleithder
- os ydych yn bras droi neu'n drilio'r tir, bydd angen defnyddio chwynladdwr priodol, cymeradwy i ladd y glaswellt sydd yno eisoes. Nid yw'r gofyn hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi cael eu hardystio'n organig
- dylech gynnal llain glustogi o 1m ar hyd perth/gwrych, clawdd neu gwrs dŵr
- dylech reoli’r gwyndwn cymysg mewn modd a fydd yn cynnal amrywiaeth y rhywogaethau ynddi a'u hannog i flodeuo a hadu, a chadw da byw rhag stablad (sathru) arno

**Peidiwch ag:**

- aredig na thrin y tir cyn 1 Mawrth
- defnyddio Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion ar ôl i’r gwyndwn sefydlu, ac eithrio i sbot-drin neu glwt-chwynnu chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol, brwyn pabwyr, brwyn caled, danadl neu redyn.
- defnyddio gwrteithiau anorganig sy’n cynnwys nitrogen ar ôl i’r gwyndwn sefydlu, tan y gwanwyn canlynol. Argymhellwn eich bod yn osgoi defnyddio gwrtaith nitrogen er mwyn sicrhau manteision agronomig ac amgylcheddol mwyaf posibl y gwyndwn cymysg

Yn eich dyddiadur gwaith, cadwch gofnod o’r holl waith a wneir yn y cae, gan gynnwys y dyddiad hau, y gwrteithiau a’r plaladdwyr a ddefnyddiwyd, a’r dyddiadau pori a thorri.

**Gwyndynnydd cymysg sydd eisoes wedi’u sefydlu**

Mae gwyndynnydd cymysg a sefydlwyd fel rhan o'r cynllun Tyfu ar gyfer yr Amgylchedd yn 2024 neu 2025, yn dderbyniol i'w defnyddio fel cynefin dros dro ar gyfer blynyddoedd cyntaf Cynllun Cyffredinol yr SFS gan fod gwyndwn cymysg yn cael ei ystyried yn gynefin dros dro am y tair blynedd gyntaf.

Byddai gwyndwn cymysg gafodd ei sefydlu yn 2024 a 2025 y tu allan i gynllun Llywodraeth Cymru hefyd yn dderbyniol, ar yr amod bod gofynion UA6 wedi'u bodloni. Rhaid i chi gadw labeli hadau ac anfonebau cysylltiedig ac unrhyw dystiolaeth ategol arall o'r gweithgaredd.

## 10. Glaswelltir wedi’i wella, a'i dorri’n hwyr

Pan gaiff glaswelltiroedd wedi’u gwella’n amaethyddol eu rheoli ar gyfer eu torri’n hwyr, maen nhw'n gallu cynnig cynefin gwerthfawr i adar sy’n nythu ar y llawr, ynghyd â chysgod i anifeiliaid eraill, fel ysgyfarnogod. Trwy dorri’r glaswelltiroedd hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn, bydd adar sy’n nythu yn cael cyfle i orffen gori, a'r cywion i adael y nyth. Mae’r weithred hon yn bwysig i adar fel gylfinirod, sydd mewn perygl o ddiflannu o Gymru. Mae hyn yn berthnasol i wyndwn glaswellt yn unig ac nid gwyndwn cymysg.

**Gofynion:**

- ar dir wedi’i wella yn unig
- ar barseli cyfan sy'n cael eu neilltuo ar gyfer silwair neu wair yn unig
- peidiwch â phori, lladd, torri, llyfnu, rholio, tocio na gwneud unrhyw waith mecanyddol arall rhwng 6 Mai a 15 Gorffennaf. Dylech gofnodi'r gweithgareddau hyn yn eich dyddiadur gwaith.

## 11. Glaswelltir wedi’i wella sydd wedi cael ei adael i hadu

Trwy adael i laswelltir wedi'i wella hadu, a'i adael heb ei dorri na’i bori dros y gaeaf, darperir bwyd dros y gaeaf i adar sy’n bwyta hadau. Mae diffyg hadau dros y gaeaf yn un o’r prif resymau pam mae poblogaethau adar tir fferm yn dirywio’n gyflym.

**Gofynion:**

- ar dir wedi’i wella yn unig
- ar barseli cyfan, neu barseli rhannol gyda lleiniau o leiaf 12m o led
- peidiwch â'i dorri na'i bori’r rhwng 1 Mehefin a 28 Chwefror. Dylech gofnodi dyddiadau pori neu dorri yn eich dyddiadur gwaith.

# Atodiad 4: Codau Cnydau

### Tabl 1:  Tabl Codau Cnydau Haen Gyffredinol yr SFS

Os ydych chi'n hawlio taliad heblaw am daliad Cynllun Cyffredinol yr SFS, trowch at lyfryn Rheolau Cais Sengl 2026 i weld pa godau cnydau sy'n gymwys ichi, ar ol 2 Mawrth 2026.

Mae'r codau cnydau canlynol yn newydd, ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS. Bydd angen i chi ystyried y codau cnydau hyn wrth lenwi'ch cais SAF 2026 a'i newid lle bo angen.

**MA7 - Indrawn â chnwd wedi'i hau oddi tano**

Indrawn gyda chnwd wedi'i hau oddi tano, glaswellt neu feillion fel arfer.

**PD2 - Pyllau dwr – yn gymwys ar gyfer yr SFS - hyd at 1ha neu lai**

Pwll dwr nad yw'n fwy na hectar o faint.

**ML1 - Gwyndynnydd cymysg (gwyndynnydd amlrywodaeth neu llysieuol)**

Glaswelltir dros dro sy'n cynnwys cymysgedd amrywiol o laswellt, codlysiau a blodau sy'n bodloni gofynion UA6: Cynefin dros dro

**UM1 - Ydau a chnwd protein wedi'u hau yn y gwanwyn, heb eu chwistrellu**

Cymysgedd o ydau a chnydau protein wedi'i hau yn y gwanwyn sy'n bodloni gofynion UA6: Cynefin dros dro

**WB1 - Cnwd Gorchudd ar gyfer Bywyd Gwyllt**

Cnwd amlrywogaeth ar gyfer bywyd gwyllt / gêm sydd ar gael yn fasnachol sy'n bodloni gofynion UA6: Cynefin dros dro

| Atodiad 4: Tabl 1:<br>Cnwd/Disgrifiad o'r Tir | Cod y Cnwd | Cymwys am SFS Cyffredinol |
|---|---|---|
| Afalau | AP4 | Ydy |
| Asbaragws | AS1 | Ydy |
| Bambŵ | BA2 | Ydy |
| Basil | BA6 | Ydy |
| Berwr – salad | CR4 | Ydy |
| Berwr dŵr | CR5 | Ydy |
| Berwr y gerddi | RO2 | Ydy |
| Betys / Mangolds | BT1 | Ydy |
| Bresych a brassica eraill - wedi'u hau yn y gaeaf | CA21 | Ydy |
| Bresych a brassica eraill - wedi'u hau yn y gaeaf | CA22 | Ydy |
| Brwyn | RU1 | Ydy |
| Bysedd y blaidd - melys | LU1 | Ydy |
| Camelina | CA18 | Ydy |
| Ceirch - wedi'i hau yn y gaeaf | OA4 | Ydy |
| Ceirch - wedi'i hau yn y gwanwyn | OA5 | Ydy |
| Cennin Pedr | DA1 | Ydy |
| Ciwcymbrau | CU1 | Ydy |
| Clustogfa pwll – di-stoc – ddim yn gymwys am BPS | GC2 | Ydy |
| Clustogfa Pwll – di-stoc trwy gytundeb rheoli | GC2B | Ydy |
| Cnau castan | NU2 | Ydy |
| Cnau cyll | NU5 | Ydy |
| Cnau Ffrengig | NU4 | Ydy |
| Cnau pistasio | PI1 | Ydy |
| Cnwd âr – cymysg | MC3 | Ydy |
| Cnwd gorchudd bywyd gwyllt | WB1 | Ydy |
| Cnydau cloi nitrogen - cymysg | MN1 | Ydy |
| Coed gyda gorchymyn cadw coed | TP8 | Ydy |

| Atodiad 4: Tabl 1: Cnwd/Disgrifiad o'r Tir | Cod y Cnwd | Cymwys am SFS Cyffredinol |
|---|---|---|
| Coedlan cylchdro byr | CO4 | Ydy |
| Coetir – boncyffion | YY16 | Ydy |
| Coetir – llydanddail – di-stoc trwy gytundeb rheoli | BW1 | Ydy |
| Coetir conwydd – di-stoc – ddim yn gymwys am BPS | TR2 | Ydy |
| Coetir conwydd – di-stoc trwy gytundeb rheoli | CW1 | Ydy |
| Coetir conwydd – grŵp | ZZ10 | Ydy |
| Coetir conwydd gwasgarog | YY14 | Ydy |
| Coetir llydanddail – di-stoc – ddim yn gymwys am BPS | WS1 | Ydy |
| Coetir llydanddail – grŵp | ZZ11 | Ydy |
| Coetir llydanddail gwasgarog | YY15 | Ydy |
| Corbys | LE1 | Ydy |
| Coridor glan nant – di-stoc – ddim yn gymwys am BPS | SC2 | Ydy |
| Coridorau glan nant - di-stoc trwy gytundeb rheoli | SC2B | Ydy |
| Corneli caeau neu ymyl coetir – di-stoc – ddim yn gymwys am BPS | GC3 | Ydy |
| Corneli caeau neu ymyl coetir – di-stoc trwy gytundeb rheoli | GC3B | Ydy |
| Crambe | CR2 | Ydy |
| Cwmffri | CO5 | Ydy |
| Ydau a chnwd protein wedi'u hau yn y gwanwyn, heb eu chwistrellu | UM1 | Ydy |
| Cyrs | RE1 | Ydy |
| Cywarch | HE2 | Ydy |
| Dil | DL1 | Ydy |
| Eirin / Eirin Gwyrdd / Ceirios / Almonau | PL2 | Ydy |

| Atodiad 4: Tabl 1: Cnwd/Disgrifiad o’r Tir | Cod y Cnwd | Cymwys am SFS Cyffredinol |
|---|---|---|
| Eirin Mair / Cyrens coch / Cyrens duon / Cyrens gwyn | BS3 | Ydy |
| Erfin | SW4 | Ydy |
| Erfin Porthiant | RA9 | Ydy |
| Ffa gwyrdd | BN2 | Ydy |
| Ffa maes - wedi'u hau yn y gaeaf | BN5 | Ydy |
| Ffa maes - wedi'u hau yn y gwanwyn | BN4 | Ydy |
| Ffa mung | BE11 | Ydy |
| Ffa soia | BN3 | Ydy |
| Ffawlys | SF1 | Ydy |
| Ffenigl | FE2 | Ydy |
| Ffenigrig | FE1 | Ydy |
| Garddwriaeth cynnyrch cymysg | MP1 | Ydy |
| Gellyg | PE10 | Ydy |
| Glaswellt - di-stoc  - ddim yn gymwys am BPS | GR9 | Ydy |
| Glaswellt - di-stoc trwy gytundeb rheoli | GR9B | Ydy |
| Glaswellt dros dro – o dan 5 oed | GR1 | Ydy |
| Glaswellt parhaol – dros 5 mlynedd | GR2 | Ydy |
| Glaswellt parhaol – wedi'i ailhau yn ystod y 12 mis diwethaf | GR8 | Ydy |
| Grawnwin | GR7 | Ydy |
| Grug | HE9 | Ydy |
| Gwelyau Cyrs / Corsydd di-stoc trwy gytundeb rheoli | RE3B | Ydy |
| Gwelyau cyrs/corsydd di-stoc  - ddim yn gymwys am BPS | RE3 | Ydy |
| Gwenith - wedi'i hau yn y gaeaf | WT1 | Ydy |
| Gwenith - wedi'i hau yn y gwanwyn | WT2 | Ydy |
| Gwenith yr Almaen - wedi'i hau yn y gaeaf | SP9 | Ydy |
| Gwenith yr Almaen - wedi'i hau yn y gwanwyn | SP8 | Ydy |
| Gwenith yr Hydd | BU1 | Ydy |
| Gwyndwn - aildyfiant naturiol | FA3 | Ydy |

| Atodiad 4: Tabl 1:<br>Cnwd/Disgrifiad o’r Tir | Cod y Cnwd | Cymwys am SFS Cyffredinol |
|---|---|---|
| Gwyndwn - gorchudd bywyd gwyllt wedi'i hau | FA5 | Ydy |
| Gwyndwn - porfa wedi'i hau | FA4 | Ydy |
| Gwyndynnydd cymysg (gwyndynnydd amlrywogaeth neu lysieuol) | ML1 | Ydy |
| Had Llin/Linola - wedi'i hau yn y gaeaf | LI5 | Ydy |
| Had Llin/Linola - wedi'i hau yn y gwanwyn | LI4 | Ydy |
| Had Pefrwellt / Pefrwellt | CY1 | Ydy |
| Had porthiant glas | HE8 | Ydy |
| Hadau blodau'r haul | SU2 | Ydy |
| Haidd - wedi'i hau yn y gaeaf | BA4 | Ydy |
| Haidd - wedi'i hau yn y gwanwyn | BA5 | Ydy |
| Helyg Gwiail | OS1 | Ydy |
| Hopys | HO1 | Ydy |
| Iam | YA1 | Ydy |
| Indrawn | MA6 | Ydy |
| Indrawn gyda chnwd wedi'i hau oddi tano | MA7 | Ydy |
| Lafant | LA1 | Ydy |
| Letys | LE3 | Ydy |
| Liwsern | LU2 | Ydy |
| Llus / Llygaeron | BS2 | Ydy |
| Llysiau'r lliw | WO1 | Ydy |
| Madarch | MU2 | Ydy |
| Maglys Du | ME6 | Ydy |
| Maip / Teiffon / Colza | TU5 | Ydy |
| Marchysgall | AR2 | Ydy |
| Maro / Pwmpenni / Sgwash / Courgette | MA5 | Ydy |
| Mefus | ST1 | Ydy |
| Meillion | CL4 | Ydy |
| Meillion | TR5 | Ydy |
| Meillion – Pys-y-Ceirw | TR9 | Ydy |
| Meillion melys | CL3 | Ydy |

| Atodiad 4: Tabl 1:<br><br>Cnwd/Disgrifiad o'r Tir | Cod y Cnwd | Cymwys am SFS Cyffredinol |
|---|---|---|
| Meithrinfa coed addurnol | NU11 | Ydy |
| Melonau | ME3 | Ydy |
| Melonau dŵr | ME5 | Ydy |
| Melyn yr Hwyr | EV1 | Ydy |
| Miled | MI1 | Ydy |
| Miscanthus | MI5 | Ydy |
| Morfa Heli - pori | SM2 | Ydy |
| Morfeydd heli – di-stoc – ddim yn gymwys am BPS | SM1 | Ydy |
| Morfeydd heli - di-stoc trwy gytundeb rheoli | SM1B | Ydy |
| Moron | CA20 | Ydy |
| Mwstard | MU3 | Ydy |
| Mwstard brown | MU5 | Ydy |
| Mwyar duon / Mwyar logan / Mafon | BS1 | Ydy |
| Oregano | OR2 | Ydy |
| Pannas | PA2 | Ydy |
| Perllan gymysg | OR3 | Ydy |
| Persli | PA1 | Ydy |
| Planhigyn wy, Aubergine | AU1 | Ydy |
| Plantan | PL3 | Ydy |
| Prysgwydd / Eithin / Mieri - grŵp | ZZ22 | Ydy |
| Prysgwydd / Eithin / Mieri – gwasgarog | YY23 | Ydy |
| Prysgwydd/ Eithin/ Mieri – di-stoc – ddim yn gymwys am BPS | GS1 | Ydy |
| Prysgwydd/ Eithin/ mieri – di-stoc – ddim yn gymwys am BPS | GS2 | Ydy |
| Prysgwydd/ Eithin/ Mieri – di-stoc trwy gytundeb rheoli | GS1B | Ydy |
| Pupur | PP1 | Ydy |
| Pupys | VE3 | Ydy |
| Pwmpen Siam | SP7 | Ydy |
| Pyllau dŵr – cymwys am BPS | PD1 | Ydy |
| Pyllau dŵr – yn gymwys am SFS hyd at 1ha | PD2 | Ydy |
| Pŷs - ffacbys | PE3 | Ydy |

| Atodiad 4: Tabl 1: Cnwd/Disgrifiad o’r Tir | Cod y Cnwd | Cymwys am SFS Cyffredinol |
|---|---|---|
| Pŷs (gwinwydd ac eraill) - wedi'i hau yn y gwanwyn | PS3 | Ydy |
| Pŷs (gwinwydd ac eraill) – wedi'u hau yn y gwanwyn | PS2 | Ydy |
| Radis | RA2 | Ydy |
| Rêp had olew - wedi'i hau yn y gaeaf | RA7 | Ydy |
| Rêp had olew - wedi'i hau yn y gwanwyn | RA8 | Ydy |
| Rhedyn - grŵp | ZZ20 | Ydy |
| Rhedyn gwasgarog | YY21 | Ydy |
| Rhiwbob | RH1 | Ydy |
| Rhosod | RO1 | Ydy |
| Rhostir - di-stoc  - ddim yn gymwys am BPS | HE6 | Ydy |
| Rhostir - di-stoc trwy gytundeb rheoli | HE6B | Ydy |
| Rhostir – pori | HE7 | Ydy |
| Rhuddygl | RA4 | Ydy |
| Rhyg - (gan gynnwys Meslin) - wedi'i hau yn y gaeaf | RY5 | Ydy |
| Rhyg - (gan gynnwys Meslin) - wedi'i hau yn y gwanwyn | RY4 | Ydy |
| Rhygwenith - wedi'i hau yn y gaeaf | TC3 | Ydy |
| Rhygwenith - wedi'i hau yn y gwanwyn | TC4 | Ydy |
| Saets | SA9 | Ydy |
| Saffrwn | SA1 | Ydy |
| Salsiffi | SA3 | Ydy |
| Sbinaets | SP3 | Ydy |
| Scorzonera | SC1 | Ydy |
| Seleriac | CE2 | Ydy |
| Sgri / Cnycau / Meini / Tywod - grŵp | ZZ40 | Ydy |
| Sgri / Cnycau / Meini / Tywod – gwasgarog | YY41 | Ydy |
| Sgwash Banana | SQ1 | Ydy |
| Sgwash Cnau Menyn | SQ2 | Ydy |
| Sgwash Japan | SQ3 | Ydy |

| Atodiad 4: Tabl 1: Cnwd/Disgrifiad o’r Tir | Cod y Cnwd | Cymwys am SFS Cyffredinol |
|---|---|---|
| Sicori | CH5 | Ydy |
| Sorgwm | SO3 | Ydy |
| Tafod yr Ych | BO1 | Ydy |
| Tatws | PO1 | Ydy |
| Tatws melys | PO2 | Ydy |
| Tiwlipau | TU4 | Ydy |
| Tomatos | TO2 | Ydy |
| Traciau pori | GT1 | Ydy |
| Tsili - Coeden | CT1 | Ydy |
| Tsilis | CI1 | Ydy |
| Twyni tywod | SD1 | Ydy |
| Tybaco | TO1 | Ydy |
| Wynwns / Cennin / Sialóts / Garlleg | ON2 | Ydy |
| Ymylon Caeau | FM1 | Ydy |
| Ysgall bwyta | TH1 | Ydy |

## Atodiad 4: Tabl 2:

**Nodweddion parhaol sy'n anghymwys ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS.**

Os ydych chi'n hawlio cynlluniau heblaw am Haen Gyffredinol yr SFS, trowch at lyfryn Rheolau Cais Sengl 2026 i weld pa godau cnydau sy'n gymwys ichi, ar ol 2 Mawrth 2026.

| **Atodiad 4: Tabl 3:**<br>**Cnwd/Disgrifiad o'r Tir** | **Cod y Cnwd**<br>**Cod** | **Cymwys am SFS Cyffredinol** |
|---|---|---|
| Pyllau – anghymwys | ZZ30 | Nac ydy |
| Afonydd a nentydd | ZZ31 | Nac ydy |
| Adeiladau / iardiau | ZZ89 | Nac ydy |
| Wynebau caled | ZZ92 | Nac ydy |
| Ffyrdd | ZZ94 | Nac ydy |
| Traciau – heb eu pori | ZZ97 | Nac ydy |
| Gweithgareddau anamaethyddol | NO1 | Nac ydy |
| Tir nad oes modd ei ddefnyddio – dros dro | TT99 | Nac ydy |

# Atodiad 5: Datgan a Thynnu Nodweddion Anghymwys

Nodweddion anghymwys yw'r rhannau hynny o gae nad oes modd eu pori na thyfu cnydau arnyn nhw. Mae'n nhw'n cynnwys pethau fel adeiladau, arwynebau caled, traciau nad oes modd eu pori a nodweddion dŵr.

Dylech ddatgan darnau anamaethyddol o dir, fel gerddi, paneli solar, parciau carafanau a chylchoedd marchogaeth ar eich SAF gan ddefnyddio'r cod cnydau cywir (NO1) gan eu bod yn anghymwys.

Rhaid datgan y nodweddion anghymwys hyn ar eich SAF gan defnyddio'r cod cywir a thynnu'r arwynebedd anghymwys o arwynebedd cyfan y cae. Fe welwch restr lawn o'r holl nodweddion anghymwys yn Atodiad 4 y llyfryn hwn.

### Sut mae cael hyd i'r Nodweddion Anghymwys a'u mesur?

Rhaid ichi nodi'r holl nodweddion anghymwys ym mhob cae rydych yn ei ddatgan yn eich SAF a'u mesur mewn hectarau.

I fesur arwynebedd nodwedd mewn hectarau, dylech fesur ei hyd a'i lled mewn metrau, eu lluosi a rhannu'r canlyniad â 10,000m² (arwynebedd 1 hectar).

Er enghraifft, adeilad sy'n 10m x 10m = 100m², ac yna ei rannu â 10,000m² = 0.01 hectar.

Rhaid datgan arwynebedd hyd at 2 bwynt degol yn unig, dylech felly ei dalgrynnu i'r rhif agosaf; e.e. dylech dalgrynnu 0.005 hectar i 0.01 hectar, a dylech dalgrynnu 0.014 hectar i 0.01 hectar.

## Map yr SFS

Ar RPW Ar-lein gallwch ddefnyddio'r offeryn mapio a lluniau o'r awyr i'ch helpu i nodi a mesur y nodweddion anghymwys yn eich cae.

Mae'r cyngor sy'n dilyn yn esbonio sut i nodi, mesur a datgan pob nodwedd anghymwys ym mhob cae.

## Nodweddion a wnaed gan ddyn

### Beth yw nodwedd a wnaed gan ddyn?

Mae nodwedd a wnaed gan ddyn yn golygu adeiladwaith sydd wedi'i adeiladu, fel adeiladau, arwynebau caled, traciau na ellir eu pori, ffyrdd a phyllau dŵr, yn hytrach na rhywbeth sy'n bod yn naturiol. Fe welwch restr lawn o'r nodweddion o waith dyn yn Atodiad 4 y llyfryn hwn.

### Sut mae mesur arwynebedd nodweddion a wnaed gan ddyn a nodweddion anamaethyddol?

- Chwiliwch am nodwedd a wnaed gan ddyn yn y cae a

• mesurwch hyd a lled y nodwedd.

**Enghraifft:** mae adeilad 20m wrth 10m yn 200m² o faint - dylech ei ddatgan fel 0.02 hectar; mae trac 100m wrth 3m yn 300m² o faint - dylech ei ddatgan fel 0.03 hectar.

• Os oes mwy nag un o'r un math o nodwedd yn y cae, rhaid adio arwynebedd pob un at ei gilydd.

**Enghraifft:** mae dau adeilad mewn cae, un yn 0.01 hectar a'r llall yn 0.02 hectar. Adiwch nhw at ei gilydd a chyfanswm arwynebedd yr adeiladau felly yw 0.03 hectar (0.01ha + 0.02ha).

• Os ydy arwynebedd nodwedd unigol yn 0.01 hectar neu fwy, dewiswch y cod priodol yn Atodiad 4  y llyfryn hwn a datgan arwynebedd y nodwedd wrth y cae ar y ffurflen.

• dylech ddatgan yr arwynebedd a'i dynnu o arwynebedd y cae cyfan.

**Beth os yw arwynebedd y nodwedd unigol a wnaed gan ddyn yn llai na 0.01ha?**

Os yw arwynebedd y nodwedd o waith dyn yn llai na 0.01ha ac os nad oes nodweddion eraill o waith dyn yn y cae, yna ystyrir bod y nodwedd yn un ddi-nod ac nad oes angen ei datgan.

Ond os oes mwy nag un o'r un nodwedd yn y cae, er enghraifft tylcau moch, yna dylid cynnal asesiad o'r cae cyfan ac adio arwynebedd pob un o'r nodweddion unigol hyn at ei gilydd.

Os oes mwy nag un math o nodwedd anghymwys yn y cae, ac os yw eu harwynebedd o'u hadio at ei gilydd yn 0.01 hectar neu fwy, yna dylech ddatgan cyfanswm arwynebedd yr holl nodweddion hyn ar y SAF wrth y brif nodwedd.

**Enghraifft:** mae cae yn cynnwys adeilad gydag arwynebedd o 0.004 hectar, arwyneb caled gydag arwynebedd o 0.004 hectar a thrac o 0.003 hectar. Dylech ddatgan cyfanswm o 0.01 hectar (0.004 hectar + 0.004 hectar + 0.003 hectar = 0.011 hectar) wrth y cod ZZ89.

**Nodweddion dŵr**

**Beth yw nodwedd ddŵr?**

Mae nodweddion dŵr yn cynnwys nentydd naturiol, afonydd (0.01 hectar neu fwy) a phyllau dŵr (dros 1 hectar). Fe welwch restr lawn o'r holl nodweddion dŵr yn Atodiad 2 y lyfryn hwn.

**Sut mae mesur arwynebedd nodweddion dŵr?**

• Chwiliwch am y nodweddion dŵr o fewn y cae; h.y. yr holl afonydd a nentydd (0.01 hectar neu fwy) a phyllau dŵr (dros 1 hectar)

• mesurwch hyd a lled y nodwedd.

**Enghraifft:** mae afon 55m o hyd wrth gyfartaledd o 6m o led yn 330 m² o faint - dylech ddatgan 0.03 hectar wrth "afonydd a nentydd".

• Os oes mwy nag un o'r nodweddion hyn yn y cae, rhaid adio pob un.

**Enghraifft:** mae dwy afon mewn cae, mae un yn 0.01 hectar a'r llall yn 0.02 hectar. Dylech adio arwynebedd y ddwy afon. Cyfanswm arwynebedd y ddwy gyda'i gilydd yw 0.03 hectar (0.01ha + 0.2ha) a nodwch hynny wrth "afonydd a nentydd".

• Os ydy arwynebedd nodwedd unigol yn 0.01 hectar neu fwy, dewiswch y cod priodol yn Atodiad 4 y llyfryn hwn (ZZ30 ar gyfer pyllau dŵr (dros 1ha), ZZ31 ar gyfer afonydd/nentydd) a datgan arwynebedd y nodwedd wrth y cae ar y ffurflen.

• dylech ddatgan yr arwynebedd a'i dynnu o arwynebedd y cae cyfan.

**Beth os yw arwynebedd y nodwedd dŵr unigol yn llai na 0.01ha?**

Os yw arwynebedd nodwedd dŵr yn llai na 0.01 hectar ac os nad oes nodweddion dŵr eraill yn y cae, yna ystyrir bod y nodwedd yn un ddi-nod ac nad oes angen ei datgan.

Ond os oes mwy nag un o'r un nodwedd dŵr yn y cae, er enghraifft nifer o nentydd ac afonydd, yna dylid cynnal asesiad o'r cae cyfan ac adio arwynebedd pob un o'r nodweddion unigol hyn at ei gilydd.

## Atodiad 6: Dyddiadau Pwysig

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| 31 Rhagfyr 2026 | Map yr SFS ar gael |
| 1 Ionawr 2026 | Blwyddyn yr SFS yn dechrau |
| 1 Ionawr 2026 | Gofynion Sylfaen Reoleiddio'r SFS ar gyfer 2026 yn dechrau. |
| 12 Ionawr 2026 | Rheoli fy Nhir ar gael |
| 2 Mawrth 2026 | SAF 2026 ar gael. |
| 4 Mawrth 2026 | Dechrau cofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio drwy RPW Ar-lein |
| 1 Ebrill 2026 | FARMDATA + ar gael |
| 20 Ebrill 2026 | Cyhoeddi neges i atgoffa ffermwyr i gyflwyno'r SAF, yr wythnos sy'n dechrau ar 20 Ebrill 2026. |
| 4 Mai 2026 | Cyhoeddi neges i atgoffa ffermwyr i gyflwyno'r SAF, yr wythnos sy'n dechrau ar 4 Mai 2025. |
| 15 Mai 2026 | Dyddiad cau ar gyfer derbyn SAF 2026 heb gosb. |
| 15 Mai 2026 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno dogfennau ategol heb gosb |
| 1 Mehefin 2026 | Y diwrnod olaf ar gyfer newid manylion y tir ar eich SAF 2026 (heb gosb) a gyflwynwyd erbyn 15 Mai 2026. |
| 1 Mehefin, 2026 | Cyhoeddi neges i atgoffa ffermwyr i gyflwyno'r SAF, wythnos sy'n dechrau ar 21 Mehefin 2026. |
| 9 Mehefin 2026 | Y diwrnod olaf ar gyfer derbyn SAF 2026 (er y bydd cosb am ei chyflwyno'n hwyr) Gwrthodir pob SAF sy'n cyrraedd ar ôl 9 Mehefin. |
| 14 Hydref 2026 | Dechrau talu Rhag-daliad yr SFS. |
| 11 Rhagfyr 2026 | Dechrau talu Ail-daliad yr SFS. |
| 31 Rhagfyr 2026 | Dyddiad cau ar gyfer cynnal yr holl Weithredoedd Cyffredinol perthnasol |

| | |
|---|---|
| 15 Ionawr 2027 | Dyddiad cau ar gyfer diweddaru Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS ar gyfer holl Weithredoedd Cyffredinol perthnasol blwyddyn 2026 y cynllun. |

# Atodiad 7: Cysylltiadau

Mae gwefan Llywodraeth Cymru ac e-gylchlythyr Gwlad yn cynnwys gwybodaeth am yr SFS, BPS a chynlluniau eraill sy'n rhan o'r SAF.

## RPW Ar-lein

I gael defnyddio gwasanaeth RPW Ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Neu fel arall, i ofyn am gael mynd ar RPW Ar-lein, neu i ofyn cwestiynau am ddefnyddio'r system ar-lein, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004

## Ymholiadau gan Ffermwyr – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Y lle cyntaf i'w ffonio neu ei e-bostio os oes gennych gwestiwn yw'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau.

Gallwch ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein i anfon cwestiwn at y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Fel arall, defnyddiwch y manylion cysylltu canlynol:

- Ffôn: 0300 062 5004
- Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost: Taliadau Gwledig Cymru, PO Box 251, Caernarfon LL55 9DA

Dyma amseroedd agor y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid:

Dydd Llun hyd ddydd Gwener: 09:00 hyd 16:00

## FLS

Bydd staff FLS hefyd ar gael i roi help ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar y cynllun neu bynciau perthnasol eraill. Mae manylion cyswllt FLS ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.gov.wales/cysylltwchâgwasanaethcysylltwyrfferm

## Swyddfeydd Rhanbarthol

Rhaid trefnu apwyntiad i ymweld â'n Swyddfeydd Rhanbarthol.

Swyddfa Ranbarthol Caernarfon
Llywodraeth Cymru
Doc Victoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin
Adeiladau'r Llywodraeth
Teras Picton
Caerfyrddin SA31 3BT

Swyddfa Ranbarthol Llandrindod,
Llywodraeth Cymru
Neuadd y Sir
Spa Road East
Llandrindod LD1 5LG

Swyddfa Ranbarthol Aberystwyth
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth, SY23 3UR

## Mynediad at swyddfeydd RPW ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion ychwanegol

Os oes gennych anghenion ychwanegol a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn diwallu eich anghenion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n gwneud eu gorau i wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Wrth ymweld â'r wefan, gallwch hefyd gofrestru i gael yr e-gylchlythyr Materion Gwledig a chael y newyddion diweddaraf yn syth yn eich e-bost.

## Gwlad

Gwlad yw e-gylchlythyr Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau fferm a choedwigaeth a phawb sydd â chysylltiad ag amaethyddiaeth a chefn gwlad Cymru. Mae'n cynnwys newyddion, canllawiau a gwybodaeth hawdd eu ffeindio a'u deall. I sicrhau eich bod yn parhau i glywed am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf gallwch gofrestru i dderbyn Gwlad. Gallwch wneud hyn drwy Danysgrifio ar gyfer Gwlad.

## Ymddygiad annerbyniol

Ni ddylai swyddogion, unigolion na sefydliadau Llywodraeth Cymru sy'n gwneud dyletswyddau ar ran Llywodraeth Cymru (e.e. CNC Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS), Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), EID Cymru, Awdurdodau Lleol), ddioddef ymddygiad ymosodol, difrïol na sarhaus na gofynion afresymol a pharhaus gan ymgeiswyr/hawlwyr neu eu cynrychiolwyr. Ni ddylai aelodau'r Panel Apelio Annibynnol ddioddef ymddygiad o'r fath chwaith.

Mae dogfen Rheoli Ymddygiad Annerbyniol Cwsmeriaid Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru sy'n esbonio beth yn ein barn ni yw ymddygiad annerbyniol.

**Gall ymddygiad annerbyniol arwain at dynnu taliadau yn ôl a/neu wrthod cais neu hawliad.**

# Atodiad 8: Cymorth ac Arweiniad Ychwanegol

## FLS

Mae FLS Llywodraeth Cymru yma i'ch helpu.  Eu nod yw darparu cymorth personol ac ymarferol i chi.

Mae'r FLS yn cynnig:

- Cyngor un-i-un ar bolisïau, grantiau a chynlluniau amaethyddol Llywodraeth Cymru.
- Arweiniad ar y rheoliadau ac ar gadw cofnodion ar y fferm.
- Cymorth yn ystod cyfnodau anodd neu o newid ym musnes eich fferm.

Mae ein Swyddogion Cyswllt Fferm (FLO) yma i wrando, eich cynghori a'ch cefnogi, beth bynnag yw'r sefyllfa. Bydd eich sgyrsiau gyda'r FLO's yn breifat ac yn gyfrinachol. Ni fydd swyddog byth yn rhannu'ch gwybodaeth heb eich caniatâd, oni bai bod yn rhaid gwneud hynny yn ôl y gyfraith.

Am ragor o wybodaeth a manylion cysylltu, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.

## Cyswllt Ffermio

Un o raglenni Llywodraeth Cymru yw Cyswllt Ffermio, i helpu busnesau fferm a choedwigaeth i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth a gwneud mwy o elw. Dyma beth mae'n ei gynnig:

1. Gwasanaeth Cynghori

- Cyngor annibynnol, cyfrinachol wedi'i deilwra i'ch busnes.
- Hyd at 90% o’r cyllid ar gyfer cyngor technegol a busnes.

2. Sgiliau a Hyfforddiant

- Cyrsiau hyfforddi â chymhorthdal (hyd at 80% wedi'i ariannu).
- Pynciau fel cynllunio busnes, rheoli tir, a iechyd da byw.
- Dysgu ar-lein a Datblygu Proffesiynol Parhaus drwy'r Storfa Sgiliau.

3. Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi

- Ffermydd arddangos a grwpiau trafod.
- Mynediad at ymchwil, diweddariadau technoleg, ac offer meincnodi.

4. Mentora a Datblygu Busnes

- Grwpiau mentora un-i-un a dysgu gyda ffermwyr eraill.
- Help i ffermwyr newydd, a chydag arallgyfeirio a chynllunio olyniaeth.

5. Cymorth Arbenigol

- Help i baratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Samplu pridd, cynllunio bioamrywiaeth a rheoli plâu.
- Rhaglenni pwrpasol ar gyfer garddwriaeth a geneteg defaid.

Dysgwch fwy trwy gofrestru ar wefan Cyswllt Ffermio:
https://businesswales.gov.wales/farmingconnect

Neu ffoniwch Ganolfan Gwasanaethau Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813

**Pwysig**

Mae'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio wedi'i integreiddio â RPW drwy wasanaeth One Log-in Gov.UK. Bydd gofyn i chi ailgofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio drwy eu Cyfrif RPW Ar-lein. Ond ni fyddwch yn cael ailgofrestru nes i chi symud i Wasanaeth One-Login Gov.UK. I gael defnyddio gwasanaethau Cyswllt Ffermio gan gynnwys FarmData+ ar ôl 1 Ebrill 2026, rhaid i chi gofrestru drwy RPW Ar-lein.

Byddwch yn gallu cofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio drwy RPW Ar-lein o 4 Mawrth 2026 ymlaen.

## Atodiad 9: Rhestr Termau

| Term | Esboniad |
|---|---|
| **Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd** | Rhan o broses y SAF, i gadarnhau ble mae yna gynefin, coetir a chanopi coed ar gyfer SFS. |
| **Arolygaeth Wledig Cymru (RIW)** | Tîm o fewn Taliadau Gwledig Cymru sy’n gyfrifol am gynnal archwiliadau i sicrhau bod ffermwyr yn cydymffurfio. |
| **Arwynebedd wedi’i gadarnhau** | Yr arwynebedd lle bydd yr ymgeisydd wedi bodloni'r holl feini prawf neu ymrwymiadau eraill sy'n ymwneud â'r amodau ar gyfer cael taliad. |
| **Arwynebedd y Fferm Gyfan** | Arwynebedd yr holl dir cymwys ar eich daliad sydd wedi'i ddatgan ar y SAF. |
| **Awdurdodau Rheoli Cymwys (CCA)** | Y cyrff sy’n gyfrifol am systemau rheoli swyddogol sy’n cadarnhau ar ran Llywodraeth Cymru bod ffermwyr yn cydymffurfio â’r safonau a’r gofynion perthnasol. |
| **BACS** | Bankers Automated Clearing System. |
| **Ceidwad** | Fel y mae’n cael ei ddiffinio yn Llawlyfr Gwartheg y BCMS a’r Llawlyfr Defaid a Geifr. |
| **Cod Cnwd** | Codau defnydd tir fydd yn cael eu cofnodi ar y SAF i ddangos beth sy’n cael ei wneud ar y tir, nawr ac yn y dyfodol, yn ystod blwyddyn gynllun. |
| **Cod i Bawb** | Mae hwn yn drech na’r rheoliadau ac yn cynnwys cyfres o ofynion heb reoliadau sy’n berthnasol i bob ffermwr yn y cynllun. Mae’n cynnwys gofynion i ddiogelu’r pridd, bioamrywiaeth a chynefinoedd, coed a nodweddion y tirlun. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| **Creu amodau artiffisial** | Os gwelir bod ffermwyr wedi creu amgylchiadau ffug i gael mantais ar unrhyw reolau sy'n ymwneud â thaliadau SFS, gan gynnwys osgoi'r cap ar daliadau, drwy ddatgan/peidio â datgan tir sydd o dan eu rheolaeth, byddwn yn ymchwilio ac efallai'n cadw taliadau yn ôl neu'n gwrthod hawliad a mynnu bod arian sydd wedi'i dalu yn cael ei dalu'n ôl. |
| **CRN** | Cyfeirnod y Cwsmer. Rhif adnabod unigryw busnes yn y fformat A0098765. |
| **Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC)** | Safonau sy'n ffurfio rhan o Sylfaen Reoleiddio'r SFS, sydd hefyd yn rhan o'r safonau Trawsgydymffurfio, ar gyfer y rhai sy'n hawlio BPS neu gynlluniau eraill a weinyddir o dan y Gyfraith Gymhathu. |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** | Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am roi cyngor ar adnoddau naturiol Cymru ac am eu rheoleiddio. |
| **Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)** | Proses y bydd pob busnes fferm yn gweithio trwyddi gyda'i filfeddyg i wella iechyd ei anifeiliaid. |
| **Cynefin / Cynefin Lled-naturiol** | At ddiben y Cynllun, mae cynefin yn cyfeirio at yr amrywiaeth o wahanol fathau o dir fel rhos, gweirglodd flodeuog a gwlyptir. Mae pob un yn gartref i gasgliad gwahanol o blanhigion ac anifeiliaid sy'n dibynnu ar y cynefin i oroesi. Mae 'lled-naturiol' yn golygu cynefinoedd sydd wedi cael eu newid gan ddyn ond eu bod yn dal i gynnal planhigion ac anifeiliaid sydd i'w cael yn naturiol yn yr ardal. |
| **Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd** | Cynllun i fanteisio ar gyfleoedd i blannu mwy o goed a pherthi/gwrychoedd ar bob fferm trwy RPW Ar-lein. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig** | Cynllun Rheoli y bydd y ffermwr ac CNC yn cytuno arno i wella cyflwr safle dynodedig fel SoDdGA. |
| **Cynnyrch Amddiffyn Planhigion (PPP - Plant Protection Products)** | Cynhyrchion cemegol gan gynnwys chwynladdwyr, plaladdwyr a rheolyddion twf planhigion. |
| **Cyswllt Ffermio** | Consortiwm o ddarparwyr sy'n rhoi cyngor a hyfforddiant i ffermwyr ar ran Llywodraeth Cymru. |
| **Cytundebau Adran 15/16** | Cytundebau gydag CNC ar gyfer rheoli tir safleoedd dynodedig. |
| **Dangosfwrdd Cyffredinol yr SFS** | Ffurf ar ddangos y Gweithredoedd Cyffredinol a fydd yn berthnasol i ffermydd unigol. Bydd modd eu diweddaru a chadarnhau bod Gweithred wedi'i chwblhau yn ystod y flwyddyn. |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)** | Set o dargedau mesuradwy (yn ymwneud â busnes, da byw, yr amgylchedd a rheoli) sy'n darparu data i ffermwyr i'w helpu i wneud penderfyniadau rheoli. |
| **Daliad** | Yr holl unedau o dir yng Nghymru sy'n cael eu defnyddio i gynnal gweithgareddau amaethyddol neu gysylltiedig arnynt, a'u rheoli gan ymgeisydd am Haen Gyffredinol yr SFS. |
| **Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)** | Proses ddysgu a datblygu barhaus i feithrin sgiliau a gwybodaeth. |
| **Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023** | Cyfeirir ati hefyd fel 'y Ddeddf Amaethyddiaeth': deddf newydd Gymreig sy'n rhoi'r pwerau cyfreithiol i Weinidogion Cymru gefnogi gweithgareddau amaethyddol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn pennu amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| **Deiliad Cytundeb** | Person (neu asiant neu weithiwr) sydd wedi ymrwymo i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru. |
| **Dyddiadur Gwaith** | Cofnod o’r gweithgareddau rheoli cynefin amrywiol fel dyddiadau hau neu symud da byw. Bydd gofyn i ffermwyr ar y Cynllun ei gadw fel tystiolaeth eu bod yn cynnal ac yn creu cynefinoedd. |
| **Dyddiadur Stocio** | Cofnod o nifer y da byw ar barsel tir fel sy'n ofynnol gan UA5: Cynnal Cynefin (Cynefinoedd Agored yr Ucheldir) ac o’r da byw sy’n cael eu troi allan ar Dir Comin. |
| **FARMDATA+** | Erfyn meincnodi ar-lein gan Cyswllt Ffermio. |
| **Ffurflen y Cais Sengl (SAF)** | Y broses flynyddol y mae ffermwyr yn ei dilyn i wneud cais am daliad ar gyfer cynlluniau arwynebedd, a’u hawlio. |
| **Gofyn Rheoli Statudol (SMR)** | Safonau sy'n ffurfio rhan o Sylfaen Reoleiddio'r SFS, sydd hefyd yn rhan o'r safonau Trawsgydymffurfio, ar gyfer y rhai sy'n hawlio BPS neu gynlluniau eraill a weinyddir o dan y Gyfraith Gymhathu. |
| **Gweithred Gyffredinol (UA - Universal Action)** | Set o Weithredoedd Cyffredinol y bydd angen i bob ffermwr sy’n cymryd rhan yn y Cynllun eu cynnal. Byddan nhw’n cael y Taliad Sylfaenol Cyffredinol am wneud hynny. |
| **Gwerthu** | Gwerthu neu drosglwyddo tir neu hawliau i berchennog arall. Nid yw’n cynnwys gwerthu tir i awdurdod cyhoeddus neu ddefnyddio’r tir er budd y cyhoedd a lle bo’r trosglwyddiad yn digwydd at ddiben anamaethyddol. |
| **Gwlad** | E-gylchlythyr a gyhoeddir ar-lein gan Lywodraeth Cymru. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| **Hawlydd** | Person (neu asiant neu weithiwr) sydd wedi gwneud cais am daliad o dan Haen Gyffredinol yr SFS trwy gyflwyno hawliad ar y SAF. |
| **Les** | Cytundeb rhentu neu drefniant dros dro tebyg |
| **Llacio'r Gofynion (Rhanddirymiad)** | Weithiau caiff y gofynion eu llacio am gyfnod dros dro sy'n golygu na fydd yn rhaid ichi gadw at un neu fwy o ofynion y Cynllun. Mae rhanddirymiad yn enw mwy ffurfiol arno. |
| **Meincnodi** | Dull ar gyfer monitro set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i ffermwyr allu gwneud penderfyniadau rheoli ar sail data. |
| **RPW Ar-lein** | System ar-lein Llywodraeth Cymru.  Gall ffermwyr a’u Hasiantwyr/Undebau Amaethyddol gofrestru ar y system er mwyn cyflwyno ceisiadau, gweld gohebiaeth, taliadau, mapiau ac ati ac i gysylltu ag RPW. |
| **Rhaglen Waith (Schedule of Works)** | Rhan o Gynllun Rheoli Safle Dynodedig sy’n cynnwys set o weithgareddau rheoli y bydd ffermwyr yn cael eu gwneud i wella cyflwr safle dynodedig fel SoDdGA. |
| **Rheolaeth Integredig ar Blâu** | Ffordd holistig o reoli plâu a chlefydau. |
| **Rheoli fy Nhir** | Ap ar RPW Ar-lein i chi allu rhoi gwybod i ni pan fyddwch yn newid tir neu'n cofrestru tir newydd. |
| **Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)** | Ffordd holistig a bennir yn y Ddeddf o ddefnyddio adnoddau amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol mewn ffordd sy’n cadw’r cydbwysedd rhwng anghenion cenedlaethau heddiw a’n hymrwymiadau i genedlaethau’r dyfodol. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| **Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (EIA)** | Rheoliadau sy'n cael eu defnyddio i ystyried effeithiau prosiectau ar yr amgylchedd. |
| **Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddiaeth (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025** | Y rheoliad sy'n darparu'r mesurau rheoli a gorfodi, a'r fframwaith gweithredol a gweinyddol ar gyfer yr holl gymorth amaethyddol a sefydlir yn unol â Deddf Amaethyddiaeth, gan gynnwys yr SFS. |
| **Safleoedd Dynodedig** | Dynodiad ffurfiol ar gyfer darn o dir neu ddŵr sydd o werth arbennig i fywyd gwyllt neu oherwydd ei ddaeareg. Er enghraifft;<br>SoDdGA - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig<br>AGA - Ardal Gwarchodaeth Arbennig<br>ACA- Ardal Cadwraeth Arbennig |
| **Safon Goedwigaeth y DU (UKFS) (UK Forestry Standard)** | Y safon ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn y DU. Mae'n berthnasol i bob coetir, waeth pwy sy'n ei reoli neu'n berchen arno. |
| **Storfa sgiliau** | Erfyn ar-lein gan Cyswllt Ffermio i weinyddu a chofnodi'r gwaith dysgu sy'n cael ei wneud. |
| **Sylfaen Reoleiddio'r SFS** | Set o ofynion cyfreithiol y bydd yn rhaid i bawb sy'n hawlio SFS gadw ati. |
| **System Adnabod Parseli Tir (LPIS)** | Y system y mae Taliadau Gwledig Cymru yn ei defnyddio i storio a dadansoddi data caeau. |
| **Systemau Gweinyddu a Rheoli Integredig (IACS)** | Dyma'r system reoli sylfaenol ar gyfer cynlluniau tir. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| **Taliad Cynnal Coetir** | Telir un gyfradd fesul hectar o goetir sy'n cael ei reoli yn unol ag UA9: Cynnal Coetir, ac eithrio coetir ar dir comin neu ar dir cyd-ddefnydd/pori cyfran. |
| **Taliad Cynnal Cynefin** | Telir un gyfradd fesul hectar o gynefin lled-naturiol parhaol sy'n cael ei reoli yn unol ag UA5: Cynnal Cynefin, ac eithrio cynefin ar dir comin neu ar dir cyd-ddefnydd/pori cyfran. |
| **Taliad Gwerth Cymdeithasol** | Rhan o'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol sy'n adlewyrchu gwerth cymdeithasol canlyniadau'r Haen Gyffredinol sy'n cael eu darparu trwy arferion ffermio cynaliadwy nad yw prisiau'r farchnad am gynnyrch amaethyddol yn eu hadlewyrchu'n briodol ond sy'n cyfrannu at amcanion statudol Rheoli Tir yn Gynaliadwy. |
| **Taliad Sylfaenol Cyffredinol** | Y taliad blynyddol y bydd pob ffermwr yn ei gael oddi wrth Lywodraeth Cymru am fodloni gofynion y Cynllun, gan gynnwys cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol. |
| **Taliadau Gwledig Cymru (RPW - Rural Payments Wales)** | Yr isadran o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu gwybodaeth a thaliadau mewn cysylltiad â ffermio a rheoli tir. |
| **Trosglwyddo** | Trosglwyddo tir trwy ei lesio neu ei werthu, trwy etifeddiaeth wirioneddol neu etifeddiaeth ddisgwyliedig neu drwy drosglwyddiad diffiniol arall |
| **Y gofyn i gynnal 10% yn gynefin** | Rhaid i ffermwyr sy'n ymuno â'r Cynllun reoli 10% o'u tir fel cynefin er lles yr amgylchedd a bywyd gwyllt. Gallwch greu cynefin dros dro ychwanegol os nad oes gennych ddigon o gynefin parhaol. |